



This is a digital copy of a book that was preserved for generations on library shelves before it was carefully scanned by Google as part of a project to make the world's books discoverable online.

It has survived long enough for the copyright to expire and the book to enter the public domain. A public domain book is one that was never subject to copyright or whose legal copyright term has expired. Whether a book is in the public domain may vary country to country. Public domain books are our gateways to the past, representing a wealth of history, culture and knowledge that's often difficult to discover.

Marks, notations and other marginalia present in the original volume will appear in this file - a reminder of this book's long journey from the publisher to a library and finally to you.

Usage guidelines

Google is proud to partner with libraries to digitize public domain materials and make them widely accessible. Public domain books belong to the public and we are merely their custodians. Nevertheless, this work is expensive, so in order to keep providing this resource, we have taken steps to prevent abuse by commercial parties, including placing technical restrictions on automated querying.

We also ask that you:

- + *Make non-commercial use of the files* We designed Google Book Search for use by individuals, and we request that you use these files for personal, non-commercial purposes.
- + *Refrain from automated querying* Do not send automated queries of any sort to Google's system: If you are conducting research on machine translation, optical character recognition or other areas where access to a large amount of text is helpful, please contact us. We encourage the use of public domain materials for these purposes and may be able to help.
- + *Maintain attribution* The Google "watermark" you see on each file is essential for informing people about this project and helping them find additional materials through Google Book Search. Please do not remove it.
- + *Keep it legal* Whatever your use, remember that you are responsible for ensuring that what you are doing is legal. Do not assume that just because we believe a book is in the public domain for users in the United States, that the work is also in the public domain for users in other countries. Whether a book is still in copyright varies from country to country, and we can't offer guidance on whether any specific use of any specific book is allowed. Please do not assume that a book's appearance in Google Book Search means it can be used in any manner anywhere in the world. Copyright infringement liability can be quite severe.

About Google Book Search

Google's mission is to organize the world's information and to make it universally accessible and useful. Google Book Search helps readers discover the world's books while helping authors and publishers reach new audiences. You can search through the full text of this book on the web at <http://books.google.com/>



HARVARD
COLLEGE
LIBRARY





0

CANIADAU IONORON;

YN CYNWYS

AWDLAU, CYWYDDAU, ENGLYNION,

^

PHENILLION.

GAN

ROWLAND WALTER,
(IONORON GLAN DWYRYD.)


UTICA, N. Y.

T. J. GRIFFITHS, ARGRAFFYDD, EXCHANGE BUILDINGS.

1872.

Celt 5348.1

~~IV. 7299~~
~~Celt 5348.1~~



Subscription fund

RIIAGYMADRODD.

DDARLLENYDD MWYN:

Meddyliais ar y cyntaf y buaswn yn cyhoeddi "PIGION AREOPAGUS;" ond wrth eu darllen, yr oedd-
ynt yn myned yn feinach bob tro; a phenderfynais
ddilyn esiampl yr hen fachgen hwnw a aeth at y llyfr-
werthwr i brynu llyfrau i *ffitio ei shelf*.

Gwneyd llyfr dolar a haner, darllenadwy, oedd fy
mhrif amcan, er mwyn cael tipyn o bres; ac os na
bydd i ti ci brynu, bydd fy amcan yn waeth na bod yn
ofer.

Gallwn ddweyd llawer o esgusion mewn cysylltiad
â'r CANTIADAU hyn; ond i beth y dywedaf hwynt?

Ydwyf, yn ostyngedig,

YR AWDWR.

CY N W Y S I A D.

AWDLAU.

	Tn dal.
Awdl ar y Milfwyddiant.....	9
Arwydrriad Awen.....	63
Awdl.—Cwlad fy Nhadau.....	83
Y Ffrwd sydd yn Rhedeg wrth Fwthyn fy Nhad.....	103
Liraeth Cymro am ei Wlad.....	105
Y Môr.....	106
Y Rhyfeddodau Wybrenawl.....	132
Awdl ar Elias.....	152
Oniargryn.....	178
Y Goedwig.....	198
Rhan o Awdl ar Henaint.....	215
Blodau'r Oes.....	228
Awdl ar y Goleuni.....	229

CYWYDDAU.

Cywydd ar Farwolaeth Llinos Glan Ohio.....	247
Cywydd ar Farwolaeth William ac Elinor, Mab a Merch Gobeithioi i Frawd yr Awdwr.....	252
Cywydd ar Farwolaeth Perthynasau a Chyfeillion yn Nghymru.....	255
Cywydd: Anerchiad i Richard I. Williams, Meddyg, Fair Haven.....	256
Cywydd: Anerchiad i Hugh Jones, Fair Haven.....	262

ENGLYNION.

Robert Davies, Nantglyn.....	264
Yr Aurhydeddus Henry Nicoll, Efrog Newydd.....	264
Ar Farwolaeth yr Aurh. Wm. C. Kiltrege, Fair Haven... ..	266
Dirgelwch.....	267

	Tudal
Ar Dderbyniad Darlun y Parch. Edward W. Brown, a Darlun ei Briod, Kate James, yn nghyda'u Priodas- glwm Docynau.....	26
Priodas Nai y Prydydd.....	26
Y Lili.....	27
Goronwy Owen.....	27
Gwenffrwd.....	27
Y Bryddest a'r Awdl.....	27
Bedd-Argraff.....	27
Baban Robert R. Williams.....	27
Gwilym Ystradau.....	27
Ei Diws Awen.....	27
Y Proffeswr Powell.....	27
Bedd-Argraff Cadwaladr Roberts a'i Wraig.....	27
Bu Mab John, yr lwn oedd Bregethwr Gobeithiol gyda'r Annibynwyr.....	27
Merch Fach y Parch. Griffith Griffiths.....	27
Parch. John Walters, Ystradgynlais.....	27
Margaret, Priod Robert J. Roberts, Fair Haven.....	27
Laura, Merch Mr. Evan Jones, Floyd.....	27
Edward Edwards.....	27
Dau Blentyn.....	27
Priod William Lloyd.....	27
Enoch Hughes, Baban.....	27
Arthur a Jane Davies, Cyflylliog.....	27
Darlun Merch Fach G. C. Williams a'i Briod.....	27
Merch Fach W. Lloyd.....	27
Plant Griffith Cadwaladr a'i Briod.....	27
William D. Cadwaladr.....	27
Richard Gwilym.....	27
Gwilym Ab Ioan.....	27
Y Parch. Llewelyn Howell.....	27
Ymweliad Thos. H. Williams, Racine, & Chymru.....	27
Wyr y Parch. Thomas Williams.....	27
Symudiad y Parch. John Jones.....	27
David Morris.....	27
Seindorf Fair Haven.....	27

CYNWYSIAD.

vii

	Tu dal.
Fagnel.....	270
Beddweh.....	279
I'r Eglwys Babaid.....	280
Wrth Weled Plant yr Ysgol Sul yn Taslu Bodaau i Feild	
Henry Bach, Glanmarchlyn.....	280
Ddarlun Elizabeth, Priod Ymadawedig John Thomas, Fair Haven.....	280

PENILLION.

Creawdwr.....	281
Marwnad Abraham Lincoln.....	296
Beddrod Llethr y Cwm.....	301
Bedd y Milwr Cynrcig yn America.....	303
Bedd Lonydd i'r Marw.....	304
Bedd Haid Marw yn Effro.....	305
Bedd Wyn.....	307
Bedd Mac Polpeth yn Symud.....	309
Bedd Din Dafydd.....	310
Bedd y Mam.....	312
Merch Fach Richard a Gwen Hughes.....	312
Merch Priod E. Morris.....	313
Merch Edmund Prys, Plentyn Morgan a Sarah Price.....	314
Merch y Chwaer : Chwaer Mrs. Humphreys.....	315
Merch yn Tawel Huno mae : Mrs. Evans.....	316
Merch yn Tawel Wylwch : Plentyn John W. Humphreys.....	318
Merch yn Tawel Marwolaeth Mrs. Cadwaladr, Mrs. Owen, a Mrs. Closs.....	318
Merch yn Tawel Bethau Benthyg : Merch Fach John a Jane Hughes.....	320

CANIADAU IONORON.

AWDL AR Y MILFLWYDDIANT.

RIHAN 1.

Cwmp yr Angylion—Cwmp Dyn—Duw yn mynegu i Adda ac Efa yr hyn a ddygwyddai hyd y Milflwyddiant.

Gair Duw sy'n agor deall
Dyn, gan oleuo'r dall ;
Ac yn hwn y cawn hanes
Dydd y MILFLWYDDIANT a'i dŷs.

Satan a'i hunan annoeth
Yn erbyn Duw, y Duw doeth
A chyfiawn, a ddyrchafodd
Ei faine, mewn dirmygus fodd ;
Ac yn hyf, cynyg a wnaeth
Ei lawdrom draws-lywodraeth !
Er hyn, gormod i'r annuw,
A'i weis, oedd dwyn gorsedd Duw :
Ei nerth oedd ddinerth hynod
I droi rhuthr Awdwr y rhod—
Y cadarn Iôr, Pôr pob pau,
A'i lengoedd uwchlaw angau ;
I'n wir, rhy egwan oedd
Ei law i ddal ei luocdd.

Duw a daranodd—duai 'i drueni,
 A'i daeog olwg yn bradog welwi ;
 Crynai ei ellydd—pob caer yn hollti
 Yn ei diriogaeth, a wnaed ar wegi :—
 A hyn chwalodd sylfeini—ei urddas,
 A'i druan deyrnas â dwrn Duw arni !

Aeth yntau o gyrau'r gwawl,
 Uwch tywyllwch tew hollawl,
 I bwdr wlad budr waelodion,
 Yn y tARTH o wyddiant Iôn ;
 Ac yno i fol ceunos,
 A'i lengau tan aeliau nos,
 Y llyw ffals felly a ffodd
 I'w loches, ac ymlechodd.

Ac yn rhyw sut cyniweiriai Satan
 Oddi yno i dueddau anian ;
 A deuai i'w olwg blaned wiwlan,
 Yma a droai am iad yr huan ;
 A chilioedd dros ei cheulan—mewn heddwch,
 I'w dywyllwch i ddwyn ei blaidd allan.

Dewisodd Duw ei asen—i Adda
 Yn weddus wraig addien ;
 Ei fyw waith oedd Efa wen
 I Brydydd llwybrau Eden.

Duw iddynt wnaeth odiaeth ardd,
 A dyna hi, Eden werdd,
 Yn llawn swyn, a llinos hardd
 Yn y coed yn doniaw cerdd.

Golwg seraphaidd a gwiwlwys—a roed
 Ar ei grudd i orphwys ;
 Ei Efa lân oedd nef lwys
 Prydydd llwybrau Paraulwys.

Eu gweled gyda'u gilydd—a lonai
 Holl delynau'r coedydd ;
 A'r oen a branciai yn rhydd
 I'w dilyn tros eu dolydd.

Y llew edrychai'n llawen—o weled
 Penteuļu'r ddaiaren—
 Adda wych a'i newydd Wên
 Yn rhodio ceinder Eden.

Ac ar ael y wig werdd, gwiw gôr cerddgar
 A daenai ei swyngu donau seingar ;
 A natur ogylech yn taro hygar
 Folaud i ddewis flodau y ddaiar ;
 Yr edn gwiw ar edyn gwâr—delorai—
 Eu mawl a redai yn nheml yr adar.

Ond daeth Satan allan o'i dywyllwch
 I fwriadu byrhau eu hyfrydwch ;
 Hir yr annelai ar yr anialwch,
 A'i daeog ael ar eu diogelwch :—
 Ow ! Efa lân, lân, o'i lwch—anurddodd
 A'i chwa enhuddodd ei chán a'i heddwch !
 Duw a ddigiodd, a'u deuoedd egwan,
 I fyw ar dwyll, a fwriwyd allan,
 Yn syn eu sut, yn weision Satan ;
 A'i ddu gysflog oedd ei wg aflan ;
 A Duw roes gerub o dân—gweladwy
 Ar ael adwy ei randir lydan.

Adda, yn druan eiddil,
 A gaf ryw foreu, ar gŵl,
 A golwg lwfr, ddigalon,
 A phwys ei ben ar ei ffon ;
 Ac Efa, ar ei gyfar,
 A throm wedd ar ei threm wâr ;
 Y ddau'n fud a'u grudd yn fôr,
 A'u gofwg yn dygyfor;—
 Y ddau'n noeth—ond dacw Dduw'n ail
 Gerdded llwybran y gwyrdd-ddail ;
 Ac yn eu gwel'd—gwel'd dwfn gur,
 A du waclod eu dolur,
 A agorodd ei gariad—
 “Onid wyf,” ehai, “yn dal?”

Duw'r Iôr roes belydr eirian—i Adda,
 O'i feddwl a'i amcan,
 A'r sut y rhwymir Satan,
 Un dydd, â chadwyn o dân.

“Had y wraig a rwyga'r dreigiau,”—ebai Ef,
 “A bydd mil o flwyddau,
 Ar wedd yr hyn fu, 'n parhau—cwyd dy ben,
 Fy ail Eden a ddaw i flodau.

Genir Tywysog uniawn—o honoch,
 A'i enw fydd F'FYDDEAWN ;
 Hwn a gwyd, yn enwog iawn—ail fywyd
 Yn y byd, ac hefyd, rhai cyfiawn.

Yn llariaidd yn ei holl eiriau—a grym
 Gras ar ei wefusau—
 Eriod, ac felly'n parhau,
 A'i fywyd yn ddifeiau.

Un mawr uwchlaw pob mawredd—yn y byd—
 Cwyd yn ben pob gorsedd ;—
 Adwaen hwn fydd yn dwyn hedd
 I elyn heb ddialedd.

Daw, Efa, er dy ofid,
 I ran dy wyneb fyw wrid ;
 A'th enw, yn ei Enw Ef,
 Rydd enw i feirdd y wiwnef.

E roddais wrid i'th ruddiau—hoff, anwyl,
 Sy'n ffynon o ddaugrau ;
 A gwledd fy mheroriaeth glau
 I'th fysedd a'th wefusau.

Yn dy lwyd wên dylodaidd,
 Er hyn, y ceir eto wraidd
 A rydd wên ail Eden ar
 Dduweh poenus y ddaiar ;
 A thyf i ti wisg o'th had
 Nad ellir newid dillad.

Dygwyd gan lygredigaeth
 Yr Adda cynta' 'n ddyn caeth ;
 Adda'r Ail fydd reolwr
 Ar bob gwaith, ac ar bob gwr ;
 E ddaw Adda'r Ail yn ddyn,
 A'r Adda cynta' 'n wreiddyn.

Caiff Satan ei gwympe tano—a'i siol
 Serth gaiff ei ysigo ;
 Y ddyn a wenwynodd o,—sathr ei ben—
 Daw un o Eden i'w hallt niweidio.

Had y wraig a gadd ei drygu—a fydd
 Yn Fab i'w orchfygu ;
 Hwn a ddwg ei fyddin ddu
 Hyd y bedd, wedi 'i baeddu.

Satan a crys eto—yn y byd—
 Dwyn ei bwn bydd dano ;
 A'i fryd fydd dwyn pob rhyw fro
 I ddilyn ffordd i wlo.

Daw ag ing syrthiedig angel—i chwi ;
 A chwyd erchyll awel
 I yru Cain i dir cêl—o drallod
 Ei gydwybod, o herwydd gwaed Abel.

Dichell fydd yn godechu
 O dan ei hen rugrith du ;
 Ing a gwae a ddwg rhwng gwyr—
 Angau brad ddwg rhwng brodyr ;
 A'i anadl fydd yn wenwyn,
 Ac angau'n ddiau a ddwyn.

Ei barch a lygra y byd—afleiddid
 Ddaw'n flinder i'm Hysbryd ;
 A thyf cenedlaeth hefyd,
 A'i gwedd fel Satan i gyd.

Rhwymyn y môr ddirymir,
 A'i dôn ymrwyga i dir.
 I'w lanhau ; a'm gelyn hwn
 A i wenu i anwn,
 Gan falchder i hallter hin
 Foddi ei ffyddlon fyddin !

Ei bleser ydyw byw loesion—ei blant
 Yn eu blwng arteithion ;
 A saif i wenu wrth son
 Am iasau llym ei weision.

Daw allan wed'yn i dwyllo—y byd ;
 A'i bwne fydd dyfeisio,
 A thori gwyllt waith i'r go',
 A thâl am ei forthwyllo.

Rhyw frad a brwydr fwriedir—efo'i dân,
 A gof du a welir,
 A'i fawd ar ei gleddyf hir,
 A'r haiarn a ddirywir.

Dych'mygir, tynir trwy'r tân
 Y fwyell a'r saeth fuan ;
 Y bicell hell a'i llafn hir
 Yn llaw Ham a flaenllymir.
 Gwisgir y march â gwasgod
 O ddur—mae blinder i ddod ;
 A'r cerbyd hefyd a â
 Yn filwr i ryfela.

Mawr a chryf yw'r march rhyfel—a'i anadl
 Yn gwreichioni ufel ;
 O'i ing a'i wae, angau wél,
 Teyrnasoedd, a'u troi'n isel.

O gwm i gwm, bryn a gallt,
 Rhodia'n falch, a'i draed yn fellt ;
 E geir o'i ol ddagrau hallt,
 A rhwyga'r ddaiar yn ddellt !

Daiar bendith felltithir,
 A'i thail fydd mellith ei thir ;
 I dir arad daw'r eryr,
 A hwn yf waed heinyf wyr ;
 A dwys gelanedd ar daen
 A orwedd ar yr hirwaen !

Heintiau a nodau blin, wed'yn—ddeuant,
 Yn ddiau a newyn ;
 Melltithir â'r daiar dyn,
 A du wywa'r blodenyn.

Daw'r naill genedl ar genedl ddrygionus
 I fyrhan aden ei phobl ddifrodus ;
 Arlwy a thramwy wnant yn orthrymus
 Trwy lanerchau o raddau mawreddus ;
 Y wlad oddeithir fel us—yn danllwyth ;
 A cheir adwyth a newyn echrydus !

O oes i oes felly'r â
 Dynleiddiaid yn hil Adda,
 Hyd oes y Ceidwal Iesu,
 I wneyd iawn, y Cyfiawn eu !

Hyf fydd anwn—ymfyddina—i ladd
 Y di lwgr Fescia ;
 Er eu nerth, eu euro wna—a'r auwir
 A'i lu, gilgwthir tros ael Golgotha.

Satan a erys eto—a'i lu serth,
 Fel seirff yn ymlusgo ;
 Ac arwydd o'i lwyr guro,
 Pr byw wneir ar ei ben o.

Una bob crefydd anwir,
 A gaiff, i sathru y gwir ;
 'Tyn wg ar Gristionogaeth
 I'w llethu a'i gyru'n gaeth ;
 A phawb o deulu y ffydd
 A erlidir trwy wledydd.

Un ymerodraeth a â
 O fyd, ac ni chlyfoda ;
 A thyr breniniaeth arall
 O'r llwch a crys o'r llall.
 Breniniaeth fawr, fawr, ar fyd,
 O geufedd megys a gyfyd ;
 A gwae a gyhoedda'r gwynt—
 Drwg a yrir drwy gorwynt.

Y byd blin ymfyddina—i roi loes
 'Trwy lu y Mescia ;
 Ei gleddyf yu hyf a wna
 A'i wawr addoer a rudda.

Merthyrrir yn mhorth araul
 Yr hwn a addola'r haul,
 Lu o saint sy'n dlysau Iôn,
 A geir eto'n ei goron ;
 A gorwedd y teg irwellt
 Dan eu gwaed, sidanog wellt !

Ar euog fyd, orig fer,
 Daw seibiant bywyd syber ;
 A cheir heddwch i'r eiddil,
 Yn rhoi gwedd Satan ar gil.

Eto ymddengys Satan
 A'i liw a'i ddillad yn lân,—
 Mewn gwisg o gnawd—mewn gosgedd
 Dyn gwyn, sidanog ei wedd ;
 A hyf ddyrchafa hefyd,
 Yn ben Cristionogion y byd.
 Y pryd hwn Satan annuw
 A dderch i orsedd ei Dduw ;
 Geilw'r Mab yn Bab y byd,
 A'i anfwyn greddo ynfyd ;
 Ac yn ei Bab yn enoi bydd
 I wneyd oesau annedwydd.

Tewi am oesau tywyll—a wna'r gwir—
 Tynir gau i'm pebyll ;
 Nycha'r Gair, ac ni cheir gwyll
 O ogoniant ei ganwyll.

Y byd o anwybodaeth—a lenwir—
 Miliynau dynoliaeth
 I gyd a ddygir yn gaeth
 I ddilyn gau addoliaeth.

Ei arswyd ar bob gorsedd—a deimlir,
 A'i demlau anwiredd
 Gan drachwant, fyddant yn fedd
 I ranau'r byw wirionedd.

O fôr i fôr Satan fydd
 A'i oer grafanc ar grefydd ;
 Tywyllwch yn mantellu
 Rhin yr Aberth, cydwerth, eu ;
 Yr Oen a'i ddwyfol rinwedd
 A dôr ar ei hyfryd wedd ;

Nos ar fyd, a byd heb wén—
 Uda'r cwn dan ei haden !
 Scirff yn ymlusgo lle sang
 Bywyd dros wnech cang
 Pedryfan, a Satan serth
 A'i rodfa trwy'n gardd brydferth.

Trwy'r caddug mawr, rhyw wawr wan
 A dyr yn llygad arian ;
 Cynydda'n ara' trwy'r nen—
 Ei olwg a dry'n haulwen ;
 A'i lewyrch a oleua
 Y nos, a'i hymlid wna.

Daw Satan allan yn ellyll—i doi
 Wybren dydd a'i esgyll ;
 Dwr a than a dry'n darth hyll,
 I wneyd awyr yn dywyll.

Ond Satan na than ni thyr
 Fwriadau Crist a'i frodyr ;
 A'i dân ni ddifa'r dinam—
 Try'r hoff lu adre' trwy'r flam.

Fel tir yn gwrthdastu ton,
 Yn wregys gwyn i'r eigion ;
 Felly bydd Gair F'ewyllys
 Yn fy llaw'n rhwymyn fy llys.

Darostwng gorthrymus drawsder—a wneir—
 Daw'n warth ar orthrymder ;
 Ar ael byd ceir awel bêr
 O fendith Haul Cyfiawnder.

Natur a gaiff hamdden eto—ar ol
 I'w draed gael eu rhwymo ;
 A daw bryn a gwaelod bro
 I dawel bêr flodeno.

Had y wraig a rwyga'r dreigiau—heb os,
 A bydd mil o flwyddau,
 Ar wedd yr hyn fu, 'n parhau—cwyd dy ben,
 Fy ail Eden a ddaw i flodau.”

A Naf o groen anifail,
 I ddyn, yn lle'r gwywol ddail,
 A roddes wisg arwyddai
 Ei fod am faddau ei fai ;
 Ac ymaith aeth mewn cwmwl
 Heibio'r dydd, lle'r oedd llwybr dwl.

RHAN II.

Ymdeithydd yn Jerusalem yn adrodd y pethau rhyfodd a ddygwyddasant ar
adeg y Croeshoellad, ac yn dychymygu'r achos, a Ioan yn dyfod yn miaen
i'w esbonio.

YMA yn was, yn mhen oesau—y daeth
Mab y Ddyn mewn eisiau;
A'i wedd a'i oes, yn ddi-an,
Oedd fyd o ddyoddefiadau.

Y dydd y croeshocliwyd Ef—y crynodd
Caer anwn hyd adref;
A gwenau huan gwiwnef
Yn nos yn nghanol y nef!

Y dwthwn hwn, ymdeithydd
Ar ei daith yn hwyr y dydd
A noswylodd yn Salem
Yn drist a gwelw'n ei drem.

Ac yn y ty y gwneid dadl—
A hwn ar golli 'i anadl,
A gymerodd gam arall,
A llwybr gwahanol i'r llall;
A dibaid oedd ei dyb ef,
Yn y dydd, fod Duw'n dyoddef;
A hyn a gawn o'i enau,
Ar y nod, i'w gadarnhau:—

“Mac heddyw ing wedi muddangos—ar wedd
Yr haul trwy ryw achos;

Cefnodd y dydd i'r cyfnos,
A'i olau'n ail i liw nos.

Daeth ffrwd o li' brwd o fol bryn—a mwg
Megys o ffrwn derwyn;
Ac ar led, coch sllam wed'yn,
Dorai o groth daiar gryn!

A chraig i luwch yr eigion—a rwygodd
O'i gwregys yn 'sgyrion;
A meithder dyfnder y dôn
A ledodd i'w gwaelodion.

Yn y dref, yn hynod ryfedd—holltodd
Mellten glawr y ceufedd;
A llu'n fyw allan o fedd
Yn dyfod o safn dufedd!

Mae'n debyg, debyg iawn, y daw—newyn
A wna i'r fam wylaw;
A'i hangen yn mud wingaw,
A dry yn lleidr yn ei llaw."

Yna loau gan ryw gynnes—awydd
I dywallt yr hanes
Yno'n wyl a dynai'n nes,
A'i anadl yn ei fynwes.
A hyn a ddywedodd ef
Am y dydd—am y dyoddef:—

"Oen Duw oedd yn ei dywydd—a daiar
Yn dno gan gerydd;
Y môr heb un lladmerydd
O'i rawd yn ymwylltio'n rhydd!

Y Cadarn Air, a'r Ceidwad—a hoeliwyd
 Gan alon didcimplad ;
 A haul dydd ar law ei Dad
 Sylwodd ar ei groeshoeliad.

Yr Oen gwyn tra yn ei gyni—yn rhwym,
 A wnai i'r haul welwi ;
 Awyr nen ein daiar ni—a dduodd,
 A'r awel wylodd ar y lili.

Ni fu un rhan o'i fywyd
 Yn faich na chwynfan i fyd ;
 Ei hael oes oedd clusen—
 Un eu wrth ieuanc a hen ;
 Rhoddai draed i efryddion—
 Ei air a wrandawai'r dôn ;
 Pr dall y dangosai'r dydd,
 Ac ael lydan y gwledydd ;
 A hyll hagrwech y llygredd.
 Yn fyw gyfodai o fedd.

Ac er ei ladd, a'i gladdu—yn ei ing
 Cawn angau yn trengu ;
 Yspeilia'r bedd, dyfnfedd du,
 A'r fonwent dyr i fynu.

Daw i ran Satan a'i deyrnas eto,
 Drwy ei gleddyf, droi i gywilyddio ;
 Ni charodd heddwch—ni cheir heddd iddo,
 A'i ddu anrhydedd a ddaw yn wrido ;
 O'i flaen mae sfordd i'w flino—cyn hir—
 E all na welir ellyll yn wlo :—
 Ei galon mewn bron o bres,
 Yn faen sydd yn ei fynwes.

Daw angel gyda'i dynged,
 Yn yr wybr—fel mellten rhed ;
 A'r ddraig am ei gorddrygedd
 A ddeil hwn, i ddial hedd ;
 Ac i dân mewn cadwyni,
 O wybr yr haul, bwrir hi.

Dial a ddaw i'r genedl Iuddewig
 Am lysu a gwadu'r Bendigedig ;
 Ac ar aden ein caer gysegredig
 Gwelir y faniar ddisglaer Rufeinig ;
 I'w chadw'n amgylchedig—bryn a phant,
 I'wy a osodant wyr dewisedig.

Newyn o fawn pryd hyn fydd—
 Wylant yn yr heolydd ;
 Heintiau'n bwyta methiantwch,
 A'r llanc yn ymborth i'r llwch !

Fel môr trwy fol y muriau—â llef gwae,
 Llifa gwyllt gadrodau ;
 A thôn eu swm wrth nesáu—ddua drem
 Dinas Salem, gadarn ei seiliau.

Y Deml odidog, enwog sylfeini,
 Hi a â yn oddaeth, a'i phen iddi ;
 Ei dail a welir fel blodau lili,
 Yn y cynteddoedd gawn acw'n toddi :
 Ei Harch a'i Cherubiaid hi—dry'n sorod,
 Yn y diwrnod y daw barn Duw arni !

Clwyfir hyd dranc y Lefiaid—enwoglwyth !
 Gan gledd y Rhufeiniaid ;
 Fferu gwaed yr offeiriaid
 Yn lle y domen a'r llaid !

Rhed y gwaed ar hyd egwydydd—y meirch,
 Yn y maes aflonydd;
 O fewn yr â'n afon rydd
 Drwy waclod yr heolydd!

Addurn ein gwlad yn garneddau—a fydd,
 Ac yn fan i fleiddiau:
 Ei rhwysg nis gall hir barhau,
 O herwydd Crist a'i ciriau.

Ë ddaw fliolau'r ddial
 Ar ddyn yn flinder i'w ddal;
 Y llanc i dranc a ddaw drwy
 Ffynediad cledd ofnadwy;
 A'r fenyw buraf anwyd,
 Tan feth fydd i'r haint yn fwyd!

Ariant nen tan emrynt nos!
 Ldwyr daenir llawer dunos;
 Barau a geir heb wawr gain,
 Ar ddorau'r disglær ddwyrain;
 Adar y nos, deor wnant—
 Is y gwrychoedd ysgrechant;
 Uda cwn lle clywid cerdd,
 A meingaine yr edn mwyngerdd;
 Nadredd yn gorwedd dan gwr
 Moethus wely'r amaethwr;
 Y llew rhwth a ddryllia'r ych,
 Yn y fen gerllaw'n fynych;
 A'r myn a'r oen tra mwynaidd,
 Yn flin a rwygir gan flaidd.

Y March Coch—yn goch â gwaed,
Wna y llethr, a'r clogwyn llwyd ;
Ac afon tros gefnau y traed,
Yn y cu feillion y cwyd.

Y fwltur o'r asur rŵd,
A'r cryr dry i waered :
Adar ysglyfgar 'hedant
Trwy y pyrth hwnt tua'r pant,
Lle gorwedd llug aerwyr,
Yn eu gwaed, fu'n enwog wyr.

E ddaw i'r wiw ddaiar werdd
Y March Du yn mathru myrdd ;
Yn y coed, adcniog gerdd
A ar ffo, heb ddyn i'r ffyrdd !

O! 'r niwed a wna'r newyn—drwy y byd
A daw'r balch uchelddyn,
Wedi 'i ddal, yn llwydaidd ddyn—
Dua y tlws flodeuyn.

Tywysog goludog lwyth
Ddaw wed'yn i ddu adwyth ;
Er ei aur a'i dwr arian,
Ei lu glew a'i deulu glân—
Er ei glod, nid gormod gwr,
Eto, i wneyd cardotwr ;
Ei deg hawl, yr adeg hon,
Roddai am bryd o ruddion.

Daw eilwaith ryw dawchion dulas—o ffoen
Ffraw y March Gwelwlas,

A ddua'r lon ddaiar lās—
Ocha'i harddwch a'i hurddas.

Elorau'n ddiau ddeuant—o bob cwr—
I bob congl cyfeiriant ;
Llwythau'r ddaiar alarant—
Llu y nen tywyllu wnant !

Rhifir rhyw dyrfa ryfedd—yn wyr heirdd
Gan yr haint i'r ceufedd ;
Ni cheir i ran llawer anedd
Ddyn byw i'w claddu'n y bedd !

Y March Gwyn wed'yn a â
Yn fuan—tynu, i fwa
Y ceir ei Farchogwr eu
Ei agwedd, gan orchfygu ;
A'i goron emog, araul,
O waith yr Hwn wnaeth yr haul.

Yna dug Satan allan bob elyll,
O ffyrnau duon ei uffern dywyll,
Yn erbyn llu y nef, i wrthsefyll
Duw ar ei orsedd, gyda'i aur-wersyll ;
Y llu hagr gan eu llyw hyll—tros y tir,
O'u hargel gyrchir, â golwg erchyll !

Ei lu blin, Satau fyddina—a'r Gwr
A'r goron a'i gwela ;
A'i lem saeth odiaeth a â
Hyd ei fywyd o'i fwa.

Syrth i lawr ei fawr nifeiriol—luoedd,
I lewyg angeuol ;

Yn un a syrthiant yn ol
Yn eu duwch andwyol.

Delir a rhwymir yma—y llu oll,
A'n llyw hwynt, â genfa,
I'w troi hwnt o awyr ha',
I luest bythol aua'.

Ciwed anwn mewn cadwyni—a roir
Yn rhwym Fil o Flwyddi ;
I yru nos o'n daiar ni—cyn hir,
Yr haul a welir ar y lili.

Torf o ieuenetid tirsion—a welir
Ar ael mynydd Seion,
A chreigiau'r fro'n lleisio llon—beroriaeth
Eu buddugoliaeth yn bæddu gálon.

Cán yr Oen yn cânu'r enaid—a'i wneyd
Yn un o'r seraffiaid :
Daw llu o bydew y llaid
Geir heibio i gerubiaid.

Babylon fawr i lawr yn falurion
O'i hydred felir yn dwr o adfeilion ;
Datodir rhwymau ei muriau mawrion,
Tywyll gelloedd, a chestyll ei gwyllion ;
Orian hedd tymhorau hon—a'i mawr lwydd,
Welir ar ogwydd i fol yr eigion.

Angel yn dawel sy'n dwyn
Nefol newyddion hyfwyn
Efengyl hedd, a'u gwedd gu
Tan ogoniaut yn gwennu.

Natur a gân trwy y gwyll
 Fu'n duo'r nef yn dywyll ;
 O enau'r graig, canu'r Groes
 A lawena ail einioes ;
 Anialwch a gân cilwaith
 I ffyrdd hon a pheraidd iaith ;
 Cân o fawl yn cwnu fydd
 O'r brynau i'r wybrenydd ;
 Dihuna tafod anian
 Nes bo'r byd i gyd yn gân.

Wedi i bob llywiawdwr—yn y tir
 Wneyd hedd a'r Eiriolwr,
 Draw e gawn weled rhyw gwr—o orsedd
 Ac anrhydedd cin cun Waredwr.
 A cher ei bron, ei chôr wybrenawl,
 A'u lleferydd fel dwfr lileiriawl,
 Fel myrdd yn nefoli mawl—llais a thant,
 Yno a ganant yn ogonawl.

Y fath gân a'r fath ogoniant
 Is ser ni chlybu'r un sant ;
 Ni bu dôn mewn byd annuw
 Ail i dôn deheulaw Duw."

Addewid sier rydd Ioan—o olwg
 Mwy gwiwlon ar anian,
 Yn troi'r byd i gyd yn gân,
 Eto pan rwymir Satan.

R H A N I I I.

Cymro yn esbonio Bhyfol y Crimea yn Rhaçbarotoad Pr Millfwyddiant.

HEN Fardd diaddurn a fu—ar riniog
Meirionydd yn syllu
I dawch y dyfodol du,
Hyd oes teyrnasiad Iesu.

Datguddiad Ioan a ranai—a hyd
Pob rhan a fesurai;
A'i lwybr yn glir, yn ddilai,
Yn ei feddwl ganfyddai.

Ewrob a'i rhyfel dymhorau—welai
Yn dilyn trwy'r oesau;
A iaith eu swm wrth nesâu—ddenai'n llwch
A blaen heddwch y Mil Blynnyddau.

Ar len gwelai ddarluniad
O gyrech yr Alma'n y gâd,
A llu o Gymru deg wedd
Yno mewn blin anhunedd;
A chan drychineb y chwedl,
Hyn a ganai i'w genedl:—

“I beth y crewyd y byd—dinoddfa—
Dienyddfan bywyd?
Ei gael mae Satan i gyd
I'w afael—mae'n ben hefyd.

Yn hwn ni welwn un hedd,
 Ond rhyw loes groes i bob gradd;
 I roi elwy, minir y cledd!—
 Y golid! y llid! y lludd!!

Yn awr wrth edrych yn ol—i Ewrob,
 Cawn gorwynt dinystriol
 Yn dwyn gwae du yn ei gôl—uwch ei phen,
 A si ei aden yn dra arswydol!

Nid hawdd yn y ganiad hon
 I Ewrob yw troi'r awr'on;
 Ofn y sydd arnaf neshau
 I dwrf a grilliad arfau!

Rhesir byddinocdd Rhwsia—i wylled
 Ar aeliau'r Crimea;—
 Yn eu cwrdd daew Ffrainc a
 Gwiwlwys feib Lloegr a Gwalia.

Y lân agorir bob tu—
 'Trwy iug, ugeiniau'n trengu;
 A grudd yr Alma a'i gro,
 Yr adeg hon yn gwrido!

Esgyn y bryn, dychryn du!
 Gan olwg y magnelu;
 A phob cam yn gam mewn gwaed—
 Rhoddant am dano'u rhuddwaed!
 Y naill yn disgyn yn ol
 I farw'n edifeiriol—
 Y llall yn esgyn fel llew
 Hyd ei waed i'r mwg dudew;
 A'r bryn enillwyd er braw
 Y gelyn—gorfu giliaw.

Y llethr a wisgir â llu—o hygar
 Feibion gwragedd Cymru :—
 Y farn a ddengys beth fu
 Yr achos o'r ymdrech! !

Y gâd drachefu a gododd,
 A phawb yn ei llwybr a flodd.

Clwyfwyd yn Balaclafa—ic'n dost,
 Gan dân marwol Rhwsia,
 Lu'r marchogion, dewrion, da—
 Tarian a braich Victoria.

Y gwyr yn syrthio fel gwellt
 Yu y maes o flaen y myllt ;
 A meirch yn hedeg fel mellit,
 Ar edyn gwae drwy dân gwyllt!

Dinas cadernid anian—er eu braw
 Sydd ger eu bron weithian ;
 A hyllig foltau, allan
 O'i mur, yn saethu'n mhob man.
 Ond i'w dal onid diles
 Ger eu bron, gaerau o bres ?

Yn wgs eu tân sy'n agor—o'r wybr
 Y rhed tanllyd furwor ;
 A'r mwg yn llyncu i'r môr
 Araul wynch yr oror!

O'u hol cynllwynai'r gelyn,
 A'r fro yn sefyll ar fryn
 O bell, yn edrych heb wâd,
 Am adeg rhyw symudiad.

Haul Naf, rhyw anfoddlon yw
 Wel'd dydd yn machlud heddyw ;
 Gobrudd ydyw brig wybren,
 A'r nos ymwthia i'r nen.

Wedi i dywyll adau
 Y nos fantellu y nen,
 Dacw Rwsiaid, haid ddi-hedd,
 Calonau'n dwyn celanedd,
 Yn creulon anfon mawr nerth
 I danio ar fan dînerth.

Twrw eu tân ar doriad dydd,
 A'u cri, egwr y creigydd ;
 Hyll yn eu bloedd, y llu blwng,
 Gwylliaid yn cael eu gollwng
 I ladd, fel creulawn fleiddiaid—
 Er hyn, eu gorchfygu raid.

O! annedwydd funydyn,
 A'r gwlaw fel rhyferthwy'r glyn,
 A'r niwl yn gwneuthur i'r nos
 Anhirion yn hwy aros,
 Milwr Brydain gain a gwyd
 I ryfel heb foreufwyd !

Gwrida'r oror—agorwyd yr awr'on
 Y rhuthr i'r gâd ag aruthr ergydion :—
 Taro, dyrwygo'r tir hyd yr eigion—
 Twrw dur anwar yn tori drwy weinion !—
 Rhif heigiau o arfogion—â'r cledd y las,
 Deyrn galanas! yn darnio gelynyon !

Y frwydr greulonaf erioed !
 Mewn pant a bryn, gelyn gaed ;
 Y cyrff yn llenwi y coed,
 A gwyr yn llithro mewn gwaed !

Gan y tân, ein bechgyn tîrf.
 Un tu, yn cwmpo mewn twrf ;
 A thrwy y tân rhuthra torf
 Mewn gwyllt nwyd yn ysgwyd arf.

Dyrysodd câd y Rhwsiaid—
 Yn ddi-rwysg cefnu oedd raid.

Hyf filwr, er rhyfelu—yn ei waed
 Yn oer wedi trengu,
 Yn llwyd wedd, a'i arf naill du,
 A'i wrîd ef wedi rhydu !

Ymresodd grym y Rhwsiaid—i gyffroi
 Gwg Ffrainc a'r Sardiniaid ;
 A'n rhoi i'r cleddyf fu raid,
 Ah! i'w difa fel defaid !

Eu cedyrn diosfa golofnau—yr haul
 Ddengys rwysg eu harfau ;
 A swm eu cyrn wrth neshau
 Heria wyr y gororau.

Eu lloedd ruthrant fel llawod—i'r bryn
 I roi brwydr i'r Ffrancod—
 Ar bob llaw, peli'n gawod,
 I lawr sy'n disgyn fel ôd !

Torir eu bechgyn tiriawn—A'r pylor,
 A'r peli echryslawn ;

Y dur golofnau dewriawn
 I'w gwel'd yn ysgwyd fel gwawn !

Yn lleeg wedi darnio'n llu,
 Allan o'r tân rhaid tynu,
 Am nawdd eu dinas mewn ing,
 O derfysg a gwae durfing.

Lle er nawdd, llwyr anniddan—galanas
 Gelynyon yn mhobman ;
 A thwrf nthr arfau a thân
 Oedd yno 'i feddwi aniau.

Rhaiadr mellt redai o'r mur,
 A mwg yn golofnau mawr ;
 Blin dorf o belenau dur
 Hedent, a llyfent y llawr.

Heriai y gwyr cyngreiriol—ei hagr rym
 Oedd fel y graig oesol ;
 Heriai ei mur ddur marwol,
 Yn hir, gan ei dallu'n ol.

Onid oedd yn gref fel un darn?—bost pawb,
 Sepastopol gadarn!—
 Oes hwy i'r ddinas haiarn
 Ni fydd—yn awr mae tan farn.

Gan lid crech fyddinoedd, y nefoedd yn ufel,
 A'u bâr oedd yn duo yr wybr oedd yn dawel ;
 Ni bu mwy o egni yn Ewrob â magnel,
 A rhedai'n ei rhuad ar edyn yr awel ;
 Ei mawr roch a'i mur uchel—angylchwyd—
 Ei dyddian a rifwyd, a'i diwedd yw rhyfel.

Cacrau hon oedd yn crynu—yn ei sail,
 Gan swn tân-belenu ;
 Y fath gyflegrau ni fu
 Ar unwaith yn taranu.

Muriau cedyrn a mawrion—a chelyd,
 Yn chwalu'n adwyon ;
 Gwyr y gâd ag ergydion
 Yn tyllu heirdd gestyll hon.

Un lle i ochel eu lluched—nid oedd
 Gan dwr yn ymwared ;
 Maen ar ol maen yn myned
 I lawr yn garnedd ar led.

Hon a wasgarwyd o'i lle'n ysgyrion,
 A mil o'i haerwyr yn ei malurion ;
 O dan ei muriau, dyna ei mawrion,
 Iwnt ar ymadael, bentyrau mudion !—
 Cilied haul rhag gweled hon—ei lle'n hir
 A adwaenir yn gigyddfa dynion !

Ond gwaeth na rhyfel ydyw gweled—dwyn
 Dyn du i gaethiwed ;
 Dwyn i wae y diniwed
 Yn rhwym—pa galon na rêd !

Y du adwyth hwn sy'n d'wedyd—i bawb
 Fod y Beibl yn ynyd—
 Na ddaw barn yn niwedd byd—
 Anifail yw dyn, hefyd.

Rhy boenus ydyw unrhyw angenrhaid
 I droi i'r hanes sy'n gwaedu'r enaid—

Hanes sydd yn dwyn cwyn Affricaniaid
 Yn ei hyll agwedd ger bron ein llygaid—
 Hanes gwaith anfwyniaid—yn fflangellu—
 Hanes trywanu cinioes truciniaid!

Mae rhyw wacau cinioes yn merwino
 Teimladau dyn yn neigryn y Negro;
 A gosod crinwas diras i'w daro,
 Yn tori aelath natur i wyllo:
 Rhoi adyn cignoeth i droedio—gwragedd
 A wnai i anrhydedd anwn wrido!

Mae adwyth codwm Eden,
 Y rhwyg hyll wnaeth y ddraig hen,
 A chamwedd y gorchymyn,
 A nod dwys ar enaid dyn;
 A hyn yn achos yr holl
 Nwydau creh i wneyd archoll.
 Ond rhad drefniadau yr Iôn
 O gariad at y gwirion
 A roddant wawr o heddwch
 I'r llu a fethrir i'r llwch.

Ganwyd Tywysog uniawn—yn Geidwad—
 Mae'n gadarn a chyfiawn;
 Ithag allwyddl mae'n graig gyllawn—
 Hefyd eu fywyd ac iawn.

Un llariaidd yn ei holl eiriau—a grym
 Gras ar ei wefusan;
 Eriocd, ac felly'n parhau,
 A'i fywyd yn ddifeiau.

Un mawr uwch law pob mawredd—yw Iesu,
 Tywysog Tangnefedd ;
 Adwaen hwn sydd yn dwyn hedd
 Na ddaw cilwaith ddialedd.

Ëi gorff a'i enaid i gyd
 Yn hedd i ni ganddo waed ;
 A dwys bwys rhyddid y byd
 A fu'n werth ei gyfiawn waed.
 Ac yn ei waed ef cyn hir,
 Rhyddid y caethion roddir :
 Ni lwydda trais—y cledd trweh
 A dawdd yn nghariad heddwch.

Iesu fydd Brenin y teyrnasocedd—mwy,
 Pan ddaw'r Mil Blynyddocedd ;
 Bydd iaith ei gyfraith ar goedd
 Lle nofia llu y nefocedd.

Nid ar gledd na min y dur glas—y saif
 Sedd ei gadarn deyrnas ;
 Ond ar drefn hynod rhad ras
 Yn hardd mewn cyfiawn urddas.

Ei gledd orchfyga bob gwlad—nid trwy lu
 'N taro loes trwy'r teimlad ;
 Ond trefn y maddeuant rhad,
 Ëi gur a'i ddwyfol gariad ;
 A'i gyni'n toddi fel tân
 Enaid haiarnaidd anian.

A gwaed ei aberth ar y gydwybod
 A rydd dangnefedd buchedd ddi-bechod ;

Y marw'n y camwedd—mawr rin y cymod,
 A dyn lwyd adyn ar ddelw y Duwdod;
 Ni bydd gelyniaeth yn bod—arf rhyfel
 A'i wg yn lawel gysgu'n y tywod.

Ac weithiau, bryn Golgotha—wedi'r Iawn,
 A droed yn Galfaria;
 Hen waeddfawr ddiennyddfa!
 Y fan hon a'n cyfiawnha.

Bydd Gwaed y Groes a'r durloesion—yr ing,
 A phwys y ddrain goron,
 Yr wylo trist a'r hoelion,
 Is haul yn taro'n mhob sôn.

Son am y cariad rhad a reda
 I bob iaith, a gwaith pen Golgotha;
 A heddwch a gynhydda—trwy rin maed
 Penigol fwriad pen Calfaria.

Ni ddysga'r byd ynfyd wyr
 I fywoliaeth rhyfelwyr;
 Y gof gyda'i forthwyl gwaith
 A'i rym a gura ymaith
 Fin eu cleddyfau anwar,
 A'u troi yn ôg er trin âr.
 Daw hedd, a'r fagnel doddir—
 Daw o'r lân i dori tir.

A degau o gadfridogion—a wneir
 Yn hedd weinidogion;
 A'u doniau'n enill dynion
 I restr byddinoedd yr Iôn.

Ni wacda'r caeth gan boenydydd—a'i rudd
 A rêd o lawenydd ;
 Yn ei gu wlad, cân glodydd
 Yr Oen, a'i fywyd yn rhydd.

Ei blant a gampiant ger gwig,
 Neu ar sin rhyw aphonig,
 Heb ofn gwedd danedd y dôn,
 Na rhawd anwar lleidr dynion.

Gwedd arall rydd egwyddorion—y Beibl
 Ar bawb Indiaid duon ;
 Yn ngolau cyfreithiau'r Iôn
 Adwacnant hawliau dynion.

Yr Iuddew a fawreddir—y genedl
 I Ganaan ddychwelir ;
 Deuant, ac nis gadewir
 Eu tai yn felltith y tir.

Caersalem y croeshoeliad—a godir **C**
 Yn gadarn ei seiliad ;
 Pob Iuddew byw glyw'n mhob gwlad,
 A chilia i'r dychweliad.

Bydd ail Jernsalem—Salem a seilir—
 O ludw'r hen farn yn gadarn hon godir ;
 A phrif ddinas Canaan wiwlan a folir
 Yn ei hail lwyddiant—ei Christ mwy ni leddir ;
 Nid ei ddal, ond addolir—y Perffaith—
 Moriah eilwaith mewn marmor a welir.

Caniadan'r Groes a'r loes lem,
 Dery sylw drwy Salem ;

Yr Oen folienir yno—
Mawl pur yn hyfrydu'r fro.

Y Twre halogodd eu tir,
Yn dal hen chwedlau anwir,
Heb addysg, heb ddysg, heb dda—
Hoced gau broflwyd Mecca ;
A'i seithfed nef y nefoedd,
I dywyll un, ei dwyll oedd.

Mae tyniad Mahometaniaeth—i'r bedd—
Daw'r bobl at Grist'nogaeth ;
I'r bobl hyn, Gair y Beibl aeth—
Daw o'i Air Iachawdwriaeth.

Golwg hyfryd fydd gweled
Pob rhyw gau gristiau'n iawn grêd ;
Y Pab a'i dwyll yn y pen,
Offeiriad yr offeren ;
Gwerthwr maddeuant gwarthus—
Bob 'n ail lith, gwenith ac us.
Gwel y wlad ei ddirgel lys—
Chwelir ei greulawn chwil'ys ;
A'i holl gau gredöau'n dân,
A hollol fwrir allan.

Ei hanes a ddarllenir,
A'i gredo'n twyllo y tir ;
A rhoir yn nghorff ei lyfr hen,
Ar ddelw amryw ddalen,
Greulon arwyddion rhuddwaed,
Ac ol ei fysedd mewn gwaed !

Dëolir ei holl deulu—yn ei gwymp—
 Pob dyn gaiff ei lysu
 Yn dywysog, ond Iesu ;
 A hedd geir o'i orsedd gu.

Daw na bydd ond Crist yn ben,
 A thad llywodraeth Ealen ;
 A'i fath ar orsedd ni fu
 Yr un oes yn teyrnasu.

Ei deyrnas megis mewn diwrnod—a rêd
 Goruwch pob awdurdod ;
 A bydd llwyr ddinystyr yn bod
 Ar ol hyn i'r cilunod.

Ioan a glywodd ganu—a moli
 Melus enw'r Iesu ;
 A hon yw'r gân, y gân gu,
 Wna i wnech dyn wenu.

Cenedl pob gwlad yn canu
 Cân y gwaed a'i haen gu,
 Y ffynon holl i enaid
 Ar gopa Golgotha gaid,
 A'r ddyled fawr a'r dduloes,
 A grym yr hoelion a'r Groes.

Newydd byth fydd cân ddi-baid
 I'r Oen am brynu'r enaid ;
 Fe roes ei einioes uniawn
 I wneyd dihangfa mewn iawn ;
 A'i waed a lonyddodd wedd
 Y diluw a'r dialedd.

Byd gwych fydd bywyd o gân—
Hynod yn hanes anian ;
A phob man yn Ganaan gu
I genedl fyw dan gamu.

Gwiw gân Nef y gogoniant—i'r ddaiar
O'r addewid dynant ;
Ni wél craff seraff na sant
Fwy o wledd na'r MILFLWYDDIANT.

Fw foliant, tra thruan
Ydyw duw yn fwyd i dân ;
A pha ran i Satan sydd
Yn lle ei Dduw yn llywydd ?

Rhyw hyf awdurdod rhyfedd
Mewn gwlad ydyw min ei gledd ;
A hyf drais mwyaf direswm
Rhoi troth i'r gorthrymwr trwm.
Adwyth dynoliaeth ydyw,
A thrawslywodraethwr yw.

Duwdod Crist, cyn bod adwyth,
Yn lân wnaeth Satan a'i lwyth,
A gwên ymerodraeth gwawl,
A'i rhyfedd lu uwchrifawl.

Yr uchel enw hwnw ei hunan,
Uwch yr awyr a ddyrechai yr huan ;
A hwnw a ledodd yr wybren lydan,
A theg olwg ei goleubyrrth gwiwlan ;
Yn mhob modd, ac yn mhob man—mac'i wyrthiau—
O air ei enau magorai anian !

Creawdydd—P'ydd pob byw,
 A Thad i bobpeth ydyw ;
 A difai pob cdefyn
 O waith Duw, cyn adwyth dyn.

Adda o fynwes heddwch,
 A'i holl had, syrthiodd i'r llwch,
 Yn euog o dan waeon
 Deddf ddig, doredig, yr Ion.
 Un bai'n difwyno bywyd—
 Bendith yn felltith i fyd !

Y dirfawr Fod diderfyn—
 Duw a angylchwyd â dyn !
 Effe, 'r hwn a hawliai fyd,
 A fu heb hawl i'w fywyd !
 A hyn i brynu einioes
 Dyn ; a pha wrthddadl naul oes
 I Hwn bob rhesymol hawl
 I deyrnasu'n deyrn oesawl ?

Ei enw a'i wirionedd—ei hollawl
 Allu a'i anrhydedd,
 Ydynt sier—sier yw ei sedd—fel yr haul,
 Dry wên araul ar fyd yr anwiredd.

Duw Naf, dywedyd yn ofer—ni wna—
 Myn wneyd, yn ei amser,
 I'w saint lewyrchu fel ser,
 O'u hingdod mewn eangder.

Y gwaith o greu—gwaith y Groes
 Yn dwyn diniwed einioes,

A grym hen fwriadau gras—
 Diwyrni ddeddf ei deyrnas,
 Trwy'r holl oesau'n seiliau sydd
 O gryfach gwawr ar grefydd.

Gwac diobaith gwaed Abel,
 A'i gosb, ni chadwyd dan gel :
 A gelir, bron o'r golwg,
 Y gwaed sy'n dylhuddo gwg ?
 Gwaed y bendigedig Iôn !
 A gelir gwaed ei galon ?

Ni oerodd mynwes cariad
 Trag'wyddol y dwyfol Dad ;
 Ei ddiwâd addewidion,
 A'i fraich alluog, a'i fron,
 Ydynt heb gyfnewidiau,
 Yr un, yr un, eu parhad.
 I'r Mab rhydd y tir a'r môr—
 Gwerin a glyw pob goror ;
 A dyn rydd i'w achos da,
 Ar fyr, aur rif yr eira.

Daw breninoedd yn athrawon—i Crist—
 Gras guiff pendefigion :—
 Wedi gwel'd yr adeg hon,
 Cariad fydd perl pob coron."

Gwelir amlwg argoelion—o wiredd
 Geiriau ein Bardd, weithion ;
 Gair Duw tros wanegau'r don
 A daenir i bawb dynion.

Tynwyd Mahometaniaeth—i roddi
Arwyddol warogaeth
I Loegr, a'r Efyngyl aeth—uwch law bri,
A mawrhydri, ei hymerodraeth.

Daw darn ar ol darn o'i deyrnas—i lawr,
Fel hyn, y llyw atgas ;
'Twr Satan, druan, a'i drás,
Gwypa'n garnedd o'i gwmpas.

R H A N I V .

Affrican yn Esbonio Rhyfel America yn Rhagbarotod Pr Milflwyddiant.

DYN o liw gerddai dan lwyn
 Glwyslu cerddi y glaswyn,
 Yn swn dwfr y Siana'dô
 Lathraidd, yn araf lithro.

Eisteddai ar lawes tyddyn—ydoedd
 Yn codi yn fryncyn;
 A'r dw'r geid yn rhaiadr gwyn
 Hyd ei ysgwydd yn disgyn.

Yno dan goeden unig,
 Cysgodol—breiniol ei brig,
 Ar geinion meillion teg Mai,
 Hyn o odl a anadlai:—

“ O un gwaed yn enwog oll,
 A mât agwedd mwy digoll,
 Y crewyd ein eu rywiau,
 Yn mhob pwynt, ac yn mhob pau.

O'r hanes geir o honynt—yn y Llyfr,
 Rhyw un llwyth, mawr, ydynt;
 Un eu gwedd oedd dynion gynt,
 Ac un Adda gawn iddynt.

Wedi y cwmp a'i niweidion—Eden
 Dd'ai'n nod i felldithion ;
 Aeth haul fu'n fendith i hon—rhy lachar,
 Yn crino daiar ein erwyn duon.

Is pwynt ei chras wregys poeth
 Ei wg, heb os, losga byth ;
 A Duw i'w ddybenion doeth,
 Yno wnai ein rhan, a'n nyth.

E ddenodd ein erwyn yn dduon—yn nod
 Blin wg y bobl wynion,
 Y rhai sy'n byw yr awr hon—yn y byd,
 Ar bur weryd yr ebyr oerion.

Ein llwyth, o herwydd ein lliw,
 Wedir yn annheleidwiw ;
 A nodant ni'n anhydyn,
 Yn dda digyfran o ddyn.
 Dygant a gwerthant ni'n g'oedd
 Yn ei heidiog farchnadoedd,
 P'n dwyn yn gaethion hyd oes—
 Gwarth yw hyn ! gwerthu einioes.

Du gywilydd y byd yw gweled—dwyn (A
 Dyn du i gaethiwed ;
 Dwyn i wae y diniwed
 Yn rhwym !—yn galon na rŵd ?

Yn Affrig bell—bell mewn bâr,
 Y gwelaf achos galar.

Un nawn o haf, yn min y nos,
 Dwy eneth mewn blodionos

A welid gyda'u gilydd
 Mor dawel a'r awel rydd—
 Chwiorydd yn eydchwarau,
 Heb ofn drwg gwg i'w llesgâu.

Draw, i'w dal, mae dau leidr dyn
 I'r ddol yn prysur ddilyn,
 O lwyn cauedig is law,
 Yn llanerch i gynllwynaw,
 I'w dwyn, chwiorydd dinam!
 I hynt fyth na welant fam!

Angorai llong yn ngwar lli'
 Afreolus dwfr heli,
 I'w cludo o'u bro wen, brid,
 I afael pob rhyw ofid.

Ar fron y dôn, adenydd
 Yr hwyl ollyngwyd yn rhydd
 I hwyllo'r farwol helynt,
 Gyda theg waneg a gwynt.

A moriwyd i ddwfr Amerig—a llwyth
 Llong o gaethion Afrig.
 Yn dost a rwygwyd mewn dig
 O afael bro gyntefig.

O'r llong, trist oedd glanio'r llwyth
 Eneidiau llawn o adwyth
 I'w troi i gaethiwed trwm—
 Gwarthrudd! gwarthrudd! a gorthrwm!
 A'r ddwy eneth, brudd wnech,
 I gwrrd a loes a grudd wlech!

Ow! Amerig, mae oriau—dialeidd
 Yn dilyn troseddau :
 Braidd oll, coch yw'th briddellau,
 O wrid y fflangell a'r iau!

Herwydd caethiwed, ddued oedd awyr
 Eitha' dy auaf pan ddaeth dy wewyr!
 Heibio yn orwyllt cerddai banierwyr,
 Rhwng dy foelydd â rhengau dy filwyr;
 O blaid rhyddid gelwid gwyr—Amerig
 Yn ddewisedig wronaidl sawdwyr.

Dy dywydd hyd y Deau—a'i gadwrf
 Sy'n gadwyn o frwydrau ;
 Miniog eirf a phlwm yn gwau,
 Dorent wyr yn gludeiriau!

Bu *Bull Run*, Babel yr oes,
 Yn rhiniog tyner einioes ;
 Llauer un yn llwyr a aeth
 Draw ar goll drwy argyllaeth ;
 A thir y gym'dogaeth hon
 Yw gweryd llauer gwron.

Troai'n dywydd tra andwyol—i lu
 Glew'r fyddin Undebol ;
 Anil lanc eu, yn mhaen ac ol,
 A gymerodd gam marwol!

Ymrafael, er mawr ofid—i'r wyw wlad,
 Trwy lu'r Gogledd deimlid ;
 Bradychu a lledu llid,
 A gwarthruddo gwerth rhyddid!

Bull Run i'n pobl eirianwedd
 A fu drachefn yn oer fedd :
 Enw *Fredericksburg* anwar
 Ddengys â hys olion bâr ;
 A phoeth dân y Diffeithwch
 Gladdai lu'r Gogledd â'i lweh.

Rhyddid welid yn wylaw,
 O'r llwyn a'i phen ar ei llaw,
 Wrth weled prydferth haulwen
 Bi llwydd dan gysgod y llen ;
 Ond cerydd un Duw cariad,
 Yn awr loes, oedd hyn i'r wlad.

Ac yma yn y camwedd—y gwelid
 Trigolion y Gogledd ;
 Mae ing, clwy, a miniog gledd
 Yn aros pob auwiredd.

Wedi cerydd Duw cariad
 Ar lu gorthrymwy'r y wlad,
 Wele deg, fyw lygad aur
 Haul rhyddid a'i wawl rhuddaur,
 Yn agor o'r môr marwol—
 Bi don yn awr dynai'n ol.

Llwyddwyd â durallweddau—i agor
 Dôr eigion y Deau ;
 Llaw lôn sydd wedi lleihau
 Y dw'r dinystr a'i donau.

Hwnw a dawodd enenau duon,
 A hagr, y tramawr gyslegrau trymion ;

A llwnw a yrai'r colofnau hirion,
 Ag ysig adwyth, i ryw gysgodion ;
 Y llu a'r eirf sy'n llaw'r Ión—goreh'myna
 Hyn, a pheidia rhyfel a'i hanffodion.

Ae yn nhorfoedd y frwydr gynhyrfus—Daw
 Sy'n dad i'r anghenus ;
 O'i flaen Ef, fel soff neu us—llosgwyd iau,
 Ae aruthr rwybau y caeth gorthrymus.

Gwelodd Ioan a Daniel—arwyddion
 O ryddid trwy'r fagnel,
 Yn dwyn y gwir o dan gél,
 Y'nghrafiac angau rhyfel.

Yr iau a dorwyd—mae'r wawr ar y dwyrain,
 Dyma wyn forau, gwnaed Ham yn wiw firain,
 Yn y dulafur ni cheir e'n dolesain,
 Yn cael ei ddifa gan feistr yn cleddyfain.

Agorodd y wawrdlydd o dywydd y Deau—
 Byw aeliau'n cwm welir heb wlanog gymylau ;
 I foli cydunwn am falu cadwynau,
 A thai yr ynadon fu'n gwerthu'r encidiau.

Yn ddiau i minau daw adeg mwy arwyl—
 Y dur a ddiosgodd ein rhyddid hir ddysgwyl ;
 Darfyddodd mnyrdiau oer oriau hwyr arwyl
 Galarnad am werthiad ein plant tan y morthwyl.

Ein rhyddid yn hysbys a crys yn arwydd
 O ddyddiau'r MILLEWYDDIANT a wawriant o'i herwydd
 Mal hyn, o tan wybren, daw moliant yn ebrwydd,
 Pam ddyry pob tafod wir eurglod i'r Arglwydd."

Trwy ofid a dinystr rhyfel—trwy dân—

Trwy dwrf crech y fagnel,
Duw Iôn yn y byd a wél
Enw'i Achos yn uchel ;
A Sataa, druan ! a'i drás,
Hyrddir i warth o'i urddas.

Colli 'i dir, er called oedd,
Erioed gyda Duw 'r ydoedd ;
A cholodd ei ddiehillion
Erech ef, yn yr ymgyrch hon ;
A thawedd teyrn caethiwed,
A'i lys yn ddarnau ar léd.

R I I A N . V .

Angel yn cyhoeddi y Millwyddiant.

YN awr, yn nghanol y nef—ymddengys
 Môdd angel y wiwnef,
 Cu deyrn, neu lyw, cadarn lof:—mewn moliant,
 Ei eirian lanwant yr oleunef.

O'i aur lys, uwch daiar lweh,
 Daeth i gyhoeddi heddwch
 I ddoniaw tywyll ddynion—
 Ei anadl ef yw'n Hawdl hon:—

“Haleluiah! mae'r haul a'i lewyrch
 Yn brydferth ar anterth yr entyreh;
 Y gu wawr deg a'i haur dyreh—yr awr'on,
 A wna eigion dunos yn hygyrch!

Ffrwyth y ddaiar a wasgar ei esgyll
 I ranau 'i thiroedd oerion a theryll;
 Haul cu'n sawd awyr laet nos dywyll—
 O dir rhamantus tyn odre'i mentyll:
 Yn awr y mae Satan hyll—mewn gwlad brudd,
 O dan orchudd, a chadwyn crehyll!

Blaguryn pobl egorodd,
 Ac o'r nef y ceir ei nôdd;
 A daiar wnaed yn dir nos,
 A daenir â blodionos.

Yr âr gynar egina—
 Treiddio nôdd y gwraidd wna ;
 Y gwawl a'r cawodau gwin
 A rywiogant yr egin ;
 Clawr bryn, a dyffryn, yn deg,
 Ddilledir gan ddail lliwdeg ;
 Briallu yn llwybr ellain
 A geir yn mysg y rhoniau main ;
 Heiniar pur a lenwa'r pant,
 A meillion lle bu malliant ;
 Gweiriau, ac ydau gwiwdeg,
 Fel aur li'n ymdoni'n deg ;
 Pêr acron yn goron gau
 I'r foel ; a cheir afalau
 I lenwi pob rhyw lanerch,
 Nes amlhau trysorau serch.

Yr edn a sug ar y gangen—i roi
 Ei bêr wawd yn llawen,
 I droi wybr ein daiar hên,
 O fawl adar, fel Eden.

Soniarus seiniau hwyrol—a lanwant
 Y telynan wybrol ;
 Ehdedydd dedwylch uwch dôl
 A gyweiria'i wawr garol.

Y blaidd a'r hwdd heb ludd yr ânt—a'r arth
 A'r ych, lle gorweddant ;
 O'r afon loew'r yfant—ei dyfroedd,
 A'i da aberoedd, a chydborant.

Ac i'w hynt, y llwynog, yntau—a rêd
 Gyda'r wyn trwy'r cacau ;

Yn gŵn mac'r llewpart yn gwau
A'r llewes gyda'r llöau.

Dreigiau anwn nis drygant—mwy wnech
Mynydd Duw y moliant ;
Henafgwyr bro yno ânt—
Fel daiar ail flodeuant.

Disgyn gwlyth bendith ddi ball
Ar ei ctifeddiaeth oll,
Yr hon geir, heb friw na gwall,
Yn deg, yn wên, a digoll.

I Scion cerdd â sain cân,
Deulu cenedl wiw Canaan ;
Daw hir restr o wlad yr ha'—
Daw eraill o wlad eira ;
O law'r fall daw llu allan
O dir y Twre drwy y tân ;
Trwy Awstria a Rhwsia rhed
Y wiw gân yn ogoned ;
China a'r India, i'r Oen
A atebant dant diboen :
Persia ac Arabia'r un,
A'r Aiff, i enw yr Oen,
Yn gu a roddant swyn gân,
A hil Ethhiopia hen.

Amerig, tu hwnt i'r moroedd—lenwir
Gan luniau y nefoedd ;
I'w enw glân, un gân g'oeidd
Anadla'i holl genedloedd.

I Ewrob trwy'r gogledd cira—y gân
 Ogoned adseinia;
 Dydd yr Oen a dawdd yr ia,
 I bant ar ei bwynt oera.

O gyleh y ddaiar, y gân
 Wna'i hawyrgylch yn organ;
 O glogwyn i glogwyn gwlad
 Daw ei swm yn adseiniad;
Dofrine hwnt, deffry yn hon
 Yr Andes trwy y wendon;
Alleghany glogwynog
 Eilw'r gân o Walia'r gôg;
 A swm hon yn adsain a
 Glybûir o Gilboa.

Cu leferydd "*Gorphenmyd*" Galfaria
 A dry nos anwn o daran Sina;
 Ehdê ei swm yn hyfryd hosana
 I ddeffro cenedl ddu Affricania;
 Ac i foroedd cyfeiria—y gân hon,
 Er byd digwynion ar Batagonia.

Mawr ydyw rhinwedd rhyfedd yr afon
 Trwy Galfaria sy'n treiglo i feirwon;
 A mawr oedd gofid a llid trallodion
 Marwol Iesu yn nhymhor ei loesion;
 Dirboenau aethau weithion—i natur,
 Yw hanes ei gur a'i boenus goron!

Ei ben oblygodd dan boen, oblegid
 Yr lawn a roddodd i brynu rhyddid:

Drwy ei einioes y bicell drywenid,
 A'i waed i ruddo'i ddiŵlad a roddid ;
 Mewn gafael miniog ofid—y Cyfion
 O tan hoelion, y pryd hyn a welid!

Llewod awn a'u cynulliad yno
 I ffroenio awyr ac uffern ruo ;
 A Duw o herwydd dyn yn ei daro
 Ef a dolur a wnaï i fyd wylo !
 Y dydd gywilyddiodd, do,—dan deimlad
 O léd ei gariad wrth wel'd ei guro.

Ac ar hoff anadl y gair Gorphenwyd,
 Anial gyrau y niwl a agorwyd ;
 Gwiw haul a wawriodd, a'r awyr a gliriwyd,
 A dorau uchel Satan a drechwyd :
 Llaw angel a ollyngwyd—i nodi
 Hedd, a'i roddi—hwn heddyw arwyddwyd.

Byddinoedd Satan weithian gilgwthiwyd
 I boenus eigion, a'i ben ysigwyd ;
 Hedd i reoli'r ddaiar a alwyd,
 Ac i fliynau, gair Duw gyflawnwyd ;
 Os Eden a osodwyd—yn anrhaith,
 Ei delw eilwaith mewn dail a huliwyd.

Teyrn du'r awyr, a'i wyr, o'r ddaiaren
 A yrwyd i gyd, &'n traed i gadwen ;—
 Hwnw fu agos, trwy ei genfigen,
 A thanio'r bydoedd &'n lloedd llawen ;
 Ei bwynt oedd, dyrchafu'n ben—ar y rhôd ;
 Ac o wall ei dduwdod, colodd Eden.

Drwy i'w dduwch fyn'd o'r ddaiar—yr haul
 Sydd a'i rudd yn llachar,
 A'i wên ef dywyna ar
 Wyneb diffaethwch anwar.

Y graig ddaneddog a roes—ei hoffus
 Amddiffyn i einioes
 Llauer un, mewn llauer oes
 O erlid, ni ddwg hirloes.

Ei hagenau gydgamant—â rhual
 Uthr ewyn y ceunant ;
 Acenion nef, cân y nant,
 A Heferydd llifeiriant.

Hoff yw rhediad y ffrydiau—i'r eigion,
 Yn wregys y bryniau ;
 Ddwr a'i lithriad ar lethrau
 I Dduw lôn gân, yn ddiâu.

Daw'r milyn hyd war moelydd—i rod-di
 Arwyddion mwy dedwydd ;
 Hau da faes, a medi fydd,
 Yn y man, yn mhen mynydd.

Crog warau'r creigiau hirion—a wisgir
 A gwasgod o feillion ;
 Uwch creigiau dyrch llenyrch llon—
 Iraidd oll, a heirdd ddullion.

Dinystr y lluchodnau,—a niwed
 Y newyn a'r nodau, ;
 Ni cheir—mae Seion yn iachau—galar
 Awyr y ddaiar trwy weddiau.

Yna ceir, fel ieuanc oed,
 Yn heinif, lwynau henoed ;
 A lluoedd byd yn llawen
 Mewn glendid prid ddyddiau'r pren.

Efengyl yr Oen, a'i boen dybenol,
 Sy'n hoew hedeg ag adsain hudol
 Yn ei doniau a'i geiriau rhagorol,
 I enill daiar â llwydd neillduol :
 Mae enw mwy dymunol—na llwydd gwlad,
 Drwy gyhoeddiad Efengyl drag'wyddol.

Addewid sydd ganddi'n ddiâu—o lwydd
 Gwlad a'i meddianau ;
 Drws i eraill drysorau
 A egyr hon i'w sierhan.

Trysorau drud, a golud i'r galon,
 Ydyw nwyddau ei hynod newyddion ;
 Arwyddo digardd ryddid euogion ;
 O dybiau annoeth, yw ei dybenion ;
 Yr haul yn nghyflawnder hon—gyfododd—
 Duw a lefarodd anadl i feirwon.

Dyma ddydd dedwydd y Duwdod—i ddwyn
 Myrddiynau i'r cymod ;
 Tros fôr a thir, ei glir glod
 Yw etifedd pob tafod.

Yr hyn addewsid er hedd—i Adda,
 Wireddwyd yn sylwedd ;
 A'r byd gyfododd o'r bedd
 I roi iawn i'r Gwirionedd.

Llwyddwyd i ddwyn allweddau—duw rhyfel,
 A'i droi ef dan gloiau;
 Llaw Iôn sydd wedi lleihau
 Ei dw'r dinystr a'i donau.

Cur chwercwder y carchardai,
 Oedd yn ei llwybr, a ddaw'n llai;
 Elusen ni wel eisiau—
 Teiau cwyn gawsant eu cau;
 Gwr a wir gara arall—
 Gwel ei hun yn llun y llall:
 E wél dyn, yn dylawd oedd,
 Ei ran o law brenhinoedd;
 Aur a thir wrth Gyfraith Iôn
 A renir i ryw weinïon;
 Yr hen wr truan ei wedd
 Ddaw â gwên i ddigonedd;
 I'r weddw, llawen roddir,
 Aur a thai gwerthfawr, a thir;
 Angen amddifaid ddengys
 Ol y llaw lywia y llys;
 Bri uniawn hawl Brenin hedd,
 A'i wersi ar yr orsedd.

Daeth bost atheistiaeth i ben—a darfu
 Brâd hirfaith centigen;
 A lluaws byd yn llawen—fel brodyr,
 Yn null brodyr, yn llwybro Eden.

“Fy ail Eden a ddaw i flodau,”—heb os,
 Elhai Ef trwy'r oesau,
 “Yr hyn sydd wedi'i sierhau
 I'r ddaiar trwy weddian.”

Er hyny, aros ar anel—y mae,
 Yn ei mwg, y fagnel;
 A thy y Babaeth a wél
 Dir ing cyn gwel'd yr angel.

Awstria, fe allai, ddinystrir,—a bost
 Hispaen a ddymchwelir;
 A thó gorthrymus ei thir,
 Rhyw fodd a gyfarfyddir.

Glyw Ffrainc yn gloff ar encil—o'r ddu gâd,
 Drydd ei gefn a'i wegil;
 A'r "Dyn Claf" a gaf ar gil—yn mhob man,
 A'i dy arwydda'n dra ciddil.*

Daw dinystr gyda'i donau—o'r cigion
 I rwygo gwarchloddian
 Eiddig wedd pob crefydd gau,
 A suddir eu gorseddau.

* Mae hyna wedi dygwydd.

CRWYDRIAD AWEN.

Os tynir i Ffestiniog,
 Ar ysgwyddau creigiau crôg,
 Teithio llwybr yn yr wybr raid,
 Yr hyn a lwne yr enaid!
 Ceir gweled caerog olwg,
 Ac ol elfenau mewn gwg;
 Y ceunant yn y pant pell,
 Ar fin du'r afon dywell;
 Y graig gref, hoff gartref gwynt,
 Lle cyrhaedd llaw y corwynt;
 A niwl byth ar ei chél ban,
 A thoir ei chrib â tharun.
 Gwelir yn ei randir rhydd,
 Y milyn ar lethr moelydd,
 Yn byw heb ddraen yn ben,
 I ddweyd mor hoff oedd Eden.
 Y difyr fugail defaid,
 Sylwi ar hwn islaw raid,
 Yn esgyn bryn at ei braidd,
 Sy'n pori'r gleision peraidd.
 Amf ffrwd yma'n sibrdw sydd,
 Drwy'r main wrth droi o'r mynydd;
 Hiraeth am ei hen oror
 Wna'i si yn y man yn swm môr.

O, Ffestiniog! ar riniog Meirionydd,
 Cywraïn a gloewdeg goron y gwledydd;

Ei daiar anwyl huda'r Awenydd,
 A châr ymweled ag ochrau'i moelydd ;
 Man rhwng bronau'r mynydd—draw yn Nghymru,
 Lle i awenn—fy nghartref llonydd.

Hoffus dwyn yn Ffestiniog—a welais
 I sylwi'n galonog
 Ar wên ei ffrwd arianog,
 A chân ei bronfraith a'i chòg.

Y naill law, draw ceir llwyd drem
 Ar wg y môr yn ei rym :
 'Twr Harddlech ar lech rydd lan
 'Tua'r llif o'i gartre' llwm.

Cadwyn o fryniau coediog—a welir
 Hyd aeliau Maentwrog ;
 A llawr hir sy'n lle i'r ôg,
 A gwiw ddolydd gwisg ddeiliog.

Erys arwyddion o fawredd—yma
 Yn rhwymyn unigedd ;
 Tanybwlech, ty yn y bedd !*
 Fu enwog ani ei fonedd.

Afon Dwyrdd hyfryd wedd,
 A wrida mewn anrhydedd,
 I ddyfrtau y werdd fro hon,
 A lloni ei dilynion.
 I fin hon, gyda fy nhad,
 Rhedwn, â heinif droediad,

* Dywedwyd hyn gyda golwg ar yr hen foneddigion Cymreig, er nad yw y rhat presenol yn ol am eu haelioni.

I wrando'r llif, gefullif gwyn,
Ac i hudo'r pysgodyn.

Edrych ar ei dwfn raiadrau—ba wedd
Sy'n boddi'r synwrau ;
Twrw uniad taranau
Er oes y byd yn parhau !

Yma ael ddu y Moelwyn—a wga
Ar yr eigion brigwyn ;
A'r nifwl yn gwmwl gwyn
A crys ar ei goryn.

Tynu gwres mae Tanygrisiau—o'r haul
I fron ei llechweddau ;
Llu yn hon sy'n llawenhau
Ystryd Gwilym Ystradau.

A golwg fawreddog eilwaith—a geir
Ar yr hen Gwm unieith ;
A'i erfawr greigiau hirfaith
A'u llun ar ei waelod llaith.

Yr Allt fawr yn awr i'r nen—a esgyn
Ar ysgwyddl craig gribwen ;
A phawr y bwch ar ei phen,
A'i fyd lle chwifia aden.

Ar waelod hon mae'r chwarelydd—i'w gwel'd
Mal gwyrrh i'r edrychydd ;
Mae wyneb serth y mynydd
A'r Allt yn edrych yn rhydd.

Y pylor yn agor nerth
 Gwadau'r uchelgraig gydnerth ;
 Ei muriau draw yn meiriol—
 Mellt byw'n ymwylltio o'i bol ;
 Dirgras dwrw daiargryn,
 A gwraidd y mynydd a gryn !
 Er hyn, dy lethri anwyl
 Fu i'w mawrhau, fy mro wyl ;
 Dy lwybrau flynyddau'n ol
 Ddynodwn yn ddeniadol :
 A mwyn fu cistedd i mi,
 Ganwaith ar dy glogwyni.
 Ond llu fy nghyfnod llawen
 A roed yn y ddaiar hen ;
 Yn awr nis adwaen, bron, neb—
 Di wên yw grudd dy wnech.
 Mae coedydd Cwmbywydd byth
 Yn delaid iawn a dilyth ;
 A'r adar hygar yn han
 O hyd ei hoff ganiadau ;
 Y gôg yn ateb o'r gwydd
 Hudol ganiadau'r hedydd ;
 A'r fronfraith rydd berffaith bill—
 Diboen yw swm dy benill.
 Daw ffrwd yn deffro Eden
 Borau o haf ein bro hen ;—
 Dwfr pur yn eglur dreiglo
 Ar rudd y grisialog ro ;
 Ac anian arno'n gwenu
 O ddeiliog wedd y ddôl gu.

Hyfryd rodfanau, manau dymunol
 Yw hen lechweddu'r brynian wybrenol ;

Dawel frodir â delw hyfrydol,
 Difyr a chyson ei dwfr iachusol ;
 Hardd iawn yw'r llwyni a'r ddôl,—ond diau,
 E'u lle a'u nodau sy'n llu newidiol.

Ar hyd y llechweddau rhai'n,
 F'orau fy einioes firain,
 Gyda'm llon gyfoedion fu
 A'u dawn hynaws i'm denu,
 Rhedwn, â bochau gwridog,
 I'r gammp mor heinif a'r gôg ;
 Ond ar yr hen lwybran nid y'nt—
 Huno mae rhai o honynt.

Tyn fy serch at lanerch llwyd,
 I olwg yr hen aelwyd ;—
 Aelwyd fy nhad anwylaf—
 Yn ei chongl hwnw ni chaf ;
 A disgyn mae 'neigryn i
 Ar riniog bedd rhieni !
 Wylaf wrth gofio aelwyd
 A llawr yr hen fwthyn llwyd !
 Yna'r oedd naw o honom ;
 Ond trist yw ochenaid drom
 Hygar fan mewn unigedd,
 Er byw, 'n gogwyddo i'r bedd !

Hemaint sy'n plygu einioes—i afael
 Trwm ofid a hirloes ;
 Anhunedd nychdod henoës—
 Dyddiau ing a diwedd oes.

Yma'r un fan mac'r hen fwth,
 O ran parch bron yr un peth ;

O'i fewn mac'r dodrefn 'r un fath,
 A'r hen Feibl yntau'r un fyth!
 Ond fy nhad dan deimlad dwys
 Ei galon bur a gwiwlwys,
 Yn ei aelwyd ni welwn
 Y nos yn syllu yn hwn
 Ar hanes ing ei Brynwr,
 A'i wydrau'n ddafnau o ddw'r.
 Er hyn, os nad yw'n parhau
 I edrych yn ei wydrau
 I ranau o'i wirionedd—
 Ei Feibl berarogla 'i fedd.

Dengys prudd gysgod angau—oddi draw,
 Hardd drem bythol forau ;
 O'r nos hir draw yn neshau
 Mae haul heb ddim cymylau.

Y fonwent yw cartref unig—bron i bawb
 O'r hen bobl garedig ;
 A nôd oes orphenedig
 Ar ael drom y rhelyw drig.

Mae hwn a hwn yma'n humo—crail
 O'r herwydd yn wlo ;
 Wele ran ac isel ro
 Yr eneth hawddgar hono !

Profir yma mai pryfyn—yw'r iachus
 Wr uchel ei goryn ;
 Fan yna, dyna fedd dyn
 Heinif olwg, pensfelyn !

Yn y llan llinell einioes
 A rêd i derfyn yr oes ;
 Buan gerbydres bywyd
 A geir yn sefyll i gyd,
 Hyd wiw forau'r adferiad—
 Rhydd hwn i'r ager ryddhad.
 O'r fonwent troi fy wyneb
 A wnaf—nid hyfryd i neb
 Yw aros gyda'r meirwon—
 Fy awen hêd o'r fan hon.
 Rhua'n y De wybren dydd,
 A minau ar y mynydd ;
 Arwydd hir nos bruddha'r nen,
 A'r heli lwnc yr haulwen.

Tynaf am lety unnos—i'r ogof,
 Mae'r dreigiau'n ymddangos ;
 Wyla y nen—ael y nos
 Wga—mae'r 'storm yn agos !

Hapus wrth droi i hepian—yw y dydd—
 Nid oes dwrf yn unman ;
 Mor bêr yw mwynder pob man
 'Tra huna gwyllter anian !

Mae'r cwmwl du'n gwanu gwynt—
 Cario'r dynhestl mae'r corwynt !
 Yn y gwyll goleuni'n gwau
 Ar unwaith a'r taranau ;
 Aerfa—trinfa taranfellt—
 Gwae lu'r maes lle gelwir mellt !

Weithian allan daw'r clwa o'i 'stafelloedd,
 A gwyntia Neilion tros gant y nefocdd ;

Ac ar eu hantur rhuthra'r corwynloedd,
 Gan droi'n adwyan furiau'r crychforoedd ;
 Ond trymach a blinach bloedd—y daran—
 Boddi anian mae swm ei byddinoedd !

Rhy lawn yw'r awyr o lif
 I ddal yr anwar ddylif ;
 Afonydd annherfynol,
 Er bwr yn tori o'i bol ;
 A gellydd mynydd i'r môr,
 Gan wg yn brigwyn agor !

Y nos erch a'r fellten sydd—i d'w'llwch
 Yn dallu'r ymdeithydd ;
 I'r hwn i'o heb arweinydd,
 Y farn mor ofnadwy fydd !

Rhy weiniaid yw brwydrau anian—i glyw
 Y glust sy'n y graian ;
 Yr wybr i'w deffro'n rhy wan—
 Ni thyr eu hun â tharau !

Ar ôl gwlaw daw'r awel glir,
 A'r haul yn ddisglaer welir ;
 Gwên borau gwyneb eirian—
 I Iuna y mellt yn y man !

Welc'r fro a'r haul ar fryn—a'i wenau
 Ar wyneb y dyffryn ;
 Daw'r gôg uwch y rhaiadr gwyn
 I eilio mawl i'r haul melyn.

Pob ffrwd a gawn yn llawn llif,
 A'r wenol a'i thro heinif ;

Hoew flaen ei halen fe wlych
Yn nw'r yr afon orwych.

Ol y gwlaw o ael y glyn—a welir
Hyd waclod y dyffryn ;
Ymwél braw á moel a bryn,
A du lid—daw haul wed'yn.

Wedi'r heddf t'rawiadau'r llon—a hygar
F'yiogant y galon ;
E'r mor groes yw'r einios hon,
Wrth reol ceir ei throion.

Gweiddi'n llesg a'i wedd yn lli'
Wna dyn wedi ei eni ;
Rhyw boen a'i herys i'r byd—
Du ochain gwendid icehyd ;
Wylo a thori'r galon,
A llwyr fraw fydd colli'r fron.

A'r enyd y gwél y bronau—ei wên
A geir yn ei ddagrau ;
Llon wedd mam sy'n llawenhau
Ei wyneb yn ei boenau.

Caiff anl godwm—trwm y tro,
Ei weled yn prudd wylo ;
Ond derfydd—mwyniant dirfawr
I'r llu pan y croeso'r llawr.
Ar ol diwrnod hynod hael,
A du ofid o'i afael,
Daw gwenau ei deg wyneb
A gradd o loes a grudd wleib ;—

Y nos sy'n araf neshau
 A cherydd wedi'r chwaraau.
 Mae pleser a llonder llane,
 Doniau hoewon dyn ieuane,
 A rhwysg gwyn gyfnod yr oes, (A
 Yn llawennu lliw einioes ;
 Ond pob cyfnod, ôd yr haf
 Yw ei wawr ar y goraf.
 Ar hedfan i dir adfail
 Cilia un, ac wele ail
 Yn dirwyn cyfnod arall
 I roi lle i dro y llall.

Daw adeg y cyfnod dedwydd - i ben -
 Ymboeni mewn tywydd,
 A dal caledwaith y dydd,
 A wna mewn cyfnod newydd.

Cyn i'r wawr agor y borau—â hwn
 I'w waith, bron, mewn eisiau ;
 A gwedd tylodi'n llesgâu
 Ei enaid a'i cwynau !

Ar waen a rhos mac'n trin rhaw,
 Ar rudd y barug a'r rhew ;
 Yr awel oer ar ei law
 A wna loes er curo'n lew.

Er i'r awel oeri'r ewin—i'w Dduw
 Rhydd ddiolch yn ddibrin ;
 Addola'n aml â'r ddeulin,
 Ar y rhew yn yr oer hîn.

Hwyliar dydd at wely'r don—i huno
 Ar fynwes yr eigion ;
 A gadael prudd gysgodion
 Yr hwyr dros y fangre hon.

Wedi i'r nos fawr deyrnasu,
 A'r lloer alw ar ei llu
 I'r ffurfafen uwch ben byd,
 A'n ol at ei anwylyd,
 A'i saith blentyn gwyn eu gwedd,
 Fel wyn nefola'i anedd ;
 A rhywiog ael ei wraig wen
 Wna y lle oll yn llawen.
 Yn ei gongl eistedda'n gu,
 A gwyn angel yn gwenu
 A ddaw a'i law ar ei lin,
 A'i dddeiw ar ei ddwylin.
 Eu gweled gwyd ei galon—
 Araf wres sy'n toddi'r fron ;
 Mae 'i wrid fel ymerawdwr,
 A dim ond bara a dw'r !
 Ar y bwrdd Llyfr llyfrau'r byd
 A gcir ganddo'n agoryd
 Ar hanes trefn y prynu
 Trwy daliad y Ceidwad eu.
 Yn ei weddi mac'n addef
 Yn hael lywodraeth y nef ;
 A dilyna hyd linell
 Trefn rhad ras i'r pwrcas pell—
 Yr Iawn a'i ddwyfol rinwedd,
 A'r byd sydd tu draw i'r bedd.

Adenydd wnaed i einioes—
 Fuaned y rhed yr oes!
 Yr hwn oedd yn gadarn wr,
 Welc hwnw'n wael henwr;
 A'i blant adawant ei dy
 O un i un—mae'n chwith llyny!

Heddyw gwn nad hawdd gwenu—a'r olaf
 O'r aelwyd yn cefnu;
 Mae'i ael deg dan gwmwl du,
 A'r ên a'r llais yn crynu!

Araf yw flrwd ei eirian,—a'i wnech
 Yn ffynon o ddagrau;
 I'w gongl mae'n troi i lesgiau,
 Yn wan a mud ei enau!

Welc henaint yn ei liw ei hunan ^Q
 Yn difa einioes, yn dofi aniau;
 Hyd yr heol mae'n edrych yn druan
 Yn ei agwedd, a'i rodiad yn egwan;
 Mwy ni red—mae'n rhy wan—i droi o'i lys,
 Wrth ei ewyllys, i'r buarth allan!

Yn ei aelwyd hwn a welaf—o'r gongl,
 Yn troi 'i gefn yn araf—
 O glun i glun—syrth yn glaf
 Ar ei wely'r tro olaf!

Heddyw hoelion ei babel ni ddaliant ^Q
 Yn llaw angau, ond cydymollyngant;
 O herwydd loes, ei ruddiau welwasant,
 A'i syw wefusau anwyl safasant;

Hynaws wên yr hen sant ^Agollasom ni ;
Ond o'i gyni y daw i ogoniant .

Daw o wywiant du auaf
Wenau'r haul i eni'r haf ;
Ac o bridd âr daiar dyn
Daw gwenau mwyndeg wauwyn.

Mae haul y gwawl ar gwmwl golau—'n d'od
A dydd i fro'r beddau ;
Gwelir clir oleuni clau
'Trwy nos ing teyrnas angau.

Y fath amrywiacth a fydd
I fyw olwg darfelydd
Pan ddatguddir gwir a gau
Y lleng sy'n nghafell angau !

Iug wêl rhyw Bfengylwr—wedi bod
I bawb yn bregethwr ;
Hwn a geid yn enwog wr—
Hwn o'r groth sy'n rhagrithiwr.

Un yn llofrudd llawruddiog—o herwydd
Arian yn ddieuog :
A'r llall, o ddifffyg aur llôg—
Y diniwed—yn euog !

Y llueddwr hyll, addig
Yn llawn o dân y llyn dig,
Yn rhuwr anwar, cofn,
Yn wr nad adwaenai ofn.
Heddyw o dan y bedd du,
A'i oer lwech, garai lechu !

Yn ei wyneb llon wenai—anian werdd
 Dan wén haf lle cerddai ;
 A'i delw'n waedlyd wylai
 Ar ei ol y ffordd yr ai.

Safwn ac edrychwn dro,
 Ar ael y tir i wyllo
 Ysgogiad ei anfad wyr,
 A throant bryd yr awyr!—
 Rhoi llu i herio llu arall—
 Y naill lu'n erbyn y llall!
 Mae'r haul yn trynhau ei rudd,
 A gostwng ael tan gystudd ;
 Llonydd yw tinau'r llwyni,
 A llwfr yw ysbryd y lli ;
 Mae y dail yn mud wyllo,
 Yn brudd o amgylch ein bro ;
 A hoff rif y llu rhyfedd,
 Heb air, mor ddystaw a'r bedd !
 Dacw ryw lyw ar fyw farch,
 Ac a'i wefus yn cyfarch ;
 A gyra cenad gwrol,
 Yn y gâd, yn mlaen ac ol,
 Yn dyrwyn cenad arall,
 O ben 'naill aden i'r llall.
 Yn awr mac'r dymhestl yn hêl,
 A bywyd yn mhob awel ;
 A'r ddrychin flin, chwerw floedd,
 Ow ! ar falu rhyw floedd !
 Hyf lais yr udgorn rydd floedd,
 Ollynga wynt y llengoedd—
 Ysgogant—tyrfant arfau—

Tân gwyllt o'r ddeutu yn gwau!
 'Trwy'r nen, y tânbeleni
 Yn ymryson bron heb ri';
 A ffrwydriad eu chwaliad chwyrn
 Draw yn hau darnau heiyrn!
 Rhuddwawr yw glwyswawr glaswellt—
 Y gwacod hyd ddillad y gwellt!

Clywir truenus wylofus lefau
 Acw trwy dyrfiad cyd-d'rawiad arfau;
 Y tân allan ar hyd y llinellau
 A rŷa'n eoln o hagr encuau;
 Y pylor, y dur a'r pelau—ffyrnig.
 Yn cyd aredig yn y cadrodau!

Ah! mor chwai yw'r march öofn,
 A rŷd gan ddiystyrn ofn!
 Ar ddarnau'r gwrthbleidiau blin!
 Mae'n rhuthro, dan ffrŷo'i sfroen;
 A threm ofnadwy ei thrin,
 Fe lwnc y gweddill o'i flaen!

Poen irad i'r pen arwr—yw gweled
 Golwg ar y Barnwr;
 A'i fawl fel pen rhyfelwr
 Ydyw gwac enaid y gwr!

Daw i'r golwg o blith y dirgelion
 Gynlluniau gofthrymwy, treiswyr trawsion;
 A daw i'r golwg drawsder y galon,
 A dull dau wnech i dwyllo dynion:
 A bonedd gau ddybenion—adwaenir
 Heddyw; a cholli'r holl ddichellion.

Gwel y llygaid yr enaid, a'r anian,
 Yma yn hollol â'r tu mewn allan ;
 A daw'r cof, a'r gydwybod, â'r cyfan
 O'r oll a wnaethid, i'w darllen weithian ;
 Yr oes ddadblygir bob rhan—i sylw—
 Nid adwaen enw, ond y dyn ei hunan.

Yn y byd, hidlir gwybedyn—o beth,
 Os bydd ar y llwyd-ddyn ;
 Ac ar dwyll y llynceir dyn,
 A chamel, heb orchymyn.

Hob atreg, hedeg mac haid—i deios
 Sy'n deor blin aspiaid,
 Du boen eu gwenwyn di baid
 Rêd i ran rhyw druceiniaid !

Derbyn enllib a darbod—i gwympo
 'Trwy gampwaith y tafod ;
 Holi'n chwai, os bydd bai'n bod,
 A chau'r dwrn, a cheir dyrnod.

 Ond troes canolbwynt yr hin
 Ar wawr yr hen bererin ;
 Wele hwn heb bwn, heb byd,
 Ar geinferth drothwy'r gwynfyd.

Ar ei ol, pob rhyw clyn—a edy
 Mewn adwyth a dychryn ;
 Ac mewn hyfryd gerbyd gwyn,
 Drwy rwysg adre' yr esgyn.

 Golud glân gwlad goleuni
 Rydd i'w fron arwydd o fri ;

Golud wrth fodd ei galon
 Na rydd frath dan wraidd ei fron :
 Y prid olud, pur, dilyth,
 Sy'n y wlad fry, bery byth.

Rhy ddinerth yw mawredd anian—i ddal
 Ei haddolwr, druan !
 Dyma'r dydd, derfydd trwy dân
 Hoedl ei holl anadl allan.

Try anian i wyllt drueni.—a i llwyth
 Fel llong fai ar weilgi,
 A dynai'n frysio g dani
 Dros ddibyn llynelyn y lli'!

Yr llwn roes einioes i anian,—Hwnnw
 Dyn ei hanadl allan ;
 Tyr ufel fol pedryfan—
 Lluchia'n deilch â'i llweh yn dân !

Gyda'r dinystre yr ergydir dynion
 Isod i waelod bro'r uffernolion ;
 Hlen felltith Adda rwyga i'r eigion
 Eirian fro asur i lawr yn friwsion ;
 A'r ddaiar anhygar hon,—draw ar lêd,
 A rêd i waered gyda'r malurion !

Dwy ran sy'n y byd erioed—
 Pob rhan i'w lle'i hunan hêd ;
 Un rhan i ddyn, o'r nef roed,
 A Satan ran—ato rhêd.

A chyfran Satan, trawswedd—yw enaid
 Llawn o ddygasedd ;

Ac oes o wae'n cashau hedd—
Diaddewid o ddiwedd.

Holl anian ei hyll enaid—annedwydd,
Yw poenydio'i ddeiliaid;
I'w dyb ef, creulondeb di baid
Yw rhinwedd ei wroniaid.

Hoff ganddo yw blino 'i blant,
Gigweiniodd o'r gogoniant
I'w ffwrn, trwy dwyll uffernawl—
Ei dwyll yw coron y diawl.
Erioed ei bleser ydyw
Agwedd sarph, os gweddus yw
Siarad am ei bleserau
Yn uffern, ei gethern gau!

'Twyll ydyw'r pechod hyllaf—yn y byd—
Mae'n ben ar yr uwchaf;
Pa gongl wedi'r cwmp a gaf
Heb ei wên?—heb ei anaf?

'Twyll sydd yn bechod hollol—un anian
Wenwynig â'r diafol;
Daeth o'r gethern uffernol—
'Tynu wna i'r tân yn ol.

Didwyll deimladau dedwydd
Er nef wên yn rhan a fydd;
A mynwes pawb mewn mwyniant
O sawl Duw ar nefol dant.
Hoff le heb enw na phlaid—
Un gân—un anian enaid—

Un Blaenor—un Pôr—un Pen,
A Duw yn ysbryd Awen.

Yn y nef mae'r hen sant yn awr—yn byw,
Mewn hoewbarch dirfawr,
Yn mynwes cres orawr
O fyd y gymysgfa fawr.

Bywyd teg ar lwybrau'r byd hwn—nid oes
I un dyn o fyrddiwn ;
Dan haul pob dyn a welwn
Hyd y bedd yn cludo 'i hwn.

A gwelir cystudd y galon—ar rudd
Amryw rai o'r mawrion ;
Y mae briw braidd yn mhob bron
Yn hidio gan drallodion.

Ychydig at amgylchiadan—gan rai—
Degau'n rhwym gan eisiau ;
Dylethwyd cenedlaethau—gan ormes,
Ac ni bu haes gan neb o'n henwau.

Ymdagu â siomedigaeth—y mae
Llawer mun, ysywaeth !
Llawer un i'r llawr a aeth—i huno,
Wedi 'mroi i wylo hyd ei marwolaeth !

Ar wên rudd aml ddeigryn rêd,—dystaw
Dystion poenus dynged
Rhyw lu amddifaid ar léd,
Neu weddw wan, ddinodded.

Boran a hwyr aml bererin—ydynt
 Yn dwyn nodau dryghin ;
 Ac o ffrwd chwerv'n gyffredin.
 Ar ei fwrdd dyfrheir ei fin.

Er hyn nid oes diwrnod du—mad ydyw'r
 Dyn didwyll yn llechu
 O dan gwr hoff aden gu—Iawn y Groes.
 Nes i haul ei einioes ail wenu.

Yn ei dro, heibio daw dyben—pawb byw—
 Pob peth o dan haulwen :
 Diwedd y byd ddaw i ben,
 A diwedd Crwydriad Awen.

AWDL.—GWLAD FY NHADAU.

Gadewais WLAD FY NHADAU,—Gwalia gu,
 Eiliw gwawr y borau ;
 Bro'r Awen fad, clymiad clau,
 Yw bro anwyl y bryniau.

Af ar dôn y dyfnder du—am ryw hynl,
 Ar amrantau Cymru
 Sy'n agor gwrddefor yn gu ;—a'i brig teg
 A gawn uwch ei waneg yn iach wenu.

Pr wybren iachus mac'r bryniau uchel
 Yn suethu i'r wiwne'n sylh ar anel ;
 Barug dô amgyleh eu brig diymgel
 Yn ddiau rewa ddanedd yr awel :
 Adwaen gwm bu gwyr dan gél—mewn tristfodd—
 E'n tyllau, rywfodd, fu'n gestyll rhyfel.

Ar grib craig ysgythrog ochrog dir echrys,
 Wele hen Dderwydd a'i ddelw yn ddyrys,
 Yn dal ei wiw delyn, gan hidlo dilys
 Ddagrau o deimlad ar raniad yr Ynys,
 A lladd Tywysog y llys—a'i noddodd—
 Hwn yma ddiangodd, hyn a ymddengys.

O'i enau ef, y gân hon
 Eilw sylw y galon :—
 " Pr Ynys bu gwroniaid
 Tra flwch yn taro o'i phlaid

Yn erbyn gelyn dig, oedd
Yn tori tros ein tiroedd.

Caswallon bendragon, dro,
Welodd Cesar yn eilio,
O flaen ei gâd illeinig,
I fol y ddu, ddyfndon ddig.

Gwâr y byd tan ei gerbydan—roddodd
Mewn rhuddwaed a chlwyfan ;
A hyffion bobl Rhufain bau
Ddofwyd gan ei gleddyfan.

Caradog enwog welwyd yn gwann
Gwynau Rhufain, gan ei harafu ;
Trfn ei byddin, ei hymlid a'i baeddu
Hir flynyddoedd, pan oedd yn llywyddu ;
Enw ei fath yn aml ni fu—tros fôr glas,
Trwy eu dinas, a'i llys, yn trydanu.

Y Brenin Arthur, bron yn ei wyrthiau,
A acth o'r ddaiar i blith rhyw dduwiau ;
A mawr fu'r adrodd am ei orfrwydran
Trwy y gwledydd maith, a'u treigliadau ;
Gwarafun mae ysgrifau—y Sais ffrom
Yr hyn a wyddom am ei rinweddau.

Urien Rheged aml droion a rwygodd
Darian hyf elyn—dewrion a falodd ;
A dwrn ei ddur allu, cedyrn ddrylliodd
Yn ysig wyr—aml fyddin wasgarodd :
Godrist mewn Cymraeg yw adrodd—y chwedl—
“ Rhyw un o genedl Urien â'i gwanodd !”

Taliesin oedd Fardd tlysawg,
 A'i sawr rwysg a gofir rhawg;
 A llewyrch haul Llywarch Hen
 Nywiog wresogai'r Awen.
 Owain Ab Urien cofn
 Oedd wr nad adwacnodd ofn;
 A dur oëdd oer, mewn brwydr ddig,
 Fe laddodd Fflamddwyn fleiddig.
 Rhydderch Macl, rhyw ddewrwyd wr.
 A folid fel rhyfelwr;
 Pres lyw oedd Emrys lân—
 Addolai'r Beirdd Cynddylan.

Cleddyf Cymru fu ar faes
 Ymladdwr llym mewn grym gwres;
 Aml ddu lu a deimlodd loes
 Cymro cryf a'i gleddyf glas.

Tir Gwalia wyntiair gelyn
 Yn ol, er y gwadwn hyn;
 Aml dywysog enwog oedd
 Mewn nawdd rhwng ei mynyddoedd.
 Hywel Dda oedd lyw o ddysg—
 Hywel oedd lyw o addysg;
 Hywel oedd dal i Awen.
 A thad ein cyfreithiau hen.

Owen Gwynedd oedd enwog ei anian.
 Ac o wiw haniad Gruffydd Ab Cynan;
 Wrth air ei ewyllys rhuthrai allan
 Fâr o naturiaeth llifeiriant taran;
 A dull ei fyddinoedd yn dân—storchog.
 Ac ulwyn lliidiog i'w clyn llydan.

Dengys hancs llynges lli'
 Harri'r Ail ar wâr heli,
 Y fath dywysog a fu
 Ar Wynedd i'w thrywanu.

Difyr tin dwfr y Penai—hynodwyd
 Gan wiwdeb Awdl Gwalchmai ;
 Ar lenydd hon, darluniai
 Waed rhudd yn atal y trai.

Cu deyrn o waed cadarn nerth—lleolir
 Llewelyn Ab Iorwerth ;
 Dyn i'w oes â dawn o werth,
 A chefn i'w wlad a'i chyfnerth.

Hwn a wrthgurodd holl nerth y goron
 Ac a chwalodd ei brigau uchelion ;
 Ieuan a Harri, ddau deyrn amnhurion,
 A ysgydwodd â'i law i'r cysgodion :
 Ni chlywir llais Sais yn son—pan y bydd
 Colli llawrydd, na “ Brad cyllyll hirion.”

Enwn holl ryfelwyr hynod—pob oes,
 Pe bac genyf ofod ;
 Gwlad Rhys—hen Bywys sy'n bod,
 Yn arfau rhai,'n anorfod.

“ Llewelyn y Llyw Olaf”—a seliodd
 I'w sylw yn nesaf ;
 Hoewych lyw ; yn iach a chlaf,
 Hyd y gweryd a garaf.

Pan oedd Cymru gu dan garn
 Eofn lywodraeth hainn

Harri'r Trydydd, a Iorwerth
 Ei fab gwyllt, nwydwyllt ei nerth,
 Ar sedd Cymru, eu y cal
 "Llewelyn y llyw Olaf"
 Y pryd hyn y parolodd
 Llewelyn, a llu hwyliodd
 Yn clyb yn ei clyn oedd
 A llawer mwy galluoedd ;
 Ond ei fedr hynod a fu
 Yn ei fyddin i'w faeddu.
 Aur a gwledd i'r arglwyddi
 Oedd ein hawl a'n tiroedd ni ;
 A'r rhanau gorau eu gwerth,
 I Harri, neu gwn Iorwerth.
 O Gaer i Gonwy, pob gwys
 A welwyd o'n gwlad wiwlwys
 Yn dir i'r Brenin o dan
 Olgw orthrymus Alan ;
 A'i wael dreth ar ein gwlad rydd
 Yn merwino Meirionydd.

Y llu a alwodd Llewelyn—o'i wlad,
 Oedd i Loegr yn ddychryn ;
 A themlodd bri Harri hyn,
 A Iorwerth, draws ddyhiryn !

Ei lu oddeithiodd y wlad
 O gaer i gaer, bron i gyd ;
 A'i gwres oedd yn anfon gwrid
 I'r las ffurfafon ar led.

Lle cerddai'r Tywysog euwog o Wynedd,
 Y gwnaed yn garneddau furiau o fawredd ;

Ymludiai ei elyn, dduryn cynddaredd!
 A lluniwr adwyth, yn llai ei anrhydedd;
 O gariad gwlad, gwrid ei gledd—ni phallai,
 A'i fawl a seiniau'n felys o'i anedd.

Yn ei lys, a'r delyn lon,
 Rhyw lu o bur alawon
 A dynwn o'i byw danau,
 Er clod i fy noddwr clau.
 Gwau ei glod pan ddygai gledd
 Yn gwanu gelyn Gwynedd;
 Ei waith yn arwain ei wyr
 Hyd ar resi ei dreiswyr;
 A throi eu byddin o'i threfn.
 A'i hoerwysg, i warth annhrefn;—
 Ei waith yn rhuthro o'r wig
 Ar flaen dur gaer fileinig,
 A'i darnio gyda dyrnaid
 O blith ei ffyddlonaf blaid;
 A phenau 'i hamddiffynwyr
 Yn eu gwaed, fu'n enwog wyr.
 Oddiyno, dan grwydro'r grug,
 Wyneb Iorwerth mewn barug,
 Arweiniwyd i'w rieni,
 Heb rwysg yn deilwng o'u bri.
 A Harri fel baedd gorwyllt,
 Dan ei warth, a'i nwydan'n wyllt,
 A gasglodd flin fyddin sawr
 I flino ein dewr flaenawr;
 A daeth gan dyngu mewn dig,
 I'w giwdawd felltgedig,
 Y gyrai war ereig Eryri

I'r llawr yn wastad a'r lli' !—
 Gan ladd pob gradd—"Pawb a gryn
 O holl Walia Llewelyn,"
 Ond buan, buan y bu
 I fyddin Gwalia'i faeddu.

I'w dderbyn, Llewelyn, llu a alwodd,
 Ac o Ferwyn hyd Gaer y cyfeiriodd ;
 A dewrion Harri, druan ! a yrodd
 I drueni ;—aml Sais a drywanodd :
 Ar ei ffull Harri a ffôdd—mewn sarhad,
 Drwy y wlad—i'r wlad a'i herlidiodd !

Llewelyn yn hyn mewn heddi
 A dynai hyd ei anedd.
 Y wledd gynhaliodd ei lys
 A'i haddolai yn ddilys ;
 Y Beirdd a'u hodlau o barch
 A gwefus bur i'w gyfarch ;
 A gwych delynor yn gwau
 Mel don yn nheml ei danau.
 Ei lys oedd gartref i'r wlad,
 Yn estyn rhodd yn wastad ;
 Rhodd ei law heb radd o lid,—
 Rhoddodd fwy gwerth na'n rhyddid ;
 Rhoddodd ei gorff a'i ruddwedd—
 Ei wyr lyfasant ei waed !
 Mae'r wlad wedi ei adael,
 A'i gorff sydd wedi ei gael
 Yn wawd i'r Brenin a'i wyr,
 Ow ! trwy frad rhai o'i frodyr !
 Ei le sy'n wag yn ei lys,
 A'r rhan oedd in' o'r Ynys

A renir rhwng estroniaid
 Gan y Brenin blin, a'i blaid ;
 A ninau heb un anedd,
 Yn byw heb lain a wna'n hedd !
 Y lleidr aeth allan mewn llid.
 A charlam meirch i erlid—
 Erid Beirdd o'r wlad y bu
 Iaith arall, a'u merthyru ;
 A hyn trwy gyngor anwar
 Adyn a gwedd Cristion gwar !
 Ei ynyd Esgob anfoes,
 A'i swydd yn w'radwydd i'r oes.
 Fy anwyl wlad, hen wlad lwys,
 Brydain, fy hoff Baraulwys !
 'Tydi wyt Wlad fy Nhadau,
 A'u cyrff sydd wedi eu cau
 Yn dy lwch o dan dy lawr,
 O dwrf ein trabludd dirfawr :
 A minau'n dwyn dagrau dwys,
 Ar gil o'm cartre' gwiwlwys ;
 A meirch y gelyn o'm hol,
 Fy ngwac a'm clwyf angeuol ;
 Ar fin oes, nad oes im' dy ;
 Ac ael y graig yw'm gwely !—
 Dyro le i'm daiar lwch,
 A nodda hwn mewn heddwch !"
 I ddal y Derwyddfardd hwn,
 Ergydai'r meirch a'r gwaedgwn ;
 A Iorwerth a'i merthyrodd
 Yn y fan, mewn creulawn fodd !—
 Ai rhyfedd beth, trwy ofid,
 I'r graig ydoedd gwisgo'r gwrid ?

Er euro mwynder Iorwerth
 Gan wyr sy'n ddigon o werth,
 Iorwerth oedd fab cynddaredd,
 A'n gwlad yn minio ei gledd ;
 Ac yna, dyna fel daeth
 I ben ei hannibyniaeth.
 Gwyneb y wlad fad i fyw
 A rydd gyflawnder heddyw
 O gu wrthddrychau á'u gwén
 O ryw gwrthddrychau'r Awen.

Mae'r dyffryn a'r glyn heb wawr gelyniaeth,
 O tan olwg rhad lwyddiant yn helaeth ;
 Daiar hygar yn dwyn pob rhywogaeth
 Am waith a haeddai glod amaethyddiaeth ;
 A rhodio y'mro'r amrywiaeth—a rydd
 Wir ddywentydd i gyfaill barddoniaeth.

Esgyn y moelydd i ysgawn ymweled
 A godrau bron gaerau'r wybren agored ;
 A chamu i loches ei chwaml luced,
 O'r dufor a yfa ffrydiau afrifed ;
 A'i wlaw yn disgyn ar led—dyn i'r môr,
 Hyd yr oror, yn rheicidr i waered.

Esgyn ar wâr Bryri
 Heibio yr haf i'w lwybr hi ;
 Neu ar gadwyn hirgydiol
 Cadair Idris, ris ar ol ;
 Yr Enig fawr, rhiniog i fyd
 Awyr hirlom rhew oerllyd ;
 Yr Eifl, a'r Carnau di ri'—
 Dôr ar hir dwr Bryri.

Ys difyr yn ystafell
 Dibyn y graig, hirgraig bell,
 Yw'r afr, mewn awyr hyfryd
 Uwch ben anialwch y byd :
 Hithau'r ddafad fad a fyn
 Bori gullt byr ei gwelltyn.

Naddir y graig ddauneddog—â rhewynt
 Yr awel ysgythrog ;
 Llaw amser—amser a'i ôg
 A'i rhwyga'n dalpiau crugog.

Y daran yn ymdori—ar hir grib
 Arw'r graig sy'n codi
 O'r llawr i drysorau'r lli'—
 Tân y mellt yn ymholli !

Y gwlaw'n pistylliaw allan—o rwygiad
 Goragwrdd y daran :
 Byw yw y mellt yn mhob man,
 Ar y wlad, o'r wybr lydan.

Y ffrydiau cyffroëdig,
 Draw i'r nant, frysiant o frig
 Y mynydd, rhwng y meini,
 Ar y llwybr sy'n berwi'r lli'.
 Dyrela anall drochionog
 Rhaiadrau min creigiau crog ;
 Y naill un ddilyn y llall—
 Hwn a yra un arall,
 Yn ffrwd wen o'r pen i'r pant,—
 Dig wanar y du geunant.

Y nifwl tua'r nesoedd—a doddir
 Mewn diddim o'r cymoedd
 Pan gilia'r ddryghin flin floedd—draw yn mhell
 Ar ddu asgell, mac'r wlad mewn heirdd wisgoedd.

Sirioldeb gwyneb teg wên
 Y lili a wel haulwen ;
 Ac anadl meillion gweunydd
 Yw awel dawel y dydd.

Gwynedd a'i bryniau'n gwennu—gwiw osgordd
 Yn gwisgo briallu ;
 Mor hapus yw gwefus gu—a thirion
 Y chwa a'i swynion yn ei chusanu !

Llithra'r afonydd trwy'r dolydd deiliog
 Heibio'r llwyni trwy'r frodir berllenog ;
 Hygar yw sylwedd eu dwfr grisialog,
 Gwiw ei rinwedd, ar waelod graianog ;
 Y byw gangau bwäog,—lle treiglant,
 A syw wyr ddyrchant enfys ardderchog.

Gwlad hafal i ardal Us,
 Lle nawf y brithyll nwyfus ;
 A'i ffrydian'u denu llu llon
 O rywogaeth yr eigion :---
 Dwyn cogiaid yn heigiau—
 Fwyned eu gweled yn gwau
 Ar dew waelod gro dylif,
 A'u lliw yn arianu'r llif !
 Ei dw'r a'i hawyr dirion
 Sydd yn iachau briwiau bron ;
 Moddion i wella'r meddwl,
 Ac ysgafnbad teimlad dwl.

Llawen yw'r gwydd, llwyni'r gân,
 Doniol dafodau anian ;
 Accu bêr cerdd aderyn,
 'Tery y glust trwy y glyn ;
 A thyr y beroriaeth hon,
 A'i golud, eisiau'r galon.
 Ei thelyn a fyn wir fawl,
 Ac urddarwydd cerddorawl ;
 Yn mysg cawri dysg crêd oll,
 Y dwg ei llawryf digoll :
 Ac y'ngenau cynghanedd,
 Ei chlod geir yn orwych wledd.

Gwlad Awen Eden ydyw,—
 Awen Bardd geir ynddi'n byw ;
 A'i Hawen lawen ddi lid,
 Fo'n Awen ddigyfnwid.

Ar bob llaw, llwybran'r Awen—a welir
 'Erwy Walia ddysgywen ;
 Ymleda ei syml aden
 O waelod nant i wlad neu.

A châr ehedeg i chwarau 'i baden
 Ar gwmwl llidiog y folltog fellten ;
 Eilio a sibrwl trwy y las wybren,
 A ffurfio ufel yn y ffurfafen ;
 Ac ar niwl caerau y nen—ymhoffia
 Daro i chwalfa ac ymdrech elfen.
 Mae'n disgyn ar fryn rhyw fro,
 Uwch dwl nifwl yn nosio,
 I glyw y rhaiadr, a'i gwledd
 Yw gwau hwnw'n gynghanedd.

Wed'yn, yn mysg y blodau
 Dillyn, mewn gwenyn mae'n gwau
 Esmwyth ganiadau dwsmel,
 Melus a mwyn yn mlus môt.

I'r fonwent yr af finau—i cilio
 Rhyw alar ganiadau
 Uwch ben y bedd, ceufedd cau,
 Hanesydd fy mhertlh'nasau.

Fy Nhad yn gyntaf o neb
 A onwa yn fy wyneb ;
 A'i lwch, o'i derfynol awr,
 Wedi'i alw i'r dulawr.

Yn fy iaith, ei hen fwthyn—a welaf
 Yn wylo gyferbyn :
 Er mor wacl yw'r muriau hyn,
 Daliant ei gôf i'w dilyn.

Oddifewn mae prudd fanau—yn lle
 Sain llawen ganiadau ;
 Oni welaf yn olau
 Deulu hoff wedi'i leihau ?

I gôf, rhyw hiraeth a gwyd
 Yn nelw yr hen aelwyd—
 Y fan y cefais wyn fyd
 Fy mabiaeth yn fy mebyd.
 O'i mewn yr adnabum mi
 Y llaw anwyl wnaï'm lloni,—
 Y lle yr adnabum ei llais,
 A'r aelwyd gynta'r wylais.

Yr aelwyd hon fu'r olaf—i anwyl
 Rieni mwyneiddiaf;
 A hon ſt'i gwên lawen gaf,
 O gant, i minau'n gyntaf.

Y fan hon ddylwn fwyn enwi—er mawl
 'Tra myg i'm rhieni,
 Er mwyn eu cynghor i mi
 I ddilyn ffordd addoli.

Eilun fy Nhad ni welaf,—a'i wên gu
 Yn un gongl lle tröaf;
 Yn ei wych wedd, hwn ni chaf,
 A'i wyneb ni adwaenaf.

Erioed, ei gofio'r ydwyf,
 Er hyn llwyr fethu yr wyf
 Wneyd ei lun fel dynunwn,
 A'i ddal ar y meddwl hwn.
 Ei hoff wedd i fy meddwl
 A ddaw yn hynod o ddwl;
 Yn ail i niwl yn ael nos
 Yn hir nid yw yn aros.
 Y mae hen gofion fel mwg
 Ar gŵl yn myn'ld o'r golwg;
 A'r hwn a gerfiwn ar gof.
 I dynged rhwbiaid anghof.
 Y llech hon uwch llwch anwyl
 Eraill—dyma gyfaill gwyl,
 A gawn i gydchwarau gynt,
 Yn hwylus iawn ein helynt:
 Dringo'r graig, hagrgraig hell
 I dy ein hogof dywell;

Gwneyd ceryg tebyg i 'stól,
 A thynu nyth y wenol ;
 Dal adar, gvatwar y góg,
 A llunio pill i'r llwynog ;
 Llunio cân ddiiddan i'r ddól,—
 Gwaen blodion gwynob ledol ;
 Llên gwawd i gyfaill gwyn,
 A thalu pwyth i clyn ;
 Denu merch i lanerch lon,
 A rhwyfo cwch trwy afon ;
 Ac yn y coed, hel enau cyll—
 Difyr waith dal llwyd frithyll ;
 Ond dyma'i orweddfa wael,
 A'i wiwdeb wedi 'i adael !
 Yn wir ! rhyw lain o weryd
 Yw chwedd y genedl i gyd ;
 Mae oes aur gân amser gwell
 Ei rhyddid, yn y briddell !

Ei breiniau ddygwyd, rhanwyd yr Ynys
 I waddoli ei lleiddiaid, yn ddilys ;
 Aeth ei harian trwy Ragluniaeth ddyrys
 I'w troi'n hollol wrth estron ewyllys ;
 Yn ei llaw, cyfraith na llys—nis medd hon—
 Ei Llyw a'i Choron mewn llwch a erys !

Eglur dai enwog welir hyd Wynedd,
 A daiar wywnaws drwy'r De dirionwedd,—
 Manem mirain o Bywys mewn mawredd
 Hoenwych olud teledion uchelwedd ;
 Ond pwy yma mwy fi'u medd—ond Sacson ?—
 Ow ! ein troi yn weision trucuswedd !

Hynod mor fyw a heinif
 Ydyw'r oes a'i llu di rif
 Yn rhwygo maenor ogylch,—
 Malu a chwalu ei chylch!
 Dyrnu grym cadarn y graig,
 A gogru bru y geugraig;
 Tyllu i fol tywyll fan
 A thynu gwythi anian;
 Myned tan wraidd y mynydd,—
 Darnio ei rwym a'i droi'n rhydd!

Agor a rhwygo'r creigiau,—a hollti
 Y golltydd yn llechau;
 A haiarn gwyllt geir yn gwau
 O ffroen oesawl ffrneisiau.

Achos celfyddyd yn uchel—ei ben,
 Hyd ar bwynt yr angel;
 Gwneyd pontydd afonydd fel
 Awyrawg ddyrchfawr oriel.

Pont Menai! pa hynt mwy hoenus—welir
 Uwch aeliau tôn wgas?
 Tidau a rhwymau di rus,
 Uwch heli'n ymgyrch hwylus.

Lle i osgordd bell esgyn—ar heol
 Yr awyr uwch ewyn;
 Baneri uwch gweilgi gwyn—
 Hardd olwg heb rudd elyn!

Is i lawr, ar y glas li',—mae ogof
 Yn mygn tros weilgi;

A nerth ein cerbydau ni
Mewn taer wedd yn myn'd trwyddi.

Trosglwyddiad pont o fadau—i weini
Suetonius a'i longau,
Welwyd yma dros aeliau
Y dôn werdd hon i'n pruddhau.

Pan oedd gwlad fad Ynys Fon
Yn dir rhydd i'n Derwyddon,
Yn aml, ei thrigolion hi,
Ddolent i gydaddoli,
Yn null a threfn lli' a thrai,
Hyd ar fin dw'r y Fenai.
Ar wyl fawr, wele foryd
A'i gefn yn fadau i gyd,
Yn dwyn rhyw arwyddlun dig
Ar y saniar Rufeinig;
A'u glyw yn anog â'i gledd
I rwygo'r plant a'r gwagedd!

Ar eu holl allu, dacw'r ellyllon
Yn brathu a gwanu hen a gweinion!
Yn niwedd awr weddi'r hen Dderwyddon,
Llu a yrant i dân eu hallorion!
Och! agor gwagedd beichiogion—mewn llied!—
Gwyar, drwy ofid, sy'n gwrido'r ason!

Ni bu maes ar wyneb Mon,
Ruddach gan waed Derwyddon!

Hir adeilad i'r Ardalydd—welaf
Yn golofn ysplenydd;

C'ANIADAU IONORON.

I l'r don, arwyddion rydd
I gludo'i fawl trwy'r gwledydd.

Ardalydd Mon gurodd Boni,—a'i wyt.
Pan dorodd eu rhesi ;
O flacu gwyr ein Heryr ni,
C'wypai Eryr campwri.

Pa Lyw fel Napolëon?—
Enill y maes wnai Llyw Mon ;
Enill olw'n lle'i aelod,—
Yn lle'i glwyf enillai glod ;
Enill hedd oedd yn lleihau—
Idyn enill i ninau,
Yn dwyn acibiant, wedi dadl
Celynneth, i gael anadl.

E fwrwyd cleddyfau hirion—i'r flwrn
Drwy'r flawd hon i'n gwron,
Ac hofyd, eedwir cofion
I fyw'n hwy na'r golofn hon.

Dyma fua Acheldema fu—ganwaith
A gwyneb yn gwacdu,
Ag amrywion ceinion eu—yr Awen,
Nau ddulliau Eden yn ei ddilladu.

A dig uel, ni nid gelyn
O! gwaged ar y lili gwyn ;
Blodau'r oes ar bladur hwn
Yn olwg ddwys ni welwn ;
Na dim yn arwyddlun dig
Ar iad ein bro garedig.

AT IONORX

Yn hon rydd
wyr gwledydd

Boni,—a'i w

rhosi:

wyr ni,

ori.

Mon;

Mae anwyl WLAD FY NHADAU—yn taro
Naturiaeth serchiadau ;
Swynion hon wrth eu mwynhau,
Ymledant trwy'r teinladau.

Hy mro sy'n denu fy mryd
I garu llwch ei gweryd ;
Mae llun aml gwm a llanereh
Yn nghadw yn sylw ein serch ;
Careg, maen, craig, a mynydd,
A'u swyn yn anfarwol sydd.

Y ddaiar wyr am weddiau—mclus,—
Moliant ein hen Dadau ;
O fewn hon cawsant fwynhau
Iach wledd yn mol ei chloddiau.

CYMRU wedi'i chysegru sydd—
Gwal a maen, neu gail mynydd,
Fu'n ddilys fan addoliad
Enwog lu merthyri'n gwlad.
Mae llu mawr dan glawr ei glyn,
Lle'r ymwél llawer milyu ;
Y naill oes ar gefn y llall—
Un orwedd ar un arall.
Gweryd bedd sylwedd ein serch
Yw mêl wyneb aml lanereh ;
A llawr hon ellir cwbi
Yn asgwrn o'n hasgwrn ni.

Rhaid gadael Gwlad fy Nhadau—i eraill,
A morio trwy'r tonau ;
Er hyn mae hon yn parhau.
Yn nôd fy nymuniadau.

Mwyn geirio dymungarwch
 I gael llawr benthg o'i llwch
 I wywo brig fy Awen
 O go' yn mro CYMBU hen !
 Yn llwch hon, â bron heb wres,
 Hunwn o gyrhaedd hanes,
 A'm natur wael mewn tir rhydd,
 Llawn ar sin llyn rhyw fynydd.
 Y gôg ar glogwyn a gân,
 I ddenu cerddi anian,
 Nes adseinio bro a bryn,
 Wedi geni gwrid Gwanwyn.
 Daw'r milyn yn nghrwydr moelydd,
 Ar ei haf ynweliad rhydd,
 I bori'r ddeilen beraidd
 Yno drwy'm tywarchen draidd :
 Yr awel gu'n denu'r dôn
 Fyw, ystwyth, ar y faesdon,
 I sio cwsg, gwas Awen,
 O sylw byd, isel ei ben !
 Y corwynt, yntau'n cario
 Dyfrllyd gwmwl dwl yn dô ;
 A'i ollwng yn pistylliaw
 Ar y glyn yn rhaiadr gwlaw :
 Golau a mell, gwlaw a mwg,
 A du hyllwedd dywyllwg ;
 Taran gref—tery'n y graig,
 A'i hoergri'n berwi'r hirgraig :
 O'r wybr y coir barug gwyn—
 Rhew ac eira brig gorwyn ;
 Daw ganaf a haf o hyd
 I orwedd ar fy ngweryd ;

A minau, â fy mynwes
 Yn brudd, a'i theimlad yn brés,
 A hunaf nes daw gwanwyn
 A gwén deg yn geni dyn.

*Y FFRWD SYDD YN RHEDEG WRTH
 FWTHYN FY NHAD.*

Wrth gofio fy maboed, pan oeddwn yn llon,
 Heb wasgu ochenaid erioed o fy mron,
 Fy meddwl sy'n dianc yn ol i'r Hen Wlad,
 At Ffrwd sydd yn rhedeg wrth Fwthyn fy Nhad.

Wrth gofio'm perth'nasau a'm cecraint hoff ryw,
 Geid gynt yn yr ardal llo'r oeddwn yn byw,
 Fy meddwl sy'n dianc yn ol i'r Hen Wlad,
 At Ffrwd sydd yn rhedeg wrth Fwthyn fy Nhad.

Wrth gofio'r cyfeillion gydechwarient â mi,
 Pan nad oedd gofidiau'n gymdeithion i ni,
 Fy meddwl sy'n dianc yn ol i'r Hen Wlad,
 At Ffrwd sydd yn rhedeg wrth Fwthyn fy Nhad.

Ar ol i ofidiau gymeryd fy mron
 Yn gartref, ar amnaid yngilant o hon,
 Ond imi gael dianc yn ol i'r Hen Wlad,
 At Ffrwd sydd yn rhedeg wrth Fwthyn fy Nhad.

Fy meddwl gofidus, aml waith yn y dydd,
 O garegar fy mynwes ollyngir yn rhydd,

Sy'n dianc ar aden ochenaid i'm gwlad,
At Ffrwd sydd yn rhedeg wrth Fwthyn fy Nhad.

Os dygwydd i hiraeth fy ngwneuthur yn brudd,
A dianc o'r deigr yn i lawr dros fy ngrudd,
Mae'n darfoel wrth ollwng fy meddwl i'm gwlad,
At Ffrwd sydd yn rhedeg wrth Fwthyn fy Nhad.

Pan byddo pob gofid, pob trallod a chur,
Yn tynu i'm teimlad fel mellt ar y dur,
Ei trydan a dderfydd yn awyr fy ngwlad,
Wrth Ffrwd sydd yn rhedeg wrth Fwthyn fy Nhad.

Pan byddwyf yn dyddfu gan boethder yr hin,
Yn methu cael dyfroedd i oeri fy min,
Fy syched a dderfydd wrth ddychwel i'm gwlad,
At Ffrwd sydd yn rhedeg wrth Fwthyn fy Nhad.

Gan row pan f'o'r dyfroedd yn rhwym wrth y graig,
Yn methu myn'd ymaith i'w ffordd tua'r aig,
Fy nghalon sy'n lloni wrth ddychwel i'm gwlad,
At Ffrwd sydd yn rhedeg wrth Fwthyn fy Nhad.

Er i mi ymfudo i eithaf y byd,
Dros donau yr eigion digofus eu pryd,
A gwnonthur fy human yn estron i'm gwlad,
Y Ffrwd sydd yn rhedeg wrth Fwthyn fy Nhad.

Ar ol fy nghymeryd o afael y byd,
A'm gwneuthur yn estron i'w bethau i gyd,
A'm claddu yn alltud trag'wyddol i'm gwlad,
Y Ffrwd fydd yn rhedeg wrth Fwthyn fy Nhad.

HIRAETH CYMRO AM EI WLAD.

Ruŵw ofid a hyd rhyfedd—yw aros
 Mewn hiraeth am Wynedd;
 Uthr yn byw yn nhrothwy'r bedd,
 A'r fonwent ger fy anedd!

Ymroi i aros, er dwyn mawr hiraeth,
 Yma yr ydwyf, am Gymru odiaeth;
 A byw yn alyn o dau bocnydiaeth,
 Ag ysig olwg yn gwisgo alaeth;—
 Wrth rodio'n cwyno fel caeth,—bron syrthio,
 A 'mroi i wylu hyd fy marwolaeth!

Os marw yn ngwres Amerig—a fyddaf,
 Caf fedd yn y goedwig;
 A daw gwâr adar y wig
 A chanant i'm llwch unig.

Ar ymweliad daw'r milyn—ar fy medd,
 Er fy mwyn bob blwyddyn;
 A thyf gwellt, glaswellt y glyn,
 I lochi'm dystaw lychyn.

Yn yr ywen, yr awel—a gwyna
 Ganwaeth uwch fy argel;
 Y gwys a'm ceidw dan gél,
 A mynwesa 'mhen isel.

Aneirif flodau'n arwydd—a nodant
 Fy nedwydd ddystawrwydd;
 A deigrin caredigrwydd
 A rêd dros eu gruddiau'n rhwydd.

Yn y rhan hon yr hunaf—yn nhy'r bedd—
 Unrhyw boen ni theimlaf;
 Ni wna lês trwm wres yr haf
 Un niwed, na blin auaf.

Y MŌR.

Ar lin dy lan, terfyn dy li',—yr wyf
 A'm bron yn ymgolli;
 Dy wnech sy'n ymdoni,
 Ac un dôn yw'th eigion di!

Eildeb agos trag'wyddoldeb, egwan,
 Yn gywir a welir ar dy geulan;
 Neud o hwnw daw muniadau anian—
 Dy lif felly sy'n dylifo allan;
 Dy lon'd o hono hyd dy lân—welir;
 A da y'i henwir ef, fel dy hunan.

Dy lif sy'n curo dy lan,
 A'i ddull yn chwyddo allan,
 A'th eigion yn bythagor
 I'r myrdd cbyr ânt i'r môr:
 Yfa'r gwynt dy lif ar g'oeidd,
 Yfi dithau y nefoedd:
 Hynod iawn dy lunial wyt,
 Y môr ôd:—"Y Môr," ydwyf!
 Dygwyd o ddim dy eigion,—
 Y Duw da greodd dy dôn.

Awdwr ei dywod, Duw'r duwiau!—wyt ti,
 Tad ein holl gyfreidiau;
 Dy ddôr sy'n ein dedwyddhau—â'th roddion
 I'r truenusion, er tori'n hoisiau.

O dy enau dy hunan—y daeth ef
 A'i odiaeth wynt, allan ;
 Y tir a wnaethost, a'r lân ;—gwnei siarad
 Trwy doriad a rhaiadr y daran !

Diau, hen ydyw hanes
 Y mor lif tra mawr ei les,—
 Ufudd i'w Grëwr, hefyd,
 E'r dyddiau borau y byd.
 Y môr yn was gymerodd
 Yn amryw fan, amryw fodd,
 I drin y byd â dwrn barn,
 Wnai ei osod yn wasarn,
 I'r hen fyd, yr hyn a fu,
 Y dw'r ing, a'r oer drengu.

Tyner oedd gwên y tonau—a'u pwyntel
 Yn paentio y bryniau ;
 A si hynaws gusanau
 Y gwynt rhwng gwanegau'n gwau.

Dylifiad awel hyfwyn—ar ruddiau
 Gweryddon y glaswyn,
 Yrai fêl i awyr fwyn
 Y glwysfor wnech glaswyn.

Awel ac wybr ag ael gu
 Yn y gwanyg yn gwenu ;
 Adar yn caru hedeg
 Am hŷn ar fron y don deg ;
 Y graig a'r aig, yn ddi roch,
 Yn dwyn eu gwenau danoch ;
 Ar led yn sio i'r lan,

E doddai'r llanw diddan ;
 Natur oll yn oll, yn wir,
 Ond y dyn, hyd adwaenir ;
 A hyn achosodd i hedd
 Y ddaiar gwrrd a'i ddiwedd.

Noah yn ei arch newydd—a welaf,
 A'i deulu yn ddedwydd ;
 A dau o bob rhyw, a'r dydd—yn nesu
 I derfynu, gan wrido'r afonydd.

Ithyw ddu nos ar ddynesu—a welaf—
 Mae'r haulwen yn gwgu ;
 A thrwy y cwmwl dwl, du,—a'i ael wleb,
 Llud ei wyneb sydd yn melltenu !

Dihuna dystaw gwsg y don dawl,
 A chwmlwyl pygddu'n gyru o'r gorwel ;
 Clywir dynesiad rhuad yr awel
 Yn rhwygo'n gwysi'r gwanegau isel ;
 A gwg yr wybren heb gél—yn llawn llid—
 Ocha'i gofid yn feichiog ô utel !
 Mellten ar fellten yn llachar foltau—
 Taran ar daran o'r uchelderau !
 Awyr a'i hydred yn groch raiadrau,
 A'i cur agwrrd yn dryllio y creigiau ;
 A dôr sawr y dyfnderau—a rwygir,
 A hwy a ollyngir yn llaw angau !

Berwi mae'r eigion barus—a'i wyneb
 Yn hynod gynhyrfus ;
 Myn agor—O ! mae'n wgu,—
 E ddaw o'i rwym, yn ddi rus !

Yn agor mae 'i wanegau,—a chodi
 'N dra chedyrn fynyddau ;
 Miliwn a geir, mal yn gwau,
 Hyd ei wnech o donau.

Gwaucgau'r brigwyn eigion,—yn eu grym,
 Yn fyddin gref, weithion,
 Ar ein tir, yr enyd hon,
 Ymresant, gan ymryson.

Rhuo a bwrw cwyn—o'u safnau—
 Ys ofnaf eu tremyn !
 Yr agwrdd weilgi brigwyn
 Dery graig—daiar a gryn !

Yn mro yr awyr y môr a rua
 Mewn modd rhyfedd ! a'i wedd a ymchwydda ;
 Ac allan weithian ei fol ymwithia
 O'i gendod utlr hynod, a tharaua ;
 Y mawr eigion ymrwyga—â chroch sain,—
 Daiar wylofain y byd orlifa !

Moroedd hen yn ymryddhau
 O rym eu hoesol rwymau ;
 Oer lif yn berwi i'r lan
 Hyd wnech hyfryd anian ;
 A cheudod gwaelod dwfn gêl
 Duw Neifion yn dân ufel.

Y môr a'i li' oll yn meiriol allan,
 A byw wedd hynod, yn boddï anian ;
 A hwnw â thwrw uwch na tharan
 Yn dyrwyfo prydferthwech pedryfan ;
 A bwlech y mynydd ban—yn erch lif ruther,
 Yn sŵio'n aruthr i'r dyffryn eirian.

Gwaelod y wlad wastad wên,
 A'i bro deg yn llwybr y dôn ;
 Y môr glas, trwy'r cwm o'r glyn,
 A'i lif yn esgyn i'r lan.

Ael y môr yn ngolau mellt
 A daema wae a'i dôn wyllt ;
 Yn ei ddirg, y graig yn ddellt
 Dery hwn—daiar a hylt !
 Ei lif ar léd red yn rhydd
 I wyneb craig y mynydd,
 I ddilyn gau addolwyr,
 A'u dwyn i wae, gyndyn wyr,
 O herwydd gwrthod tirion
 Birian a bwriadau'r Iôn.

Miliwn o dew gymylau—a yfant
 Ei ddigofus donau,
 I'w gollwng o'u dwirgellau—mewn gwyllt fâr,
 O'r wybr anwar, yn rhwygo'r bryniau !

Rheieidr yr wybr trwy yr allt
 Yn hollti'r tâl dderi'n ddellt ;
 Ar rudd y nen, dagrau hallt
 Y môr, yn diffoddi'r mellt !
 Daiar gryn rwygwi drwy graidd
 Gwaelod ei sail ddirgelaidd ;
 A thân gan duchan drwy'r dŵ'r,
 Wytliai y môr yn bentwr
 Ar y tir—dyfnder a'i tôdd—
 Anufuddion a foddodd !

Wedi i lid y Duwdod—lonyddu,
 E lonyddodd gwaelod

Yr anwar ddyfnder hynod ;—a'r llif trwm
Ruthrai i godwm ei aruthr gendod.

Rheieidr yn taranruaw
Yn drwm yn yr cigion draw,—
Hyd esgyll flammau'n disgyn
I groth y ddofn ddaiar gryn !
Yn rhydd, mynydd, a maenor,
Yn myn'd tros ddibyn y môr ;
Gyru gwigocdd gan gerhynt
Tros greigiau tan garnau'r gwynt ;
A'r môr yu sugno'r meirwon
I isder dyfnder ei dôn.
Gwynch y byd yn geunant,
A'i gefulli'n berwi i bant
Eigion y ferwden fawrdwrf,
A'r tARTH yn mantellu'r twrf.
Y fath ddyfnder oedd i fod,
O geulan môr i'r gwaelod ;
I yru'n syth i wared
Y dylif a'i lif ar led !
Y môr lonyddodd yn man
Ei enciniad yn anian.

Yn y Beibl cawn ddarlun byw
O arfogion Pharaoh'n sloi ;
A Hef y fyddin a'r Hyw,
A thwrf y môr yu ei thoi.
O'r Aifft daeth Pharaoh ar ol
Moses â llu grymusol
I gyfyng wasgfan gofid,
A llawn o arwyddion Hîd,—

Rhwng dwy graig, a'r aig á'i ru
 I'w wyneb yn ewynu.
 A Moses yn llaw rymuso!
 Eï Dduw a ddatododd ddól
 Yr eigion, gan ei rwygaw,—
 Y llif yn fur ar bob llaw ;
 A'i lu arweiniodd i'r lan
 Arall, yn osgordd eirian,
 A Pharaoh yn gorfforol,
 A haid o'i Aiffiaid o'i ol,
 Yn gyru'n ffyrnig arwyllt
 Yn ei enbyd gerbyd gwyllt.
 A charnau 'i feirch fel chwyrn fellt,
 Ar garlam, ar garlam gwyllt,
 Yn beiddio rhuthro i'r hollt
 Oedd ar wddf y dyfnddw'r hallt.
 A phau oedd yn nghanol ffordd
 Enbyd y llifgerbyd gwrdd,
 Y gwynt ddisgynai fel gordd,
 A ffoes ei fynedfa'i ffwrdd.

Ei ddur resi a ddyrswyd—a'r môr
 Ar y meirch ddymchwelwyd ;
 Ac yn llif yr eigion llwyd
 Ei fyddin oll a foddwyd.

Rhedai y môr hyd y meirch,—
 Hyf wynfor dros suanfeirch ;
 Eï gerhynt gwyllt a gurai
 Y clead i rydu'n y clai ;
 A'r balch gadfridog i'r bedd,
 A'i darian i gydorwedd.
 Y môr sy'n was yn mhob man
 I luniwr seiliau anian.

Ogylch y chwyddawg eigion—a ddengys
 Ddiyngan arwyddion
 Sy'n dweyd hanesion y don
 Uwch aelau'r creig uchelion.

Y cregin o fol creigiau—a ddygir
 Yn ddiogwan fleithiau
 Cywir oll, sydd yn sierhau
 Hanes y môr a'i donau.

Aml lain feillionog, deiliog ardaloedd,
 A gacel o'i eigion, a thâl goedwigoedd ;
 Rhanau iesin o fôr yr hen oesoedd
 Sy'n llawn gerddi, llwyni, a gwinllanoedd ;
 A'r ych sy'n pori lle'r oedd—yn y don
 Gadau mawrion o bysgod moroedd.

I le'r môr ar lawer man
 Tynwyd doniau tant aniau ;
 Mwyngar brydyddion meingoed
 Sy'n prydyddu canu'r coed ;
 Diliau'r gân gan deulu'r gwydd,—
 Gwenyn ar flodau'r gwinwydd ;
 A'r eos gyda'r awel
 Yn dwyn eu mwyn donau mel.
 Y fenyw deg rydd fwyn daith
 Dan waneg y don unwaith,
 Hyd glawr a blodau y glyn,
 A dewis ei blodenyn.
 Y march, lle bu tonau'r môr,
 Weryn tros yr oror ;
 A'r asyn yn ei dresi
 Ar y llwybr lle heigiai'r lli'.

Hyd fro asur mae eglur binyglau
 Llawer dinas lle bu llawr ei donau ;
 Llwyni newyddion, a llon aneddan,
 Yn gwenu ogylech yn nglyn gwancgau ;
 Ewynawg Fôr ruthrfanau—yn siriol
 Ddaiar swynol erddi, a rhosynau.

A gwelir aml Gantref Gwaelod—o'i sedd
 Yn suddo i'w gendod ;
 A'i thrigolion, glewion glod,
 Yn basg i'w aflan bysgod !

Dwyn yr heolydd o dan yr heli,—
 Rhodfanau gwychion, gwyrddion, a gerddi,
 Parulwys ffrwythlawu, llawn o berlleni,
 A siriol lenyrch hollus aurlwyni ;
 Eu cwmpasog gamp bwysi—o dan don
 Ddu yr eigion, yn ymgynddeiriogi !

Lle bu'r march sy'n llwybrau môr,
 A'i gerhynt uwch teg oror ;—
 Lle blodau diliau'r dolydd,
 Gyda dail llyga'd y dydd ;
 Gwinwydd peraidd i'r genau,
 A chnwd o eirin a chnau :
 Y parth ddygai'r afal per,
 Gâr wendon a'i gerwinder ;
 A gyrrir llongau gorwyeh
 Ar y waen lle porau'r ych.

Wele fyw ddinas aml o feddianau,—
 Berth a thirion ei holl byrth a'i thyrâu ;
 Llawn o orchest yw ei holl lanerchau
 I wychu daiar a'i masnachdeiau ;

A'i gwrdd hwylbreni yn gwau—i bob gwlad
 Lle y mae tyniad a llam y tonau.
 Temlau godidog—enwog ddillynion—
 Wybren eu tyrau uwch bryniau tirion ;
 Cnepyn coronog canpen cywreinion—
 Arwydd o welliant mewn amryw ddullion ;
 Cain orchest pob cynrychion,—a bywyd
 Daiar gelfyddyd, a'i dirgel foddion.
 Tai cyffredin, a iesin balasau,
 A llysoedd enwog lliaws o ddoniau ;
 Llywyddion dewrion y prif gadeiriau,
 Yn dal i wyntyll cryfion dalentau ;
 Athrawon glwysion yn glau,—a allant
 Ddwyn o'i guddiant wir ddawn, a'i agweddau.

Trigolion llon ar bob llaw
 Ar hyd y dref yn rhodiaw ;
 Llif bywyd mewn hyfryd hoen
 Ddaw heibio â gwawr ddiboen ;
 Sirioldeb gwyneb a gwedd
 Teg wenu gwlad digonedd ;
 Genethod gwridog eu grudd—
 Gwawr doriad gâr eu dwyrdd ;
 Naill wên, a chalon, y llall
 Yn nhirion wên un arall ;
 Ond ar d'raviad llygad, llif
 Dialedd y môr dylif
 A lwnc y ddinas i lawr,
 I dwrf ei grombil dirfawr !

Arwyddair y mor yw, rhyddyd,—a'i reddf †
 Yw, ffordd rydd i'r hollfyd ; †
 Nis gull ei lynges i gyd
 Ei faeddu i ufuddyd.

Wele lynges araul o longau,
 I'r awelon yn lledu'r hwyliau ;
 Amgen olwg ar drefn magnelau
 Ni adwacnwyd ar frigwyn donau ;
 A morwyr yn gwylio'u muriau—nerthol—
 I'r hynt ingol, hwy heriant angau !

Mae'r awel dawel yn dwyn
 Hafaidd beroriaeth hyfwyn,
 Anturus wych gantorion,
 I dir o wefusau'r don.

Yr haul yn llathru'r hwyliau,
 A'i gun belydron yn gwau ;
 E'u gwedd yn colleidio'r gwynt,
 A'r tonau'n chwerau tanynt ;
 A rhyw lu ar fryniau'r lan
 Yn dullio'u tyniad allan.
 Ar ael pwynt y gorwel pell
 Ymdöa y 'storm dywell ;
 Cymylau tan garnau'r gwynt
 Yn curo min y cerhynt ;
 A'r mor yn byltheirio mwg,
 A gelyn yn ei gilwg.

Yn ei blaen uthr dânbeleni—y mellt
 Yn ymwylltio trwyddi ;
 A'i llwybr ar ddanedd y lli',
 Erech wyneb, yn gwreichioni !

Ar hynt fyw yr awel, y corwynt afrywiog
 Yn tanio cynddaredd y tonau cynddeiriog !
 Y mor a'i wanar megis muriau ewynog
 Draw yn lledu yn aruthr daranau llidiog ;

A hyf wedd tra anfoddog—gwylltineb,
A bâr, ar wyneb yr wybr arianog.

Y llynges oll i angau—a gurir
Gan gorwynt a thonau ;
Y dorf yn nghyd a'i harfau,
Tan y certh gerhynt yn cau !

Gyru 'i chadernid yn gwarchod arni
Yn chwalfa gan nerth aelgerth y weilgi,
Ac creh wyneb y mor yn gwreichioni
Ar ei anafl yn cario'i hwylbreni ;
I fedd llaith perfedd y lli',—pob llong aeth—
Ymerodraeth y Mor yw, mawrhydri !

Creulondeb gwyneb gwaneg—yr eigion
Rwyga galon gareg !
Ni edwyn dyn ei wên deg—
Newidia'i wedd, un adeg.

Llawer llong a ddryllia'r lli'—a'r hen wr
Truan ei wedd ynddi,—
Benyw hoff a'i baban hi
Yn ddinam newydd eni !

Menyw dég rhwng min y don
Rwygir i fol yr eigion ;
A'i gerhynt didrugaredd,
Hyd y farn, ei dyfrllyd fedd !
Mae echrys frig dig y don
Yn taro'r baban tirion
O fynwes gynnes mam gu,
I'w achub yn ymdrechgu !

Rhwnc y mor a'i wanc marwol,
Tyn fam a'i phlentyn i'w fol!

Gyda glasiâl toriad dydd,
O'r Dwyrain yn wir derydd,
Yr awel deneu rywiog
Ar y gwydd yn deffro'r gôg,
Iach bwnc yr cös uwch ben
Yn sibrawd mynwes wybren,
A'r eigion a'i don yn deg—
I rodio dyma'r adeg;
Ac wele long uwch gloew li,—
Yn foddus tynaf iddi.

Pr awelon y codir yr hwyliâu
Yn hoew odiaeth yn swm caniaâu
Hwi ar ei hynt! daew forwr yntau
A'i lwybr an'awdd yn mrig yr hwylbrenau,
Pelydron gwymyp belydr yn gwau—ar frig rhydd
Glwysion adenydd y gleision donau.

Mae hwn yn lle dymunol,
Heb sirioldeb neb yn ol;
A gwenau brig pigion bro
Ar fwriad pleserforio.
Rhianod gwridog, gwyn groen,
Yn gwarau yn eu gorhoen;
Ac eraill wedi curiaw,
Yn llesg eu gewyn a'u llaw,—
Rhian wyl heb ddwyfron iach,
A deifiol nodau afiach;—
Naill a'r llall yn nulliau'r lli'
A welir yn sirioli.

Wrth edrych ar brydferth ochrau—y don
 O danom yn chwarau,
 A gwel'd chwim bysgod yn gwau,
 Blaendorir ein blinderau.

Llwybr y llong yn lleibio'r lli',—a'i ymyl
 Mewn gemau a lili ;
 Yr olwg sy'n sirioli
 Y fron—mae'n chwyddo gan fri ;

Ond ffol rhoi mmyd o flydd
 I'r don—mae ar adenydd.
 Gerllaw yn nhu'r Gorllewin
 Newidia rhawd nod yr hin ;
 Trin glec taranau y gwlaw
 Trwy'r avel yn tryruaw ;
 Y mor yn dygyfor gwyllt
 Gerhynt ei cigion gorwyllt ;
 A'r llong yn ninyst'r y lli'
 Ar unwaith mewn trueni !

Ar y waneg ymwyr'r hwybrenau,
 A rhwyga'r awelon frig yr hwylliau ;
 Rhai adnab'wn â hyfryd wynebau
 A'u drych yn edrych yn sudr mewn dagrau,
 Y llif yn boddi llefau—mam a phlant!—
 Tora ogoniant twrw ugeiniau !—

Rhyw fedd yw'r mor, rhy fyddar—i wrando
 Tiriondeb yn trydar ;
 A hwn ni fyn, yu ei fâr,
 Weled gwrthddrychau galar.

O'r waedd! ar haner y weddi—a gawn :—
 Y mae'r gwynt yn hollti
 Y llong ar graig yn y lli?—a'r mor gair
 Ar ei waith yn cellwair wrth ein colli!

Dacw rian lân yn glynu—wrth raff!—
 Syrthia i'r aig pygddu!!
 A'i llaw deg uwch y lli' du
 A'i drochion yn ymdrechu!

Ei nwyd groch ni wrendy gri,—na dolef,
 Mun deilwng ar foddi!—
 Trwy hynod law tirioni,
 O'i safn y diengais i.

O fewn gwlad y ddaiar ni fu—yn byw
 Neb ond y dyn Iesu
 A wnai i'w wedd lonyddu,
 Ar un gair, a'i wawr yn gn.

Ni adwaenir yn mysg dynion—un oes,
 Neb rydd ddeddf i'r wendon ;
 Gwarogaeth brig yr cigion,
 A llu'r aig, sydd yn llaw'r Iôn.

Yn aros ar gefn y Werydd—nid oes
 Na deddf na changhellydd ;
 I gludo llongau'r gwledydd
 Ei li' rêd yn awel rydd.

Ei bysg i bob cyfryw ban,
 A chwr o'r byd, sy'n chwaraeu ;
 Yn eu gemau yn gymysg
 I bob pwynt gwynoba pysg.

Y morfil ar encil ä,
 A'i anadl a wreichiona
 Wyneb diderfyn weunydd
 Ei helaeth diriogaeth rydd.
 Yr edn, a'r pysgodyn, trwy
 Ei rymus lif sy'n tramwy
 Mewn rhyddid prid yn parhau
 O fewn ei holl derfynau.

Awyr, dwfr, a goleuni'r dydd—ydynt
 Un nodwedd a'n gilydd,
 Wedi eu rhoddi yn rhydd
 I weini pob trigianyddl.

Y môr sy'n agor planigion—y tir—
 Mae'n toi yr awelon
 A lleithder dyfnder y don,—i gadw
 Bywyd a'i elw yn ein bydolion.

Ergydia i fro Gwdlion—ei ddyfroedd
 I hofrain ar chwäon ;
 A llif adfywiol a llon
 Ymollwng ar y meillion.

Nofia costrelau'r nefoedd—i ddedwydd
 Ddiodi'r aberoedd ;
 Llafar gân eu llif ar g'oeedd
 A gu lona cin glynoedd.

Ithwydd rôd at wraidd yr hadau—a'i wiw nodd
 Adnewyddâ'r blodau ;
 Y glwys eginyn yn glau
 Rydd allan o'r priddellau.

Anela'r cwmwl niwlen,—o'i fynwes,
 Y fuanaf fellten;
 A bydd taranau uwch ben
 O wefus y ffurfafen.

Y gwlaw'n golofnau gloewon
 Mgyr fru y wig, a'r fron;
 Y cefulli'n torchi tywarchen
 Yr allt—curo'r deri hen
 Yn ddarnau tan garnau'r gwynt,
 I wared gyda'r cerhynt.
 Y rhaiadr a ddyrŷa,
 A'i wedd fel colofnau iâ;
 Ei lif yn berwi i'r lan
 O'i wely dros ei geulan;
 Uniona'i ffordd trwy ganol
 Y doreithiog ddeiliog ddôl;
 Ar ei daith cura ei dôn
 Y drofa gyda'r afon;
 O'r môr y daeth—i'r môr du,
 At ei waneg mae'n tynu.

Felly'r môr a'i gudd-ddorau—yw achos
 Ein gwychion ffynonau,
 A redant yn lân ffrydiau,
 Difyr eu hynt, i'n dyfrhau.

Hoew redant gan drydar
 'Trwy barthion gwylltion a gwâr,
 Diodant filod Edeu,—
 A'r chwai bysg—adar uwch ben;
 Y llew a'r carw yn llon,
 Dw'r a yfant o'r afon;

Daw'r oen, a'r ddafad, a'r ych,
 I fin eu dwfr yn fynych ;
 A'r dyn sy'n derbyn bob dydd
 O'u byw lanw ysblenydd.
 Ffrydiau bywyd hefyd y'nt,
 A rhad drysorau ydynt.
 Heblaw disychedu'r blin,
 Eu cu ffrydiau cyffredin
 Yw nerth ein peirianau ni,
 I chwai hedeg a chodi.

Y'mlaen, gan droi melinau—cwm a nant
 Y rhedant trwy'r rhodau ;
 Er clod i'r peirianwr clau,
 Byw atebant bob tybiau.

Corn agerdd yn 'sgyrnygu—yw'r aber
 A heibio dan wenu ;
 Y tân a'i wres sy'n tynu
 Grudd ei dwfr yn agerdd du.

Ar wagle'r wybr, ymdreiglaw—ceir y mor,
 Ac o'r maes yn ffrydiaw ;
 Mor cigion yn ymrwygaw
 Yw gwledd y ffynon a'r gwlaw.

Daw'r ïogiaid o'r cigion,—torwynant
 I arianu'r afon ;
 Ac o liaws pysg gloewon
 Tra destl yw amrantau'r don.

Daw y llanw gyda llu o wyniaid
 Glân, a hoewgain, a gloewon ïogiaid,

I'r afonydd a'r dolydd mor delaid
 Eu lliw a'u hagwedd, nes swyno llygaid ;
 Anfon mae'r eigion wrth raid,—a chroesaw,
 Aml i giniaw i ymyl y gweiniaid.

Yn ei oes, y dyn Iesu
 O fol pysgodyn a fu,
 Un tro yn cael arian treth
 Oedd i'w ofyn yn ddifeth.—
 Bu arian Mor Tiberias,
 Dynai o lif ei don las,
 Yn gweini i Ion gwiwnes,
 A nerth i'w ddysgyblion Ef
 I gredu mai Iesu oedd
 Y Bod a lywiau'r dydoedd ;
 Ac mai Ef oedd Crist, helyd,
 Drwy boen a waredai'r byd.
 Y mor hwn yn nhymhor oes
 Yr Ilwn waredai'r einioes,
 F'u hynod gylech ei finion,
 A dull llonyddiad ei don ;
 Hyn o adeg, hynodwyd
 Ei drem, ei bysgod, a'i rwyd.

Ei wyrthiau, a'i eiriau nerthol,—i'r mor
 Sy'n rhoi mawredd bythol ;
 Ei enw'n anwalhanol
 A hyn fydd oesau yn ol :
 A rhoddir rhai arwyddion
 A wnaeth, yn y draithgan lion :—

A'r nos ar sin teyrnasu—ar y llif,
 A'r mor lleddf yn cysgu,

I long, rhyw fordwyol lu
A droisant gyda'r Iesu.

Rhwyfasant i glær feusydd—y waneg,
A'i gwynneb ysblenydd ;
A'r edn yn chwarau yn rhydd
O'r llwyn uwch y glasddwfr llonydd.

Mordwyent yn mro dawel,
A chain fyd chwäon o fêl ;
A'u llais ar donau y lli',
Tua'r lan yn tryloni.
Y llong i'r mor yn pellhau
Ar adenydd gwydr donau ;
A swm y rhwyfau yn si
Mudwaneg yn yndoni ;
Ond trem breuddwydion y traeth
Yw delw ffals hudoliaeth.

Torai ochenaid trwy entrych anian,—
Y chwâ heibio y gelltydd yn chwiban ;
Ei lluched ar led yr awyr lydan,
O'i thywyllwch yn ymsaethu allan ;
Toriad dychrynllyd daran—o'r nos ddu,
Yn trywanu trwy natur ei human.

Ar ei gorn disgynai'r gwynt
Ar gwr yr anwar gerhynt ;
A hyrddiai y llif gwyrddwyn
Nes siai'n gerth greision gwyn :
Y mor yn agor yn nerth
Ei nenfollt gadarn anferth ;

Achwyn ôd ocheneidion
 Yn dod o enau y don ;
 A'r llong wrth frwydro a'r lli'
 Yn y dylif yn delwi !

Y morwyr trwy'r tonau mawrion—oeddynt
 I'w swyddi yn ffyddlon ;
 Ond ofer, gan doster y don,
 I'w meddwl oedd pob moddion.

Ac aethant i fethu gweithio,—yn drist,
 Gan droi i weddio ;
 A rhywddyn uthr waeddai, “ O !
 Iesu'n annoeth sy'n huno !”

Ac un oedd iddo yn gweini—a aeth
 I'w ddeffroi gan waeddi,—
 “ Yn awr, O ! dywed i ni,
 Ai cellwair yw ein colli ?”

Yna Iesu mwyn, isel,—a godai
 Yn gadarn archangel ;—
 Ië'n wir, pa ddyn a wél,
 Ond Duw, all wneyd gwynt tawel ?

A'r gwynt geryddodd ar g'oedd,—
 Dywediad hynod ydoedd,
 Anoddyn yn lonyddu
 A gair o'i enau yn gu !

Ymrwygiad y mor eigion,—a'i donau,
 A'u danedd echryslon,
 I Iesu sydd yn weision—
 Gair Duw sy'n golygu'r don,

Diogel yw'r mor dugerth—yn ei law—
 Taena'i lif yn brydferth ;
 Er mai niwl sy'n rhwymo nerth
 Y gwynfwng gesyg anferth !

Gyda'r wancg, rhyw Gadareniaid—geid
 Gyda'i gwaith fel meichiaid,
 A Rheolwr cythreuliaid
 O ddy'n a ollyngodd haid,

A rhedodd y brwnt ysbrydion—i'r moch,
 A'r meichiaid fel gwyllion
 A aethant ymaith weithion,
 A'r da ruthrasant i'r don.

Y genfaint yn y gwynfor
 Yn fwyd i bysgod blin for,
 A foddwyd—mac'r hen fyddin
 Yn fyw, er syrthio'n ei fin ;
 A Satan crys eto
 Yn erwin frenin y fro.

Noswyl dysgyblion Iesu,—ar y don,
 Wedi'r doeth bregethu,
 Oedd ar ddwys echwydd oer ddu,
 A chwa aethus yn chwythu.

Gwclent, rhwng gwyll a golau—Wr hynod
 Ar wnech y tonau,
 Yn syth atynt yn neshau,
 A dwfn oedd brud eu hofnau.

Eu golwg ar eu gilydd—a drüent—
 Rhyw sî drwy'u hymenydd :

A rhwym ydoedd tafod rhydd
Llifeiriant eu lleferydd.

Y Gwr a'r Cyfaill Gorau—iddynt hwy,
Oedd hwnt ar y tonau ;
Adnabod eu wnebau
Yr oedd, a'i serch yn parhau.

Y tonau a'r gwynt anwar
Yn codi—'n berwi mewn bâr—
Y gwanegau'n gwyn agor
I mewn i eigion y môr,
Oedd iddo yn ffordd hawddaf,
Yn ail, bron, i lwybrau haf,
I fyned i'w gwaredu,
A'u dwyn o ddaint y don ddu.
Egyr fôr â gair o'i fin—
Yn ei air mae'r don erwin.

Y môr sy'n anghydmorol—yn ei werth
I ddwyn nwydd masnachol ;
A'r diwyd lu mordwyol,
Un a ï, daw'r llall yn ol.

Llongau y moroedd sy'n llengau mawrion,
Yn troi i'r heli trwy yr awelon ;
A rhai o Wyndawd ânt trwy y wendon,
Ar eu hanel, â hwyliau clær wynion ;
Ar daith y mae llongau'r don,—fel y gwynt,
I adwaen helynt a lle dynolion.
Ar fin y wendon mae hoewon gwmniau
I ddwyn ar adenydd anwar donau
Lwythi o'r sawrus ddail, a thrysorau
O goluddion pob math o fwngloddiau :

Y melusion sy'n mhalasau—ein tir,
Yn ddiau yrir trwy'r eigion ddorau.

O'r naill dir, yn lli' y don,
I dir arall daw'r curon ;
Daw'r cirin o dir arall
Drwy y llif i dir y llall.
Un lle sy'n cynyrchu llaeth—
Halau wna'r llall yn helaeth ;
Un man sy'n firwythloni môs—
Man arall, cwmmiu cres ;
Un wlad sy'n llawn o lo—
Gwenith wna'r llall egino ;
A'r clau wanegau'n agor
Cyfeillach masnach trwy'r mor.

Ar syw aur a thrysorau—y bydoedd,
Gwybodacth o'r Meichiau
Yw y gwir a'r aur gorau—
Hwn geir ar y llif yn gwau.

Yn gu nofia Efengyl tangnefedd
Yna ar wyneb y don cirianwedd ;
Gyru uniawn Air y Gwirionedd
I ddilëu hagrweh sliaidd lygredd ;
Nod y Gair yw newid gwedd—y ddaiar,
A dwyn hygar foddhad yn ei hgwedd.
O wlad Canaan yr hwyliwyd eu enw
Iesu ein cudeg noddfa sy'n cadw ;
O lid du anwn croeshoeliwyd Hwnw—
Seinia y mor ei hanes yn marw ;
Ar led taenir Gair ei Lw,—trwy'r don wleb,
A'i thywyll wyneb, lle teithia'i llanw.

Hanes y Groes, a loes farwol Iesu,
 Ar y du bren ga'dd wrth ein drud brynu,
 Ar ael y don sy'n troi i'w ladaenu
 I dir a'i nos yn bythol deyrnasu ;
 Gwyr y don i'r Negro du—a ddygant
 Wen ogoniant hen drefn y gwynu.

Teg waneg i Patagonia—a ddwg
 Y Ddeddf a Chalfaria ;
 Y don ddwg newyddion da
 I randir pella'r India.

A engyl Efengyl fwyn,
 A nefol ddoniau hyfwyn,
 Ledled y byd te'eidliw,
 I ddwyn gwaith a chyfnod gwiw ;—
 Dwyn y byd i adwaen barn—
 Codi'r Gwirionedd cadarn
 I fri dros y lli' 'n mhob llain,
 Briodwyd a Llys Brydain,—
 A lle preswylfod pob llwyth—
 Ismael a wneir yn esmwyth.

Wedi i'r mor a'i lifddorau—orphen
 Yn berffaith fwriadau
 Yr Hwn sydd wedi sierhau
 Ei finion i'w derfynau :

Yna, dihunir anian—& chorn Duw,
 A chryn deml yr huan ;
 A chylchoedd moroedd pob man
 Yn ddrylliau nyddir allan.

Bydd gwewyr esgor ar foroedd—a'r rhai
 Sydd yn rhwym cr's oesoedd
 Yn eu dyrys ddyfnderoedd
 A gânt eu dangos ar g'ocedd.

Ar ganiad marwnad y mor
 E ddyry ei werdd oror
 Ei meirwon o don i dir—
 O'r byd i gyd hwy godir.

Y ddaiar gydnerth oddiar ei gwadnau
 Yn ddir godir gan ddieithr ergydiau ;
 Ac ar ogwydd, chwyrndeflir y creigionau
 Heibio i'r waneg trwy yr wybrenau ;
 Yn un talp cwyd yr Alpau,—mewn uthrdeb,
 I hollti gwyneb yr hallt eigionau !

'N ol esgor o'r mor mawrwyllt,
 Bi donau geir yn dân gwyllt ;
 Bi dawch trwy ei wyneb du,
 O'i fewn yn berwi fynu ;
 Fflam o dân a phlwm i dir,
 Drwy ei geudod ergydir ;
 Ei fwn yn rhedeg a fydd
 O'i finion yn afonydd ;
 Ergydion ei eigion ef
 Drywanant drwy y wiwnef ;
 A'i lif a chwythir ar led
 Wybren drydanog abred !

Y mor sy'r un gymeriad,—o dduwch,
 A'r ddaiar trwy'r llygriad
 Yn Eden wen ; a di wād
 Mai i dân mae ei dyniad.

Y RHYFEDDODAU WYBRENAWL.

HYNOD yw gwyneb anian,—a'i lewyrch
 Yn goleuo pobman ;
 A siriol liw'r asur lân
 Fel dw'r yn flodau arian.

Crug odiaeth yw Caergwdion!—yn fydoedd
 Nofiadwy ar lasdon ;
 Y nos a'r dydd, rhydd yr Iôn,—i'n lloni,
 Ei aur oleuni ar olwynion.

Diau, pell ydyw y pwynt,—
 Canolbarth y canolbwynt :—
 Pwynt y nen—pwy ond Duw Naf
 Yn dal ei nôd a welaf ?
 Iôn yw dechrenad hanes
 Goleuni dydd, gwlaw neu dês,—
 Haul a lloer, a lle'r niwl llraith,
 A tharanau uthr, uniaith ;
 A'r mellt sy'n siarad trwy'r môr
 A dry isod o'i drysor.
 O ddim y cymerodd ef
 Wahanol gyrff y wiwnaf ;
 A'i ffyddlon weision ef y'nt,
 I rodio'i lwybrau ydynt.
 Yr Haul yw brenin y rhôd,—
 Pr Iôn, pregethwr hynod ;
 A'i wyneb ddengys anian
 Duw !—pwy dremia yn ei dân ?

Os sylwir yn nhranc nos olau—ar wedd
 Yr haul yn y borau,
 Y dôn a geir drosto'n gwau,
 Ar ddwyrain y mor ddorau.

Y sywgu wawr mewn gwisg arian—esgyn
 Tros ysgwydd gref anian ;
 A'r haul hwnt neidia i'r lan
 I ollwng y dydd allan.

Y nos ladrata o'r nen—a hil myrdd
 Heuliau mân yr wybren,
 A fföant i bant uwch ben,
 Pan welant gopa'r haulwen.

Aur wisgir llwydrew ysgwydd—y mynydd
 A mwnai ar ogwydd ;
 Ac aur a doddir i'n gwydd
 Ar lèn wybren yn ebrwydd.

Hyd wâr y glyu, pelydr y golcuni
 Rydd ail olwg ar ruddiau y lili ;
 Gloew awyr dydd yn disglaer doddi
 I'r afon lonydd ar fin ei lwyni ;
 Lluniau'r llawr yn lleni'r lli,—haul dynir,
 A'r asur welir yn clae'r sirioli.

Yr haulwen sydd yn rheoli—y tês,
 A'r storm yn ymgodi ;
 Huan â'i rudd sy'n rhoddi
 Bywyd yn hoedl ein byd ni.

Yr haul sy'n arwain y rhôd—
 Ail drwsia'r moeldir isod ;

O oes i oes mae'n parhau
 I arwain y tymhorau ;
 Arwain trwy'r eangderau
 Y gwych blanedau sy'n gwau ;
 A thyn trwy oerni a thés
 Ddir wawr y ddaiar eres.
 Duw ein Naf, yn ein byd ni,
 'Trwy law haul, baentia'r lili ;
 Adwaenir ei dywyniad
 Ar y glyn a bryndir gwlad ;
 Y blodau yn gwbl wiwdeg
 A wna y dydd á'i wén deg ;
 Doniau'r dydd sy'n dennu'r dail
 O'r gmaaf ar y gwial ;
 A'i rudd aur sy'n rhoi hurdd wén
 Ar wedd oer y ddaiaren.

Y borau, anadla'n beraidd—a'i dés
 Sy'n dwyn arogl balmaidd ;
 I ddail y myrtwydd wylaidd,
 Daw'r gwres á bywyd o'r gwraidd.

Yr haul sydd yn rheoli—y corwynt
 Sy'n cario clogwyni,
 Ac á'i aden yn codi
 Llnoedd o'n mynyddoedd ni.

Byw wyrth ar resi tlws y brith rosyn,
 A'i wawl a'i wedd, mae'n roddi bob blwyddyn ;
 A'i law e weithia haul yn y gwllithyn,
 Yn ei ogoniant, ar fron eginyn ;
 Ei daith sy'n llawenhau dyn ;—adfywiad
 Yn ei ymweliad bob dydd i'r milyn.

Ar led y wiwnef, tyn grwydrol donau
 I'r cwm eilwaith, yn llwybr y cymylau ;
 Hoff wên ei wyneb wna i'r ffynonau
 Ddiod ollwng i'r gwâr ddiadellau ;
 Edrych wna'i belydrau—ar auaf blwng,
 A'r wybr rydd ollwng ar wyw briddellau.

Y tir a wisgir â gwasgod—flodau,
 Fel Eden, mewn diwrnod ;
 Yr haul yn nhrefniant y rhod—rydd newydd
 Wedd ar rosydd y ddaiar isod :
 Dydd yr haf a dawdd yr ôd,—a'r ddôl gu
 Yma oddentu'r ffrwd yn ymddatod.

Y wîg yn nodedig dardd—
 Mae'n toi llwyn â mantell werdd ;
 I lwyd faes daw blodau fyrdd,
 A ffy ei noethder i ffrwd.

Daw prudd noethni y gwîail
 A gwedd deg mewn gwisgoedd dail ;
 Y fron ymddengys yn frith—
 Eginio mae'r maes gwenith ;
 Ymyl haf sydd yn amlhau
 Glaswellt a rhywiog lysiau ;
 Llysiau'n gynhaliath llesol
 I ddyn a nilyn y ddôl ;
 Yn gerddgar yn y gwyrddgoed,
 Dwyre cân adar y coed ;
 Y gwenyn sibrwd ganant—
 O flod'yn i flodyn ũnt ;
 A'r haul sydd yn gwneuthur hyn.
 A'i wedd yw gwisg y flwyddyn.

Wed'yn, addfeda'r cnydau—daw ag yd
 A gwair i'n 'sguboriau ;
 A'i wres fel hyn sy'n parhau
 Yn drysor cnwd yr oesau.

Yr haul sy'n cynesu'r hii,
 I goroni y grawnwiu ;
 Dwyn y fro dan gnydau'n frith—
 Brigwynu bro y gwenith ;
 A thrwy ei dês porthir dyn,
 A milyn ar y moelydd.
 Edrych yn ol, yr Hydref,
 A wna yn nghanol y nef ;
 A'r ddaiar yn prudd wywo—
 Ei dail ar ei llwybrau'n dō.
 Y dydd sy'n angau i'r dail,
 A'r gauaf fwyty'r gwial ;
 Rhua cyhoeddiad rhewynt—
 Rhew a geir ar lwybrau'r gwynt ;
 Afon—ffynon un ffunud,
 Yn graig foel, neu gareg fud.

Edrych wna'r haul ar odre—lliwiog
 Gorllewin y nwyfre,
 I alw'n ol deulu y ne',
 A'i wên, i wyllo'r wiwne'.

Y Lloer yw'r flaenaf o'r llu—
 Olau wnech yn cilwenu ;
 Bugeiles eres, eirian,
 A dug lu o'i defaid glân,
 I bori'r nos lwybrau'r nen,
 Ar obry lethri'r wybren.

Newidiol ei llun ydyw,
 Er hyn, o hyd, yr un yw ;
 Yr un yn mhoethder llathr haf,
 A'r un yw oerwyn auaf.
 Ei nwyth, weithian, ni wel neb—
 Heno, mac'n fain ei gwyneb ;
 Heddyw, mac'n brudd ac addocr—
 Maner llun a gawn o'r loer ;
 Efori,'n llawn o fawredd,—
 Llawn a gwych yw llun ei gwedd.
 Y loer sydd yn denn'r lli'
 Ar aelgerth y mawr weilgi,
 I droi ar ymweliad rhydd.
 I fynu i'r asonydd.
 Llauer llanc, gyda lliw'r loer,
 A i weled ei wiwloer ;
 Lliw'r ciru yw'r loer arall—
 Llun y loer yw llun y llall.

Arosa y loer icsin

Yn blaid i'r ymdeithydd blin,
 Ar ei daith, wedi 'i liw'r dydd
 Ei adael yn wylidydd.
 Uwch y cwm ei llewyrch eu,
 Ei enaid cwyd i fynu
 I weled llewyrch haulwen—
 Haul yn Nuw, uwchlaw y nen.

Y Bardd ar oror gwlad bell,
 O'i dyfod i'w ystafell,
 A roddodd lythyr iddi—
 Ifyn oedd—ebai'n G'ronwy ni,—

“Dywed wrth fy ngwlad wastad, wên,
 Y lleuad, fy mod i'n llawen.”

Y morwr sy'n cymeryd
 Y loer fwyn uwch llawr ei fyd,
 I'w arwain trwy'r dyfnderoedd,—
 Ei gwén hi gan Noah oedd.
 Y morwr wna drem anraul,—
 I'w hynt rhed wrth bwynt yr haul;
 Wrth y ser ei gymhorth sydd
 I gael hyd i byrth gwledydd;
 A thry y loer ei throell arian,
 Ar lif i'w arwain i'r lan.

Llawforwyn á'i lleferydd
 Yn dweyd fod goleuni dydd
 Heb adael cylech y bydoedd—
 Yn ei gwawr mae hwn yn g'oeidd,
 Yn y nos, yn mliwynt y neu,
 I weryd y ddaiaren.
 Hardd ddyry arwydd araul,
 A'i llaw mor wych ! lle mae'r haul :
 A dengys á'i bys o bell
 Ei dy ef, a'i ystafell.

Eu haner nis gallaf enwi,—na dweyd
 Yn deg eu rhifedi;
 Ac nid neb yn ein'cnawd ni
 A wyr—maent yn anciri' !

O fewn y ffurfafen faith—y rhoddwyd
 Arwyddion mor berffaith
 O wych ac anfeidrol waith,—yn drwyall,
 I dori anadl Atheist ar unwaith.

Pa waith mor berffaith sy'n bod
 A dedwydd waith y Duwdod,

Dorwyd, mewn cerfiad arian,
Ar led daleni'r wybr lân !

Golau a disgleirdeb gwiwlan,—y nos,
Ddengys Naf yn mhobman ;
A'r dydd, mewn llythyr o dân,
Yw tywyniad Duw aniau !

Acw'n y gwagle y cawn y Gogledd
Wedi 'i rifo â phlanedau rhyfedd !
A gorwych olwg o arucheledd
Yma erys yn ngogoniant mawredd :
Gwych yw amrantau a gwedd—cysgodion
Naf, a'i weision, sy'n waith glân ei fysedd.

Olwynion gwawl, wybrenawl beirianau,
I'w hantur ydynt yn pwyntio'u rhodau ;
Amryw a welir yn ngrym rhyw heulian,
Yma a droant yn eu modrwyau ;
Dirwyn drwy'r canglerau—mac miloedd
O araul fydoedd, yn grwydrol fodau.

Esgyn fy Awen wisgi,—i weled
Holl heuliau'r golcuni ;
A gollwng air, os gelli,
Yn ol o'u hanes i ni.

Wele yn awr ein Haul ni,—a'i osgordd
Yn gwasgar golcuni ;
Byd o dân, a bywyd i
Ryw fydoedd aml rifedi.

O ! mer luniaidd yw trem yr olwynion,
Wedi eu gosod yn hynod gyson ;

Pob olwyn yn fyd hyfryd ar ddwyfron
 Awyr o wagle, uwchlaw peryglon;
 Ni thyr na chorwynt na thon—eu rhodau,
 Na rhwygiadau yn un o'u hergydion.

Nofiant trwy wagle'r nefoedd,—a thraut
 Wrth reol eu cylchoedd:
 A'i Air Eif o'r dechrau oedd
 Eu llyw i gadw'u lleoedd.

Mercher, a Gwener ganaid,
 Fel menyw gu'n gwennu gaid;
 Y Ddaiar a fu'n dduwies
 Yn y rhif yn mlach y rhes;
 A'i Lloer yn harddach na'r lleill,
 Er gyru'n *lloerig* ereill:—
 Mawrth—ar ei fwa mae mell—
 Rhyfelfyd a'i uthr filfellt,
 Taranwr trwy y wiwnef,
 A'i lu yn cynhyrfu'r nef;
 Rhua wrth groesi'r awyr,
 A'i wedd yn angau i wyr!
 Astrëa a rodia'n rhwydd—
 Iris a Vesta'n hyrwydd;
 Daw Juno, dan rodio'r wybr,
 I'r golwg ar ei gwiwlwybr;
 Scres* mewn gwregys arian— * *Ceres.*
 Palas fel dinas ar dân;
 Yntau Iau, eu tad hwynt oll,
 Yn deg ei wedd a digoll;
 Sadwrn a *Georgium* Sidus—
 Gwnant eu llwybr o'r wybr heb rus:

Neifion yn mhen draw'r nefoedd,
 Duw'r môr yn fyd enbyd oedd !
 Golwg fawrddeddog welaf
 Yn null gwaith olwynion Naf;
 Peiriant aruthrol Peryf—
 Minau nid wyf ond brau bryf!
 Dyma a llyna y llall,
 Yn dirwyn planed arall ;
 Mae hon yn troi i'r munyd—
 Y llu geir felly i gyd ;
 Hwnt yn wych yr ânt tan wau,
 A mesurant amserau.

Pa iesin fyd yn pasio—ydyw hwn,
 A'i dyniad ar chwildro ?
 Llewyrcha gwawl eurbawl o
 Nerth ei lun wrth olwyno !

Tery i'w bwynt naturiol—ar wib bell,
 I'r pwynt Gorllewinol ;
 A'i lwybr yn dawel o'i ôl
 Ar y waneg wybrenol.

Yn uwch i fynu i'r nen,—un arall
 Yn euro yr wybren,
 A welir fel rhyw haulwen,
 Yn notio hyd y nef wen.

Heuliau uwch heuliau gorwych a welir
 Trwy'r nen fawreddog, droiog fodrwyir ;
 Y glaer oleunef ddisglaer a lenwir ;
 Aur orielau trwy'r awyr a hwyilir ;
 Arwyddion Duw a roddir—yn mhob man
 Yn netwad aniau—ei law adwaenir.

Er esgyn, esgyn yn uwch,
 Nis caf un hanes cyfuwch,
 A'r uwchaf o orwychion
 Blawclau a heuliau Iôn.

Fel hyn, mil myrdd siliynau—o fydoedd
 Nofiadwy sy'n chwara;u ;
 Ant trwy'r entrych, tân wych wau,
 I'w helynt am eu heuliau.

A'r heuliau sy'n troi'n rheolaidd—am Haul
 Mawr y cyleh seraphaidd,
 Yr hwn yw grym cadarn graidd—canolfan
 HOLL heulian anian, a'u llu olwynaidd.

Goruchion sydd—gwreichion sêr
 Ar chwildaith trwy'r uchelder,
 O oes i oes yn parhau
 I ddweyd y Rhyfeddodau.
 Yn chwai y dygir in' chwedl,
 Hanes y Lloer a'i chenedl,
 Hyd y byd gan damlyd hêl,
 Ar dafod o frwd ufel.

Eraill, a llosgyrnau hirion,—wibiant
 Heibio'r holl gysgodion ;
 Eu gwaith yw pregethu Iôn,
 A thraddod iaith arwyddion.

Yn eu hynt, hanes y naill
 Yrir i ryw rai eraill ;
 Hanes pwynt un oes, heb ball,
 A yrant i oes arall.
 Yn yr wybr, eu tremyn rydd

Genad i'r daroganydd
 I ddweyd am ddygwyddiadau
 O anian syn, yn neshau !
 Rhyfel erchyll ei helynt—
 Newyn i hau gwac'n ei hynt,
 A haint dychrynlyd ei wedd,
 I'n daiar, yn y diwedd !
 Ond swrth yw dewiniaid sér
 I oleuo rhyw lawer ;—
 Gweision ar brif negesau
 I Dduw Iôn y'nt yn ddi au.

Y neu sy'n datgan gogoniant Naf—mewn
 Dinam iaith ddianaf ;
 Gair Iôn yw brawddeg yr haf,
 A'i iaith yw'r hirfaith auaf.

Y Deist sy'n gwadu'n Llyfr Duw
 Ddaten Moses, a'i ddiluw ;
 A dir yw y gwadau ran
 O'i hanes du ei hunaf.

Dewisodd Duw ei weision—i gynal
 Gogoniant ei goron,
 Dymhor hir, diau mai'r Iôn
 Oedd wir Dduw i'r Iuddewon.

Yn yr Aifft, ei enw rocs,
 A'i wedd, i Moses ei was ;
 A'i elynion creulon, croes,
 Dynai i lif y don las.

Arwyddion o'r nef roddodd—â manna
 Dymunol fe'n porthodd ;

O'i law fawr, mewn dirgel fodd,
Ar ei lu, bara wlawioedd.

Niwl a thân, haul a thonau—lloer a ser,
A llawr sych yn ffrydiau,
A wneddyw Iôn, yn ddi au,
I'w weision yr hen oesau.

Arweiniodd ei bererinion—ei hun,
Trwy ganol peryglon ;
Dafnau y dyfroedd dyfnion,
A'r ser, ymladdent tros Iôn.

Yr haul a safai ar hynt,—y lleuad
Oedai 'i llewyrch erddynt ;
Mae ser gwib o'r amser gynt
Yn arwyddion Iôr iddynt.

Dygwyd rhai, ar adegan,—yn y nen,
Yn eu haul gerbydan ;
Enoch heb brofi poenau,—geir hefyd,
Wedi diengyd o dud angau.

Mysbys yw, i Elias y 'Thestiad,
Yn rhinwedd mawredd ei gymeriad,
Droi heibio i'r lân drwy wybr olwyniad,
I le na wyddis ei ail lunweddiad ;
O fyd er'dd adgyfodiad ;—rhyfeddod
Yr hwn a welodd ei wybren atwad !

Ar ddaiar yr Iuddewon,—is haulwen,
Sylwodd llu'r uchelion ;
Aml air sydd yn Llyfr Teml Iôn,
A roddwyd trwy arwyddion.

Seren o'r Dwyrain roes arwydd—geni
 Gogoniant ein Harglwydd ;
 Hono'n chwai a redai'n rhwydd—o'i sedd fry,
 I'n daiar obry, yu dra ebrwydd.

O loes y gwyl Iesu gwyn,—y nefoedd
 Oedd yn ngafael dychryn ;
 Duw ar y Groes—daiar gryn !
 Wywa'r haul fel blodeuyn !

Yr wybr, mewn tymhestl yr oedd,
 A rhyw byd ar y bydoedd :
 Ciliai un ar encil ôl,
 Drwy draillruthr draw o'i droellrod ;
 A'i gyffro'n lluchio'r llall,
 A'i yru'n nhro un arall :
 Agweidd y nen fel cigion—
 Caerai dydd, curai ei dôn ;
 Yr haul ollyngwyd yn rhydd
 O flaen ei lif aflonydd ;
 Ac oni bae, 'n mryncyn bedd,
 I'r Oen foddloni rhinwedd
 Yn yr Iawu, o dan lawn lid,
 Yr holl asur ddrylliesid !

Ioan a welodd lawer—o ddiidwyll
 Ryfeddodau amser,
 Draw yu mangre nwyfre Ner ;—yr hen sant
 A welodd ogoniant cledd y Gwiwner.

A thynged y saith angel—a welodd,
 Mewn olwyn o ufel,
 A gawr eu hudgryn, heb gêl,
 D'rawai ruad drwy'r awel.

Yr angel cyntaf a ddringodd—uwch ben,

A'i groch bwnc udganodd ;
 A gloew dân o'r gwagle dōdd !
 Y ddaiar, a threm dduodd !

Yr ail udganodd, a'r Iôn
 Rwygodd wyneb yr eigion,
 O'r wbr, trwy ollwng yn rhydd
 I'w hallt fin, danlyd fynydd ;
 A'i wyneb gwyn, ewynawg,
 Godai i gyd fel gwaced gawg !

Y trydydd udganydd gwych
 A yrodd seren orwych
 O fol y ffurfafen fawr,
 I'r afonydd trwy fuenawr ;
 A'i dwfr, gydag ymchwydd dig
 Yn curo min y cerig,
 A fu 'n ing afon angau
 I ddyn, lle rhedai'n ddi an !

D'ai arall yn bedwerydd,
 A rhocs ei udguniad rhydd ;
 A'r haul a dduodd ar hyn,
 I'w ymylau aur melyn ;
 A'r lloer a'r ser—glwysder glân,
 Ei rhif oll darfai allan !

O'i flaen, y pumed rocs sloedd,
 Dorni'n ofid i'r nefocedd ;
 A seren wen ddisgynodd
 O'r wybr, ac uffern gyffrōdd ;
 A mwg gyfododd fel môr
 O weryd ei du oror ;
 A haid o locustiaid coll
 A dyrchent gnawd â'n harcholl.

Dengys y chweched angel—arwyddion
 O ruddwaed a rhyfel;
 A phenau'i feirch â ffûn fel
 Chwa ffroen afiach ffwrn ufel.

Tân a mwg, brwmstan a mellt,
 Ferwai o'u hol yn fôr hallt;
 Gan ei bâr, â gwyar, gwellt
 Yn goch, yn nyffryn a gallt!

A'r ddaiar annifyr, oddiar y nefoedd,
 Duw a ryfela o blaid ei aur filoedd;
 Hyf fydd ei enw o flaen ei fyddinoedd,
 A braw â o'i wyneb trwy yr wybrenoedd!

E welai Ioan cilwaith,
 O'r ser, a'i allu tros iaith,
 Yn nghanol hwyr, angel arall,
 A llun disgleiriach na'r llall,
 Yn disgyn nôd ei asgell
 Heibio i'r byd o'r wybr bell.
 Ei osgo ferth a'i wisg fad
 Mal ysgafn gwmwl wisgiad;
 Gwiw enfys o wawl gwynfyd,
 Ar ei ben, gysfyddai'r byd;
 Ei burwch wnech araul
 A'i rym yn debyg i'r haul;
 A dull ei droeddiad allan
 Un dull â cholofn o dân.
 Un troed ar fryncyn y traeth
 Wyrodd i ddweyd ei aracth,
 A'r llall ar ferw y llif
 A ddaliodd yn ei ddylif.

Ei lais daranodd ar led
 Ffân wybren hyd ffin abred ;
 Ac adsain yn y cydser,
 Yn hir swm, darana'r ser ;
 A'i dwrw yn saith daran,
 Wibiai ar led yr wybr lân.
 Ei law gyfododd i'r lan
 O doriad y saith daran ;
 Ac ef a dyngodd ar g'oeidd,
 I'r Bod a grogai'r bydoedd,
 Na byddai'n hwy amser, mwyach,
 Yn troi y byd, ond tro bach.

Dengys y seithfed angel—-a welodd,
 Ryw olwg oruchel
 Ar y byd i gyd heb gél,
 Lle troai'r mellt a'r awel.

Ac yn y lloer canai llu—o engyl,
 I angau yr Iesu,
 Yr Ilwn geir gan Iôr yn gu
 Deyrn ocsawl i deyrnasu.

Ein Haul ni ar ael y nen—-a erys,
 Ryw forau, 'n yr wybren ;
 A bydd fel yn cuddio ei ben—gan wrid ;
 A phâr ef ofid yn y ffurfafen.

Yna y daw arwyddlun dydd—y faru,
 Fel rhyw fyd ysblenydd ;—
 Y wawr fwyn yn chwarau fydd
 Ar ei dyner adenydd.

A daw araul Haul yr heuliau—i'r wybr,
 Yn rhês o orielau,
 O fyw wawl y nef olau,
 Yn swm telynau 'n neshau.

Yr Haul hwn a orlenwir—o fodau 'n
 Rhifedi gwllith eilir;
 A rhol y meirw elwir
 Uwch y rhôd o'u carchar hir.

A'r Oen a ferchyg yr Haul,
 A'i cres wyneb araul
 A dery y rhod eiriau—
 Aden dydd a wrida 'n dân;
 A'r sêr i dranc difancoll,
 Hwnt o'i wydd, a ffôant oll.

Y meirw a gymerir—i'w wyddfod,
 A'r deddfau ddinystir;
 Awyr a thân, dw'r a thir,
 Oedd o ddim, a ddiddymir.

Eraill gysgodion eirian—puredig,
 Ysbrydol yn gyfan,—
 Yn berffaith gymwys, glwys a glân,
 A lunia yn ail anian.

I droi 'n hoew, daiar newydd,—a nefoedd,
 Mewn nwyfiant ysblenydd,
 Yn y fan, yn gweini fydd,
 Ar beirianau 'r wybrenydd.

A Dinas ar adenydd,—i weared
 Mesura 'r wybrenydd;

O uthr faint, ei llwr a fydd,
Yn awyr y byd newydd.

Ei mur ddeil ei gydmaru—ag un gwaith
Gawn gan ddwyfol allu ;
Un o'i fath erioed ni fu,
Mewn urddiant meini harddu.

Un perl yw defnydd pob porth,
Geir yno 'n pwyntio pob parth ;
A'i liw 'n anfeidrol ei werth—
Mwy enwog yw na maen gwyrth.

Nid hauru ydyw ei heol,—ond aur
Dan dô o wydr siriol ;
A Duw Naf, heb rad yn ol,
O'i mewn yn Iaul dymunol.

Ac O! yr olwg geir o'i heolydd
Ar rôs byw lwyni'r llwybran ysblenydd ;
Syw lawdd ei llynau grisialaidd, llonydd,
A difyr funau dwfr ei hafonydd ;
Syllfa pob rhodfa yn rhydd—i lenwi
Awyrlwyni y Bardd a'r Arlunydd.

Y wlad o'i hamgyleh ogylech yn hygar
I loni dewis lwyni ei daiar ;
Coronir pob llwyn gan gerddi mwyngar—
Alawon gwyrddgoed yn odli 'n gerddgar :
Y dyn gynt am dani gar,—yn llawen,
Adaël ei Eden, ei dail a'i hadar.

Ei hair haf bery hefyd,—ac engyl
Ar gangau bytholfyd ;
Ni bu dawn ail, mewn un byd,
I Awen Pren y Bywyd.

Ni sonir am nos yno—
Dyrwn na brwydr yn ei bro ;
Heb neb yn glaf ac afiach—
Heb un bedd na baban bach.
Neb yno 'n byw i henocd—
Byw heb dranc i ieuanc oed ;
A byw i foli 'n ddi baid
Enw'r Oen yn yr enaid.

Yma, mewn corffyn a'mhur,
Yn nód poen, mac'r enaid pur ;
Yno, mewn perffaith enaid,
Y corff fydd byw—byw 'n ddi baid.

AWDL AR ELIAS.

Duw Iôn sy'n dweyd ei hanes—yn yr wybr,
 Ac yn yr haul mawrwres;
 Awyr a thir, dw'r a thés,
 O law Iôr sy'n Feibl eres.

Beibl arall i'r bobl cirian,—a roddlodd
 'Trwy'r Iuddew yn Nghanaan;
 A hwn yw clo pen pwne glân
 Ei enw mawr, a'i anian.

Ac yn y drych hwn cawn dras,—neu wawriad,
 Ein gwron Elias,—
 A fu i Dduw 'n ufudd was,
 I daro 'i clyn diras.

Elias oedd was urddasol—i Dduw,
 A chanddo ddawn gwyrthiol;
 Ei ddydd adawodd ei ôl
 Ar ran o'r byd dwyreiniol.

A bywyd Jeroboam—a aelhus
 Felltithiodd haul Abram;
 Rhodd ergyd i ffordd wyrgam
 I'w hudo hwynt at had Ham.

Jeroboam roes gam gwyr,—
 Du wasanaeth disynwyr!—
 Hudo'r genedl i adael
 Ei Duw a'i heidd, a'i 'Thad hael,

I ynfyd weithred anfwyn,—
 Addoli lloi dan ddail llwyn!
 Yn waeth, waeth, yr aeth ei rym,
 Ac allwydd ddygai 'n gyllym
 Ar ei dy, a thorwyd ef
 O wenau tadol gwiwnef;
 A Nadab ei fab a fu
 Elyn i Dduw a'i deulu;
 A'i aelwyd a'i wehelyth
 I weryd barn dorwyd byth;
 Ac mewn prudd fedydd rhuddwaed,
 Ei gwn lyfasant eu gwaed!
 Gwae a wylia bob gelyn,
 A daw i fedd, os Duw fyn.

Baasa fu 'n dangos bysedd—arwyddent
 Ei lawruddiog duedd;
 O fyd aeth yntau i fedd,
 Dan weryd ei auwiredd.

I Elah a'i holl dylwyth,
 Hyd y pen, talwyd y pwyth;
 A'i waed a roed hyd yr âr,
 Fu i'w dud yn fwyd adar!

A Simri, wedi troi 'n waelwr—Elah,
 A ddaliwyd yn fradwr:
 Enynai dân yn ei dwr,—a'i gaeran:
 A bu yntau farw yn ei bentwr.

Omri, a'i feddwl amrwd,
 Er oes oedd wyfyn a rhwd:
 A hywyd Jeroboam
 Fu'r modd y certldodd bob cam.

Ac Ahab ei fab hyf wibiodd—o'i ol—
 Gorchymyn Duw fathrodd ;
 A mwyl gelyn, yn mhob modd—oedd hwnw,
 I'w bobl a'i enw, na neb a'i blaenodd.

Unodd ei gorff a'i enaid,—a'i allu,
 Wrth ewyllys dialliaid ;
 A dynes o'r Sidoniaid,
 Yn ei gwyn, i'w ddamnio gaid !

Ahab ydoedd fab y fall,
 A drōai i'w phwynt yn dra phell :
 Llunwai ei gyleh yn llawn gwall,
 A'i wyr nid oent nemawr well.

Oes ei wraig oedd ddraig i ddreigiau,—a'i bron
 Yn brês mewn teimladau ;
 Ni edwyn y byd a'i nwydau
 Ail yn darwain creulonderau ;
 I odineb ei hŷd wenau
 Gnawdol lithient genedlaethau :
 Ar antur rhuthrai yntau—yn ei hol
 I wydiol bechodau.

Hwn a welwn yn ei annuwoliaeth
 Yn dal i ddilyn delw addoliaeth ;
 Ac i ddewis allor gau dduwiaeth,—
 Allor Duw rwygai 'n llwyr o'i diriogaeth ;
 Allor Ner i'r llawr a wnaeth—ei thynu—
 Bwriai o'i denlu ei hysbrydoliaeth.

O galon Jezebel, ufel nosfodd
 Ar y ddaiar, a'r awyr a dduodd ;

Ac yn ei harfwig uffern gynhyrfodd
 I grwydro y wlad—Gair Duw erlidiodd ;
 Y werin a ferthyrodd—dan ei throed,—
 Y gwan a'r henoed i'w gwyniau ranodd.

Ahab a hithau ynfyd obeithient
 Wrth allorau 'r gau ddelwau addolent ;
 Ac yn eu hanwiredd cyniweirient
 Drwy y wlad, a'r prophwydi erlidient ;
 Wed'yn, hwy warthus wawdient—Dduw eu Hior—
 Ei aur da, a'i allor, a dywyllent.

Ar gais ei wraig, ei weision,—i wann,
 Ddiweinient eirf llymion ;
 Deuai 'u cleddyfau 'n dewion
 Ar waed prophwydi yr Iôn !

Rhyw forau cain, ar frig cynar—wanwyn
 Yn gwenu o'r ddaiar,
 Ahab falch, tybiwyf, heb fâr,
 Rodiai yn mhlith yr adar.

Aethai yno wrtho 'i hunan,—a'i wledd
 Oedd, ei lwyddiant arian,—
 Ei eurog lŷn, a'i wraig lân,—a gwridog,
 A'i lysocdd euwog ar lwysydd anian.

Yr egin o bob rhywogaeth—welai
 A golwg cnwd helaeth ;
 Y llwyni chweg, dillyn chwaeth,
 Mor hoew mewn anrywiaeth !

Ac i'w faes mwyn, gwefus Mai,
 Yn hidlo 'r mŷl, anadlai ;

Yr adar wrth briodi
 Yn canmol ei freiniol fri;
 A'i enaid llawn o human
 Yn chwai a deimlai ar dân.
 Yn ei feddwl canfyddai
 Arwydd o'i lwydd yn ddi lai;
 Ei dir arwyddai yn deg,
 Deuai cnwd cyn ei adeg;
 Ar bob llain, gwelai'n gain, gu,
 Yd a gwin wedi gwennu;—
 Ond yn y fan, dyna fab
 I Dduw yn gweiddi,—“Ahab!
 Ni ddaw gwlaw ar ardd na glyn—
 Heb wledd byddi dair blwyddyn!”

Ar hyn, Elias a droes
 Ei wyneb am ei einioes,
 Hyd y wlad, wedi ei lith,
 I fin caer a fon Cerith;
 Ae Ahab mewn dig wewyr
 A aeth i wel'd ei ddoeth wyr.
 Elias yn nghudd leoedd
 Dinod ardal anial oedd;
 A'r adar a ddarparwyd
 Gan Celi i'w borthi á bwyd;
 A gwefus y gu a fon
 Oerau frwd sychder ei fron.

Wedi i'r a fon wiwdeg,
 Gan sychder dwysder hin deg,
 Sychu, fe ddwysai'i achos,
 Heb wlith nen, ac heb laith nos;
 A Duw a ddywedodd,—“Dos
 At wyr Sarepta i aros;—

Yno cei wraig dirionaf,
 Mewn c'ledi, yn ofni Naf,—
 Y sawl a fwriedais i.
 I wyrth o'i llaw dy borthi."
 Yna yr aeth trwy'r twynn wres,
 Ei hun,—yn ol yr hanes—
 I gyflinion estron haid,
 A dinas y Sidoniaid.
 Yno, wrth borth y ddinas.
 Gwelai lun gwraig welw, lās ;
 A gwaeddai,—“Hai! gwrando hyn,—
 Er y niwed wna'r newyn.
 O! dwg, atolwg i ti,
 Damaid a diod i mi.”
 Y wraig atebai yn rhwydd,—
 “Brglyw, fel mai byw'r Arglwydd!
 I'm hoed nid oes ond hon'd dwrn.
 Coelia, o flawd mewn eclwrn :
 A'r olew, prin y gwelir
 Ei wedd yn y 'stên yn wir!
 Prin, prin y gellir gwneyd pryd
 I mi sy'n werth fy mywyd :
 Wyf weddw'n marw, a'i mab,
 Yn newyn cilun Ahab!”
 Elias, â deigr gloewon
 Ar ei rudd, dd'wedai'r awr hon,—
 “Nac ofna, nac ofna'r gwr
 A roed i ti'n waredwr;—
 Ufuddha—ni dderfydd hyn,
 Yn Nuw, tra par'o'r newyn.”

Hithau wnaeth, a daeth bendithion—i'w thly
 Wrth ei air yn union :—

Mae loes yn dwyn melusion
I'r rhai sy'n credu Gair Iôn.

Ni bu arnynt angen bwyd,
A'r olew oll ni threnliwyd,
Hyd adeg y dywedriad—
A rydd yr Iôn, mae 'n rhoïd rât.
A thrwy law nthr Elias,
O ing glyn angau glâs,
Ei llanc yn wridog a llon,
Gymerwyd o fysg meirwon.

Anwiw farn Ahab, dan gnofa 'r newyn,
Dwymnai ail ddolur damniol i'w ddilyn ;
A'i wraig anwar yn cynddeiriog enyn
Ei enaid i lid, andwyol adyn !
Nid oedd ond cythraul mewn dyn !—ac amlwg
Oedd yn ei olwg i Dduw yn elyn.

O lysoedd Ahab, Elias dduwyd,
A thrwy wledydd, ei daith a erlidiwyd ;
A min y cleddyf, bu 'r meinciau laddwyd
Wrth ei air, a'r prophwydi ferthyrwyd ;
Drws ing gan drais eangwyd,—gwaed-ffoaydd
Ar heolydd Samaria a welwyd !

O dan wae y du newyn,
Parotoûd Ahab, pryd hyn.
Obadiah, fab duwiol,
I erlyn dyffryn a dâl :—
'Tynodd yntau ei hunau,
Am wellt i chwilio pob man.
Elias gwrddai luoedd
Obadiah 'n hela oedd

Am wellt, mewn dir gyni maith,
 Yn nibyn gwyllt anobaith ;
 Ac fel llew, y gwr blewog,—
 Gwas glew 'n ei wregys a'i glôg,
 O'i flaen safai 'n hyf flaenawr,
 Oedd yn fwy na byddin fawr.

Gwas Ahab a'i hadnabu—
 Yn y far ymostwng fu ;
 A gair dwys dd'wedai gwr Duw :—
 "Tro wyneb at yr anniw ;
 Ac nac aros,—dos a d'wed
 Fy nghael, ac it' fy ngweled."

A'r gwas ymbiliai ar g'oedd,—
 "Na wna!—ôfni y nefoedd
 Yr ydwyf, a gwaredais
 Gant o brophwydi ar gais
 Dy eman di dy hunan—
 Darperais,—rhoddais eu rhan.

Yn awr, bu Ahab an noeth
 Yn gofyn trwy holl gyfoeth
 Y byd am danat o'i ben,—
 Aeth hyd dylwythau Eden
 I holi am dy helynt !
 I dy ladd, mewn dial hynt !
 Diodid, pe dywedwn ;
 Yr Ysbryd a'th gyfyd, gwn,
 I wlad nas gwyddir dy le,
 A bwrir cyn y bore
 Dy was i'r bedd o dy wydd—
 Erglyw,— 'r wy'n ofni 'r Arglwydd."
 Ebai Elias,—“Gwybydd
 Yr af â chydwybod rydd

I wydd dy feistr, i ddweyd fod
 Arnaf fi eisiau diwrnod
 I ddangos pwy sydd eugyn—
 Pwy sydd Dduw,—pa was sydd ddyn.”

A gwas Ahab agoshaodd—ar frys
 Ger ei fron, a d’wedodd ;
 Yntau draw i’w hynt a drôdd,
 A sylw Elias alwodd.

AHAB.

“Ti, y gwr sy’n haint dy gael
 Yn nosran brenin Israel.”

ELIAS.

“Nage’th di, yth di a’th dad,
 Yw y gwr a’th wraig irad.
 Iaith Jezebel a’i delwan
 O gyleh ei phrophwydi gau,
 A du waith ei mellithion,
 A rêd i glustiau yr Iôn.
 Daw’r maen i dystio o’r mur,—
 Trais hon etyb tros natur ;
 Aml y clyw yn mol y clawdd,
 A medra gyllyn adrawdd
 Ei hanes a’i dhygioni,
 A thwyll waith ei thwyll hi.
 Dos yn awr, dewis i ni
 Holl ewn brophwydi ’r llwyni,—
 Dwg eu garm i ben Carmel,—
 Prophwydent,—gwaeddent heb gél ;
 A minau ’n ddian ddenaf,—
 Allan fy hunan fi af.”

Ahab a aeth, a daeth ei gymdeithion.
 Ar led y mynydd, o'r wlad i'w minion :
 I'w le i siarad. Elias wron.
 Ag ÷on iaith, a esgynai weithion :
 Ac i'r frwydr oedd ger ei fron—wynebai.
 A'i fraw lanwai nifer ei clynon.

“Paham y cloffweh,—pa hyd,”—ebai ef.
 “Os Bael sydd Dduw, hefyd.
 Yn iach ac ewn eweh i gyd
 Ar ei ol yn chwareulyd.

Neu os Ión, fy ninas inau,—yw Duw
 Doeth yr holl elfenan,
 Na chloffweh,—glynweh yn glau
 Yn hynt ei fyddin yntau.

Parloweh fustach yn iach oll.
 A dygweh offrwm digoll ;
 A hwnw weth fodd anian
 Eich duw ; ond na ddygweh dân.
 I fy Iór dygal finau
 Un arall—un gwall na gau
 Ni welweh yn fy nwyllaw,—
 Y llwybr sy'n deg ar bob llaw :
 A'r duw ateho trwy dân.
 F'o unig Beryf anian.”
 “Da ydyw y dywediad.
 A'i lwybr,” ebai pobl y wlad ;
 “A'i gais gyllawner heb goll,
 A rhydd deg arwydd digoll.”

Lluniodd prophwydi'r llwyni—yr allor—
 Drylliwyd yr ych arni ;

Ac oeddynt yno'n gwaeddi,—
Baal, ein nêr! gwrando'n pobl ni!"

Elias â llygaid gloewon—gerddai
Ag urddas cadwron;
A dull ei wyneb a'i dôn—yn gwatwar
Eu rhû a'u galar, a'u hofergoelion.

Ac ebai, " Os ocs gobaith
Y gwel gyfyngder eich gwaith,—
Os duw i'r annuw ceir ef,
Dilys y gwrendy'ch dolef;
Ac y rhydd allan dân dig,
Ac eirias dawdd y cerig;—
Gwaeddweh,—gwaeddweh i gyd,—
I'ch hawyrgylch rho'weh ergyd."
Ond Baal ni wrandawai'u bw
Mwy na'r mur mynor, marw.

Llawr i wir allor arall—a lëodd
Elias yn ddiball,
Yn eu gwydd heb dwyll na gwall,
I Dduw oedd yn ei ddeall.

Ar gerig hagr a geirwon,
Yr ych a drefnodd i'r Iôn;
A dwfr yn wal fal rhyw fôr
A droellodd hyd yr allor.
Yno, gweddiat i hunan,—
"Ti Arglwydd yw ein Gŵylw glân;
Gwybydder ar fyrder fod
A dd'wedais am dy Dduwdod,
Yn wir,—nad oes duw gan neb,
Adwaenir yn dy wyneb.

O! dangos, dangos ein Duw,
 Dy hunan i fyd annuw,—
 Nad oes, nad oes ond tydi
 Yn Dduw Iôn yn dda i ni;
 A'th ufel yn noeth, hefyd,
 Dyro i'r bobl, i droi'r byd."

A Duw a unfonodd dŵn
 I lawr yn fforchog ei lun;
 A'r 'dwfr i'r clai leibiar'n lân,—
 Bu hoeth y cerig bob un!

A'r ych losgwyd yn wreichion—i'r allor—
 Drylliwyd hon yn yfflon;
 Llogai tân dig gerig hon
 Yn lludw fel drain llwydion.

Torodd fel rhoad taran,—liosog
 Leisiau 'n gwaeddi allan,—
 "Y Duw hwn sy'n Dad anian,
 Ydyw'r Duw etyb drwy dŵn."

Elias a orchfygodd luoedd—Baal,
 A bu dwfr i'r bobloedd;
 Ei weddi ef trwy 'i Dduw oedd
 Yn trin hyf bwyntiau'r nefoedd.

Wedi hyn gwr y doniau—i ryw gais,
 Wregysodd ei lwynau;
 Rhedai 'n gynt, a'i draed yn gwau,
 Na'r Brenin ar y brynau.

Troediai â chyflymder trydan,—a'i rawd
 Hyd Jezreel, gardd Canaan;

Tywyllwch wyntiai allan
Y môr yn wlaw yn mhob man.

Ahab ddywedai'r newydd—i'w anwar
Frenines dafodrydd;
Taniai rhawr y butain rydd—melltithiai.
A dig alwai lwon digywilydd.

Yn ei gwyllt, anfonai 'i gwas
Teulnaidd, at Elias,
I ddweyd y cochai ei ddu,
A'i ddwylaw, yn ei ddolur.

Elias a flodd fel ewig,—ar hyn,
I ryw anial goedwig;
Yr Hen Dad mewn teimlad dig,
Symdodd yn siomedig.

Gyda Duw, rhyw geidwad oedd,
Yrai lewyg ar luoedd;—
Ofni'r oedd, pan gefnai 'i Ri,
Wrth i wraig serth ei regi!

I farw âi tan ferywen,—o wydd
Y hyd, is ei changen;
A rhoddai bwys ei hardd ben
Ar dorch o glai'r dywarchen.

Ei boenus dybian yno—a daenent
Adenydd ewsg drosto;
Wed'yn mae'n breuddwydio—gwel'd gerwin
Lw, a byddin, yn ei labuddio.

Neidiai dan y dyrnodion—ar ei draed,
 A'r drych welai weithion—
 Nid Jez'bel, ond angel Iôn,
 Yn rhoi gwên ar ei gwynion.

A theisen wedi ei mwyth osod,—a dwfr
 Mewn 'stên wedi 'i ddarbod;
 Yn nerth hyn, mae'n wyrth hynod!—bu'n teithio,
 Yn ddi gwyn arno, am ddeugain niwrnod.

Yn Horeb wed'yn mae'n aros—mewn siom,
 Fel mae'n sier ymddangos;—
 Aeth yn awr, mewn perflaith nos,
 I ddu ogof oedd agos.

Gair Duw yn ei gaer dywell,
 Yn gu a glywai 'n ei gell,
 Yn dweyd,—“ Dos allan—nid oes
 Un dyn all ddwyn dy einioes.”

Heibio yr ogof, Horeb a rwygwyd;
 Oddiar ei wely ei greigydd a roliwyd;
 Yn ei ellydd ei feini a holltwyd;
 Ei wâr uchelawg yn bentwr chwalwyd;
 Lluchiai y lle yn lluwch llwyd—gan wyntoedd;
 A holl lengoedd y dymhestl olyngwyd!

Dan wadn yr ogof, dyna dân rwygiad
 Yn trwm ruo, ac eto, ysgybiad!
 Swm hirleisiol yn adsain arlwysiad
 Brwydr elfenol—rhyfeddol arfeiddiad!
 Daiar grain—ei dirgryniad—gynhellai
 I chwydu du lasa'i cheudod lifad.

Ac yr un munyd, ar goryn mynydd
 Horeb, ar riniog porth yr wybrenydd,
 Draw yn y dufwg, uthr daran Dofydd
 Dorai, ac holltai 'i flachiad y gellydd ;
 Gan y byw dân, gwyneb dydd—yn flau flwch—
 Drwg fu duwch chwidr ogof ei dywydd !

Ar ol hyny darlunir
 Rhyw araf lais, adlais hir,
 Yn pasio gogo'i gudd gél,
 A Duw oedd ynddo'n dawel.
 Yna Gwr Duw, yn ei gell,
 Hufiai 'i wynt yn ei fantell ;
 A daeth i oleuni dydd,
 I ddeifiol wydd ei Ddofydd,—
 Y Bod a ddywedai, “ Beth
 Addefi yma'n ddifeth,
 Y mac dy lun trwm, di les
 Yn llechu yn y lloches ?”
 Elias, ei was isel,
 I Dduw, ei gwyn yn ddi gél
 Ddywedai :—“ Y mac llai llwydd
 Ar curglod Air yr Arglwydd,
 Nag sydd ar grefydd wir groes
 I rinwedd eysur einioes.
 Mac duw'r llo yn blingo dy blant
 I dy ladd yn dy lwyddiant ;
 A cheir cân eu gogan gau
 Yn son am f' einioes inau.”
 A Duw a ddywedodd,—“ Dos
 Yn ddi wyr—yn ddi aros
 I'r daith—encinia dri dyn

I gyfoeth, fel'r wy'n gofyn.
 Pena ar Syria, Hasael ;
 A dosran crwydriaid Israel
 A ro'i i Jehu, i rwydd
 Ddifa coel noddfa celwydd ;—
 Eliseus wnai lwys osod
 Yn dy le—un duwiol ôd :
 Y tri hyn gosbant yr oes
 A thân—na fina'th cinioes.

Mae saith mil o hil yr haelion—dadau,
 Nad ydynt yn weision
 I Baal a'i ffol ymbillion,
 Y rhai was'naethant yr Iôn."

Ac Elias, fel y clywodd,—a aeth
 Ac Eliseus alwodd ;
 A'i dywell fantell, ryw fodd
 Hynod iawn, hwn a'i denodd.

Ar wefus boreu hafaidd,—ag Ahab
 Mewn gwiw-wisg d'wysogaidd ;
 Gyferbyn â bryn ei braidd,—llithrai 'i serch
 Ar hyd llanerch oedd dra dillynaidd.

Gwinllan oedd ar ran freinwch—i Naboth.
 Wynebai dy gorwch
 Y Brenin, garai'r gwin gwych ;
 A chawn ef yn ei chwencych.

ALAB.

"Naboth, mae'th winllan yn wynebu'm Hys—
 Mwy llesol o'r ddeutu,
 Na gwrthod, i't ei gwerthu ;
 I wneyd gardd, mae'n hynod gu."

NABOTH.

“ Na atto Duw ! nid da dwyn
I dy lys, dref dadol lain :
Nid oes llanereh, serch, na swyn
A all syflyd fy myd main.”

Ahab a deimlai wewyr,
A'i wedd ddychrynnai ei wyr ;
Ag ael dost, cilfai i'w dy,
Yn wael ar gefn ei wely.
Effe a wrthodai 'i fwyd,—
Ar ei salweh sobr sylwyd ;
A'i wraig aeth ato ar hyn ;
Ac helyd, y mac'n gofyn,—
“ Ahab, pa beth yw'th wewyr ?
Traetha'th ddwl feldwl ar fyr.”

AHAB.

“ Naboth ni fynai ebu,
Na chystal tâl, ar un tu,
Am ei le—mac 'n chwerwi 'mlâs
Ei weled wrth fy mhalas.”
Ei wraig ddechreuai regi—
“ Ai nid doeth frenin wyt ti ?—
Ei ardd haf wnat i'w fain oes
Yn fouwent, myn fy einioes !
Cyfod, bwyla fara fel
Gwr cryf o gerig rhyfel.”
Gawn hanes y ddialles ddu
Pr faw yn ysgrifennu,
O ddu naws, ei chelwydd noeth,
Yn caw 'r Brenin annoeth.

A llogodd ddau fallegwr
 Am arian—dau aflan wr—
 I roi llw 'n gelwydd, i'r llys,
 Ar dir wnai fater dyrys.
 A Naboth mewn anwybod
 Am y peth, beth oedd yn bod,
 Ddaliwyd i'w brofi 'n ddilys
 Ar lwon hadron mewn llys!

Tawel oedd yntau 'n teui,—o'i weled,
 Mae 'nghalon yn hlosgi;
 Trwy gelwydd, o'i herwydd hi,
 Mae 'i wyneb dan y meini!

Ahab, pan glywai 'r newydd,—a godai
 Mewn gwiwdeb ysblenydd;
 Ac mor sionc, ei gamrau sydd,
 A'r mannog ar y mynydd.

Ac ar ogoniant hawddgar y gwinwydd
 Heibio a redent hyd ei barwydydd,
 Sylwai, a gwenai, ar sail i gynydd
 Llawn, a hoew, yn ei winllan newydd;
 Drwy 'r dail, yn mhelydrau 'r dydd,—ymrodiaid;
 A darluniai hyder ei lawenydd.

Ac Elias a'i clywodd—
 Ei drem i'w wyneb a drôdd;
 A'i ddidwyll ciriau ddywedodd,—“Yn wir,
 E leddir â laddodd!

Ileddaist a meddienaist dda,
 Heb ciriach, fu 'n sffon bara
 I Naboth—rhaid wynebu
 Min y farn am hyny fu!”

Ahab a wylltiai 'n iwin
 Drwy i'r Hen Brophwyd ei drin ;
 Ond buan, ei hunan aeth
 Mor welw a marwolaeth !

Elias wrth ei glywed,
 Yn rhwydd, ei durau a rôd ;
 A dôr ei lygaid arian
 Yrai 'n glyw yn llwfryn, glân !

ELIAS.

"O! Ahab, Ahab, pa wr
 A welwyd yn rheolwr
 Mor aflan ar Ganaan gu,
 'Trwy un ocs yn teyrnasu ?
 Ymwerthaist, a dygaist dân,
 Llwyra' sut, allor Satan ;
 A llyna hi 'r winllan hon,
 Agoraist i waed gwirion !
 Gwaed Naboth a gydnebydd
 Cyfraith Iôn—yr Iôn a rydd
 Arwyddion llid mewn rhuddwaed—
 Dy gleddyf a yf dy waed !
 I dy wraig, am ei drygau,
 Blin gerydd sydd yn neshau ;
 Daw hithau i'r un dwlhw—
 Ei gwaed a lyfa dy gwn !
 A bydd ei ehelain yn bod
 Ar yr âr i'r eryrod !"

Llith ei air i'r llythyren,
 Heb os, a ddygwyd i ben ;
 Torodd Iôn eu twrdd annuw—
 Pwy ddial fel dial Duw !

Yn ei boen, Ahab hunodd,—ei einioes
 Trwy 'i anaf a redodd ;
 A'i fab yn frenin, un fodd,
 Hyd ei lun a'i dilynodd.

A Moab, yn ngrym awydd—am arian,
 Gymerodd y meusydd,—
 Yn arwain ei banierydd
 Yn rhoi ei therfyn yn rhydd.

Ar hyf hwyliad rhyfel,—i dy 'r eirf,
 E droes Ahaziah ;
 A blin ddisgynodd i blâ
 O swrnerydd Samaria.

Wed'yn, anfonodd genhadau—i ofyn
 Gwefus duw 'r tomenau,
 A ddenai ef, yn ddian,
 Drwy ei ing i dir angau ?

Ac ar ffordd ei osgordd ef
 Elias oedd, a'i lais hyf ;—
 Uniawn wr dros Frenin nef—
 Y dyn a grêd, wna Duw 'n gryf,

Elias holai 'i luoedd
 Am eu hynt, pa helynt oedd ?
 Un ac oll, yn ddimacau,
 Eu taith adroddent hwythau.

Yna dywedai'n onest
 Am ran ei ffawdd—“ Mac'n marw'n ffest ;
 Ewch yn ol, a d'wedwch na
 Ollwng Duw ef i wella,
 Am iddo a'lo Duw Iôn
 Am hacrwech duw tom Ecron.”

Yr hynt i fynu ar antur—dorwyd,
 Heb daeru'n nghylch natur
 Rhwymau gwas, na gordrwm gur
 Poenydiol y Penadur.

O'u hynt a'mhur, troisant ymaith—i wydd
 Ahaziah ddiffaith ;
 A Gwr Duw agorai'i daith,
 Ar hyny, ffwrdd ar unwaith.

Ac yna wedi'r cenhadon—droi'n ol,
 Heb drin iaith duw Ecron,
 Heb rus, pan ddaethant ger bron,—gofynes
 Ahaziah hanes hynt eu swynion.

Y CENHADON.

“Rhyw wr a dorai eiriau—o dwymniad
 Condemniol i'n duwiau ;
 A dwyn melltith i tithau
 A wna'i Dduw ef yn ddi au.”

AHAZIAH.

“Pa fath wr oedd y gwr gau,—
 Hyderus ei hud eiriau ?”

Y CENHADON.

“Gwr blewog, afrywiog fron,—
 O gilwgog olygon ;—
 Yn llenwi'i swydd yn llawn sél,
 A thafod â iaith ufel ;
 A gwregys croen a grogai
 Yn nawdd i'w lwyn, yn ddi lai.”

AMAZIAH.

“Elias, a’i groen blewog
Oedd y glyw!—oedd ganddo glôg?”

Y CENIADON.

“Nag oedd, hyny o egwyl—
Arwyddai ’i wedd, braidd o’i hwyl.”

AMAZIAH.

“Yn y byd mac son, o bell,
I hyf wynt ddwyn ei fantell;—
Heb hon, nis gall ei bennod
Yn ôl, ond terfynol fod;
A bydd fel Samson heb wallt,
Heb ail dduw, a’i bwl ddeallt.
Arfogwch wyr i’w fygwth
Ar y fan y ceir ei fwth;
A deliwch ei hudoliaeth,
Dan y gwydd, a’i draed yn gaeth.”

Yn y fan, hwn anfonai
O’i lys, bum’ deg yn ddi lai,
O filwyr, yn wyr araul,
A lliw’r cirf yn dallu ’r haul,—
A thywysog eurog wedd,
O dan wrid ei anrhydedd,
I ddal Elias a’i ddwyn
I’w ynyd gynghor anfwyn.

Weler osgordd glaer wisgiad,—yn eu trefn,

Yn troi am ruthryrehiad;
Enwog lu o bigion gwlad
Ar fygwth eu harfogiad.

Wedi amlwg faesdeimlo,—ar ryw dwyn,
 Gwr Duw welent yno ;
 Eu gloyw ddur ddisgwyliodd o,—heb gél,
 Ei hun yn dawel—mae'r nen yn duo !

A saethai Duw ei saeth dân,
 O'i thywyllwch poeth, allan ;
 A'r gelyn, mewn dychryn du,
 Ar ei wyneb yn crynu !
 Treiddiai'r loes trwy 'i einioes hadl,—
 Ei gwenwyn ddygai 'i anadl ;—
 Yn ulw 'i esgyrn a losgai,—
 Dur ei gledd redodd drwy 'i glai !

Elias heb sylu ewin—laddodd
 A'i gleddyf y fyddin ;
 Rhy fach i eiriau ei fin
 Fur brwyn ac arfan'r brenin.

Y brenin blin godai blaid
 Arall o bechaduriaid
 Ynfyd, i'w beiddgar anfon,
 Heb un aeth, yn erbyn Iôn ;
 A'r ail lu gwypwyd ar léd,
 A du ing yr un dynged !
 Er hyny, beiddiai'r brenin
 Di ras, ac an'awdd ei drin,
 Anfon ei weinion annuw
 I dân i ymladd â Duw !
 Y trydydd lywydd o'i lu,
 A grudd fwyn, gerddai i fynu
 I guro am drugaredd,
 A gwir ostyngedig wedd.

A'i fron yn bur i'w frenin,
 I lawr y plygai ei lin
 Ger bron y gwron ag oedd
 Yn hyf ar fellt y nesoedd,
 I ofyn hyn, heb weniaeth,
 Am ei hocdl—dyma ei iaith :—

“ O! wron Iôn, rho'n heinioes
 I ni, trwy arbed ein hoes ;
 A thyred i wared i
 Dreio anwar drueni
 Ein brenin blin, a'n blaenor—
 Y mae ei ofid fel môr !”

Ac ar genad, gwr gwiwnef
 Godai, ac âi gydag ef
 I wydd y brenin, a'i iaith
 Oedd hyn—ni wyddai weniaeth :—

“ Tydi frenin blin pobl anwir,—drwy fâr
 Budr fywyd anghywir,
 A'th bechod yn gwrthod gwir,
 Yn dy lwyddiant a leddir.

Yn dy waith yn ceisio bendithion—gau
 Gan eilun dduw Ecron,
 Y daethost dan felltithion
 Di rif, gorchymyn Duw'r Iôn.

O'th aelwyd, Duw a'th eilw—i ddiffrwyth
 Ddyffryn bro y meirw :
 Ar lawr, mae ei air a'i lw,
 A'i fwriad—rhaid it' farw.”

O fliniau Gilgal, ardal llawn irdeb,
 Forau diweniaith, hyfryd ei wyneb,

Hoibio i wared, gwron crib Horeb
 Deithiai i anerch meibion doethineb;
 A mwyynder ei gymundeb,—wrthi 'mado,
 A barodd yno ryw ddwfn bruddineb.

O Bethel ceisiai pawb wthio—o'i ol
 I aelïau Jericho;
 A chribau aur fryniau'r fro
 A welid yn ei wlyio.

Eliseus ac yntau, y ddau ddïen,
 Yn nesu welent, tan hoenus haulwen,
 I oerddu waneg dwfr yr Iorddonen,
 A phrawf o ofwy yn y llurfafen!
 Cantau cerbydau uwelben,—a diau
 Byd o dybiau am wybod y dyben.

Yna Elias, yn swm alawon
 Tanau rhwyfus gwyllt donau yr afon,
 Weddiai ar Dduw, nawdd yr Iuddewon,
 Yn eu golwg, a ffydd yn ei galon;—
 A'i fantell, y dywell don—darawodd,
 A'i dw'r ledodd yn sychdir waelodion.

Dacw'r Iorddonen hen yn gwahanu,
 A'i thwrf anwar yn rhuthro i fynu!
 Rhedai drosodd drwy'r fro wedi d'rysu,
 A'i rhanau isaf i'w cartre 'n nesu:
 Gwelwyd darn o'i gwaelod du—yn ffordd deg,
 A chôr y waneg wedi dychrynu!

I lawr y tynent tros wely'r tonau,
 I'r lan arall yn orlawn o eiriau,

Yn eu brud; ond yn fud eu tafodau;
 A rhyw gu foes oedd ar eu gwefusau:
 Yr oedd ofn yn llenwi'r ddau—tra'n sengyd,
 Wrth ddiengyd, ar lywodraeth angau!

Yna gwiw osgordd welent yn gwasgu
 I wydd y fan, trwy'r wybr oddi fynu;
 Ac yn eu gwyneb, gan eu gwahann,
 Sïai y gwyrddlawr dan y gosgorddllu;
 Pob bron gan ddynion yn ddu,—a phob llwyn,
 A du glogwyn, lenwid i'w golygu.

A cherbyd tanllyd, pryd hyn,—a welent,
 Yn clær heulo'r dyffryn;
 Ac Elias, gwas Duw gwyn,
 Yn ei wisg iddo'n esgyn.

Yna, darlunir nôd yr olwynion,
 Yn troi i heulog gant yr awelon;
 A chwai garlamai y mcirch gorlymion
 Tua gosail crôg adail Caergwdion:—
 Mantell diadell Duw Iôn—ollyngwyd—
 Hon ni chariwyd gan ein hoewych wron.

Elias i'r Wynfa lawen—deithiodd
 Dros felltithion Eden;
 Dringodd furiau angau hen,
 Ar ddanedd yr Iorddonen.

D A I A R G R Y N.

EIN Duw Iôn a adwaenir—a'i orsedd
 Mewn arswyd a deimlir;
 A'i air tawdd sylfeini'r tir,
 A'u heigion a gyfogir.

Ei fellt yn gleddyfau holltant—yr wybr,
 A'r graig a chwillfriwiant;
 'Trwy y nen mewn taran fânt—
 Ynyd wên a sudanant.

Ei gorwynt lliidiog erys—i huno
 Ar fynwes môrynys,
 Yn ei law enfyn o'i lys
 Allan, wrth ei ewyllys.

A hwnw a rwyga gefn yr eigion
 I ymchwydd muriau, a chymoedd mawrion;
 Rhua arfordir, a charia'r ferwdon
 Heibio ryw ganoedd o greig brigwynion;
 Rhwyga'n darth graig yn y dôn,—a gwasgar
 Ymlau ei daiar yn aml adwyon.

Gan ei ddir allu, yr eigion ddryllir
 I'r uchelion, a'i furiau a chwalir;
 Llongau i'r aig yn llengau a rwygir—
 Yn ei goluddion aml ddyn a gleddir:
 Araeth Iôn ar for a thir,—a'i eiriau,
 Hyd yn y beddan, a adnabyddir.

Ei allu ef sy'n hollawl
 O waelod gwae i wlad gwawl,—
 O bell ganolbwynt y byd
 Hyd âr ei dywod weryd ;
 Ac o auaf y gwiail
 Dywed ef fywyd y dail.

Natur mewn iaith hynotaf
 Ddengys yn hysbys waith Naf,—
 Ei sail yn nim disylwedd
 Dery'n wych, & chadarn wedd ;
 Elfenau deddfau 'i bru 'n dân
 Brwd wyneb—ysbryd anian ;
 A thân yn gyfan i gyd
 Yw goror craidd ei gweryd.

Annifyr hin auafaidd,
 Rhywiog wres sy'n cadw'r gwraidd
 Yn iraidd mewn tynherwch
 Fisoedd rhewllyd, trymllyd trwch.
 Ac yna y daw'r gwanwyn
 I rywioctn 'r barug gwyn
 A'i oerni,—byrheir hirnos
 Gan yr haul, a gwena'r rhos.
 Dail y wig yn awdl agor
 Doniau cerdd adeiniog gôr ;
 Y blodau 'n gwau 'n y gwiail—
 Gwenyn yn dirwyn trwy'r dail ;
 Bywiol dw y blodeuyn
 Sy'n gwisgo a brwysgo'r bryn :
 Llona'r ffrwd ffrw, gwiw ei gwên,
 Ymlau y ddol, aml ddeilen ;
 Blodionos byw, ledacnant
 Wely pefr ar ael y pant ;

Y wlad yn llawn o flodau,
 A'u gwefr yn yr wybr yn gwau ;
 A dyrcha dawch—daw 'n dorch dân,
 A thery'r glust â tharan.

Ceir agwedd ac ystun creigiau—yn dwyn
 Nodau hynod ffrwydrau,
 O safn anferth certh wddf cau,
 Min addoer y mynyddau.

Rho'i dull toriadau allan—y mae gwedd
 Cwm a gallt yn mhobman ;
 A nodau ffyrnig dig dân
 Yw gwyneb creigiau anian.

Gorrwygir pigyrnaidd greigiau—o fol
 Llosgfalog ceudyllau ;
 Gerwin fyd Daiargrynfaiau
 Yw bru anwar y bryniau.

Mae poethion nwyon yn hêl
 I gyswllt creigiau isel ;
 A'r rhai'n yn ffrwydro fal rhuthr
 Yn nhirol daran aruthr.

Lluchiwyd gwythenau llechi,—draw o'u lle,
 Drwy i'w llwybr yngolli ;
 Mae pob pant nant gwrdawn ni
 Yn eu lir, yn eu tori.

Un man sy'n bigwrn mynydd,
 Ac wrth ei sawdl, cwm certh sydd ;
 Tyle, a phantle yn ffordd
 I rwysg y dwfr a'i osgordd ;

Craig serth uwch crug cerig sydd—
 Rhaiadr gwyllt ar dôr gellydd ;
 Naill wlad yn anwastad oll,—
 Null yn deg gynllun digoll.

Hardd fyw fyd, ar raddfa fach,
 A'i môr hallt, yw Cymru wych :
 Gwén hon, a'i chlogwyni iach,
 A llawn hedd sy'n gwella nych.

Ac yma, dyna'r Wyddfa gyrrhaeddawr,
 Yn enwog aeres bena'n cin gorawr ;
 Hiroesog hoenlys yn wybr esgynlawr
 I ddarllen clau beirianau'r wybrenwawr ;
 Hen allor yw yn llaw'r wawr—i'n codi
 I addoli uwch y bryniog ddulawr.

Yma y gwelwn holl drumog aeliau
 Ei miniog gymoedd, fel myneg gamau,
 Hyd hyn o adeg, yn gadwyn nodau
 Llwybr cerddediad, a rhediad ffrwydriadau
 Drwy ei thud, aml draethodau—a edrydd
 Lliaws o foelydd am waith llofialau.

Yn unman, Arddu Nanmor
 Welir a'i min uwchlaw'r môr ;
 Y Gnucht fawr uwch llawr y lli'
 A wylia'r anwar heli ;
 Y Moelwyn rydd gam cilwaith
 Tua llys y cerhynt llaith ;
 Yr Allt fawr ar wyllt furiau
 Ceimion, certh, y cwm yn cau ;
 Y Graig Ddu grugia i ddod

O fynwes y ddau Fannod :
 Yr Enig gwyd ar unwaith
 I ymyl lle'r cwmwl llaith ;
 Daw 'r Aran allan a'i hynt
 I gaeran'r beiddgar gorwynt ;
 Ymyl llen y cwmwl llwyd
 Dros Gadair Idris godwyd ;
 A chyda'r gallestr restr hon,
 Ymlamodd brig Plumlumon.
 Yn ol dychwelwn eilwaith
 I wddf y foel Wyddfa faith,
 I weled craill aelïau
 Bryniog lwyth yr wybren glau.

Eilidir—Gludar lydan,—trwy ufel,
 A'r Tryfaen, ddaeth allan ;
 Carn Ddafydd chwai dyfai'n dân
 Ar unwaith o fru anian.

Dirgelion caerogdir Gwalia—godwyd
 O geudeb y danchwa ;—
 Ar wddf y tir, yr Wyddfa,
 Hyf eistedd yn orsedd wna.

O'i chrib hir y gwelir Cantref Gwaelod,
 Lle bu hoew wasgwyn* yn lle i bysgod ;
 Amrywieth odiaeth o bob teledod,
 A thyrau anian yn aruthr hynod ;
 Ael yr haf, ar ol yr ôd—mae'r cymoedd
 Yn dwyn gwisgoedd ysnodenog wasgod.

* A gentle rising.

Miliwn o fronau moelydd,
 A thyle, yn safle sydd;
 Miniog cillt cymog wylltedd
 Geidw'r llyn syw 'n fyw 'n ei fedd.
 Gwelwyd y cribog aeliau
 Ilyn i gyd yn tonog wau;
 Moel y Gest yn deml^l y gân
 A luniodd ufel anian;
 A'r Eifl a neidiodd o rwth
 Gwddwg hagr geuedd cegrwth.
 Mae caddug eu mwg, heddyw
 Yn y byd yr y'm yn byw;
 Mynyddau 'n filamio 'n othaith
 O fol môr, yn ufel maith;
Etna o'i gylla 'n gollwng
 Ei chwydion blinion a blwng;
 Ei fron yn agor o fru
 Y gwaneogydd gan wgu;
 A'r heli ar ei waelod
 A'i ferw fyth heb farw fod.

Ei fyw eigion gyfogir,—uwch y môr,
 Tawch a mellt wasgerir;
 O'i gorel, t'w'llwg yrir,—
 Iddudw'r tân ddillada'r tir.

Vesuvius yn hyf safai,—a'i olwg
 Ar bob gelyn wgai;
Pompei fwys, lwys, yn ddi lai,
 Is ei dudd a eisteddai.

Gwyneb y wlad gan y blodau,—ydoedd
 Fel Eden, a'i fliniau;

Gwir naws hapus grawn sypiau—crogedig,
A diwylledig yn mhob dulliadau.

Y ddinas ydoedd enwog
Yn ei gryd, a'i gerddi'n grôg;
Ysplenydd heolydd haf,
A dinau byrth dianaf;
Tyrâu a muriau mawrwych,—
Sidellog waith cestyll gwyeh;
Enwog oedd manau gwyddiant,
A lloriau cylch llawer cant;
Iawn oedd gwaith aneddau gwyeh,
A gwawr ei themlan gorwye;
Palasau a gwymyp lysoedd,—
Pen y gamp o enwog oedd.

Yno y gwelid tarianog wylwyr
Y ddinas odiaeth yn fyddin sawdwyr;
Mawrwychaf olwg trem ei meirch filwyr
Arasai alon, yn hagr ryfelwyr:
Lle enwog oedd yn llawn gwyr—er rhwystriad
Arfau erch fagad o'r prif orchfygwyr.

Gweryriad ei march gorwrol,—rwygai

Y creigydd cylchynol;
Llyncai flin fyddin i'w fol,—
Dyn beidiai dan ei bedol.

Ond er ei chadernid hi,—
Y llu oedd allu iddi,
Vesuvius yn faes ufel
Yrodd ei mwyn erddi mêl;
A'i glyw, a'i lieuenctid glân,
Fyddinwyd i fedd anian!

Daiar gryn dorai groniad
 Ei lif i orchuddio'r wlad ;—
 Llif o dân hyllaf donau
 Ei ufel cudd, o'i fol cau ;
 A'i murian, gyda'i mawrion,
 Wrth eu dawns, aberthai 'i dôn!

Ei grug dawch graig dewychodd,—a'r ddinas,
 A'i myrddiynau, gladdodd ;
 Y nwyon tân hyn a'i tôdd,
 A'i bydol rwysg a beidiodd.

Yn oes ëon UZZIA—y rhwygwyd
 Creigiau gwlad Judea ;
 Goranferth danllyd grynfa—ymrwygodd,
 A lliidiog ysodd holl deiau Gaza.

Crynodd tir yr Eroniaid,—a du ofn
 I'u'n dal yr Iedomiaid ;
 A gwedd ddychrynlyd a gaid—hyd gyfor
 Eres oror gwlad yr Assyriaid.

Daiargryn a dychryn du
 I'r oes, oedd lladd yr Iesu.

Moriah grynodd,—rhwygodd bru creigiau
 Salem orwych—yswiliai ei muriau
 Gan gywilydd gwel'd gwên euog aelïau
 Eiddig clynion, creigaidd galonau,
 Yn lladd yr Oen ; a'i boenau—rwygent drwch
 Oedd mewn heddwch yn ngwraidd y mynyddau ;
 A thyngeð llywodraeth angan—seliwyd—
 Adnabyddwyd rhai ro'ed yn eu beddau !

Cawn cirian y Canwriad,—a'i dostedd,
 I dystio'r amgylchiad ;
 Yn oes lyfr hanes y wlad
 Agwedd'r y dygwyddiad.

Yn ei alaeth pan hoeliwyd—yr Iesu,
 Crynder, iasol, deimlwyd ;
 A phan dd'wedodd, "Gorphenwyd,"
 Rhwygai y lle yn grug llwyd!

Y creigiau 'n agenau gant,
 Yn greision agorasant ;
 Torai tân trwy'r cefntir teg,—
 Meginid mwg ei waneg ;
 A chuddiwyd grudd rudd yr haul,—
 Duai Ner ei dân araul.

Annawsaidd lofruddion Iesu—oeddynt
 A'u gruddiau yn glasu ;
 Yr oedd dawn yr Iuddew du,
 A'i dôn wedi mudanu.

Sisialent am loes y Seilo,—ei bod
 Yn beth i'w arswydo ;
 A d'wedent, wedi 'i wawdio
 Y dydd hwn,—“Mab Duw oedd o.”

Yr oedd yma arwyddion—i wirio
 Adferiad y meirwon,—
 Y ddu awr rôd i'r ddaiar hon,—llogiad,
 A thori seiliad ei throsolion.

Ei ben ysig, o bu 'n isel,—a ddaw,
 Ryw ddydd, yn oruchel ;

A'i waed, ar eu dillad wél,
A ddengys i'w urdd angel !

Tref *Lisbon*, ar lon lanereh,
Llawn o swyn yn gynllun serch,
A welwyd, a'i heolydd
Mor deg a thymhor y dydd ;
A phryd ei llawn fywyd fel
Bywyd cymmundeb awel
Mór a thir, yn nghymhorth haul,
Yn dirwyn diwrnod araul.

Ac un boreu gwyneb cirian—yr oedd
Ei phryd fel llawr arian ;
A beirdd coed á'u brawddeg gân
Yn llenwi penill anian.

Ond yn y fan, dyna fud
Daran siom draw yn symud
Drwy ei llawr, a dôr y lli'
Tan y tir hwnt, yn tori ;
A'r dwfr a ruthrai trwy dân
O gellau'r creigiau allan.

Ei mur mawr gaed o'r marmor gwyn,—hyglod,
Ymsiglai fel meddwyn ;
A'i llawr a lynewyd, yn llyn,
I dorgroth ddu Daiargryn.

Gwyneb y ddinas gain, a'i byw ddynion,
Yno a gladdwyd yn ei goluddion ;
Heolydd rwygwyd yn glawdd yr eigion,
Gan agor isel ffordd i'r gwyn greision ;

Gwely dig heli y dôn—esgorodd
Ar ynys, ledodd o'r nos waclodion.

A miloedd mewn trem aeliad—a gladdwyd
Dan gloddiau'r ysgytiad ;
Dwys gri anwar dysgryniad
D'rawai glyw dyfnder a gwlad.

Rhyw osodiad arswydol—yw ein lle
Yn ein llwybr daiarol ;
Byd tân, a'r bywyd dynol
Hyd fin ofnadwy ei fol !

Môr o lifwy mawr ei lafur,—a'i rym,
Sy 'n nghroth danllyd natur ;
'Tyr ei fol trwy'r callestr fur,
Ac e rêd o'r creadur.

Mae hwn ar waith bob munyd
Yn rhyw Barth o ranau'r byd ;
A rhoir amlygiadau, rês,
Ar fryndir trefi 'r Andes.
Rhan fawr o greigiau 'r hen fyd
A geir fel meini gweryd,
Yn nodi cyfnod nwydwyllt
Ei donog waith, a'i dân gwyllt,
Yn awr, mewn hûn a orwedd,
A'i ufel byw fel y bedd ;
Ond yma rhuthra 'n ei wres
'Trwy fryndir trefi 'r *Andes*.

Ei gaul ffwrn hyd *Galifornia*—yn dân
Dinyst'r a ymdora ;
Ac aml fynydd newydd 'wna,
O ryw agen a rwyga.

Y ddaiar sydd ar ei dduon—donau,
 Uwch trydanog eigion ;
 Ysgytir, a hyrddir hon,
 Drwy godiad ei ergydion.

O danom mac'n ymdoni—poenus swu
 Yn pensynu arni !
 Cryndod gwyd i'w hysgwyd hi,
 A golwg dyn yn gwelwi !

Naid llenyrch, mewn dull hynod,—i fynu
 A chwynfanus gryndod ;
 Cadr rym yn ysgwyd y rhod,
 A'r *Andes* mewn dychryndod !

Rhuthra'r mynyddwr athrist
 O'i wely draw, ag ael drist ;
 Ei ddu ing sy'n ddiyngan,
 A syfl pob modfedd lle sang ;
 Cydio mac'n ngwellt y ddaiar,
 A gwyllt yn ei lygad gwâr ;
 Croen y ddaiar yn crynu,—
 Egyr yn ddofn gerwyn ddu ;
 Agor y graig i'w hir grib,
 A gwargrwm uchel gorgrib
 Mynydd yn bwrw meini
 I lawr yn arswydus li' ;
 Arwydd gwlaw ar rudd y glyn,
 A'r môr yn deffro'r dyffryn ;
 Tlwydr dawch yn tywyllu'r dydd,
 Ger bron gwg yr wybrenydd ;
 Tâu y mellt yn ymholli,
 A llais tarannau trwy'r lli' ;

Corn y gwynt yn crynu gwig,
 Ac adar ffo'nt o'r goedwig;
 Gwlaw a mellt yn treiglo main,
 A goror wybr yn gerain.

Llethr y mynydd yn llithro—gan y dwfr,
 Ac yna, daw trwyddo
 Afon o dân allan o
 Ryw agen yn ymrwygo.

Erech dwrf rhyw ymgyrch dirfawr,
 Yn awr sy'n ysgwyd y nen;
 A swn rhwth, yn bygwth byd,
 O weryd y ddaiaren.

Muriau teg, a marmoraidd,—addurnol
 Gelf ddarnau gorlwysuidd,
 Ger bron a debygir, braidd,
 I fol anwn afluniaidd.

Y môr yn ymgilio 'n mhell
 O drothwy ei hen draethell;—
 Geilw 'i leng, a chasgl ei li'
 I foddi pwynt y fyddin,—
 Yr hon a fygythia 'i rû
 A beiddiad i'w ddysbyddu.

Geilw ei donau, a sigla adenydd
 Awyr beirianau cryfwynt yr wybrenydd;
 Deua ar unwaith yn anwar daranydd,
 A rhwyga 'i olwynion furiau 'i geulenydd;
 Ei raff ollyngwyd yn rhydd,—a phob tôn
 Yn tori'n eigion trwy ei wanegydd.

Trwy agerdd dinystr ei agwrdd donau
 A hagr olwynant dros gaer ei lanau ;
 A'u haruthredd un wedd a mynyddau
 Gwylltion, a moelion, yn y cymylau ;
 Trwy y gwynt taer, ac yntau,—dinasoedd
 Goreu neuaddoedd, wneir yn garneddau.

Yn oddaith, rheieidr mynyddol—redant
 O ffrwydrau llosgfalol ;
 A'u cyffro yn melltio yn môl
 Llais y môr sy'n llesmeiriol.

Helynt dinystr plant dynion—a roddwyd
 Ar wedd yr adfeilion ;
 A dalia tud y wlad hon,
 I'r hen oesau 'r hanesion.

Ganocdd o lleithiau sy'n cynyg—eu suil
 I sylw dychymyg ;—
 Hanes temlau moddau myg,
 A geir mewn twr o geryg.

Gwelodd HUMBOLT argoelion—o'r dinystr
 Trydanog, echryslon :
 Dynoda'r danchwa uthr dôn,—a'i rhysedd,
 Ac ol ei danedd, ar drigle dynion.

Riobamba yna oedd
 Yn esyllt i'r dinasoedd ;
 A'i henwog le'n ddychryn gwlad,
 A luchiodd erchyll fflachiad.

Fe nodir y danchwa ofnadwy—hon
 Gan hanes credadwy,

O ran nerth ei rhyferthwy,
Y fath, na nodir un fwy.

Enyniad nwyon anian—a rwygodd
Trwy ei gwregys allan ;
A'i thyrâu teg gan ruthr tân
Laciwyd i'r afon *Lican*.

Iach ael rhodfeydd ei cheulan—a grugiwyd
Yn noeth greigiau allan ;
A'i syw dai glwys hyd ei glan—ysgytiwyd,
Ac a loriwyd ar ei gwely arian.

Adwacnid bodau dynol—yn yr wybr
Trwy'r tân ruthr arswydol ;
A'u duon gyrff andwyol—a luchiwyd
Ac a ddygwyd ar ei wynt caddugol !

Bu *Quito* 'n rhuo 'r awyr,
Er gwae yn dinystrio gwyr,—
Haen *Peru* yn poeri aur
Ar wedd mwngloddiau rhuddanr ;
A bryniau lu 'n taslu tân,—
O'r eirias rhedai 'r arian.
Prif ddinas fael y wlad lon
Hunasai oll, un noson,
Yn dawel, heb awel bywyd
Yn ei llawn bau 'n lle 'n y byd ;
Ond yn y fan, dyna fur
Hynotaf meinwaith natur
Yn rhwygo tan yr eigion,
Gan agor dyfrddor y don,
A'i gyru dros ei goror
I ledu maith waelod môr ;

Λ'r ddinas mewn twrdd hynod,
Pan ddeffrodd, beidiodd a bod !

Y nysocdd poethion, anesid—o'r môr,
Trwy'r mwg tanllyd, welid ;
A *Neptune* fawr, uwch llawr llid,
A'i deml yn crynu, deimlid.

Yma wed'yn mae adeg
O fraw, ac arswydus freg ;
A chri hunllef ddychrynlyd,
I'w gofio tra byddo byd.

Cur swm trwm, cras, yn tramwy,—dirgel drwst
Dreiglai draw 'n rhyferthwy ;
O'i wasgod, anorfod nwy,
Hyf neidiai 'n dân ofnadwy !

Y môr fel gwyneb muriau—a giliodd
O geulan ei donau ;
Λ'i rym crech, wedi trymhau,
Olwynodd dros ei lanau.

Gyrwyd yr eigion dros gryd ei rwygiad,
A garw garlam, i gaerau gorwlad ;
Aden yr awel daenai ei rual
I dori gosteg dyllryndir gwastad :
Ei uthr lif aurheithiai 'r wlad,—ac artaith
Hyll anobaith dros ei holl wynebiad.

Dwyn dinystr dan eu hadenydd—y mae ;
Tonau'r môr trwy'r gwledydd ;
O'u ceugant rhedant yn rhydd
Hyd lawr main sodlau'r mynydd.

Cyrau anian yn crynu,—a hagr rudd
 Craig rwym yn rhaidru ;
 Ac o dawch cymylog, du,
 Myllt dinystr yn mellenu.

Taran a chorwynt teryll,—
 Anian yn herciau yn hyll ;
 Tywydd yn ysgwyd daiar—
 Wybreni 'n berwi mewn bâr ;
 Rhugliad ysbryd trwy wagle
 Y llawr yn crynu pob lle ;
 Safnau blwng yn gollwng gwynt,—
 Aneddan 'n disgyn iddynt ;
 Gwledydd cyfain yn glwydi
 Yn myned ar led uthr li' ;
 Y llong yn dryllio 'i hangor
 Yn nghwr maes lle dringa'r môr ;
 A chofrestr heb ei chyfryw
 O dan fain gladdwyd yn fyw !

'Terfynau y cylch trofanog,—ar lan
 Aur li 'r Mor 'Tawelog,
 Ar ol y rhuthr welir rhawg,
 Yn nodi'r dymhestl nwydawg.

Y Duw doeth sy'n Dad icithoedd—y ffrydian
 Cyffredin, a'r moroedd,—
 Tad cerhynt y gwynt ar g'oeedd,
 Neu fywyd creig grynfaeodd.

Yn dilyn mae'r cyfnod olaf,—yn nhrefn
 Rhof fawr y Gornuchaf ;

Anian glyw, a'i bron yn glaf,
A ddaw i'r bangfa dduaf.

Mynych Ddaiargryn manau—a glywir
Yn dalgloi y creigiau ;
Mawr boen yn mol amryw bau,—
Gofwy gwyd gyfogiadau.

Trwr egyr trwy eigion,—a dyffryn,
Nes deffro 'u hargelion ;
Ysgydwir tranc cysgodion
Ing y llawr, gan ringyll Iôn.

Gwyneb y byd, gan bob oes,
A renir yn llwybr einioes ;
Cellau hen difancoll hir,
Lwchyn at lwchyn luehir ;
Lleferir i holl feirwon
Dwfn garchar daiar a'r dôn ;
A chodir holl lwch Eden
Yn rhif aneirif i'r nen.

Wedi yr adgyfodiad—bydd cylchoedd
Moroedd mewn llesmeiriad ;
Caiff natur gur miniog, iâd,
Ac e fwgwth gyfogiad.

Daiargryn yn dychryn dwys,
A diffaith, waelod aphwys ;
Maenorydd meini arian
Hyd y tir yn ffrydiau lân ;
Daiar yn gymoedd duon, - -
Aur brwd yn berwi o'i bron ;

Ac ymyl lli'n gwmwl llwyd
Gan esgyll creigiau 'n ysgwyd.

Rhwygir Mynyddoedd Creigiog—Amerig
I'r moroedd tymhestlog ;
A dwys grib yr Andes grôg
A hwyllir i'r Tawellog.

Aml lewyg gaiff *Hymalaya*,—o'i fol
Tanlyd twg ymsaetha ;
Ei goryn a'i erchwyn ä,
O'i fryndir i fôr India.

Bryniau Ewrob wybrenir,—a'i moelydd
I'r cymylau luchir ;
Gwyneb y ddol glogwynir,—
Hyddod tân fel pridd y tir !

Môr lenyrch “ Cymru lonydd,”
Gan neidio, yn rhwygo 'n rhydd ;
Dw'r Menai dyr ei minion,
A'r Wyddfa â ar wddf hon ;
'Taranau 'n hollti 'r Enig,
Trwy ei bron, nes tori 'i brig ;
A gyru 'r Enig arall
Dros y llyu, ar draws y llall.

Ac fel hyn y cyflawnir—arfaethau
Hirfeithion yn gywir ;
Trwy'r tân yn dinystro'r tir,
Gwyneb Horeb gain burir.

Ufel a lysg soft y wlad,—
Ysig wallau 'i hysgelliad ;
Ei drain a'i mieri drwg,
Trwy giliad ânt o'r golwg ;
Pob sothach afiach, hefyd,
Ar g'oedd a losgir i gyd.

Addewir i ni ddaiar newydd,—bur,
Heb ol cosb na cherydd ;
O fewn ei chylchdro ni fydd
Drwg auaf yn dragywydd.

Y GOEDWIG.

OER iawn yw llwybrau Ionawr,
 Oll ar léd o'r lloer i lawr;
 Bro'r wawr yn llwybrau'r eira—
 Lle bu'r ôg yn llwybrau iâ;
 Y fron a'i choryn yn frith—
 Barug gwyn yw brig gwenith;
 Y ffrwd mor farw a phlen,
 Heb wiail na meib awen;
 Yr afon a'i bron yn brudd—
 Troes durew tros ei dwyrudd;
 Mud yw ei rhawd—nis medr hi
 Dynu llun dan y llwyni;
 A'r llyn yn bentwr llonydd,
 Heb gathlau ar geinciau'r gwydd.

Daw i waered dô o eira,—a gwên
 Y gweunydd a gilia;
 Ifâd yr hinon diriona',
 Hwnt ddring i gynteddau'r iâ.

Y Goedwig a'i gwasgawdion—a crys
 Mewn eira'n ddigalon;
 Mae'n brudd a throm iawn ei bron,
 A'i chan ôd yw och'neidion.

Barug anian sy'n brigwynu—ei hurdd,
 Lle chwaddai'r briallu;
 A'r lluwch yn bwn tw'n bob tu,
 Lle'r oeddynt yn llorweddu.

A chynghanedd ei changhenau
 Ai o'r golau i argeledd,
 O flaen oerwedd aflon hwyrâu—
 Man deniadau mewn dinodedd!

Mud yw'r dderwen, a'i hawen a wywodd—
 Odl gu duwiau y dail, a'i gadawodd;
 I raddau, gallu ei hurdd a gollodd,
 A rhuthr y gwynt a'i droellwynt a'i drylliodd;
 Moel ydyw—rhew ymledodd—yn rhyndod
 Drwy ei gwaclod, a'i hirder a giliodd.

Pa le mae dail ei gwiail? mae'r gauaf
 Yn ei wenwyn wedi dwyn ei anaf,
 Er tylodi ei gwycheder teleidiaf,
 A difa wrthi ei gwisg brydferthaf;
 Y rhew a laddodd yr haf,—a'i deiliog
 Wawr goronog sydd yn llwybr gerwinaf.

Yr awel o fro rhewynt—glöa fyr
 A glyfoeria cerhynt;
 Gyru gwae'r cenllysg, a'r gwynt,
 O gloddiau y gogleddwynt!

Mellten yn fellten folltawg,—a tharan
 Fytheiria swn rhuglawg;
 Cêl agenydd clogwynawg
 I'w rhû atebant y rhawg!

Y gwlaw 'n pistilliau allan—o feiliau
 Ufelawg y daran;
 Mâl y llwyd gwmwl llydan—
 'Tyr yn fellt—rhewa 'n y fau!

Try'r gangen yn goeden gerth,
 A'i nenfwd yn llwyn anferth ;
 Llwyn rhew 'n dryllio 'n yr awyr—
 Y rhew yn llwyn tew a'i tyr ;
 'Tyr rhew yn aml bentwr rhydd,
 Grogedig gaerog goedydd ;
 Prenau 'n cwympto ar wanas—
 Deri yn peri cri cras ;
 Prenau'r nant gleciant trwy'r gwlaw—
 'Trawstiau'r goedwig yn trystiau ;
 Cliria'r geifr—clywir ar g'oedd
 Ysgrechain dros y gwrychoedd ;
 Rhew, gwynt, a gwlaw, er braw bron,
 Wna'r goedwig yn ergydion !

Daw 'r haul o fyd yr heli—yn y De,
 Yn dyst o'i fawrhydi ;
 A bywyd nawf i'n byd ni—
 Daw o ran o'i drueni.

Yr eira dawdd i'r Werydd,—a rhua
 Trwy reiydr y mynydd ;
 A'r rhew a ollwng yn rhydd
 Y llyn o'i garchar llonydd.

Daw rhwyllau 'r adar allan—
 Daw brig y goedwig yn gân ;
 Daw dail ar hyd y dolydd—
 Daw blodion yn goron gwydd ;
 Is gwerni gallt, gwisgir yn gu
 Y llwybr oll â briallu ;
 Daw llwyni a gerddi'r gân
 I ail eni dail anian ;

A'r adar ail briodant—
Cartrefu a nythu wnant.

Forau o haf difyr ei hynt,—gwylfa
Bugeilfardd oedd cerhynt;
Ac aeth, a'i ben yn y gwynt,
Ar ei ol trwy ei helynt.

Yr afon rhwng creigiau rhyfedd!—lithrai
Dros lethrawg aruthredd;
A rhoch gwyllt ei rhychog wedd
Yn agor ei unigedd.

Yno, fel Eden, aml lwyn o flodau
A dawel wenai'n min ei du lanau;
Yn fri iaith ethol, y fronfraith, hithau,
Roddai gynghanedd o'r gwyrdd ganghenau;
Ei hynt ddilynai yntau—trwy'r goedwig,
Ei hunan unig, dan hion wenau.

Ac o olwg anian, trwy'r clogwyni,
O tan y creigydd a'u daint yn crogi,
Hyd lân barus dwfr redle yn berwi,
A llawr leoliad y meill a'r lili,
Dyrwynodd, gan bendroni,—i ardal
A'i natur anial yn llawn trueni.

Rhuai drwy frig rheicydr y fro,—yr wybr,¹
Fel draig yn ergydio
Mellt; a'r gwlaw yn ymwylltio
Hyd ael y clogwyn di dô.

Y gwefr a'r gwynt digyfryw,—ar hagr ruthr
Rwygai'r allt i ddistryw;

A'r gwlaw yn byddaru ei glyw—
Hanes hŷd einioes, ydyw!

Wedi i nawn wisgo du nos,
E ddenid cwn y ddunos
Allan o'u dirgel dyllan,
A phob anghenfil o'i ffau.
D'ai'r llew uthr, a'i deryll was.—
Yr udgi, a'r teigr adgas;
D'ai y blaidd a'i udiad blwng,
O'i dyllan wedi 'i ollwng—
Mannog o ogo'r mynydd,
Yr arth, a'r llewpart, yn rhydd;
A rhŷ en llais, dyfulais dig,
Ysgydwai draws y goedwig!
Y Bardd a ddringai i ben
Caedig dewfrig goeden,
Uwch du ael cyrch y dylif,—
D'ai'r llew i yfed o'r llif!
Y llew a'i gwelai 'n y llwyn,
A'i enfawr lygad anfwyn
Ergydiai tua'r goeden—
Tân bŷr yn fellt yn ei ben;
Ac a'i safn anferth, gerth, gadr,
Rhŷai nes tewi'r rhaiadr!
Ciliai'r llew pendew i'r pant,
A'i acenion trwy'r cennant;
A'r penrydd Brydydd ar bren,
Iir wylodd am yr haulwen.

Tywyllwch eiddilwch ei feddyliau,
Ddeolai o'i wydd ei hŷd ddolweddu;

A chuddiai ei ben rhwng y canghenau,
 Ar hyd y cefnos, rhwng brad ac ofnau :
 Ysig oedd yn llesgâu—am ei fwyn braidd,
 A chân beraidd mwyalehen y borau.

O'r dwyrain uwch mordiroedd,—ar ei fin,
 I derfynau 'r nefoedd,
 Y wawr gu baentiai, ar g'oedd,
 Liw borau 'n wawl aberoedd.

O glo'r nos goleno'r nen,—am ei hynt,
 Mae haul y ffurfafen ;
 Gloewach bydd gwiw haul uwchben
 O dduwch nos ddiawen.

Y Bardd a anadla 'i bill—
 Daeth o'i boen ystwyth benill ;
 Gofid yn esgor gwiwfwyn
 Ffynyn mawl am wenau mwyn
 Y borau, â'i gân beraidd,
 A mwynhad bresiad ei braidd ;
 A phenill Mai redai 'n rhydd
 Yn ei awen o newydd.

Fel yna y rheda'r oes,
 Neu flin ran flaena'r einioes ;
 Y dyn yn dilyn ei dwyll
 I gyni nos ddiganwyll ;
 Ac yna, defra rhyw dôn,
 Fôr, i ddweyd ei freuddwydion.

Ar osgo, difyr esgyn—i fyny
 I fwnwgl uchelfryn ;
 A gwel'd y llifeiriant gwyn,
 Hyd ei ysgwydd yn disgyn.

Y dolydd hyd ei waelod—yn llenyrch
 Llawn llwyni rhosynod;
 Ac ar wydn geinciau 'r ednod,
 Pau'r glyn yn derbyn pâr glod.

Y goedwig a phob brigyn,—i'r awel
 Yn chwarcus delyn;
 A dyry dw'r gloew 'r glyn
 Arawd aur i'r aderyn.

Y dail yn dawnsio drwy'r dydd
 Yn awel rhyw gân newydd;
 Ednod yn darbod i'r dyn,
 Rymus, a dengar, emyn;
 Y nant yn canu drwy'r nos
 I d'rawo nodau 'r eos;
 Yr hedydd ar ei aden,
 A'i geinciau'r borau uwch ben;
 Golygus gân ar glogwyn
 Yw llais y fronfraith i'r llwyn;
 A'r gôg yn tywallt i'r gân,
 Donau dychweliad anian.

Hwnt yna'r ceunant unig—a welir
 Ar waelod y goedwig;
 A'i ffrwd, yn gyffroedig,
 A ffrïa dawch, a phoer dig.

Lle i fwrw llifeiriant—o wnech
 Y mynydd yw 'r ceunant;
 Holl ffrydiau'r fro iddo ant—
 Trwy ei enau taranant.

Hyd y clogwyni, deri ymdyrrant
 I wyllo acenion odl y ceunant ;
 Yn wyrdd ddeiliog, eu baner a ddaliant
 I urddo gwanwyn a'i hardd ogoniant ;
 Sylw aml oes a alwant,—a cherydd
 Hynt ddiçilydd y corwynt addolant.

Mieri 'r d'rysni dan draed
 A geir yu llenwi 'r holl goed,
 A'r rhai 'n yn wych acron wnaed—
 Y drain sy'n dwyn blodau 'rioed.

Mae llenyrch byw, meillionog,—yn agor
 Gwanegau coed brigog ;
 A rhydd ydyw llwybrau 'r ôg
 Trwy dalar cefutir deiliog.

Cwm wrth gwm—cwm wrth gymal—y goedwig
 A gydia ddwy ardal ;
 Mae 'n dwyn cân i le anial,
 Ac yu toi y clogwyn tâl.

Acw mae'r llyn enwocaf,
 A hedd ei wyneb yn haf :
 Y dw'r yn llethriad araul,
 A'i wrid yn angylehu 'r haul ;
 Amrywiaeth helaeth yn hau
 Ar ei len amryw luniau ;
 Ardeb yr haul mewn curdon
 A'i rudd yn chwalu ar hon ;
 Pelydrau 'n gwau trwy'r gwïail,
 A'r dôn yn cofleidio'r dail :
 Yr adar mewn dirçidi
 Yn cerdded ar led ei li' ;

Ac anian mewn gogoniant
Ar ei thwr yn chwareu'i thant.

Lliw dydd, o b'le deddyw—y goedwig,
A'i gwiwdeb digyfryw ?
Gwawl luniad sy'n baentiad byw,
A thad y prydferth ydyw.

Dwyn y gw lith yn daenog len—y mae'r wybr
Yn mrig y dal dderwen ;
Yr haul, o'i bell babell uwch ben,
Ei ruddiau wél ar y ddeilen !

O mor bêr y mae'r borau,—a'i anadl
Yn win a chaniolau ;
A chwm i gwm yn myg wau,
O'r bryn i fro'r wybrenau !

Hynod yw gweled tonau—y goedwig
Ar gadwyn o fryniau ;
A gwel'd y mynydd yn gwau,
Wrth edrych wrth ei odrau !

Rhesir y graig arhosol—â gwiwdeb
Gwych goedwig henafol ;
Ceir rhes, a rhes ar ei hol,
A'r rhesi'n dderw oesol.

Cydiol yw rhesi'r coedydd—i gefnen
Sy'n ysgafnu'r mynydd ;
A swyn y perlleni sydd
Ar wyneb y gwyrdd fronydd.

Ymlïosa melusion,—a gwinoedd,
I gynal y galon ;

Bwria'r goedwig bob aeron—dymunol
A rhyw swyn siriol, fel rhosyn Saron.

Bwyell saer, a'i cbill sydd
A'u hergydion ar goedydd ;
Brasneddir a llumir llwy,
A thud arfau gwerthadwy ;
Ateba y coed hybarch
I wneyd ty, gwely, ac arch ;
Er ei enaid, yr annuw
A wna ddarn o bren yn dduw ;
Ac o'r mcs, i rwygo'r môr,
Daw'r llong sy'n dryllio'i hangor.
Deifiwr certh yn difa'r coed
Mwyngu, yw tân mewn mangoed ;
Daw allan trwy dywyllwg,
A'i llannau 'n ymwau 'n y mwg ;
Tyn y mwg tân ymagor—
Tân a mwg fel tonau môr ;
Try ar léd trwy araul lwyn—
Adar giliant o'r gwiwlwyn ;
Ei raib rwyga, i'r brigyn,
Uchel goed glasgoed y glyn ;
Cilia acw—mae 'n clecian
Gau dwrw'r derw ar dân ;
A phob bwystfil a gilia
O'r wig—mewn dychryn yr â.

Mae heddyw ing ar ymddangos,—y dydd
Yn ymdoi mewn cyfnos ;
Gwawl nen a gilia i nos
Y nawn hir sy'n ein haros.

Mellten yn filan ymhollti,
 A tharan ffoch yn groch gri;
 Cenllysg yn dryllio canllaw
 Bro'r gwllith yn llwybran i'r gwllaw;
 Corwynt, yn ei helynt hyll,
 Yn tywarehu'r mant erchyll;
 Troi hoenryw'r tir i annhrefn,
 Er gwae, a'r wig ar ei gefn;
 Codi y deri cedyrn
 O'r gwys i'r wybr ar ei gyrn;
 A thori ffordd, ddyfnffordd ddig,
 Drwy gydiol ddeildai'r goedwig.

Rhyferthwy ofnadwy'n ei fynediad;
 Llid a tharanau, mellt a therwyniad;
 Rhwygo i fwrw'i anwar gyfeiriad,
 Hwnt i'r eigion yn mhwynt ei warogiad;
 Tery'r lem dymhestl trwy'r wlad,—yn ffyrnig,
 I wānu'r goedwig yn ei hergydiad.

Yr Hydref i lawr a edrych—ar wedd
 Deildai'r wig o'r entrych;
 Hwylol wawr naturiol wych
 Y gwerni ddog i oernych.

Y glwysliw baid o'r glaswyn,—
 Delw glyd y deiliog lwyn;
 Y ddeilen, gan eiddilweh,
 O'i lle a syrth yn y llweh;
 Y dderwen, nen frenhinol,
 Yn ei nerth a dyn yn ol;
 Ei gwedd yn wywedig ä,
 A'i gwiw olwg a gilia;

Ei dail a syrthiant yn dô—
 Trengant i bentwr ango';
 A'r wig ddiosgir ogylech—
 Dawn na châu nid yw'n ei chyleh.

Meth genedlaethau, 'n ddiau, ddeuant
 O ddail awen i eiddil wywiant!
 Bwrir perth i lwybrau'r pant,—lle bu chwedl
 Hoewlon genedl lawn o ogoniant.

Wyla gwawl hoew'r cwmwl goleuwyn
 Hyd lwydwe'r dolydd a deildai'r delyn;
 Heb hoen ei folawd, yr edn penfelyn
 A o'i baradwys heibio ar edyn;
 Briw yw agwedd pob brigyn,—a llwydgrib,
 O golli darwib asgell aderyn.

Gwywa oddiar y gwiall
 I'r dwf cenedlaethau'r dail;
 Naill oes yn dilyn y llall—
 Un yrir ar un arall;
 Ac felly, obry yr ânt
 I gafell ebargofiant.
 Fel hyn y disgyn y dail
 O fyd heb un gofadail;
 Dail ar ol dail yn dilyn—
 Dail yw cenedlaethau dyn.

Niweidiwyd dyn yn Eden
 Drwy y prawf a wnaed o'r pren;
 Daeth bliu ffrwyth melldith i'w blant,
 Ac i ednos y goednant.

Y goedwig a'i theg adail
 Felldithiwyd—dygwyd ei dail ;
 Ei blodau, teg eman'r gwydd,
 Wywasant hyd ei meusydd ;
 Yr wybr edrychai yn brudd,
 A'i gosteg yn ddwfn gystudd ;
 Ei chwmwl dwl dorai dân,
 A thorai 'i dwrw uthr daran ;
 Gwelw,ôd, y gwawl ydoedd,—
 Ar rudd yr wybr pruddhau'r oedd ;
 Hoff wên Parawys a ffodd,
 Ac Adda a ynguddiodd.

Galwai Duw ag awel y dydd—rhuddwawr,
 Ar Adda trwy'r pinwydd ;
 Ac o eiriau ei gerydd
 Rhedai gwefr ar hyd y gwydd !

Taranau a mellt estronawl,—rwygent
 Y gwregys wybrenawl ;
 A chiliai hedd gwedd y gwawl
 I ryngau awyr ingawl.

Draw, y llew ddychrynwyd o'r llwyn,—a'r edn
 A droes am ryw glogwyn !
 Y gorhoenfalch deigr anfwyn
 Oedd fnd fel y ddafad fwyn.

Dedwyddwch dyndod Addaf
 Aeth yn nôd i felldith Naf ;
 Euogrwydd, gwaradwydd a gwrid,
 Efa, a brofai 'n ofid ;
 A thud y felldith, wed'yn,
 Yw gwyllt, gwâr, daiar, a dyn.

Diwedd y byd ddaw o bell—
 Diwedd y goedwig dywell ;
 Yr wybr a ollwng yn rhydd
 Fwynau 'n danllyd afonydd ;
 Coed anferth dyr cadwynfellt—
 Derw'r maes ar dorau'r mellt ;
 Og'fâu y wig gyfogant
 Fellt wreichion flamgochion, gant ;
 I'r wenloer, mwg dychrynlyd
 Guddia ben gwigoedd y byd ;
 Yr haul a dawdd ar ei hynt—
 Hollta 'i gaer yn wyllt gerhynt ;
 Ei chwaldaith drwy'r uchelder,
 Obry o'u sawdd, 'sguba'r ser ;
 Ymdaena gwasgfa trwm gur
 Yn nentu lwynau natur ;
 Daw 'r rhod i beidio rhedeg—
 Niwlia'n dân ei holwyn deg ;
 I'r pantle o'i saffe syrth
 Creigiau cedyrn, cacrogwyrth ;
 Gwaith doniau celfau pob cwr,
 Pwyntia tua'r un pentwr ;
 Melldith Eden ddadlenir—
 Dryllia ei daint yr holl dir ;
 A thân ddifa'r wig â'i thw,
 Dilledir gwynt â'i lludw !

Mae Coedwig wâr, anfarwol,
 Yn y nef, a'i cherddi'n ol,
 Ar dir Daw'r ochr draw i dân,
 A dinystr, gwyrddgoed anian.

Ni fedr goruchion y fall
 Gyrhaedd y goedwig arall ;
 Drwg wewyr gwywder gauaf
 Ni ddring i gynteddau'r haf ;
 Ei dail ni wywant gan dw
 Mirain naul yw yn marw ;
 A'i hadar celfgar á'u cân
 Yn donio marwnad anian.

Ei choedydd bythwyrddion a'u nodion deniadol
 Yn taro agweddiad y brynian trag'wyddol :
 Ac anadl pŕr flodau y manau dymunol
 A lifa i'r awyr ar awel foreuol ;
 Pwysiau rhos Saron o gwmpas aur siriol
 Yn dangos prydfërthyd ei gweryd rhagorol ;
 Briallu ar wasgar ei llwybrau llaer wisgol
 Ddyrwynant i esgyn ei hedyn cysgodol ;
 Háf nodau eu'r dderwen gan ednod cerddorol
 A bery i anerch ei swynion wybrenol ;
 Rhŕn dilian i enaid ar awen delydol
 I fynwes y dedwydd a lifa'n wastadol :
 Mae cartref y nef yn ol—yn Eden
 I dyfu awen á'i dawn adfywiol.

Os nodwyd dyrysni Eden—i dân,
 'D oes dim heb ei ddyben ;
 A bydd ail goedwig uwch ben,
 Gan Dduw yn gynydd awen.

Duw a arwain, mewn iawnderau,—y byd
 I ryw bell gyfnodau ;
 A rhaid i'w bryf, gredo brau,
 Aros am ei resymau.

Traserch yw natur rhosyn,—er hyny,
 I'r ddraenen mae'n blentyn ;
 A daw gwedd ei drwsiad gwyn,
 I lun discerh lindysyn.

Rhoi lliw a sawyr i'r llysiuol—lwyth,
 A glan fywyd tyfol,
 A'u troi'n wyw bentwr yn ol,
 Sy' benod anesboniol.

Rhoi agwedd deg i'r brigyn,—ei wiw rudd
 Fwyty'r hagr lindysyn!—
 A grudd hardd, hawddgar, i ddyn,—
 Llwyda yn briddell, wed'yn!

Gyru perffaith hawddgarweh—y forwyn
 I farwol dywyllweh ;
 A thoi'r llanc prydferth a'r llweh,
 Ddaw a rheswm i ddrysweh.

Ymylu mae rhesymolyn—ar fod
 Yn rhy fawr i'w blisgyn ;
 Ac er ei dwrf, nis gwyr dyn
 Ei ddolur sy'n ei ddilyn !

Ni welwn gan y niwloedd,—syw undeb
 Gysonder gweithredoedd
 Yr llwn a wyr, a'r llwn oedd
 Aew 'n bod cyn y bydoedd.

Efe ollyngodd i fod,
 O'i ddrws y ddaiar isod ;
 Mfe a'i llysg yn y farn,
 A'i thewfrig goedwig, gadarn ;

Efe a drefna ail fycl,
A'i lif awen ail fywyd.

Llun diserch y llyndysyn,—newidir,
A daw 'n hoewdeg löyn ;
Ac o rych rhaw y daw dyn
I law Duw yn flodeuyn.

Pur iawn bau "Pren y bywyd,"—a'i afon
Yn llifo dedwyddyd,—
A'i gangau yn hau o hyd
Ei afrif ffrwythau hyfryd.

Yno ceir golwg unol—ar y daith,
O ryw dwyn awyrol,
A phob cam heb nam, yn ol
Rhyw ogwyddiad trag'wyddol.

RHAN O AWDL AR HENAINT.

DAW 'r gwenith a blodau 'r gwanwyn—a'u gwèn
 Gyda gwyneb blwyddyn;
 Mae'r meillion cu 'n glasu 'r glyn,
 A daw effro i'r dyffryn.

Daw 'r gôg ac adar y gân
 I ddonio cerddi anian;
 Ceir gwê o geinciau 'r gwial;
 Gwiw bleth deg o blith y dail;
 Daw 'r fronfraith a'i seiniaith swyn
 A'r clyw egyr o'r clogwyn;
 A'r fwyaleh gyda'i balch bill
 Yn sibrwd mynwes Lbrill.
 Daw 'r gerddi 'n dyrau gwyrdd-ddail,—
 Llwyni gwlad mcwn dillad dail;
 Daw 'r ddôl i ledu'r ddeilen,
 A dwyn prid flodeuyn pren;
 Daw gallt â blodau gwylltion,
 A llwyn brith yw perllan bron;
 A'r gwenyn, draw ac yna,
 Yn moli rhia mel yr ha'.
 Wedi 'r hia sy'n gwneyd yr haf
 Cawn hoew bryd cynhauaf;
 Cawn y tir yn caniatâu
 Yr yd a phob rhyw hadau,—
 Gwenith gwlad â dillad haf
 Yn newid i'r cynhauaf.

Wedi hyn, ar ol enwd haf,
 Y daw gwywiant y gauaf; .
 A phren praff ar wyneb bro,
 Yn ei nôdd sy'n heneiddio.

Duo mae lliw'r blodcuyn,—a'i dduwch
 I'r ddaiar sy'n disgyn;
 Henaint drydd yn haint wreiddyn—
 Haint tost ydyw Henaint dyn.

Yn fwy o alaeth na byddin o filwyr,
 Y gwynt a rua geugantan'r awyr;
 Ac ail garthion yw gwallau gwerthyr,
 Er diogeliant cadrodau gwylwyr;
 Ar ei gorn ceir muriau gwyr— a'i asgell
 A ddarnia babell y dderwen bybyr.

Mae'r ganu'n hlynhau'r gwial,—
 Gwywir a dygir eu dail;
 Ant i lawr dros ganllaw'r gwynt,
 I gni gorwyllt gwyn gerhynt:
 A llwyr wael ydyw'r lle'r oedd
 Gwiw degweh prid goedwigoedd.
 Gwawr yr huan ceinlan, eu,
 Edy'r nos hir deyrnasu,—
 Hoew dòn yr afon ni red,—
 Rhywiog lyli'n graig galed;
 Daw'r eira—llwydrew oerwyn—
 Llwyd heb wres ydyw gwallt bryn;
 Mud yw'r wig werdd, fwyngerdd fad,
 A llwyd oll yw ei dillad;
 Daw'r flwyddyn i derfyn dydd,
 A'i drwg henaint ar gynydd;

A derfydd hafddydd ei hoes—
Du hennaint ä a'i heinioes.

Eira Ionawr a'i oer enyd—a ludd
Yr hen flwyddyn nychlyd;
Ond daw i farn mewn hwnt fyd,
A'm hanes ar bob munyd.

Hafal i wedd y flwyddyn,
Yn ei stwr, yw einioes dyn—
Ei wanwyn yn mwyn wenu,
A hoff anian ei gân gu—
Ei auaf, a'i haf, hefyd,
A'i alw i farn, a'i ail fyd.

Pa wledd yw gwyneb blwyddyn—i wyneb
Meillionog y dyffryn!
Gwên gweunydd geni gwanwyn
Gwên i dad yw geni dyn.

Dwyfol haelioni Dofydd—yw geni
Eginyn y mousydd;
A rhyw ran werthfawr a rydd
Duw i ni yw dyn newydd.

Er hyn, mae rhyw drueni
Yn ein hoes yn rhan i ni;
Ac nid yw rhan baban bach,
A'i rym gwan, fawr amgenach.

Ei gwyn sy'n dweyd ei gyni,—yn y fan,
Er na fedr ei enwi;

Dan ei grocs daw yn ei gri
Yn hen ddyn, newydd eni.

Ni ddaw ond unwaith yn ddyn,—a dwywaith
Y daw ef yn blentyn,—
Cryfla'i chwant, a'i lwyddiant lyn—
Dyna'i nôd,—daw 'n hen, wed'yn.

Daw'r plentyn yn hogyn hardd,
A châr wefus chwareufardd ;
Câr y gerdd a phynciau 'r gôg,
Nau fedr awen fodrwyog ;
'T'ya'n ieuencid ifanc,
A châr gampau llwybrau llanc ;
Câr ofwy eu wawr wiwfoed,
A châr wên merch yr un modd ;
Daw'n wr, a thad un arall—
Un llun ag yntau yw'r llall.

Yna, buan daw gofalon bywyd
I oeri 'r asbri, a llwfrhau 'r ysbryd—
Mynych cyfarfydda oedfa adfyd,
Yn blaenu anafau blinion, hefyd ;
Truenus beth trin ais byd—anniwail,
Na ddown i'w ddeall tra ynddo 'n ddiwyd.

Mor ebrwydd a rhwydd yw 'r hynt
A wna'r corff i'r hanc cant !
A cheir ei frau gamrau 'n gynt,
Oddiyno 'n pwysu i'r pant.

Yn ei wedd mae 'n heneiddio,—er na wyr
Hyn ei hun, trwy deimlo ;

Mae'n cyrhaedd brigyn bryn bro,
Min y gwaered—mae'n gwyro.

Mae'n teimlo'n rhwydd am ryw flwyddyn,—a'i nerth
Heb wanhau'n ei ddilyn
Ond esgud y mae'n disgyn,
A rhan o'i wallt yn troi'n wyn.

Yr ên sy'n troi i wynu,
A rhan o'i ddaint yn troi'n ddu;
Eu gallu'n llwyr a gollant,—
O un i un o'i ên ânt;
Yr aelïau'n trymhau'r olwg,
A'u gwedd yn debyg i wg;
A'r llon fochau cochion eu,—
Llwyr iach, yn tywyll rychu.

Mae ei gam a grym ei gymal—yn wan—
Bu'n wr cryfa'r ardal;
Impyn teg, a grym pen tâl—yn plygu,
A phoen ei gwnu heb ffon i'w gynal.

Ei ddelw sy'n pallu'i ddilyn,—a'i adael
Mewn gwywder mae'i rosyn;
Hwn fu hoewlanc penfelyn;
Ond dyna'i wallt yntau'n wyn.

Daw yn ei ogwydd i rodio'n egwan,
Wrth ei ewyllys yn y berth allan;
A chan dristwch, mae'n edrych yn drwstan,
A ffôn fyglyd, wrth ei ffon a'i faglau;
A phoen a gwedd ei gorffyn gwan,—cyn hir,
Llwyr apwyntir o'r gwely i'r pentan.

Cain iawn oedd cyn henciddio,—a'i ysgwydd
 Yn esgud i weithio ;
 A rhoddodd natur iddo
 Fôn y fraich gryfa'n y fro.

Weithian, ei babel waethwyd,—a'i gain nerth
 Gan nych a gaethiwyd ;
 Cryn y llaw, a'r coryn llwyd
 Giliodd yn llesg i'w aelwyd.

Daw adeg i'w fyfyrnodau—pan oedd
 Camp yn un o'i wyliau ;
 A daw ei gongl, wedi ei gan,
 Yn lle encil ein llanciau.

Difyrus ydyw adferiad—bri aidd
 Borau 'i oes wrth siarad ;
 Mae'n boddhau holl lanciau'r wlad
 Drwy ei wedd, a'i adroddiad.

Dengys ei wedd yr hen feddwl,—a'i ael
 A gwyd fel clær gwmwl ;
 Cilia 'i anfad deimlad dwl,
 A'i flin ofid fel nifwl.

Drwy adrodd ei ôd wrhydri—ei waed
 I'w wedd sydd yn eodi ;
 A'i fron sy'n teimlo rhyw fri
 Yn ysbryd yr hen asbri.

Ei gof sy'n hynod gyfan,—os dyrwyn
 Ystyriaeth ei oedran ;
 Ond gwyl yw seiniad ei gân,—heb ei ddaint—
 Nid yw henaint yn myn'd ei hunan.

Naturiol i hwn yw taro—ar dant
 Rhyw dyb gredid ganddo,
 Am fwgan, neu frân y fro—a welwyd,
 A'i hyl freuddwyd o flaen llofruddio.

Rhwyma wynloedd â'u chwedlau rhamantus,
 A gwib oruchion golwg brawychus;
 Trinoedd cadrodau rawdiau echrydus,
 Yn wybr osodiad gwyneb arswydus;
 Heinyf adrawdd yn fedrus,—bob uthr fodd,
 Yn ei fyw a welodd, yn ofalus.

Wedi hyny, pan ydyw ei hunan,
 Tery i cdrych ystyr ei oedran;
 Ae felly'n gweled cyfeillion gwiwlan
 A'r adeg oll wedi rhedeg allan,
 Aethau sy'n codi, weithian,—oehenaid,
 A braw enaid yn llwybro ei anian!

Daw i'w gof y blodau gynt,
 Ar rudd ei lwybrau oeddynt,—
 Llanciau cân gwiwlan en gwedd
 Yn rhodio brig anrhydedd;
 Merched prîd yn wrîd yr oes,—
 Coronau ceinciau'r einioes;
 Ei wraig swynol, nefol nwyd
 A welodd ar ei aelwyd,—
 A'i blant—y ewbl a heintiodd
 Angau yn meddau'r un modd!
 Hwn wél ei hun yn olaf
 O lwyd wedd flodau ei haf;

Heb henoed cyfoed i'w cael—
 Dywedwn,—“ Wedi ei adael!”
 Hen yw ei ddrych, a'i glyw 'n ddrwg,
 A phyla ei graff olwg;
 Bi chwant a deimla o chwith,
 A thraul lle bu athrylith;
 A'i rym a'i gollwng ar wyr
 Megys gogwyddiad magwyr.
 O glun i glun, o'i gongl glaf,
 Try i'w wely'r tro olaf;
 A'i ruddian a arwyddant
 Dy'r bedd, a dyfnder ei bant.

O'r hen frawd! oddiar ei hoenfryn,—welaf
 Yn cilio i'r dyffryn;
 A'i frig hwyr yn farug gwyn
 Ar y dail lle bu'r delyn.

Ba wall a waethodd ei babell weithian
 Tan law henaint yn ei liw ei hunan!
 Y llifnodd fferodd yn ei gorff eirian,
 A'i sywgu ddillad a wisgodd allan;
 Gwyd ei deg lygad a'i dân—ddiffoddodd;—
 Iâ, dihoenodd bywyd o'i anian.

Anhunedd blin yw henaint,—yn dwyn dyn
 O dan dost ddyoddefaint;
 Gwyr a'r ol ei gerant,
 Ar ael deg ar ol y daint.

Tyr Henaint wynt yr einioes,
 A dwg wrid lliwdeg yr oes;

Gwr irdwf gywir ardeb
A wna'n tebygu i neb.

Newid mac'r bachgen ieuanc,
A cholli'i hun yn llun llanc ;
Daw y llanc i newid llun,
A golwg ei deg cilun
A dry'n hen drwy anhunedd—
Braidd na wâd bruddni ei wedd.

Buan mae peiriant bywyd,—o'i reol,
Yn dirywio 'n nychlyd ;
A gwedd ei drefniant i gyd
Ddaw i chwâl diddychwelyd.

Dyna y cawrfil dinam,—
Hwyrog wedd, a hir ei gam,—
Milyu cadr, yn mlaen ac ol,
O swm ôd ty symudol,—
Dyrwyniad ocraiu henaint
A dry hwn yn fwyd i'r haint.

Daw henaint i'w ewynau,—a gollwng
Ei gallestr gymalan ;
Ail, wed'yn, ei aelodau
I lwyd bridd, neu ludw brau.

Ofn y llew â'i safn alluog—a roed
Ar bob rhyw ysglyfiog ;
Cynddaredd ei ddanedd ôg
Ysa gern ych esgyrniog.

Try hwn yn wan trwy henaint—a'i allu ŵ.
Ddryllir gan echrsaint :

Yn hawdd, diadnawdd enaint,
Hyntiodd ef, dyllant ei ddaint.

I'r teigr, a'r llewpart egraidd—y daw'r ing,
Gyda'r arth llechwraidd ;
Ceir y blwng udgi, a'r blaidd,
Er eu hoen, yn llwfr, henaidd.

Henaint sy'n dofi anian—hyf olwg
Gwylltflod pedryfan ;
Yn mhob modd, cwympa'n mhob man
Lhwog ryw yn y graian.

Mae'r goeden dderwen, ddurod—i'w gwled
A golwg henafol ;
Holl feru'r llif awyrol
Ni thyr ei nerth, na'i throi'n ol.

Ei mesur sy'n byw am oesoedd,—a'i hoedl,
Medd rhai yn ganrifoedd ;
A thyf ei chlau geinciau'n g'oedd,
Yn nwyfiant eidd y nefoedd.

Ond hwyr henaint, er hyny,
Ymwél â'i thwf—mâl ei thy,—
Darnia ei gwyh gadernid,
A rhydd dan len y pren prid.
Y graig a'i brig ar ogwydd
Gan yr hîn, a blyga'n rhwydd ;
A'i grudd hen, dan gerydd hir,
Chwâ'n ei broch, wyneb rychir.

Ceir clôg Henaint yn gwisgo'r clogwyni,
 A'u banau enwog dan ei benwyni;
 Maluria'n rhydd y creigydd sy'n crogi,
 I fro afonydd, yn chwilfrw feini;
 Nadd fron y mynydd, a'i fri—a dderfydd—
 Rhana i'r Werydd esgyrn Eryri.

Felly â'r daiar a dyn
 I ddull llwyd hen ddilledyn,
 Newidir a dygir dan
 Arwydd henaint rudd anian.

Os tynir tros ddiphwys tonau—y môr
 I fysg Meirion fryniau,
 Nis gallwn, gwn, i'm llesgan,
 Prin'nabod pur wynebaw.

Mae llawer yn nyfnder nos
 Y gweryd yn llesg aros,
 A gwely eu llely'n llwyd,
 Heb frawddeg, na thyb freuddwyd;
 A gweddi bedd â'u gwedd gn.
 Obry gawn yn brigwynu.

Y llencyn penfelyn fu
 Yn deg aurant i Gymru;
 Ei rudd mor brydfert h a'r rhos,
 Oedd i'ngaudd yn ymddangos;
 Ei droed mor esgud a'r hudd
 Yn mesur lled ein meusydd;
 A'i gorff yn heinyf a gwych,
 Heb arno ethryb oernych;

Ond yn awr, mae'i wawr eirian,
 A byw gloŵ ei wyneb glân
 Yn rhychu; a'r byw wreichion
 Fu'n siarad o'r llygad llon,
 Ni welir dan ei aelion—
 E'n trem hwynt sydd yn trymhau.

Mae henaint yn camu hwna,—a'i gefn
 A dry'n gam pan gerdda;
 A'i wallt, oedd fel dillad ha',
 O'i sawr glod a friglwyda.

Yr eneth lân, dirionaf,
 A'i henw'n wyu rosyu yr haf;
 Ei gwrid yn cynyrchu gwres
 O fy mewn yn fy mynwes;
 Ei hesgair, a'i throed ysgawn,
 Ar y gwydd ni phlygai'r gwawn;
 Ei llygad ar groen lliwgar,
 Roddai werth ar ei grudd wâr;
 Ei gwefus a'i hiaith gufwyn
 Wnai fyd yn ei chwmmi'n fwyn;—
 Ffôn hon sy'n nghyffion henaint,
 Llwyd yw, wedi colli'i daint.

Ei dwy foel yn irdwf iachus,—welwyd,
 A'i golwg yn hapus;
 Ond heno, ei nwyd hoenus,—gan wywdeh,
 A dry y wyneb yn oedranus.

Gwelais ei llygad gwiwlan—a'i gwynneb,
 Yn ogoniant anian;

Ond dyna hi, 'r lili lân!
Ar ogwydd yn hen wreigan!

Rhieni, gan freuder anadl,—a henaint,
Nid y'nt yna 'n ddiddadl;
Diwedd eu hoes, nid oes dadl,
A dystia 'r beddfaen distadl.

Yr hen bobl i raian bedd
A yrwyd oll i orwedd;
Ni welir un o lu'r oes,
A henoed boreu 'm heinioes.
Gwel'd llun ambell un yna,
A llyfr eu hoch, a'm llwfrha;
O herwydd mae'u pryd araul,
A'i liw teg fel machlud haul.
Y llanc sydd a'i saf yn llwyd,
A'r hoglanc yn wr briglwyd;
Yr eneth yn gruddgrino,
A'r hen yn y tywyll ro;
A minau yno'n myned—
O mor rwydd fy nhymor rêd!

B L O D A U ' R O E S .

MAE Blodau 'r Oes yn gwywo,
 Er teced yw eu gwedd,
 A llawer iawn yn huno
 Ar wely oer y bedd ;
 Ond clywais ddweyd i Iesu,
 Ar ol bod ar y groes,
 Fod yn yr ardd yn cysgu,
 I ddeffro Blodau 'r Oes.

Dros Flodau 'r Oes y gwisgodd
 Y bigog goron ddrain,
 Dros Flodau 'r Oes y profodd
 Yr hoel a'r bicell fain !
 Esgynodd i'r gogoniant
 Ar ol bod ar y groes,
 A'i hen yn gwisgo garlant
 O swynol Flodau 'r Oes.

AWDL AR Y GOLEUNI.

MANTELLU mewn tywyllwch
 Y gwelaf fyd trymllyd, trwch,—
 Heb lewyrch, yn nyfngyrch nos,
 Yn ei oror yn aros.
 Ei rudd a'i galon yn rhew,
 A'i ddw'r i gyd yn ddurew ;
 Ei ddolydd heb werdd ddeilen,
 Na ffrwyth ar welltyn na phren ;
 Y ffynon lon yn glynu
 Wrth sawld y graig, ddofngraig ddu ;
 Yr afon yn grug rhyfedd,
 Heb sylyd bywyd, fel bedd ;
 A'r heli, gan farwolaeth,
 Ni thry i aber na thraeth.

Hwnt, haul, o siu tawelwch,
 Megis yn llam y flam flwch,
 Ei loewaf drem welaf draw,
 P'r lan yn tŕ olwynaw.
 Rhoddwyd yn llaw 'r wawr, heddyw,
 Agoryd dôr borphor byw,
 F'w ollwng—mae 'r haul allan
 Yn d'od a'i wyneb yn dân ;
 A bywyd gwawlfyd, trwy 'r gwyll,
 A wasgar ei glaer csgyll.

Daw haul anian, mewn hyfryd lawenydd,
 Hcibio ar anel hyd yr wybrenydd ;

Hoff fin ei anadl dawdd y ffynonydd,
 A'i araf wên egyr yr afonydd ;
 A'r llyn o'i garchar llonydd—ymdora,
 Ac a rwyga rhwng y miniog greigydd.

Y môr a welodd—mae 'n dadmer i'w waelod,—
 Byw yw esgyll ei adar a'i bysgod ;
 Mae daiar gu o'i ddentu 'n ymddatod,
 A'i thud yn gwasgar hygar goedwigod
 Yn adnawdd i fwyn ednod ;—a chreigiau
 Y gororau yn magu eryrod.

Aew, i fro arant, y cryf cryr
 Saetha 'i aden o agen y elegyr ;
 Dystawrwydd poenus, gwngus, gu egyr
 • Brefiad y ddafad, yn hynod ddifyr ;
 I gae dychrynedig wyr,—anial wlad,
 Daw 'r llew a'i ruad yn dryllio 'r awyr. v

Ar y doldir y gwelir argoelion
 O bobl lwythog yn eu dâ byw, blithion ;
 Llawndeb aml bresch yw ychen breision,
 A chwai yr oedd ageir o foch hirion ;
 Gwiw iechyd y meirch gwychion,—a'u heinioes,
 A bery deiroes yn llaw 'r brodorion.

Ganwyd mwyn haf hynotaf yn natur,—
 (Iwenau byw lygaid egin a blagur ;
 Acen ddiartaith cân y wiw ddurtur
 Aew a rêd o enau 'r creadur ;
 A dyfeisiau difesnr—yn mhob pau—
 Dail a blodau yn odlau y bladur.

Y blaned heb Oleuni—haf huan,
 Oedd ddifywyd trwyddi ;
 A chorff hon, a'i fron heb fri,
 A'i waed fr wedi oeri.

Daioni a duwdod anian—ydyw
 Y nodedig huan ;
 A gwiwdeb disgleirdeb glân
 A ddeillia o'i rudd allan.

Hacl wyneb y Goleuni
 A wnaed i'n cysuro ni ;
 A'i dyniad, nid o annuw
 Yn d'od—"Goleuni yw Duw."
 Hwn yw 'r creadur hynaf,
 Yn eitha 'i nen a wnaeth Naf ;
 A'r haul, wedi hyn a roes,
 A'i dân i galw 'i einioes.
 Y lloer, pan fyddo yn llawn,
 Rhag aflwydd, ei gwawr gyflawn
 A rydd o wyneb yr haul,
 Yn ael hwyr, yn wawl araul.
 Ei llawen wên arianaidd
 I drum y mynydd a draidd ;
 A'i thegwch, mewn harddwch ôd,
 Yn gwisgo 'r llyn a'i gysgod.
 Hynodir y planedau
 Gan ei lewyrch gwych yn gwau ;
 A'r sêr yn rhesi arian
 Ar léd gwyneb yr wybr lân.
 Bro glain yn llwybr Goleuni,
 Yw ffurfafen ein nèn ni ;

Nos a dydd mao 'n syw ei daith
 Ar yrfa ei chlwr hirfaith.
 Mor brydferth ydyw gwerth gwawl
 Ar beirianau 'r wybrenawl!
 Llawn chwydd ydyw llawen chwedl
 Gogoniant gwiw y genedl;
 Gogoniant creigiau gwiwnel—
 Hwn yw gogoniant y Nef.
 Hyd yr entrych gwych yw gwedd
 Eglur Golenni 'r gogledd;
 E bair llwythau 'r Llwybr Llaethog
 Meriau grudd wybren grôg;
 Y gwib sêr yn uchder neu
 Ydynt yn llathru 'i aden;
 Goruchion,—gweision Duw 'n gwau,
 A fudant ei dafodau;
 A'r mellt tra 'r uthr ymhoddant,
 Ei noeth bregethu a wnant.

Tery dyn wrth drydaniaeth—ar ei rawd
 Drwy 'r holl greadigaeth;
 Llôir hwn yn mhob lle 'r acth
 Y byd yn ei wybodaeth.

Nodau 'r Golenni 'n rhanedig—a geir
 Yn gwau trwy bob ternig;
 Ac ar daen mewn gwaen a gwig,
 Ei wisg roed yn wasgaredig.

Rhyw hwyl anwyl yw gweled Golenni,
 I wel'd yr haul teg, cudeg, yn codi—
 Delw anian a'i blodau 'n adloni—
 Llun y rhosyn, a'r briall yn rhesi;

A cheunant yn gwreichioni—ar wddwg
Gwlad hael olwg, a gweled y lili!

Gwel'd y mynydd yn gwylicd y mwnau,
A'i goryn moelwyn uwch y cymylan!
Ei wyneb a hylt hydrwyllt raiadrau,
A chryma'r entyreh ar ei amrantau;
O'i gylch, yr eryr sy'n gwau—ei aden
I gwr rhyw agen yn min ei greigiau.

O'i odre gwel'd rhaiadr gwyllt,
Dan ruo'n rhuthro drwy'r hollt;
A gwel'd mwg gwlaw du, a mellt,
Trwy yr wybr yn tori'r allt!

Ewyn yn disgyn yn darth,
Yn y pant o'r ceunant certh;
Ei gefnlli'n boddi'r holl barth,
A'r fro yn nosio mewn nerth!

Ar ol y gwlaw, areulo glyn,—a gallt,
Mae gwedd yr haul melyn;
Yn iaith y fronfraith ar fryn,
Mae byw nwyd yn mhob nodyn.

Parodol gamp yr hedydd—yw esgyn
Ei asgell i'r wawrddydd;
Ac yn ei rawd, ei gân rydd
I ruddiau y boreuddydd.

Wedi i'r gwlaw ledu o'r glyn,—yr haul
A rydd ei wres, wed'yn,
O wely bro, i ael bryn,
I drwsio gwallt y rhosyn.

Hynod yw Goleuni anian,—a'i rym
 A rêd trwy'r wybr lydan ;
 Ei deithi, a'i glysni glân,
 Nid ellir eu gwneyd allan.

Mesur tywyllwch moesol—y ddaiar,
 Oedd dduwch andwyol ;
 A neb yn gweled tu'n ol
 I'w gau gaddug gogwyddol.

Gwawr i euro'r gororau—ni welid
 Gan halog gymylan ;
 A'r byd i gyd wedi'i gau
 I dynged cysgod angan.

Mewn prid addewid i ddyn—annedwydd,
 Amneidiau llewyrchyn,—
 Edrych mewn pelydryn—wnai Duw o'i lys
 I draeth du, echrys, llywodraeth dychryn.

Galw Enoch i dir Goleuni— a wnaed,
 O dir nos gan Geli ;
 Ehedodd i'w fawrhydi,
 Trwy y llen tu hwnt i'r lli'!

Noah ga'dd enfys newydd—o wiw wawl,
 Gan Iôn ei Waredydd ;
 Ac yn hon, arwyddion rydd
 O'i gariad yn ei gerydd.

Sylw Moses a welodd—yn y berth,
 Dân byw, a rhyfeddodd !—
 Ei fywyd ni ddifiaodd
 Ddail y berth, mewn rhyw ferth fodd.

O dywyllwch yr Aifft, allan—y daeth
 Duw á'i bobl, ei hunan ;
 Hynod oedd y golofn dân,
 I alw 'i genedl i Ganaan.

Gwawl o fellt yn goleuo fu,—a'i swm
 Ar Seinaï 'n taranu ;
 Allan e ddaeth, o'r llen ddu,
 Lliferiant Duw'n llefaru.

Amlwg wawl, yn gwmwl golau,—a roed
 Ar yr arch a'r llechau :
 Arwyddodd drugareddau
 Yr Ión, tra bu yn parhau.

Y doethion yn ymdeithio,—a welwyd,
 I addoli'r Seilo ;
 A scren yn prysuro,
 O fryn i fryn, trwy y fro.

Y seren roddes arwydd,
 A'i gwawl safodd yn eu gwydd,
 Uwch ben y llanerch y bu
 Iesu á'i ben yn isel,
 Uchel Wr,—gwyh wawl araul—
 Gwnai 'r doethion roddion i'r Haul.

Yr Iesu 'n Haul yr oesoedd—
 a anwyd—
 Mac'n Olcuni 'r nefoedd ;
 Ei enw ef, cyn huan oedd,—
 Eriod, goleuo 'r ydoedd.

Efengyl hedd á'i gwedd gu,
 Gawn o'i ras gan yr Iesu ;

Yr Hwn gariodd ddrain goron,
 Yw glân Haul Goleuni hon.
 Esgynodd i lys gwiwnef
 O'n daiar ni, drwy y nef;
 A gwiwdeb ei hardeb hi
 A lanwodd â Goleuni.
 Mae engyl efengyl fwyn,—
 Byw fwriad Mab y Forwyn,
 A'i gwawl yn gwasgaru'r gwyll,
 Hyd duedd ein byd tywyll.
 Iael roddiad rhad gan ein Rhi,
 Yw gwawl wyneb Goleuni;
 A rhad, Goleuni pur hon,
 I wledydd o dylodion.

Hi a addawa ddileu gau dduwiaeth
 O dir y ddaiar, a phwdr Iuddewiaeth,—
 Goleuo temlau beddau Pabyddiaeth,
 A mynu tynu Mahometaniaeth:
 Dwyn y byd o anwybodaeth wna hi,
 A rhoi Goleuni ar lwybr Rhagluniaeth.

Daw ei haulwen i'r India ehelaeth,
 A bwria o'i mynwes nos Brahminiaeth;
 Angau i ddelwau cilunaddoliaeth
 Yw ei gwenau, ac euog baganiaeth;
 Dwyn y byd o anwybodaeth—wna hi,
 A rhoi Goleuni ar lwybr Rhagluniaeth.

Mae Haul a ddaw i ymlid aml-dduwiaeth,
 Neu dyweder, os myner, Undodiaeth;
 A daw a thystion dilead Atheistiaeth,
 A ffoa o wyddiant dwyll Anffyddiaeth:

Dwyn y byd o anwybodaeth—wna hi,
A rhoi Goleuni ar lwybr Rhagluniaeth.

Goleua wae Eden, á'i gwawl odiaeth,
I weled oriau dwyfol wladwriaeth;
Fe ddaw ei gwenau yn feddyginiaeth
I gyrau du eigion llygredigaeth;
L'wyn y byd o anwybodaeth—wna hi,
A rhoi Goleuni ar lwybr Rhagluniaeth.

Er i ddyn gacl gwerdd einioes,—
Rhodio'r ardd ar hyd yr oes,
A byw mewn hawddfyd di ball,
E ddaw hwyr á gwedd arall.
Hwylia'r oes o ael yr allt,
A gwyr a i lawr gorallt,
I gŵr glyn nos dychryn du,
'Tra'i wenyg yn taranu.

O'i flaen tywyllwch afluniaidd—a wél,
A chlyw swm rhaiadraidd;
Y swm, hefyd, drymlyd draidd
I'w galon yn ddirgelaidd!

I lawr, ei droed deimla ar draeth—rhyfedd,
Oer afon marwolaeth!
Ond trwy y swm tery saeth
Gwawr deg o waredigaeth.

Gweli ydyw colli golwg—ar fyd,
Heb wawr fach, yn amlwg;—
Troi o fyd gwynfyd mewn gwg
Du hollol, i dywyllwg!

Ond gwych yw tywyniad gwawr—yu yr hwyr,
 Pan rēd oes daiarlawr;
 A chael o'n blaen wych Flaenawr,
 Dyr y llif wrth ado'r llawr.

Yn dywysog gwnaed Iesu—ar y dōn,
 Er dal pen ei deulu;
 Eiddil un ddeil i wenu
 Drwy y dwfr, a'i raiadr du.

Rhyfeddod oes, yw croesi—mawr hylif
 Marwolaeth, heb foddi;
 A gwel'd glān gwlad Goleuni,
 A'r lloer tu arall i'r lli'!

Byth wawl heb boeth awelon,—a welir
 Gan heuliau tryloewon;
 Rhydd adar glwys, llwys, a llon,
 Bwyth o erddi bythwyrddion.

O feldau anian hyfryd fydd ini
 Ddal, i weled ardaloedd y lili,—
 Gweled gwiw lenyrch Gwlad y Goleuni,—
 A hwyliog adenydd haul gadwyni,—
 O hyd heb funyd oēdi,—haul fel swyn
 Yn y wiw gadwyn yn tirion godi,

Cael esgyn wed'yn i eraill fydoedd
 Araul, yn nosio ar wawl y nesoedd;
 Dyrchafu, a nesu, i deyrnasoedd
 Teulu Eden mewn cywraint oludoedd;
 A nesu trwy'r dinasoedd—i fynu
 I ardal Iesu a'i hyfryd lysoedd.

Ac yno, mewn gogoniant,
 “Dyna Siob,” dywed hen sant;
 “Dafydd yw hwn, sy’n dyfod,—
 Enwog lyw yn llawn o glod;
 Iiwn yw Bardd yr Awen bur,
 A Moses, yr un mesur;
 Aaron yw hwn, a Miriam
 Awen fwyn, a dyna fam
 Yr Iesu—dacw’r grisial
 A ddyd y Duwdod i’w ddal.”

Y Gwr dirmygedig oedd—yn y deml,
 Sy’n dwyn sylw’r nefocdd;
 A gwir ddisgleirdeb ar g’oedd,—yn llachar,
 Loew wasgar ei offeiriadol wisgoedd,

Darluniad o’r haclioni—ancisor,
 Fynwesodd Duw ini,
 A lanwodd â Goleuni
 Wedd ein Brawd, brynodd ein bri.

I ddangos purdeb gwyneb gogoniant,
 Rhyw dyb wyrog yw disgleirdeb ariant;
 Y llu llachar, mewn gallu llewyrchant,
 A rhydd ei Enw arnynt urdduniant;
 P’awb â’i swydd—mac pob sant,—mewn hwyl hapus,
 Yn canu melus geinciau ’n y moliant.

Areulir ag orielau—gylch y sédd,
 A gloewych saif lithau;
 A gwych alawon sy’n gwau
 O anadl eu telynau.

Y llu'n grwn, mewn ysbryd llawn gwres—eiliant
 Felus wawd o'u mynwes;—
 Rhai yn ol, a rhai yn nes—
 Mae'r gân i bawb mor gynes.

Angylion ceinion, gwisg ganaid,—ganant,
 A gwynion serafllaid;
 Ceir yno byncio di baid,
 A thanau'n llaw noeth enaid.

Daw araul eangderau—ar edyn
 Ysbrydol gysodau;
 Lle a throfn sy'n eu llathrhau—
 Mae'r Haul yn rhwymo'r heuliau.

Y nos sy'n dangos y dydd—ar y lloer,
 A llu yr wybrenydd;
 Bronau ser yr wybren sydd
 A'u gwawl yn taro'u gilydd.

Yma, nos mewn cwm a nant,
 A gawn, a rhû'r dwfn geunant,
 A beirdd hoenus gwefus gwig
 Yn gwadu cân y goedwig.
 Erys y fwyalch dirion
 Yn brudd â'i phig yn ei bron;
 Yr hedydd ni chwâr aden
 Ei bill—mae'n isel ei ben;
 A'r fronfraith, chwaith, ni rydd chweg
 Bwnc cywrain o ben careg.
 Ansawdd oer neu y nos ddu
 Ollwng ben y briallu,
 Yr wybr a ollwng yr ia
 O'i bron oer obry'n eira;

Ceir y rhosyn gwyn, teg wêdd,
 Tan gwr y gwellt yn gorwedd ;
 Ac wed'yn daw helynt haf
 I ddeol y nos dduaf.

Edrych mae byw belydryn—iach y dydd,
 A chwyd ael y rhosyn ;
 A daw mawl gwawl boreu gwyn
 I daro tant aderyn.

Rhan oes geir yn hurnos gwg,
 A gwaelod bedd, o'r golwg ;
 Lle oer yw'r tywyll weryd,
 A'r bedd sy'n nghilfachau 'r byd ;
 Lle wedi'i gau dan follt gudd,
 Yn gostwng dyn i gystudd.
 Y corff ymollwng fel cwyr
 I waeledd difiant hylwyr ;
 Y pwyll, oedd gynt yu y pen,
 Dyrcha pryf y dywarchen ;
 Tywylla drych llewych llon
 Y llygaid yn hyll eigion !
 Tywyllweh difiant hollawl
 Yw gwedd y du fedd di fawl ;
 A dyma'r fan, dymhor, fydd,
 Ein gwely fel ein gilydd.
 Er hyn daw pelydr einioes
 Drwy hyll draeth drylliad yr oes ;
 Y gwawl a egwr y gwyll ;
 Drwy y tew ddyfnder tywyll ;
 Cellau hen difancoll hir
 Yn loew iawn oleuir ;

A mawr wely 'r marwolion
 Ddeffröir dan dir—dan dôn.
 Ar fyd daw Goleuni 'r farn
 I godi 'n nerthol gadarn ;
 A gwaelod ei ddirgelwch
 Bob cam, ddengys ei fillan fflwch.

Y twyll wnaed tan fentyll nos,
 A'i ddu ing, gaiff ei ddangos ;
 Y bai fu, na wybu neb,
 Adwaenir yn dy wyneb ;
 A nos ein gweithredoedd ni
 A lenwir â Goleuni.

O fro y dwyrain, trwy'r nwyfre derydd,
 Y daw syw blaned hynod ysblenydd ;
 A daw heb wyrni, 'n gerbyd y Barnydd ;
 Heibio arianog ser yr wybrenydd ;
 A'i haneirif fanerydd—lewyrchant
 Dâni ei foliant, a'i glod anhefelydd.

Daw ser hyffordd, yn gâd o seraffiaid,
 I enwog weini, a'u gwisg yn gansaidd ;
 A gwelir Enoch a glew wroniaid,
 Yn pasio heibio câd o gerubiaid ;—
 O bell, daw tyrfa ddibaid,—mewn enfys,
 O iaith hysbys Elias y Thesbiaid.

Ac ar aeliad, y gwisgir heolydd
 Awyr agored, i'r blaned ysblenydd ;
 A'r ser yn adsain arwain banerydd
 Troiog awel, y Brenin tragwydd,
 I fan pennodol, a fydd—bron uwch ben
 Llwybrau Eden, lle bu'r hoew wawdydd.

Ac yno mewn dull ceinwych,
 Ar y gwawl a'i odre gwych,
 Eddaw hir osgordd arall,
 Yn llu gyferbyn y llall,—
 Gan rodio heibio 'n ddiboen
 A rhwydd—dyma “ Wraig yr Oen !”

Heddyw, myn'd o'r cystudd mawr—y mae hon,
 Mewn mwyniant uchelfawr ;
 Daw o waelod y dulawr,
 A'i ddeifiol wedd, fel y wawr.

Gwedd ganaid ei gwisgoedd gwynion—erys
 Fel yr eira 'n union ;
 Prydferthach, a harddach, hon
 Gâr y Gwr wisga'r goron.

Seion gwrdd, yn nglas awyr, a'i Phriod,
 A'i hoff rai 'n osgorddwyr,—
 'T'wysogion, enwogion wyr,
 A bro Salem breswylwyr.

Y ddau lu 'n un llu, yno 'n llon,—gwrddant
 Ag urddas tair coron ;
 A hardd yw'r ddyweddi hon
 Yn ngolwg glân angylion.

Yna cychwyna'r ddwy dyrfa ddiderfyn,
 Ar lawr o risial, trwy wely'r aur rosyn ;
 Y gwawl a wrida wrth gael eu haur o dyn,
 A thoddant ei wisgoedd wrth iddynt esgyn ;
 Awdlau awdurol, mal odlau aderyn,
 Yn hoew ehedant, â swyn yn mhob nodyn,
 Ceinciau arabedd yn acen cerubyn,

Ar Seion a'i gwedd hardd osgodd, bêr ddisgyn ;
 Asur dywylla, a rhed ei ser dillyn
 I gerdded o'i hol yn osgordd i'w dilyn.
 Yna newidir y gân mewn amneidyn,
 A daw yn rymus ar danau rhyw cynyn ;
 Ac o ymyl gwawl hoew cwmwl goleuwyn,
 Yn gu â'i wefus mawr angel yn gofyn,—
 "Ai hon a alwyd o wlad ein hen elyn,
 Lle'r aeth i wylo â'i llaw ar ei thelyn ?
 Ai hon, a leuera y nen i liw euryrn,
 Welwyd yn deffro yn dlawd yn y dyffryn ?"
 A rhwydd yr atebir hyn—â dawn ffraeth,
 A gloew araeth, rhyw gerub disgleirwyn.
 Hon waredwyd o'r hen fyd, pan wridodd,
 O flacn y dylif gorllin a'i daliodd ;
 Deheulaw Naf uwch diluw a'i nofiodd
 Ar rym yr eigion, pan yr ymrwygodd :
 Seion wiwlwys o Gosen a alwodd,
 A Pharaoh a'i fyddin ffrau a foddodd ;
 Yn yr anial, Duw Iôn a'i hârweiniodd ;
 O hyd i Ganaan, ac a'i digonodd :
 Ein Pôr enwog dan hoelion a'i prynodd
 Drwy ei ingol ddyoddesaint, pan drengodd ;
 Is ei ogoniant i'r bedd disgynodd,
 Ac i fyw wed'yn, yr adgyfododd ;
 Y gweryd a agorodd,—yn mhob man,
 I'w dwyn allan—ei waed a'i henillodd !!

Ar wyneb yr wybreni,—arweinir
 Hon i ddinas Celi ;
 Heuliau unant—tynant hi
 O'r glyn i dir Goleuni.

Gloew waith y teg wlithyn—yw gwenau
 Gwyneb y blodeuyn ;
 A glân gŵd Goleuni gwyn
 Yw trysor natur rhosyn.

Goleuni sy'n gloewi anian,—a'i wên
 Yw anadl pedryfan ;
 Mae 'i deithi 'n gloewi 'r ser glân,
 Ac yn hoewi 'r cain huan.

Ei gu wên sy'n egino
 Gwyneb yr allt, a gwaen bro ;
 Rhydd ei dw i bridd daiar,
 A'r yd i wisgo yr âr ;
 Ac efe a ddwg fywyd,
 Heb feth i bobpeth trwy'r byd,
 Bywyd hir y byd arall
 Yw byw Oleuni di ball ;
 Ei Haul oleua o hyd
 I bob man, ar bob munyd.
 Hyd geinion ei deg wyneb,
 Du ael y nos nis deil neb ;
 A hwyr ni ddaw 'n y wlad hon
 I ddal neb o'i fforddoliau.

Yn ngwawl haf, ei hengyl hi,—a'i hybarch
 Gerubiaid, sy'n gweini,
 A'r holl saint mewn baint a bri,—
 Gweis glân mewn gwisg Oleuni.

Estyn Goleuni 'n wastad—ar wên saint.
 A'u troi 'n ser, mac'r Ceidwad ;
 Goleuni tir eu glaniad
 Yw Duw—Efe yw ei Dad.

Mor dost, wedi tymhor dydd,
Yw gwaeau nos dragywydd!
Lle rhenir llu yr annuw
I fyn'd tan ddigofaint Duw!

A Satan, o dan galwyni,—a roir
Yn rhwym mewn trueni;
Du blaned heb Oleuni
Yw ei ran, dan wg ei Ri.

Llwybr du'r annoeth sy'n llwybr i drueni,
Lle daw i anfad wlad o dylodi;—
Llwybr y cyfiawn, uniawn i'r Goleuni
Yw ei rodiad, lle daw i fawrhydi.
Dywenydd pob daioni—fydd ei ran,—
Yn haul ei hunan yn ei haelioni.

Mil o oesoedd yn moli Iesu—
A miliwn, nid yw ond ynylu
Oes y gân bereiddlais, gu,—a phawb oll
Uwch law archoll, yn gwych lewyrchu.

Yn y gân, mae terfynau gwynob
A gweddau eildrof, trag'wyddoldeb;
A gwaed yr Oen mewn gwiwdeb—dihafal,
A loewa'i hardal â disgleirdeb.

C F W Y D D

AR FARWOLAETH LLINOS GLAN OHIO.

DUON yw cysgodion nos
 Ar y llwyn lle mae'r Llinos ;
 Y Bardd fu 'n uchel ei ben,
 Ysig yw lle cwsg Awen ;
 A'r gân a hoffem mor gu,
 A'i hangel wedi trengu !
 Iaith goeth brydferthai ei gân,
 A thynai nerth o anian ;
 Iaith y gerdd yn gwneyd pleth gu,
 A'i hacenion yn canu.
 Asiai ciriau 'n gwncyd rheswm,
 A threfn i'w ysgafn a thrwm ;
 Tan fai ni osodai sill
 Boenus yn nghorff ei benill ;
 Eiliau linellau dilesg,—
 Ni wnai ambell linell lesg ;
 Cedym linellau cydiol,
 Yn ddilys, crys o'i ol ;
 A dawn ei awen mewn dysg
 Yn arwyddo 'n wir hyddysg.
 Gwybodaeth hclacth ei byd
 I hwn fu yn ei fywyd ;
 Athroniaeth—rhifyddiaeth fawr—
 Ieithyddiaeth, brydferth wyddawr ;
 A dacth i wybodaeth bur
 O hynolaf drefn natur.

Gwyddai ddyfnder trag'wyddol
 Y byd sydd yn eigion bol
 Dafnau difesur dyfnfor,
 A mesur maith amser môr.
 Gwyddai, a rhifai yn rhes,
 Yr hyn a geir o hanes
 Enwau y pysg, a'u hanian
 Yn y môr, fawrion a mân.
 Enwai fwystfilod anwar
 Y tir gwyllt—natur y gwâr
 A wyddai ef yn ddi wall,—
 Y ddaiar oedd yn ddeall.
 Taranau a dreigiau drig
 Yn y wlad anweledig,—
 Byd yr elfenau uwch ben
 Oedd ddewis ffordd ei Awen.
 Edrychai,—mesurau'r sêr,
 Ar chwyldaith trwy'r uchelder ;
 Nôd eirian planed araul
 A rêd o amgylch yr haul ;
 A'i wrhyd anfesurawl,
 Hyd ar gylch eangder gwawl.
 Difyr gyfaill eraill oedd,—
 Un na wadai ddyn ydoedd ;
 Un o reddf ac anian rydd,
 A'i wyneb yn llawenydd ;
 A chu ddigrifweh Awen
 Yn newydd beunydd o'i ben.
 Dysgodd aml fydrwr dwysgall
 I eilio gwê heb liw gwall,
 Y rhai a wylant ar ol
 Awr y gwr tra rhagorol.

Gwladwr doeth a glewder dyn
 A ddaliodd hwn i'w ddilyn ;
 Nid haner maint tonau'r môr
 A guddiai ei egwyddor.
 Llwgrwobrwyon bryntion, brau,
 A ddaliant rai meddyliau ;—
 Newid eu cân i wneyd côd—
 Rhoi'r ddolar i'r eiddilod !
 Nid ydyw y dyn didwyll
 Yn newid dim i wneyd twyll ;
 Na, nid aur a'i newid o,
 Er â'r aur ei oreuro ;
 A dyn oedd yntau yn dâl
 Yn ei nod yn anwadal.

Gelyn cynhwrf, twrf y tân,
 Trwy wyll yn tori allan ;
 Denu a thrcisio dynion
 I greu braw a dagrau bron ;
 A dal arf y dial hyll,—
 Gollwng gwaed â llym gyllyll ;
 Arfer meirch i rwyfo'r mellt
 Ar filfil o'r ufelfellt ;
 Arwyddo'r cledd & rhuddwaed,
 Red yn noeth, a'i wrid yn waed !
 Rhoi'r bidog finiog i fol,
 Wnaed i wânu cnawd dynol.
 Agor tân i ddyrwygo
 Cnawd dyn, cnawd dyn—ein cnawd, O !
 Rhoi gwaith magnelau i'r gwyr,—
 Rhuant nes holhti 'r awyr ;
 Drylliant, drylliant, bob dewr allu,
 Er lladd myrddiynau o'r llu !

Gwneyd gweddwon—pob bron, deigr prudd

A dorant tros ei dwyrudd;—

Gelyn i hyn drwy'i einioes

Ydocdd ef tra dydd ei ocs.

Cyfaill hael—cyfaill o hyd,

A chyfaill heddwch hefyd ;

Awenydd oedd ei anian

I droi'r byd i gyd yn gân ;

A byw mewn cariad di ball

Hyd y gweryd ag arall.

Hedd ynad mawr ei ddoniau,

A saif yr ocs i'w fawrhan ;

Un doeth ac uniawn ei dir,—

Dyna fel y'i hadwacnir ;

Ond wylwn mewn du alaeth

Am eirian wr—marw a wnaeth !

Wylwn uwch ben ei wely

Daiar—daiar yw ei dy ;

Daiar fu'n lleidr ei fywyd,—

Mewn daiar fyddar mae'i fyd !

Ond er hyn, daiar anian

Ddeil ei gorff ciddil a gwan

Hyd y farn cyd rhwng dau fyd,

A'i Awen rhwng dan fywyd.

Ilen davel fan ein diweddi !

Ni fyn bai fyw yn y bedd.

Yno nid oes loes dwfn lid,

Rhyfel a watwar ofid ;

Yno nid oes newyn du,

Na rhai anwyl yn rhyngu ;

Ac yno nid oes cwynion,

Na neb yn brudd gan boen bron.

Mae pob gradd yn gydradd gan
 Hynod lywodraeth anian ;
 Heb un yn honi bonedd
 Ar sail rhyw *gadair* a sedd ;
 Na neb yn dal teyrn hawl
 I ryw ddefod orddwyfawl :
 Is y gwys, diau nas gall
 Un gwr gael mwy nag arall.

Mor ddedwydd, ddedwydd, ydynt,
 Y rhai gadd flinderau gynt,
 Heb ofid gwyneb afiach,—
 Heb un ing, a phawb yn iach !
 Hunant mewn dystaw anedd—
 A'i byw breuddwydion y bedd ?

Dyma y fan gan y gwys
 Y celir ein Bardd culwys,
 Yr hwn fu'n goron o fawl
 I wir Awen oreuwawl :—
 Awen y Gymraeg hoew,—
 Hardd a theg,—iraidd ei thw.

Wedi'r bladur daw'r blodau
 Yn y gwllith i wenu'n glau ;
 Ac felly ein cyfeillion
 Fywheir o'r sefyllfa hon.
 Wedi bod ar waclod bedd
 Dan y gweryd yn gorwedd,
 Ocsau meithion difesur,
 Daw ail bwynt i anadl bur ;
 A deil ail anadl ei hoes
 Wyneb trag'wyddol einioes ;
 Anadl yw fydd byw'n ddi ball
 Ar oror awyr arall.

Buan iawn daw nawn einioes,
 A'i oriau hwyr byrhan oes,
 Arnom ninau—mae'n diwrnod
 Yn rhedeg, rhedeg, o'r rhod.
 Curiadau poenau y pen,—
 Ysig deimladau'r asen,
 A'r gwaew yn cnoi'r gewyn—
 Cenhadau angau yw hyn.
 Marw yn hyn y mae'r naill
 Mor wir a marw eraill;
 Nid oes hir einioes ini—
 Y bedd wnaed lle byddwn ni,
 Genau'r bedd ni ddigonir—
 Cawn hwn wedi llyncu'n hir;
 Ond dal i ddwyn ein teulu,
 Darn ar ol darn, mae'r bedd du.
 Er cau bedd, bedd yn ddiball,
 Dry'n weryd rhywun arall.



CYWYDD

AR FARWOLAETH WILLIAM AC ELINOR, MAB A MERCH
 GOBEITHIOL, I FRAWD YR AWDWR.

MARW mae pob cymeriad,
 Gwaelaf ryw, neu lyw y wlad;
 Neud trwy reddf, natur a rocs
 Hyn yn rhan yw yr einioes.
 Rhan anfarwol yw'r enaid,
 Er hyn, profi angau raid;
 Rhan o honom yw'r einioes,
 A'n rhan yw terfyn yr oes.

Elin oedd ferch anwylaf,
 Un wên a blodeuyn haf;
 Main ei hael a mwyn ei hiaith—
 O burffurf, bron, yn berffaith.
 Mor deg ei chymeriad hi!—
 Rhinwedd yn ei goroni;
 A thalent brydferth Elin
 Sydd yn ein broydd yn brin;
 Ond er hyn daiar uuig,
 A llwyd drem, yw y lle trig.

Oni wyr athrawon am
 Dalent gynhenid William?
 A thrwy gyflawn ddawn ei ddysg,
 Ei raddio yn wr hyddysg?
 Gwyddant, hwy a wyddant am
 Dalent yn enaid William.
 Dillynder bob amser oedd
 Ar hyd ei holl weithredoedd.
 A rhinwedd ei bur anian
 Yn glws ar ei ddoniau glân;
 Ond daiar fyddar sy'n fedd
 I'w fwriad am ei fawredd.

Eu tad a'i fwriad a fu
 A chyfoeth eu derchafu;
 A gobcethion mwynion man
 Oedd Elin a llwydd William;
 Ond tynged ddwys, ddwys, y ddau
 A rwydodd eu bwriadau.

Yn awr, mae deigryn o'u hol
 Yn taro 'n bur naturiol;
 Dau fwyn yn y dystaw fedd,
 Arweiniwyd ar lwybr rhinwedd;

A dau gan undyn nad oes
 Un anaf yn eu heinioes.
 Yn wir, mac'n an'awdd i neb
 Wennu'n dawel yn wyneb
 Rhagluniaeth ddirgel cinioes,
 A wnaed i derfynu'n hoes :
 Ond dichon fod troion trist,
 Sy'n edrych yn syn odrist,
 Yn eu lle, ac er ein llwydd
 I gyflym ateg aflwydd.
 Diau, mae'r Drefn yn dywell,
 A'i phwynt ar gyfnod tra phell,
 A hyn sy'n gwneyd yn an'awdd
 I ni ei deall yn hawdd.
 Mae'n dyddiau ni mewn dyddim—
 Bod uwch sy'n gwybod pob dim ;
 Ni wna hwn ond yn uniawn—
 Ni wyddom ni beth sy'n iawn.
 I dy'r bedd nid ä da'r byd,
 Na'i arian i'r dwfn weryd ;
 Yno mac pawb yr unwedd,
 Mawr a bach yn mru y bedd ;
 O diaeth sefydliad ydyw !—
 Byd o gydraddoldeb yw.
 Yn wael ddyn yn ol y ddau,
 Fuaned yr af finau !
 Mae'n hoes yn cyflym nesu
 O'r ddaiar, i'r ddaiar ddu ;
 Aros mae'n lle wrth creill,
 A'n lle nid edwyn y lleill.

CYWYDD

AR FARWOLAETH PERTHYNASAU A CHYFEILLION
YN NGHLYMRU.

O 'R rhai 'n, fy hoff Rieni
Yn gyntaf a enwaf i,—
O'u hirddydd a'i dywydd du,
Hunasant dan wên Iesu.

Meingorff chwiorydd mwyngerdd,—
Enaid cân menywod cerdd,
A dorwyd i'r byd arall,—
Y llawr yn lle'r naill a'r llall.

Ystradau, yntau a aeth
I ddulawr cydraddoliaeth:
Dawn y Bardd nid yw'n y byd,
A'i hyf Awen heb fywyd.

Dewi Glan Dwyryd wywodd,—
Yn awr mac 'i Awen heb nôdd;—
Dewis em wedi symud,—
Hen Fardd difyrus yn fud!

Bardd Callestr yn y rhestr roed,—
Hunodd 'nol cyrhaedd henoed;
Aeth i'r llawr—ymborth i'r llwch—
A'i dalent i dawelwch.

Nid hiraeth annaturiol
Ydyw caeth hiraeth o'u hol;
Hir yr erys briw'r hiraeth
Yn y serch sy'n dwyn y saeth;
Saeth ing yn groes ei thynged,
Yw hon, i ran pob dyn réd.

I Walia os dychwelaf,
 Profi eu cwmni nis caf;
 Gwyr eraill wisga'r oror,—
 Newydd yw'r mynydd a'r môr;
 A bu wylo 'n mob aelwyd,—
 Newydd gôr ynddi a gwyd.
 Byddin o gerig beddi
 A wnaed o'm cyfeillion i;
 Yn y llawr mae cwmni llu
 O geraint ddylwn garu;
 A hawdd yw teimlo heddyw,
 Ar eu bedd, hiraeth i'r byw.
 Eu hanes gan fy nghenedl
 Ni chaf, ond megis hen chwedl!

CYWYDD:

ANERCHIAD I RICHARD I. WILLIAMS, MEDDYG,
 FAIR HAVEN.

Y MAE y Bardd yn mhob oes
 Yn taro yn nhant eirioes
 Telyn serch—merch ydyw mam
 Y doniau mwyaf dinam.
 Acw 'n Eden cyn hudo
 Menyw deg, a'i myned o
 Lwybr ei dyledswydd ar lod,
 I lwybrau marwol abred,
 Ei bron a'i grudd, a'i barn graff,
 Hudai, Syr, lygad seraph.
 Ei tharddiad gwastad, a gwych,
 A gurai bobpeth gorwych;

A'i chorff tra lluniaidd, a chu,
 Ofynai oes i'w fynwesu.
 Swyn a geid yn nhlynsi gwedd
 Ei llygaid didwyll agwedd;
 Ei dwy foch o goch a gwyn,—
 Pentrwsiad paent y rhosyn;
 Ei genau'n gu i anerch,
 A'i chân syml yn wreichion serch;
 Ei gwallt yn fodrwyog aur,
 Orweddai'n gadwyn ruddaur,
 I lawr ei hysgwydd hardd lun—
 Addolai Adda'i heilun.
 Eto, mae yn ei natur
 Yn byw, ryw wreichionen bur,
 O serch, na chanfyddais i
 Aur a geir yn rhagori.
 Y mae y Bardd yn mhob oes
 Yn arianu awr cinioes
 Adda yn ei ddedwyddydd,
 A haf glân ei Efa glyd;
 Ond yn y cwyp nid yw'n cân
 Ond gwagus nodau gogan
 I Efa yn ei gofid,
 A gwasgfeuon ei bron brid.
 Ei llwyddiant yw moliant min
 Ei phrydydd yn gyffredin.
 Ond gan bwyll! nid twyll sy'n gwneyd hon
 Yn gulwys yn y galon;
 Ond purdeb gwyneb a gwedd
 Yn glynu mewn gwael anedd.
 Siomedig ei symudiad
 Ydyw bri arglwyddi gwlad;

A syrth y brenin o'i sedd
 I edwi mewn dinodedd;
 Ond menyw bur, fel dur da,
 A'i hoff wên a'i diffyna.

Wele'r masnachwr, eilwaith,
 Yn dod yn llwfr iawn ei daith,
 A'i gyllid wedi'i golli
 Yn nhraflwnc llwnc erch y lli'!
 Annyben yw ei obaith—
 Ni cheir ganddo wenu, chwaith;
 Mae'i rodiad, yn anad neb,
 Yn wan, a chroen ei wyneb
 Yn fudr—nid oes blas ar ei fwyd—
 Wyla yn nghongl ei uclwyd!
 Ond geiriau a gwenau gwin,
 A goseb ei wraig iesin,
 A dawdd ei ofid i'r dim,
 A'i ddyoddef a wna'n ddyddim.

Wele'r llafurwr dilesig
 Yn ceisio rhwyfo trwy'r hesg—
 Weithiau'r rhaw, ac weithiau'r ôg,
 I enill rhyw ddwy geiniog
 I gynal teulu gonest,
 Yn niwl nych, ei anwyl Nest.
 Hyd ochr cwm mac'n dechreu cau,
 A barng gwyn y borau
 Hyd ei raw, a chydia'r hin
 Yn waew yn ei ewin.
 Curo a chwysu coryn,
 A'i fywiog gorff yn fwg gwyn;
 Ei wyneb yn defnyddu
 Ei chwys ar y ddaiar ddu—

Hyd derfyn diwrnod hirfaith
 Yn rhoi pob gewyn ar waith,
 Nes i'r dydd nesu i'r dôn,
 A gadael ei gysgodion.
 Yna, hwn sy'n llawn o hedd
 Yn tynu tua'i anedd ;
 Ac er fod ei briod cu
 A'i thegwch yn gwaethygu,
 Mae iawn serch yn mynwes hon,
 Ac olew at ei galon.
 Nid saig f'ai'n dywysogaidd—
 Bara a dwfr—rhyw bryd o haidd,
 A gwyneb gwraig yn gwenu,
 I luddiog wr sy'n wledd gu.
 Mae arall, anhymhoraidd,
 Nad oes bryf neu dusw, braidd,
 A crys ei gydmaru
 A'r anghynes ddiadles ddu !
 Mae 'n cadw twrw trwy'r ty—
 “ Iiwn a hwn, hon, a hyny ;
 Cau dy gég—cadw hi Gwen,
 A nola dithau Nelen ;
 Symud o'r tân, hoetan hell—
 Gollwng dithau y gyllell !
 Dos i'r dw'r—nue Dis ar dân !
 Hym!—Rhys, dyma'r hosan ;
 Cadw'r flore—wel cydia'r ffwll
 Y ddu faeddes ddifeddwl ;
 'Nol yr iar—lyna, Wil, rhed—
 Dos yna, cydia Sioned !
 Dos at y bwrdd, yr hwrdd hyll—
 Colla dithau y cylllyll !

Yn wir, mae gwrando'ch hen nâd
 Yn gyru dyn o'i gariad!
 'Dysgleidan?' y lledfan llwyd,
 I rywle dos o'r aelwyd!
 Tora goed—mae tarw y Garth
 Yn bawu yn y buarth!
 Mae'r moch—gwaed coch! giwed cas!
 Yn odli yn y gadlas;
 Symud! bydredig swmer!
 Na charai neb, gwyneb gwer!"
 Dyna iwch ddarlun doniol
 O ddull gwraig Robin y Ddôl.
 Mae arall mwy tymherus—
 Llai o rawn—llawer o us,
 Er hyny sy'n yr hanes
 Am ei gwaith—dyma a ge's:
 "Glywsoch chwi," meddai hi, "hyn,
 Am William o'r Ty-melyn—
 Ei hanes yn dwyn gwenith
 O'r ffair flawd, i'r heffer flith?
 Mae Addaf wedi meddwi
 Yn y Llan, wrth gynull i
 Wrando Robin Gaerhoendeg,
 Ar gân, yn agor ei geg.
 Aeth adref—nef iddo'n ol!
 A churodd Mal a Charol;
 A thorodd ddant, mant, a min
 Gosod, ei hoff wraig iesin!
 Yr oedd swm a gruddiau sâl,
 A nodau pur anwadal,
 Rhyw adfyd ar wedd brydferth—
 Taw sôn! gwraig Deio Ty Serth;

A Deio wedi dianc
 I long hefo Nel dau lanc !
 Cadi gollodd y codwm,
 Onitê? hefo Sion Twm ;
 Mae hono'n blino rhyw blwyf—
 Dybla hiliogaeth deublwyf!"
 Dyna iwch haucs dwned
 Buan waith gwraig Robin Ned.

Marw mae serch merch a mam
 O ddoniau nad y'nt ddinam ;
 Ond menyw o ryw'r Awen,
 Yn hawdd, nid â'i serch yn hen ;
 Mae yn ei bron galon gu,
 I lan y bedd yn glynu.
 Mewn iechyd a hyfryd hoen,
 A heibio'r dydd yn ddiboen ;
 A than afiechyd, gwerth oes
 Yw un wên yn ei heinioes.
 I'w daith pan â'r gwr o'i dy,
 Purwych iawn y darpery
 Ei wisg, gan drwsio ei wallt,
 A'i droi yn hardd fodrwywallt ;
 A chyda gwên serchiadol,
 Yn wir, mae'n derbyn yn ol.
 Pan ddelo'r poenydd olaf
 I newid hîn diwrnod haf—
 Newid y gwrid—dwyn y gwres
 Fu unwaith yn y fynwes,
 A dwyn y gwr yn dyn gaeth
 Ar wely prudd marwolaeth,
 Hon a geir yn fwyn ei gwedd,
 A hynaws trwy'i anhunedd.

Chwaethus fydd ei blasusfwyd—
 Ei hardd law sycha 'i rudd lwyd;
 Rhydd falm gwiw i friw ei fron,
 A'r chwys oer, a'i chysuron;
 Yn glwm saif, yn iach neu glaf,
 Mae'n dal i'r munyd olaf.
 Un fel hyn a folienir,—
 A hedd gaffoch chwithau 'n hir.

C Y W Y D D.

ANERCHIAD I HUGH JONES, FAIR HAVEN.

O, HUW SION! mae dafnau sur
 Hynotaf gwpan natur
 Yn chwerw iawn i'ch aros
 Yn nydd eich llafur a'ch nos.
 Gwel'd iechyd, a hyfryd hwyl
 Prid wên, eich priod anwyl,
 A glendid gwrid hawddgar hon,
 Ar gîl, sy'n gwaedu'r galon!
 Eich geneth ddifeth oedd fwyn,
 O reddf a thymher addfwyn;
 Gloew wyneb golenni
 I bawb oedd ei gwynneb hi;
 Talent yn mysg y teulu
 Oedd ei gwên nefolaidd, gu;
 A mynych nerth i chwerthin,
 Fu'r iaith fâd o'i phrydferth fin.
 Gobeithion calon ac oes
 Oedd hon, yn niwedd einioes;

Addawech hedd yn ddiwall
Ar hyd ei bywyd, heb ball;
Ond buan, allan ei hoes
Ddyrwynwyd oddiar einioes!
Ar d'rawiad llygad, i'r llwch,
Gyrwyd ei gwir hawddgarwch;
Ac an'awdd iawn oedd genych
Anghofio, dro, am ei drych.

Eich llawen fachgen a fu
Yn iach i'ch llawenychu;
Ei ddawn a'i gorff oedd ddinam—
O'i fodd bu 'n ufudd i'w fam;
Carai wneyd a allai'i oes,
A chynal pwys eich einioes;
Ond buan, buan, y bu
I fwyniant hyn derfynu.
Ond towi ddylem ni 'n awr,
A dilyn plant hyd clawr;
Duw a bia hyd bywyd,
A'r Hwn a'n câr bia'r byd;
Os plant gwych fu genych gynt,
Gwyddoch mai benthg oeddynt.

ENGLYNION.

ROBERT DAVIES, NANTGLYN.

BARDD Nantglyn, rhiddyn yr iaith—a welwyd
 Yn golofn ein mamiaith ;
 Hyawdl awdwr dilediaith,
 A dawn i'w wel'd yn ei waith.

Ei Eiriadur tra rheidiol,—yn ein Hiaith,
 Saif yn hir i'w ganmol ;
 A'i beraidd ddawn barddonol
 A wiria'i werth ar ei ol.

Ni raid wrth un anrhydedd—ar ei lweh,
 A'r oer lawr lle gorwedd ;
 Fe erys byth ei sawredd,
 A'i wir barch heibio i'r bedd.

Aeth hwn i'w fedd, a'i waith yn fyw—a saif
 Pan syrth myrdd i ddystryw ;
 Ei haeddawl waith ef, heddyw,
 Sy'n dal, canys enaid yw.

YR ANRHYDEDDUS HENRY NICOLL, EFROG NEWYDD.

UN yw hwn sydd wedi hanu—o hen
 Fonedd blaenaf Cymru ;
 Boneddwr hawddgar, câr cu
 I rinwedd a chyfranu.

Hardd wên ar rudd ei wyneb—a welir,
 Heb eilun crocsineb ;
 Llawen o hyd—llawen heb
 Wenu am ben ffolineb.

Dull anwyl ydyw llawenu,—nid dyn,
 Dyn nid all ond gwgu ;
 Enaid gwyneb ydyw gwenu—
 Enaid gwên ydyw gwên gu.

Difyrus gan rai glodfori—rhyfelwyr,
 A rhyw folawd gerddi ;—
 Y dyn o neb adwaenwn i,
 Yw dyn i bob daioni.

Gwr enwog uwch gwroniaid—yw y gwr
 A garo drueiniaid ;
 A gwell rhan na rhan un rhaid
 Yw rhan sy'n bryd i'r enaid.

Rhanodd ein bonedŵr enwog—i ni
 Lawn werth dinas Efrog ;
 Gall un llyfr gan' gwell na llog
 Rhyw frenin cryf, arianog.

Nid llyfr, nid un llyfr, ond llyfrau—gawsom
 Yn gysawd o heuliau,—
 Heb yr un na wna barhau
 Yn wres yn awyr oesau.

Ceinwych ydyw llewyrch canaid—yr haul
 Er rhoi gwawl i'r llygaid ;
 Ond dyna lewyrch gwyeh gaid
 Er iawn oleuo'r enaid.

Rhawg y gwél anrheg y gwr—enw mawr
 Tra enw mwyn chwarelwr;
 Enw Dnw a fyddo'n dwr
 I aur enw y rhanwr.

AR FARWOLAETH YR ANRH. WM. C. KITTREGE,
 FAIR HAVEN.

Y mae cof am y cyfiawn,
 I'r genedl yn chwedl wech iawn:
 O herwydd aeth 'sywaeth sôn!
 Yr enwau, braidd, yn brinion.

Yr oedd hwn yn haeddu enw—a pharch,
 'Tra b'o ffordd i'w gadw;
 Hwn o'r llawr, gan Air y Llw
 Adwedd Iôn, "y dydd hwnw."

Gair o enau'r Gwirionedd—ei hunan,
 Encinia lle gorwedd,—
 Am y parch eu fu hyd fedd,
 Ar ei air, i'w eirwiredd.

Dewis agwedd dywysogol—a roed
 Ar ei rudd urddasol;
 Nodwedd rhin nid oedd ar ol.
 O ciddilwch meddyliol.

Llaw'n oedd o berlau llenyddiaeth,—a dysg,
 A dawn at farddoniaeth;
 A'i ddawn gu nid oedd yn gaeth
 I ciddilod meddyliaeth.

Cyfundeb o blaid cyfiawnder—oedd hwn
 Yn y ddadl bob amser;
 Aeth o'i swydd i blith y sêr,—a phurdeb
 Ei deg wnech fel glendid Gwener.

DIRGELWCH.

Y dyn a esyd yn wasarn—iawnder
 Uniondeb cywirfarn,
 Daw i afael cosb dufarn,—
 Lle bu'r bwlech ydyw llwybr barn.

Agoriad sier i gerydd—ydyw bai,—
 Gwacled byd a chrofydd!
 Sudda barn y troseddydd,—
 Lle bu ar fai, ei llwybr fydd.

Beth bynag am bythboenau—y mae deddf
 I'm dal am fy meiau;
 Mae llwybr saeth Rhagluniaeth glau
 Yn y niwl hwn yn olau.

Os gwnei gam, dy gam gymer—ei erfyn
 I'th orfod, ryw amser;
 Os glân gwedd dy fuchedd fer,
 Dy lendid red i lawnder.

Hyn sydd g'ocdd haesydd gwir,—yn mhob bro,
 "A laddo a leddir;"
 Os tân sy'n mynves y tir,
 Drwy ei dân y'i dirdynir.

Os Nero ansynwryol—a fyddi,
 Cei fedd anamserol;

Ond wed'yn, mae hyn yn ol
Tynged i bwynt diangol.

Daw rheswm mewn dyryswch—â dyrnod
Arnaf am fy hurtwch ;
Ond tyr y llen hwnt i'r llwch.
A daw oll o dywyllwch.

AR DDERBYNIAD DARLUN Y PARCIL EDW'D W. BROWN,
A DARLUN EI BRIOD, KATE JAMES, YN NGHYD A'R
PRIODASGLWM DOCYNAU.

Nid Adda yn ei dyddyn—oedd Adda
Heb ei ddiddan delyn ;
Nid Adda dda—nid oedd ddyn,
Yn un *line*, neu hen lencyn.

Adda dduliwyd yn ddwy ddolen,—wed'yn
Cydiwyd hwynt yn gadwen ;
Adda wych a'i newydd Wen
Briodwyd ar lwybr Eden.

Iach, weithion, unwyd chwithau—â delw
Hudoliaeth serchiadau ;
Mun yw hon, er ei mwynhau.
Llawr daiar ddrylliai'r duwiau.

Llun tŷr wnech llawn tirioni—ydyw—
Mae'n dwyn nodwedd mawrfri ;
Hardd wyl ael grudd y lili
Ydyw ael ei glendid hi.

Ac i ardal cywirdeb—ein dygir
Gan degwch ei gwyneb ;

Gyda hi, adwaen i neb
Dâl i son am dlysineb.

Rhaid addef mai anrhydeddus—ydyw
Priodas gwr parchus ;
A chan Iôn, rhodd ddaionus
I'w ran, yw gwraig, yn ddi rus.

Haelioni deheulaw anian,—rhodd Duw
I gyraedd doeth amcan ;
Rhywiog lyfr ydyw gwraig lân,
Yn dwr llyth'renod arian.

PRIODAS NAI Y PRYDYDD.

Priodwyd nai y prydydd—a menyw
Ddymunol a chlodrydd ;
Dwyn Owen i fyd newydd
Gan ei serch, ydyw'r gân sydd.

Byd newydd—mac'n bod yn auaf—i rai
Trwy eu hoes, mi dyngaf!
I eraill, hawdd y gwiriaf,
Mae o hyd yn ddinam haf.

Lluocdd sy'n teimlo'n llawen—aml adeg,
Lle'r ymleda angen ;
A sirioldeb gwyneb Gwen
Yw bywyd gwyneb awen.

Lliw bro ing llwybrau angen—oleuir
Gan lewyrch grudd meinwen ;
Ni wâd neb nad gwyneb Gwen
Yw duwdod glendid Eden.

Y LILI.

Enwog urddas ein gerddi—ydyw
 Y nodedig lili ;
 Grudd lân gardd o oleuni,
 Greodd haf yw ei grudd hi.

GORONWY OWEN.

GORONWY a'i gywreinion—a gurwyd
 Dros gaerau yr eigion,
 I orwedd gyda'n meirwon
 Yn fud !—GORONWY o F'ON ! !

GWENFFRWD.

Rhedai oes ein Gwenffrwd iesin—i lawr
 Dan len y Gorllewin ;
 A'i bêr gainc fu'n llwybrau gwin
 A grinodd dan y grawnwin.

Y BRYDDEST A'R AWDL.

Acen dda mewn cân ddiawdl,—a synwyr,
 Sy'n swnio'n bereiddlawdl ;
 Er hyn, pan siarado'r Awdl,
 'Tawed y Bryddest hyawdl.

Diwyg ydyw cariad Awen,—heb wisg,
 Y mae Bardd fel lleuen ;
 Tybiwyf fod Pryddest Eben,
 Heblaw'n ball, heb lun o ben.

Marw mae pryddestau Meirion—a marw
 Mae hir gerddi Arfon ;
 Ac myn hoel ! nid oes argoelion
 O ryw oes hir, fawr, i Sir Fon.

Deil aber Awdlau Eben—i redeg
 Tra ffrydio glan Ogwen ;
 Newydd fydd G'ronwy Owen
 Tra cair gair o'r Gymraeg wen.

 BEDD-ARGRAFF.

O randir ei hawddgar Wyndud—daeth Anu,
 Trwy daith hir, yn alltud ;
 A'r syw em, trwy ei symud
 I ddwl fedd, sy'n ddelw fud !

Er chwi a thorog gloion—y fonwent,
 A'i chof-feini oerion,
 Daw Haul i gyfodi hon
 A delw ysbrydolion.

 BABAN ROBERT R. WILLIAMS.

Rhyddereh sy'n dwyn arwyddion—o wyneb
 Lle mae gonest galon ;
 Gwel hedd ond iddo gael hon,
 Dan ei enaid yn union.

 GWILYM YSTRADAU.

I lu y mae galar, Gwilym a giliodd
 O fyd o alawll—ei ofid a welodd ;

Un mwy hydrin ei dymher a'i ymadrodd,
 A'i hoff arafwch, eia daiar ni phrofodd :
 Y briddell dywell a dôdd—wir fydrwr—
 Awen caïn odlwr yn ieuanc anadlodd.

EI DLWS AWEN.

Delw syw sydd ar Dlws Awen—Gwilym
 Nis gwelais ei amgen ;
 Ni all Bardd wneyd llinell á'i ben—celfydd,
 Yn ail i Brydydd hen lwybrau Eden.

Wrth ddarllen ei Awen ef,
 A anwyd yn y wiwnes,
 Hirneth sydd yn fy arwain
 I gyleh fy hen ardal gain,
 At fy llon gyfoedion fu
 O fwriad i'm difyru.
 Mae awelon ei moelydd
 Yn dwyn persawrion y dydd ;
 A'i lli yn odli'n mhob nant—
 Daw cân o waelod cennant.
 Yr adar mor garedig,
 Yn yr haf sy'n llenwi'r wíg
 A hyfwyn ganu hoewfyd—
 Fy ngwlad lân sy'n gân i gyd.

Y PROFFESWR POWELL.

Powell rydd gamp i Awen
 Y Bardd, wneyd darlun o'i ben ;
 Ei lais sydd yn hyfryd wledd—
 Gwir fwsig geir o'i fysedd.

Ei enaid sy'n tywynu—yn ei waith,
 Ae yn ei wên fwyngu ;
 Y rhew, gan dân ei gân gu.
 Hyd y mur sy'n dadmeru.

Hir oes i'r cerddor iesin—i loni
 Telynau'r Gorllewin ;
 Mae aspri ei gerddi gwin
 Yn taro tant y werin.

Y prif dalentau'n mhob bro—yw y rhai
 Sydd yn rhwym o foddio—
 Talent yw ei dalent o—heb un well
 Ar hyd y linell d'rwiadol hono.

BEDD-ARGRAFF CADWALADR ROBERTS A'I WRAIG.

Drwy len daiarol anedd,—o afael
 Gyfyng teyrn y ceufedd,
 Hwyl a godir yn gydwedd,
 I ail fyw uwch marwol fedd.

EU MAB JOHN, YR HWN OEDD BREGETHWYR GOBEITH-
 IOL GYDA'R ANNIBYNWYR.

Enwogir priddell unigol—Ioan,
 A'i fywyd gobcithiol ;
 Arwyddai ddawn uwchraddol—yn y byd ;
 Ond dyma weryd ei ddyn tymhorol.

MERCH FACH Y PARCH. GRIFFITH GRIFFITHS.

Llun auwyl ei llon wyneb—yw gwên fyw
 Ar gân foch tlysineb ;

I undyn, hoff diriondeb
Ei hardd lun, a wnai rudd wleb.

PARCH. JOHN WALTERS, YSTRADGYNLAIS.

Gwmpwyd i lawr enwog fawredd—Ioan,
Er niwed a thostedd;
Disodlwyd oes hyawdledd
Gwr o barch ar greigian'r bedd !

MARGARET, PRIOD ROBERT J. ROBERTS, FAIR HAVEN.

Yn fuan, fuan, trwy fywyd—yr aeth
I ro y bedd oerllyd;
O dy'r bedd nis daw i'r byd
Un gair o enau gweryd.

Ei baban sy'n byw heb obaith—gweled
Ei theg olwg unwaith,
Yn troi loes ei natur laith
I dawelu'r cryd eilwaith.

Hynod mor frau ydyw anadl—dyn byw !—
Dyna bwne sy'n ddiddadl;
Am derfyn oes, nid oes dadl,
I ostwng pawb yn ddistadl.

Aeth hithau o'n plith weithion—i ddinas
Myrddiynau y meirwon;
Duw sydd, gwnawn dewi a sôn,
Yn galw ei thrigolion.

LAURA, MERCH MR. EVAN JONES, FLOYD.

Laura i'r tawel weryd—a giliodd
 O'r golwg tros enyd ;
 Drws angau, drwy ei sengyd,
 Sy'n angau i boenau'r byd.

Hynod mor dawel mae'n huno!—heb ing,
 Na baich pwdr freuddwydio ;
 Ni welir deigryn wylo
 Ar ei grudd yn ngwely'r gro.

EDWARD EDWARDS.

Edwards a'i dalent odiaeth,—ac eres,
 Mewn cywrain gerddoriaeth,
 O'r bywyd i weryd aeth,
 I aros yn mro hiraeth.

Hynod mor fud ei anedd!—ni ddaw gair
 O ddu gell y ceufedd,
 Ac ni chlyw y byw o'r bedd,
 Bêr siwsig bur o'i fysedd.

DAU BLENTYN.

Y ddau anwyl ddihunant;—ar alwad,
 Marwolion cyfodant ;
 Eginio i ogoniant
 Y nef, o'r ddaiar a wnant.

PRIOD WILLIAM LLOYD.

Trwy ei heinioes caed rhinwedd—yn dâl
 Yn dilyn ei buchedd ;

A daw o'r clai 'n y diwedd
 Heb liw bai—heb ol y bedd.

ENOCH HUGHES, BABAN.

Enoch uwchlaw drygioni—chedodd
 I baradwys gweddi;
 Ochenaid yn ei chyni
 A godai hwn gyda hi.

ARTHUR A JANE DAVIES, CYFFYLLIOG.

Ar ddiweddiad eu hir ddyddiau,—isod
 Gorphwysant hyd forau
 Rhyw ddydd pan elwir y ddau
 O byrth ing ebyrth angau.

DARLUN MERCH FACH G. C. WILLIAMS A'I BRIOD.

Ar len saif ei darlun syw,—hoew wyneb,
 Ond heb anadl, heddyw!
 Mor od, os marw ydyw
 Y Fach!—mac 'n edrych yn fyw.

MERCH FACH W. LLOYD.

Rhai anwyl eu rhieni—yw y plant—
 Plwm i'r fron eu colli!
 Awel oer angeuol li'
 O hyd sydd yn eu hedwi.

Edwodd hon—diwedd ei heinioes—a ddaeth
 I ddwyn poen a dulocs;

Dydd ing fu diwedd ei hoes
I wawr rhieni eirioes.

Yr aelwyd a siriolai—â'i hon wên—
Llawn o waith lle byddai;
A gwallt hon fel meillion Mai
Yn yr awel chwarentai.

PLANT GRIFFITH CADWALADR A'I BRID.

Tynwyd eu hoff blant anwyl—i dy'r bedd,
Drwy boen, a mawr arwyl;
Ond er hyn, caniadau 'r wyl
Esgud, gaed yn eu dysgwyl.

WILLIAM D. CADWALADR.

Teilwng yw coliant William,—cyfaill eu—
Cyfaill call a dinam;
Yn ei oes ni cheir, er nam,
Un argoel calon wyrgam.

RICHARD GWILYM.

Rhisiart a wthiwyd drosodd—i lawr bedd
Gan lwy'r boen a'i daliodd;
Un a fu 'n addfwyn ei fodd
I eraill—pawb a'i carodd.

GWILYM AB IOAN.

Ey ngân sy'n parchu fy ngwell—a rhoddaf
I arwyddo 'i briddell

Fawreddog, ar gareg ei gell,—
Is law hon mae 'i dlos linell.

Y PARCH. LLEWELLYN HOWELL.

Yn Nuw, Llewelyn Howel—a hunodd,
A'i fynwes yn dawel ;
A newydd gwyd, yn ddi gél,
O lawr ing i le 'r angel.

YMWELIAD THOS. H. WILLIAMS, RACINE, A CHYMRU.

Aed Williams at ei deulu—caredig—
Gwr ydyw o Gymru ;
A gwn bydd pawb yn gwenu
Wedi ei gael i'w wlad gu.

Swynol i'm mynwes inau—a fyddai
Rhyfeddod y tonau,
A mirain bobl Meirion bau,
A chwydd ei hen lechweddau.

Gwiw fro gelltydd geirf gwylltion—bro adar
A brydant orchestion ;
O! fy ngwlad, fy hen wlad lon !
Marw wnelwyf yn Meirion.

WYR Y PARCH. THOS. WILLIAMS.

Ei gron foch liwgoch a'i lygaid—seraph,
Sydd yn siriol annaid
Y daw yn debyg i'w daid,
O ran y corff a'r enaid.

SYMUDIAD Y PARCII. JOHN JONES.

Y byd symuda 'n ddi ball,—ac nid oes
 Un enawd yn ei ddeall;
 Yn rhoi lle mae un i'r llall,
 A thyrn nyth i arall.

DAVID MORRIS.

Gwridgoch yw dwyfoch bert Dafydd—i ran
 Ei rieni dedwydd,
 Is haul wedi 'mddangos sydd,
 Yn ddiniwed ddyn newydd.

SEINDORF FAIR HAVEN.

Swn y cyrn sy'n swyno carnau—'r awen,
 I *dréo* ci doniau;
 A swn gwyech eich lleisiau 'n gwau,
 Rhwygwech yr awyr, hogiau!

Y FAGNEL.

Offeryn ing o ffwrn angau—â than
 A thwrf rhwng ei weflau;
 O'i min hyll, dinystr mae 'n hau,—
 Gwac yw anall ei genau!

HEDDWCH.

Esgyll cerub yw'th wisgoedd.—angyles
 Yn ngolwg y nefoedd!
 Liawer gwaith, yn llu ar g'ocdd,
 Anadlaist lwch cenedloedd.

YR EGLWYS BABAIDD.

Rhy ofer yw ei chrefydd,—a hono
 A'i haner yn gelwydd ;
 Enaid hon yn y tanwydd
 I Satan yn fwgan fydd.

WITH WELED PLANT YR YSGOL SUL YN TAFLU BLODAU I FEDD
 HENRY BACH, GLANMARCHLYN.

Anrheg ddymunol Henri!—yw dinam
 Flodionos yn bwysi ;
 Dy gyd blant daenant i ti
 Wely olaf o lili.

I DDARLUN ELIZABETH, PRIOD YMADAWEDIG JOHN THOMAS,
 FAIR HAVEN.

O law Duw daw'r blodeuyn—a'i liw hardd,
 P'w law Ef sy'n disgyn ;
 Yr oedd ar y gruddiau hyn
 Deg wenau llygaid gwanwyn.

Y CREA WDWR.

Enw Duw Ión a adwaenir
Gan ei waith, ac yn ei Wir.

A LLE yr haul oedd wag yn nheml yr Iór,
A'r dwyrain heb agoryd iddo 'i ddôr;
Cain wyneb Gwener nid oedd wedi bod
Yn denu gwên o wyneb teyrn y rhod;
Y ddaiar hon nid oedd, na'r llenad wen,
Pan yr agorodd Duw amrantau 'r nen.

Dywedodd, "Bydded," a'r golcuni ddaeth
Oddiar y gair, fel pe gollyngid sac'h;
A'r cyntaf ddydd a anwyd ar y llawr,
O groth anclwig trag'wyddoldeb mawr:—
Dilynai 'r nos—y gyntaf nos oedd hon,—
Darparodd swynion cwsg i dyner fron.

Dywedodd, "Bydded," a'r ffurfafen fu
Yn lloches dreigiau erch y cwmwl du;
A galwodd hon yn Nefoedd—ceir ei lef
Yn eistedd ynddi ar y daran gref.

Dywedodd, hefyd—rhuthrai'r dwfr i'w le,
Ac ymddangosai sychdir tau y ne';
A'r sychdir hwn yn Ddaiar alwodd Iór,
A chasgliad dyfroedd alwodd ef yn Fôr.

Dywedodd, ac eginodd blagur coed
Mewn lle na welwyd blagur byw erioed;

Y ddaiar oll a wisgwyd yn ei gwyrdd,
Yr hon oedd gynt i'r eigion mawr yn ffyrdd.

Dywedodd, "Bydded," daeth yr haul i'r lan,
O groth y wawr, a lithau'r lleuad gan
A wenodd arno'n llawn y gyntaf nos
Y gwnaeth ei hymddangosiad, wenloer dlos!

Afrifed sêr newyddion daflent glaer
Oleuni dros ymylon wybren gaer,
Y noson gyntaf y golenwyd Iau,
Sydd eto i oleuo yn parhau.

Dywedodd, "Heigied dyfroedd bysgod byw,
A phob pysgodyn, heigied yn ei ryw;
A'r awyr lanwer gan asgellog gôr,
Yn debyg fel y lleinw'r pysg y môr."

Dywedodd, "Dyged daiar rif y gwllith
O anifeiliaid—milod yn eu plith;
Ac hefyd yn y llwch, ymlusgiaid fyrdd
A fyddont wrth eu rhyw yn gwneyd eu ffyrdd;
A bydded dyn yn arglwydd arnynt oll,
A'n delw ninau arno yn ddi goll."

Mae Adda'n y borau yn eistedd dan goeden,
A'r haul newydd esgyn i olwg gardd Eden;
Mae'n codi ei olwg i bwynt ei ddisgleirdeb,
Ac O'r fath danbeidrwydd a wel yn ei wyneb!
Mae yma'n rhyfeddu beth yw, ar y cyntaf,—
Rhyfedda beth ydyw ei hunan, yn nesaf;—
Mae'n boddi mewn syndod wrth fethu ei ddirnad,
Ond nid yw yr huan ag e'n gallu siarad.

Mae llew yn myn'd heibio, a saif yn synedig,
Ac 'Adda sy'n teimlo rhyw ias ddychrynedig;

Mae'n gweled beiddgarwch diofn y creadur,
 A golwg fawreddog uchelryw ei natur;
 Mae'r llew yn rhyfeddu—rhyfeddu mae yntau!
 Y naill yn y llall sydd yn gwel'd rhyfeddodau;
 Ac Adda'n ymgolli mewn hunan ymsyniad;
 Ond nid ydyw'r bwystfil ag e'n gallu siarad.

Mae Adda yn clywed y march yn gweryru,
 A chlywed y ddafad ddiniwed yn brefu;
 Mae'n gweled yr cidion, y cawrfil, a'r camel,
 A chlywed llais dystadl yr asyn gwâr isel;
 Mae'n gwel'd pob creadur a grewyd yn Eden,
 A'r adar yn pyncio o gangen i gangen;
 Ac yntau'n ymgolli mewn hunan ymsyniad;
 Ond nid oes creadur ag e'n gallu siarad.

Mae'r haul yn machludo, a'r nos yn dychwelyd,
 A blodau'r ffurfafen yn agor yn hyfryd;
 Mil myrddiwn o fydoedd disgleiriach nag arian,
 O law eu Creawdwr sydd newydd dd'od allan;
 A'r loer yn eu harwain trwy'r maith cangderan,
 A'i gwên yn arianu'r afonydd a'r brynïau;
 Ac Adda'n ymgolli mewn hunan ymsyniad;
 Ond nid ydynt hwythau ag e'n gallu siarad.

Mae Adda yn ei gwsg o dan y pren,
 Yn gweled trwy ei hân angyles wen,
 A'r olwg arni yn rhagori'n fawr
 Ar bobpeth arall welodd ar y llawr;—
 Ei gwallt fel rhaffau aur yn disgyn ar
 Ei hysgwydd deg, a thros ei phrydferth war;
 Ei llygaid fel y ser yn wreichion byw
 Serchiadau mynwes bur, uchelaf ryw;

Ei gruddiau fel rhosynau teca'r ardd,
 A'i gwefus bur yn wridog ac yn hardd ;
 Ei gwddf yn wyn fel eira—nid yn oer,
 A'i phryd yn lanach nag amrantau'r lloer.
 Mae'n teimlo rhyw hyfrydwch tyner fwyn—
 Nid oedd o'r blaen yn gwybod beth yw swyn ;—
 Sef teimlad tyner calon mab at ferch—
 Nid oedd yn gwybod beth yw swynion serch.

Mae breuddwyd Adda'n huno,
 A hithau'n cilio sydd—
 Mae breuddwyd Adda'n deffro,
 A'i gweled rhwng y gwydd ;
 I'i golwg sy'n ei swyno
 Dan gangau'r bywiol bren—
 Mae Adda yn breuddwydio
 Mewn cariad dros ei ben !

Mae Efa ar ei wefus
 Yn esmwyth daro'i bys,
 Ac Adda, yn gynhyrfus,
 Yn deffro'n foddfa chwys ;
 Mae Efa yn ei lygad
 Yn edrych gyda swyn,
 A'i dawn yn gallu siarad
 Ag Adda yu y llwyn.

A dyma ein rhieni—
 Rhieni dynol-ryw,
 A'r natur roddwyd ini
 Sy'n waith dehenlaw Duw ;
 Y penaf peth a greodd
 Oedd natur berffaith dyn,

A'r ddelw arni roddodd
Oedd delw Duw ei hun.

Ond natur dyn a bechodd,
A chollodd ddelw Duw,
A'r pechod hwn a lygrodd
Holl lwythau dynol-ryw ;
Y presenoldeb dwyfol
A giliodd uwch y llawr,
A cholled anfesurol
Oedd colli 'r Crewr mawr.

Mae 'i waith i'w weled yn y mynydd ban,
Yn saethu trwy y cwmwl du i'r lân,
Lle ceir y fellten danllyd yaddo 'n byw,
A'r daran dan ein traed—lleferydd Duw !
Ond ni cheir Ef hyd lethri 'r mynydd maith,
Nac yn y cwmwl du, na'r daran, chwaith.

Yr afon lithra dros y graig i lawr,
Gan wneyd ei sfordd yn rhydd i'r eigion mawr ;
Mae weithiau 'n llyfn ei gwyneb ar y ddôl,
Ac weithiau 'n dwyn rhyferthwy yn ei chôl ;
Mae weithiau'n sïo 'r blodau teg i hân,
Ac weithiau mae yn "pensityrdanu dyn."
Mae myrdd a mwy o bysg yn byw mewn hedd
Yn mynwes hon, yn llu arianaidd wedd ;—
Maent ynddi 'n cael eu geni—ynddi 'n byw
Y maent, a diwedd oes, eu beddrod yw ;
A'r Crewr wnaeth yr afon hon a'i physg ;
Ond nid yw Ef yn aros yn eu mysg.

Mae'r môr yn yfed hon o oes i oes—
Er maint a yf, i'w syched pall nid oes ;

Nid ydyw dwfr y môr na mwy na llai—
 Môr ydyw ef ar lanw—môr ar drai:
 Mae'r môr a'i bysg yn waith y Crewr mawr,
 Ond nid yw ef i'w gael yn hwn yn awr.

Mae'r ddaiar hon yn dwyn blodionos fyrdd,
 A gwigoedd llydain, oll yn gwisgo gwyrdd;
 Ond nid yw Duw i'w gael yn mysg y coed
 Er pan roes Adda'i gyfraith dan ei droed.

Wrth ofyn i'r fwyalchen fwyn
 Sydd yn y llwyn yn llawen,
 Pwy roddodd liw mor deg i'w plû,
 A dawn mor gu i'w hawen?
 A phwy sydd yn gofalu dros
 E'i hachos hi a'i theulu?
 Ni ddaw o'i bron ar unrhyw bryd,
 O hyd, o hyd, ond canu.

Mae'r fronfraith fwyn yn eilio cân
 I Grewr mawr y ddaiar,
 Gan roddi'r goedwig oll ar dân,
 Wrth arwain cerddi'r adar;
 Ond pe gofynwn I i hon,
 Paham mae'n llon awenu?
 Ni chawn o'i bron, ar unrhyw bryd,
 O hyd, o hyd, ond canu.

Blode'yn sy'n tyfu ar y ddôl
 Yn mysg y meillion hyfryd,
 A'r gwllith yn gorphwys yn ei gôl,
 A'i rudd yn llawn o fywyd;
 Ond pe gofynwn I i hwn,
 Pwy wnaeth o'r grwn ei dyfu?

Ni wnai ond sefyll yma 'n fud,
O hyd, o hyd, a gwenu.

Mor hoew yw 'r wenynen fach,
A chalon iach, yn hedeg
O'r naill flodeuyn draw i'r llall,
Heb ball ar hyd ei hadeg!
Ond pe gofynwn I i hon,
Pwy wnaeth ei bron mor wiwgu?
Ni chawn I ateb yn y byd,
O hyd, o hyd, ond canu.

Mae gwaith y Crewr mawr yn eglur iawn
I'w wel'd yn y gwybedyn lleia'i ddawn,—
Cywreinrwydd anfesurrol ynddo sydd
Yn rhoi symudiad chwim i'w aden rydd.
Mae'r eryr cryf sy'n esgyn uwch y llawr,
Gan syllu 'n ngwynneb lân yr huan mawr,
Yn dangos gallu anfesurrol lór,
Yr hwn a wnaeth y pysg sydd yn y môr.
Y teigr, a'r llew, a'r cawrfil mawr ei rym,
A'r ddafad fwyn, a'r blaidd a'i olwg llym,—
Maent hwythau oll yn waith ei uchel law—
Pob peth a fu, y sydd, neu yntc ddaw;
A dyn sydd yn eu mysg yn waith ei nerth—
Mae hwn na'r hyd i gyd yn fwy o werth.

Ar lin y dwyrain draw,
Y lloer â gwynneb llawn
Sy'n dangos gwaith ei law,
A hyny 'n anlwg iawn;
A'i maint, a'i dull, o hyd yr un,
Er mor newidiol yw ei llun.

Mae weithiau 'n gil ei gwedd,
 Ac weithiau 'n dywyll nos,
 Fel tywyll leni 'r bedd
 Ar wyneb menyw dlos;
 Ond ceir ei maint, a'i dull yr un,
 Er mor newidiol yw ei llun.

Mae weithiau 'n chwarter oed,
 Ac weithiau 'n haner llawn;
 Ac felly mae hi 'rïoed
 A'i dull yn rhyfedd iawn!
 Mae fel ei Chrewr mawr ei hun,
 I'w gwel'd yn newid, eto 'r un.

Hi law sydd yn amlwg ar wyneb yr wybren,
 Bob nos yn goleuo llusernï 'r ffurfafen;
 Eu rhif anchwiliadwy i ni sy'n rhyfeddod,
 A'u claerder yn dangos gogoniant y Duwdod:
 Nis gall'sai meidroldeb eu creu yn y dechrau,
 A nerth Anfeidroldeb a'u deil yn eu llwybrau;
 A'i enw argraffwyd mewn eglur lyth'renau
 Ar wyneb disgleirwvch y ser a'r planedau.

Yr haul i'r lan pan ddaw ar ael y dwyrain,
 Sy'n dangos gwaith ei law yn hynod gywrain,—
 Hi allu mawr, ei nerth, a'i anfeidroldeb,
 Ac anfesuroi werth ei lawn ddoethineb.

Mae'n anfon gair o'i flaen i dynu'n sylw,
 A'r dyner wawr ar daen sy'n adrodd hwnw;
 Ac yna daw ei hun, yn haul ysblenydd,
 A'i wawl o afuel hwn yn galw'r gwledydd.

Y nos a gilia trwy y gorwel iesin,
 I sïo 'u cyntun hwy yn y gorllewin;

A'r dydd sydd ar ei hol yn gwisgo'r bryniau,
A'i wenau ar y ddol yn lloni 'r blodau.

Mae cwmwl bychan draw ar fin y gorwel,
A'r dymestl yn ei law yn llawn o ufel ;
Dystawrwydd dwfn o'r llawr yn codi danom,
A llesg oleuni'r wawr yn pwyso arnom.

Y mellt yn saethu sydd o'r cwmwl pygddu,
A'r gwlaw yn gefnlli' rhydd yn wybr ewynu ;
Y gwynt yn rhwygo'r wig â'i gorn yn yfflon,
A'r allt yn colli'i brig yn mol yr eigion.

Y daran ddryllia'r wybr i lawr yn ddarnau,
A'r dymestl yn ei llwybr yn wyllt raiadrau ;
Y llawr yn crynu sydd fel llong ar ewyn,
A'r graig yn syrthio'n rhydd i lawr y dyffryn.

Daiargryn yn yr aig sy'n gwthio allan
O'i fol ddychrynlyd graig yn danllyd frwmstan ;
Y môr a rullira'n mlaen yn llanw brigwyn,
A'i gefnlli' gwyllt ar daen dros werni'r dyffryn.

Mae'r dymestl yn yr wybr yn mellt wreichioni,
A'r dydd yn colli'i lwybr wrth ddyfod trwyddi ;
Y daran hollta'r wybr yn nerth ei soriant—
Daiargryn hollta'n llwybr yn danllyd geunant.

Nid damwain yn y bryn, ei fod mewn gwewyr—
Nid damwain ydyw hyn sydd yn yr awyr ;
Mae gallu'r Crewr mawr i'w wel'd trwy'r cyfan ;
Ond nid yw yn y llawr, nac yn y daran.

Ond er nas gall y dyn gael hyd i'w Dduw
Yn unman yn y greadigaeth fawr,
Ond gwel'd yn unig ol ei law mewn gwaith
Goruwchnaturiol, yn pregothu 'i fod,
Mae genym greadigaeth arall fwy ;
A mwy doethineb sydd i'w wel'd yn hon.

Datguddiad rocs o'i Dduwdod yn ei Air—
 Mae'r Gair yn greadigaeth ynddo 'i hun,
 Ac nis gallasai llai na Duw ei wneyd :
 Mae hwn yn mhell uwchlaw meidroldeb dyn.

Mae'r Gair yn rhoddi llygad clir i'r byd
 I wel'd pob peth yn union fel y mae ;
 Ac felly, mae'r trychfilyn yn y llwch,
 Yn arwain meddwl gwyr gam dyn i'w le.

Mae creu y byd o ddim, yn wir di lys,
 Yn ngoleu gallu Hollalluog Dduw ;
 Ac nid yw'r cwmp ond peth allasai fod,
 I ddangos ei ddoethineb mawr a'i ras,
 Yn codi dyn yn greadigaeth fwy—
 Mae'n fwy na'r gyntaf, am ei bod yn uwch.

Mae Duw yn Nghrist yn creu gweithredoedd da
 Yn mywyd dyn na wnaeth ond drwg erioed—
 Mae'n gwneyd y brwnt yn lân, y meddw'n sobr,—
 Y glwth yn fod rhesymol, heb ei wanc,—
 Y cynsigenwr ffals, yn gywir ddyn,—
 Y twyllwr gwael, yn un yn un a'i air,—
 Y lleidr yn onest, o egwyddor wir,—
 Y câs orthrymwr hyll, yn dyner fod,—
 Y godinebwr du, yn ddiwair wna,—
 A'r llofrudd coch ei law, a wna yn sant.
 Daw heddwch i deyrnasu dros y byd,
 A derfydd rhyfel, a'i chanlyniad drud ;
 Y gof a gura'n swch y cleddyf llym,
 A'r ffwrnes dawdd y fagnel erchyll rym :
 Y crasdir wneir yn ffrydiau dyfroedd byw—
 Anialwch poeth yn llenyrch meillion syw ;
 Y bryn a'r pant i gwrdd eu gilydd ânt,
 A gwyh wastadedd ffrwythlon iawn a wnaut ;

Y goedwig a flodeua megis gardd,
 Ac ail Baradwys Duw a fydd yn hardd ;
 Yr arth a'r oen gydborant wellt heb wg,
 A'r teigr a gyll ei dueddiadau drwg ;
 Y plentyn bach wrth drin y wiber chwadd,
 Ac ail Baradwys Duw a fydd yn hardd.

Fe welir Seion Duw yn bur i gyd,
 Yn greadigaeth newydd lon'd y byd ;—
 Heb aelod llesg, nac un yn groes i'r llall ;
 Ac nis gall gelyn weled ynddi wall.

Mae'r greadigaeth newydd hon a'i bryd
 Yn tynu tua ffiniau arall fyd ;
 Pererin ydyw yma ar y llawr,—
 Mae'i chartre'n myd y trag'wyddoldeb mawr.

Mae gwaith cymwyso arni yno'i fyw,
 Ac nid oes ond Creawdwr all ei wneyd ;
 Nid oedd creu bydoedd rif y llwch yn ddim
 Wrth wneuthur un pechadur fel ei Dduw.

Trwy'r diluw rhaid ei dwyn uwchlaw'r hen fyd,
 Pe byddai raid ei foddi er ei mwyn—
 Ei dwyn o'r Aifft, er gorfod sychu'r môr,
 A boddi Pharaoh yn ei waelod dwfn.

Mae'n troi y graig yn ffrwd, yn myn'd o chwith,
 Tros fryniau ar ei hol, trwy'r anial maith—
 Yn gwneyd i'r wybren fwrw bara'n wllith,
 I'w chynal hir llynyddau ar ei thraith.

Er iddi gael ei dwyn o'i chartref gwell,
 Yn gaethglud brudd, i Babylonia bell—
 Yn crogi'i thelyn ar yr helyg fr,
 A'i thanau'n fud i'r gerdd am dymhor hir ;
 A'r llaw aeth dros ei thanau lawer gwaith,
 Yn sychu'r rudd oddiwrth ei deigr yn llraith,

Wrth wylo ger afonydd Babel ddu,
Dychwela'n ol, yn wych fanerog lu.

Os bu yn gaeth gan Satan, a chan ddeddf,
Yn achos firwyth y gwaharddedig bren,
Daeth Duw mewn cnawd—bu farw er ei mwyn,
Dan hoelion mellidgedig pren y groes!
A daeth yn fyw o'r bedd i'w chyfiawnhau,
A'i gwneyd yn werth ei dangos yn y nef.

I waelod bedd rhaid iddi fyn'd dros dro,
I ymgymysgu gyda'r pryfed mân!
A hyn, i'w gwneuthur oll yn lân heb fai,
A'i wneuthur yntau 'n atgyfodiad llawn.

Ar ol ei hatgyfodiad, yn yr wybr
Yr crys enyd fach, i weled trem—
Yr olaf drem ar fyd ei thralod blin
Yn myn'd yn deilchion i'r diddymdra pell!

Caiff wel'd yr Andes fawr yn myn'd ar ffô,
A'i gwel'd yn disgyn yn yr eigion gwyn;
Caiff weled hwnw 'n berwi dros y fro,
I lenwi'r agen ddofn, lle safai'r bryn.

Caiff wel'd yr Himalayia tal ei frig
Yn cael ei dynu'n rhydd o'i oesol wraidd;
A'i wel'd yn syrthio yn yr eigion dig,
Nes crynu'r greadigaeth hon i'w chraidd.

Caiff wel'd mynyddau Cymru'n ffoi fel brain
O flaen y corwynt, tua'r Werydd blin;
A'i weled yntau'n cym'ryd lle y rhai'n,
A fflamau'n saethu allan rhwng ei fin,

Bydd Cadair Idris gref, a'r Wyddfa serth,
Yn cwrdd eu gilydd yn yr wybren fry;
A'u gwrthdarawiad deimlir gyda nerth,
Yn crynu creigiau brwmstan abred ddu.

Y ddaiar hon a lysg yn danllwyth erch,
 A'r haul a'r lloer dywyllant yn y nen,
 A Seion Duw 'n nefolaidd iawn ei serch,
 Yn cychwyn, uwch peryglon, hwnt i'r llen.

Mae Seion yn cychwyn i fynu,
 A lleisiau'n taranu trwy'r wybr,
 A miloedd y nef arni'n sylu,
 A bydoedd yn lledu o'i llwybr;
 Mae'n esgyn, mae'n esgyn, gan wasgar
 Goleuni tra llachar trwy'r lle,
 Yn dilyn ei chadarn Waredydd,
 Yn ngherbyd aneilfydd y ne'.

Mae'n pasio mil-myrddiwn o fydoedd,
 Yn llawn o dyrfaoedd tîrf wedd,
 Yn edrych ar Seion a'i cherbyd,
 Yn symud i'r bywyd o'r bedd;
 Mae'n myned, mae'n myned, i'r minion,
 Ac angel yr awr'on a rêd
 I ymyl y pyrth, a'r trigfanau,
 Ac yn ei fyw ddoniau fe dd'wed:—

“Agorwch, agorwch eich caerau,
 A sciniwch eich clychau mewn clod—
 Agorwch, agorwch dan ganu,—
 Mae'r Brenin a'i deulu yn d'od;
 Agorwch, agorwch i'r Gwron,—
 Daeth trwy ei elynion yn lân;
 Agorwch y pyrth fel y deuant
 I mewn i'r gogoniaut, a'r gân.”

Ac yma, mae angel yn gofyn,
 Pwy ydyw y Brenin a'i lu—
 I bwy, a pha wlad, y mae'n perthyn,
 A phwy yn ei fyddin a fu ?
 Mae yntau yn ateb y porthor,
 A hwnw yn agor y ucf,
 Lle clywir myrddiynau yn lleisio
 Y gân, "Iddo Ef, iddo Et."

Mae'n myned, mae'n myned, i'r manau,
 Gysegrwyd i seintiau a sér,
 I drigo ar hyd trag'wyddoldeb
 Yn hardd bresenoldeb eu Ner,
 Yn ail greuligaeth y Duwdod,
 Yn aros heb bechod, heb boen,
 Lle clywir preswylwyr Caersalem
 Yn canu yr anthem i'r Oen.

Bydd Seion mewn undeb a'i Phriod,
 Mewn ardal ddi-bechod yn byw,
 A'i golwg yn hardd, a godidog,
 Yn ninas flodeuog ei Duw ;
 Ei thai yn wyrthfeini dihafal,
 Ar balmant o risial yn rhes ;
 A'r naill fel y llall, yn y canol,
 Er gweled rhai 'n ol a rhai 'n nes.

Ceir yno ddwyfoldeb barddoniaeth,
 Ac uchel gerddoriaeth gwir ddawn,
 A doniau disgleiriaf athroniaeth
 Yn deall llenyddiaeth yn iawn ;

Bydd yno destynau myfyrdod ;
 Ond duwdod rhyfeddod, a fydd
 Mab Duw yn fab dyn mewn trueni,
 A rhwymau, i 'n rhoddi ni 'n rhydd !

Cânt ser yn gerbydau i'w helynt,
 A heuliau o danynt yn d'od,
 A gwel'd rhyfeddodau fil miloedd,
 Heb derfyn ar fydoedd i fod ;
 Bydd yno destynau myfyrdod ;
 Ond duwdod rhyfeddod, a fydd
 Mab Duw yn fab dyn mewn trueni,
 A rhwymau, i 'n rhoddi ni 'n rhydd !

Cânt weled dirgelwch y crëad,
 A gweled cyfeiriad ei fôr,
 Yr hwn oedd o'r blaen yn ddiderfyn—
 Esboniad ar hyn ydyw'r lôr :
 Bydd yno destynau myfyrdod ;
 Ond duwdod rhyfeddod, a fydd
 Mab Duw yn fab dyn mewn trueni,
 A rhwymau, i 'n rhoddi ni 'n rhydd.

MARWNAD ABRAHAM LINCOLN.

At dyma wawdiaith sfrom arglwyddi'r De,
 Ddirmygent hawliau dyn, a deddfau'r Ne!—
 “Ac yn y llwch yn gorwedd mae yn fud!—
 Tænellodd ddillad gwlad â gwaedlif drud!
 Gan lais ei udgorn erch dirgrynai'r llawr,
 A'i lu dywyllai'r nen yn fagddu fawr!
 Ei farch aroglai dawch y gâd o bell,
 A llusgai angan o'i fyth heintus gell
 I lechian yn ei echrays lwybrau gwaed,
 Lle mathrai y clwyfedig dan ei draed!
 Mae daiar De a Gogledd yn brashau
 A chelaneddau'r meirwon fu'n amlhau;
 A gwelir llawer un yn drist ei wedd,
 A darn o gorff, a'r gweddill yn y beidd!
 Mae plant amddifaid lnoedd yn y wlad,
 Gollasant gartref clyd yn angau'u tad;
 A llawer gweddw fu mor deg a'r lloer,
 Yn awr yn llwyd, a'i gwr yn briddell oer;
 A hyn achoswyd gan ei erchyll gâd!—
 ‘A laddo, leddir,’ dyna wir diwâd.

Mae mwy i'w ddweyd, ond nid o gymaint pwys,
 Ond eto sydd â chanlyniadau dwys.
 Y wlad oedd gynt yn fyw baradwys hedd,
 Sydd yn drychineb llwyr—yn wac—yn fodd!
 Dinasoedd brigog yn garneddau sydd,
 A chestyll cedyrn yn falurion rhydd;

A dinasyddion gonest bron ar feth,
 Am oleu'r dydd yn gorfod talu treth."—
 Ah! digon—beio'r ydych wr heb fai,—
 A chadw 'i lw, pa fodd y gwnaethai lai?
 Ofnadwy ydyw lle penaethiaid byd,—
 Mae angau hwn yn dwyn tystiolaeth ddrud!

Mae llwybrau Rhagluniaeth yn eigion y môr,
 Ac nid oes un enawd all eu dilyn;
 Ond nid yw yn digwydd heb sylw yr Iôr,
 Farwolaeth y distadl wybedyn;
 Ac ar y trychineb orlifodd y wlad
 Efe, yn ddiâu, oedd yn eistedd;
 A thrwy ei ddoethineb y gwelir y brad
 Yn rhyddid i'r byd yn y diwedd.

Yn ochain dan ei baich yn hir y bu'
 Y ddaiar hon wrth ddwyn caethiwed du;
 Ac nid oedd gwlad na hon yn fwy di ras.
 Yn gwerthu dyn, o dan yr wybren las.
 Pan oedd y genedl bron a'i gruidd heb wacd
 I wrido—yn yr adeg hon y caed
 Ychydig wyr i godi llais o blaid
 Y Negro du mewn cadwyn haiarn gaid.
 Cynhyddai'r blaid i sylw'r byd mewn gwerth;
 Gan ddwyn y De i deimlo pwys ei nerth;
 A phan gaed Lincoln arni'n benaf dyn
 Caethiwed du a dorai 'i wddf ei hun.

Y De a udganai yr udgorn i'r ornest,
 O ddyffryn i ddyffryn, nes adsain o'r wybr;
 A'r Gogledd atebai yr adsain, mewn gorchest,
 O glogwyn i glogwyn, yn galw i'r frwydr:

Tabyrddu, byddino, a minio yr arfau,
 Oedd testun pob siarad—oedd pobpeth a wneid;
 Ac yn y canlyniad, erch ryfel ac angau,
 I lusgo y wlad i ddwfn ddinystyr a geid.

Ac ar y dychrynlyd ryferthwy,
 Yn ddylif cynddeiriog o waed,—
 Ar uchaf y cefnllif ofnadwy!
 Ein Gwron yn eistedd a gaed;
 A miloedd yn ofni 'n bryderus
 Ei weled yn suddo i'r dôn;
 A phan oedd yn glanio 'n gysurus,
 Y llofrudd a wânodd ei fron!

Nid oedd o waed breninol yn ei âch,
 Ond eto 'n llawn mor goch, a churiad iach:
 Nid yw y brenin balch yn fwy na dyn—
 Yn fwy na'i fedd ni welais eto 'r un;
 A chafodd hwn, er dechreu 'n wan, wych sédd—
 Tywysog hefyd ydyw yn ei fedd.

Esgynodd o ddinodedd bywyd gwael
 I'r brigyn uwchaf yma sydd i'w gael,—
 Yn Llywydd gwlad gyfoethog yn mhob modd,
 I'r werin bobl a wnaed gan Dduw yn rhodd.
 Doethineb ei fesurau, yn ddiâu,
 Nis gellir ameu—safant yn parhau
 Yn hwy o lawer na cholofnau pres—
 Nis peidiant byth ag allewyrchu lles.

Ni churodd un galon gywirach mewn bron,
 Na chalon ein Gwron caredig—
 Ni charai ymddial, a theimlai yn llon
 Wrth fadden i bob dychweledig;

Ond er ei fawr gariad at lwyddiant y wlad,
 A'r gwerthfawr ddoethineb arferodd,
 Yn aberth diachos i gynllwyn a brad,
 Yn mreichiau ei lwyddiant fe gwmpodd!

Os cwmpodd y bradwyr hoff Lywydd ein gwlad,
 'Trwy gynllwyn en hanfod gylluniau,
 Fe droes ei farwolaeth yn angau i'w brad,—
 Ei waed a ddiffoddodd ei flannau!
 Ond eto nid hawdd i deimladau yr oes
 Yw peidio a dial i'r eithaf,
 Heb gosio fod hyn i'r Ysgrythyr yn groes—
 Mae dial yn eiddo'r Goruchaf.

Bu farw ein Gwron trugarog
 Trwy ddwyllaw llofruddiog hyll frad;
 Bu farw dan goron ei lwyddiant,
 A hwnw 'n wir lwyddiant i'r wlad;
 Bu farw yn fertllyr i ryddid,
 A RHYDDID a gofid i'w gwedd,
 A deigr yn dangos ei thrallod,
 A'i gwisgodd yn barod i'r bedd.

Bu farw 'n amddiffyn yr Undeb,
 A gwyneb agored, di gudd;
 Bu farw yn clyn caeth-ddeddfau,
 A drylliodd eu rhwymau yn rhydd;
 Bu farw yn rhyddid i'r caethion,
 A dyma ei goron deg wedd,
 Nis gall ei elynion ei chelu,
 Na'i rhoddi i bydru mewn bedd.

Naturiol i'r genedl brudd-gwyno
 O roi yn y gro enwog rudd,

Ei Llywydd galluog, ymroddgar,
 Yn oergell tyn garchar tan gudd ;
 Naturiol yw tybied fod yno
 Ryw angel i'w wyllo ar ael
 Y bedd lle mae'n gorwedd mewn gweryd—
 Mae bywyd o'r gweryd i'w gael.

Naturiol i'r caethion yw teimlo,
 Ac wylo wrth gofio y gwr
 Olyngodd yn rhydd eu cadwynau,
 A'n gruddiau yn ddafnau o ddw'r :
 Naturiol i'w dagrau yw gwlychu
 Y blodau sy'n tyfu lle taw
 Ei ddoniau yn mynwes y briddell,
 Lle na cheir un linell o'i law.

Priodol it', wlad, ydyw gwisgo
 Dy ddu i arwylo ar hyn,—
 Wrth ddarllen am weithred mor erchyll,
 Y byd sydd yn sefyll yn syn !
 Priodol iwch, longau yr eigion,
 Yw cario eich duon uwch dw'r,
 A throi eich hwylybreni yn dystion
 Fod genych barch-gofion i'r gwr.

Priodol i frenin alaru
 A rhodio mewn du gyda'i arch,—
 Heb gadw yn ol o wneyd unpeth,
 A dangos trwy bobpeth ei barch ;
 Priodol i'r ddaiar yw gwrido,
 A'r nefoedd, yw gwisgo dig ael,—
 A Satan ei hun—Cywilyddied,
 O herwydd llwfr weithred mor wael !

Tydi, O Dywysog! a gwypwyd
 : Ar gadarn uchelfa dy dir—
 Tydi, O Dywysog! a gwypwyd
 Ar ddwyfron dy genedl, yn wir!
 Pan gwympaist, y cwmpodd ei choron,
 'Trwy ing anweledig y saeth—
 Pan gwympaist, archollwyd ei dwyfron,
 A'th fywyd yn aberth a aeth!

Bydd dawl yn mynwes y beddrod,
 Dy glod drag'wyddola dy fedd;
 Bydd dawl—gorphenaist dy ddiwrnod,
 A'th archoll ddefiniodd y cledd;
 Mae heddwch trwy'r wlad yn teyrnasu,
 A'r Undeb yn gyfan bob darn,—
Caethiwed a RHYDDID sy'n gwenu—
 Dy glod a â heibio y farn.

BEDDROD LLETHR Y CWM:

AR OL JOHN M. THOMAS, HYDEVILLE.

YN agos i'r cauadfrig lwyn,
 Lle daw i swyn delori,
 Yr adar, pan f'eo meillion bryn
 A gwanwyn yn eu geni,
 Y gorphwys cleddyf miniog, llyn,
 A braich y milwr heb ei grym.

Mae bloedd yr udgorn hyf o'r gâd,
 Yn galw'r wlad i ryfel,

Ac ambell daran rwyga'r nen,
 O safn a phen y fagnel,
 A'r milwr dewr â'i glyw yn drwm,
 Yn huno draw ar lethr y cwm.

Ei gadrawd ymfyddina ger
 Yr aber ddw'r risialog,
 A'i gwaed a liwia rudd ei thôn,
 Tan eirf gelynnion llidiog,
 Ac yntau draw â'i glyw yn drwm,
 Yn mreichiau cwsg ar lethr y cwm.

Ei hoff gyfeillion gwympant tan
 Gylfafan tân llofruddiog,
 A'r march a lwnc eu gweddill sydd
 Yn colli'r dydd yn ofnog,
 Ac yntau draw yn cysgu 'n drwm,
 Yn mynwes *beddrod llethr y cwm.*

Ei hoff rieni 'n dysgwyl sydd
 Am glywed dydd y goncwest,
 A'i wel'd yn dychwel tua'r ty,
 I adrodd fel bu'r orchest,
 Ac yntau draw yn cysgu'n drwm,
 An mynwes *beddrod llethr y cwm.*

Wel, huna John, yn dawel mwy,
 O gyrhaedd clwy ac areholl;
 Mae'r blodau 'n tyfu ar dy fedd,
 A'th gwsg mewn hedd yn ddigoll:
 Ni raid it' ofni cledd na phlwm
 Yn mynwes *beddrod llethr y cwm.*

BEDD Y MILWR CYMREIG YN AMERICA.

DAN gysgod yr ywen eisteddwn,
 A'r lloer yn tywynu trwy'i brig;
 Amenyw yn wylo a welwn
 Ar laswellt yn meddrod y wig;
 Dynesais yn araf hyd ati,—
 Mor araf nas clywai fy nhroed;
 A'r adar i gyd wedi tewi,
 Yn dawel yn cysgu'n y coed.

Dywedai, "Anwylyd! i weled—
 O Walia i weled dy wedd
 Y daethum :—Ai dyma gaf weled?
 Dy fynwent, dy fynwent, a'th fedd!
 I'a fraich a gyfododd y gleddyf
 I daro anwylyd fy serch?
 Pwy! pwy! a gyfododd y gleddyf?
 Ai bachgen a fagwyd gan ferch?

O gleddyf! O gleddyf dialgar!
 Y rhwd a fwytao dy fin,—
 'Ti wnaethost f'anwylyd yu fyddar,
 A chloaist ei wefus oedd win:
 Ei fywyd oedd anwyl i'm henaid,
 Dywelltaist i'r ddaiar oer, ddu;
 Nid ydyw yn gwrando f'ochenaid,
 A mud yw ei gariad oedd gu.

Anwylyd! O! gwrando fy ngeiriau,
 Ar ol d'od dros donau y dw'r,

I'th wneuthur yn ol fy nymuniad,
 O Ioan! yn gariad a gwr;
 Ond yma yn dawel gorweddi,
 A'r glaswellt a wisgant dy wedd;—
 Na weler ond tyner wyrddlesni
 Yn aros ar dywyrch dy fedd."

Cyfododd yn araf, a chefnodd
 Ar feddrod gobeithion ei hedd,—
 Edrychodd yn ol, a dychwelodd
 I wylo ar fynwes ei fedd:
 Cyfododd flodenyn i fynu,
 A'i dagrau yn rhedeg yn brudd;
 A'r lleuad oedd arno yn gwenu,
 A lithau gusanodd ei rudd.

GAD LONYDD PR MARW.

GAD lonydd i'r marw, ti blentyn y fagddu,
 Pahan y canmoli un linell o'i waith?
 Y ei sydd a'i ddanedd mewn corff sydd yn pydru!
 Ac nid yw'r ganmoliaeth ond colyn mewn iaith;
 Mae'n canmol i'r dyben o ddweyd y gwendidan,
 A mud yw'r ganmoliaeth lle nad oes ffaeleddan,
 Mae'n agor ei fedd ef i godi y beian,
 Gloriauwyd gan Farnwr cyllawnder a rhaith!

Gad lonydd i'r marw—ffynonell ei fywyd
 A rwygwyd gan angau brawychus ei wedd;
 Ac yn yr ymdrechfa diangodd ei ysbryd,
 Pan brofodd ei fynwes awchlymder ei gledd;

O blith daiarolion mae'r corff wedi disgyn,
 A'i ben sydd yn isel yn mynwes y dyffryn ;
 Paham y gwneir dirmyg â'r clai diamddiffyn,
 Ac yr allonyddir ystafell y bedd ?

Gad lonydd i'r marw—"y byd heb ddychwelyd,"
 A dorwyd gan angau ar gareg ei fedd ;
 Ac nid oes cysylltiad a phothau y bywyd
 Wna un cyfnewidiad yn awr yn ei wedd ;
 Mae pawb yn y dyffryn â'u cwsg yn farwolaeth,
 A pherffaieth dawelwch drwy'r holl ymerodraeth,
 Heb fynwes yn colodd un brad na gelyniaeth ;
 Paham y dynoetha censiŷen ei chledd ?

Gad lonydd i'r marw—ei cnw gysegrwyd
 Ar deimlad perthynas a chyfaill ei ddydd ;
 Y geiriau dirmygus a fynych ddesfyddiwyd,
 Yn gwneyd y gannoliaeth yn wiber y sydd ;
 Gad lonydd i'r marw—mae'n llwybr yn y dyffryn
 Yn dwyn ein symudiad yn nes at y dibyn,
 Lle cwmpwyd gan angau y cawr fel y coryn,—
 Yn dweyd ein gwendidau, nis gwyddom pwy fydd.

◆ ◆ ◆

RHAIID MARW YN EFFRO.

RHAIID marw yn effro, i deimlo y traed
 Yn oeri yn rhydiau yr afon,
 A theimlo dyrswelch yn mheiriaut y gwaed,
 A nos yn tywyllu'r golygon ;

Rhaid teimlo llaw angau yn oer tan y fron,
 A'i rhwyman yn araf ymddatod,
 A theimlo y meddwl anfarwol sy'n hon
 Yn marw mewn gair ar y tafod.

Rhaid marw yn effro, i weled y byd
 Yn llithro yn araf o'n gafael,
 A thafu cip drem fel bu 'r oes ar ei hyd,
 Ac felly i'r byw yn ei gadael;
 Rhaid gwrando ochenaid rhyw gyfaill a'i rudd
 Yn rhedeg yn ffrwd fyw o ddagrau,
 A phlant holl a phriod yn sefyll yn brudd
 I'n gweled yn myned trwy angau.

Rhaid marw yn effro, i weled pob peth
 A deimlwn yn anwyl yn cilio,
 A theimlo ein bywyd yn myned ar feth,
 A ninau ac yntau 'n ffarwelio;
 Rhaid teimlo llaw angau yn dyfod o'r bedd
 I dynu ein dillad i gysgu,
 A theimlo nas gallwn ni deimlo fawr hedd
 Wrth fyned i gwsg heb anadlu.

Rhaid marw yn effro, i weled y byd
 Sydd eto i ni 'n anweledig,
 A hyny i ddechreu ei fyw ar ei hyd,
 Yr hwn sydd yn annherfynedig;
 Rhaid ini gael gweled y pethau sy'n awr
 Yn ail i freuddwydion neu dybiau,
 Ar ol i ni groesi terfynau y llawr,
 Yn troi yn anfarwol sylweddau.

D Y N.

'D oes dim yn marw ond y dull o fyw,
 Ac felly, angau, cyfnewidiad yw.
 Bum mi yn fabau eiddil a di nerth,
 Yn blentyn sugno yn chwanegu nerth,
 Yn fachgen pengrych, llawn chwârëus nwyf,
 Yn hoglauc medrus yn holl gampau 'r plwyf,
 Yn llauc yn teimlo tyniad dirgel serch
 At wenau teg a swynion gruddiau merch,
 Yn wr, a thad i blant siriolaf wedd,
 A buan iawn y byddaf yn y bedd
 Yn fywyd prysyn dirmygedig lun,
 Ac wedi marw 'n llwyr i'm dull fy hun!

Mar'r baban wedi marw yn ddiâu,
 A'r plentyn sugno, yntau—pa le mae?
 Y bachgen pengrych, llawn chwârëus nwyf,
 Yr hoglauc medrus yn holl gampau 'r plwyf,
 Y llauc yn teimlo diniweidrwydd swyn
 Gweniadau tyner gwynneb menyw fwyn,
 Sydd wedi marw,—minau 'n arall lun :—
 Ni theimlaf yn y prysf yr hyn a fum.
 A ydyw 'r glöyn byw yn nhônau 'r wybr
 Yn teimlo'r prysyn gynt a lusgai 'r llwybr?
 Ac felly sinau, os yw 'n gam fy rhawd
 Wrth lusgo yma yn y byd o gnawd,
 Mae cyfnewidiad pwysig ger fy mrou,
 Na theimlaf ddim o boenau 'r ddaiar hou.

Mae genyf fi Dad i'm ceryddu,
 A'i gariad dry 'n wenu 'n ei wg;

Ac nis gall ymddial fel gelyn,—
 Mae dial â'i wreiddyn mewn drwg:
 Yr olaf wyf fi o'i weithredoedd,
 A 'Thud fy ysbrydoedd, lëf yw,—
 Gwreiclionen yw'r enaid, mewn ystyr,
 A ddeilliodd o natur fy Nuw.

Daiarol, yn ddian, yw sylwedd
 Prydferthwch fy ngwedd a fy ngwaed;
 Pridd daiar yw'm dwylaw yn gweithio,
 A daiar yn rhodio yw 'nhraed;
 Ond ynwylf mae ysbryd yn gweled,
 Ac enaid yn clywed trwy'r clai,
 A hwnnw, na meithder diderfyn,
 Nad ydyw un llwchyn yn llai.

Mae'r meddwl â'i rychwant yn mesur
 Rhyw feithder difesur ei faint,
 A chren myrdd o fydoedd newyddion
 Tu draw i orseddion y saint:
 Mae'n byw mewn ty clai terfynedig,
 Ond annherfynedig iawn yw;
 Mae'n gweled tu draw i bob terfyn,—
 Yn wir, mae'n wan ddarlun o Dduw.

Gadawaf y clai ar funydyn
 I awyr ddiderfyn bro'r dail
 Sy'n tyfu'n ngwres haul trag'wyddoldeb,
 Yn mhurdeb ei wyneb di ail:
 Ac yno, o flod'yn i flod'yn,
 Y chwery clauer edyn fy oes,
 Mewn bywyd nad oes ynddo ruddfan,
 Trwy angau a gruddfan y Groes.

MAE POBPETH YN SYMUD.

Mae pobpeth yn symud—i b'le meddweh ehwi ?

Mae'r ddaiar yn symud fel deilen ar li' ;

Mae'r dyfroedd yn symud y cerig o'u lle,—

A ninau yn symud—yn symud i b'le ?

O ! yn symud i b'le ?

Yn symud i b'le?—

A ninau yn symud—yn symud i b'le ?

Mae'r coedlydd yn symud o'n gwraidd fel y dail,

A'r gelltydd yn symud, yn symud o'n sail ;

Mae'r creigiau cadarnaf yn symud o'n lle,

A ninau yn symud—yn symud i b'le ?

O ! yn symud i b'le ?

Yn symud i b'le?—

A ninau yn symud—yn symud i b'le ?

Mae'r cwmwl yn symud ar aden y gwynt,—

Pan chwyddo yr awel, mae'n symud yn gynt :

Mae pobpeth yn symud ar aswy a dde,

A ninau yn symud—yn symud i b'le ?

O ! yn symud i b'le ?

Yn symud i b'le ?

A ninau yn symud—yn symud i b'le ?

Mae'r huan i'w weled yn symud uwchben,

A'r nefoedd yn symud, yn symud fel llen ;

Mae pobpeth yn symud trwy'r ddaiar a'r ne',

A ninau yn symud—yn symud i b'le ?

O ! yn symud i b'le ?

Yn symud i b'le ?

A ninau yn symud—yn symud i b'le ?

EIN DAFYDD.

Achorondd ei lygaid i wenu,
 A chiliodd cyn siarad ei iaith;
 Ni chwasm ond prin ei gusanu,
 Cyn iddo gymeryd ei daith!
 Tarawsom ar daith i'r byd arall,
 Wrth ddyfod o'r llall, yr un llwybr;
 Rhoes law yn ein llaw, ac och'neidiodd,
 Ac yna, draw'r 'hedodd drwy'r wybr.

Ehedodd o fyd y gofidiau,
 I fyd y caniadau cyn oes,
 O drallod, na phechod, na chwynfan,
 Na gruddfan o herwydd ei groes:
 Fe brofodd ddyferyn o'i gwpan,
 Ac yna aeth allan i'r lle
 Y gwelir myrddiynau clærwynion
 O blant yn angylion y ne'.

YR UN.

Fy nghyfaill, Ionoron Glan Dwyrdd,
 Diân fod dy dristyd yn drwm,
 A'r archoll yn ddwys ar y teimlad,—
 Mae'n an'awdd iawn syniad y swm;
 Bum yn yr un profiad fy human,
 Waith colli tri baban o'r byd;
 Mae'r teimlad yn fyw, a'r ystyriaeth
 Yn para mewn hiraeth o hyd:
 Ystyriwn yn wneb ein trallod,
 Diamau ei ddyfod o Dduw;

A fyno y geilw am dano ;
Ac hesyd, a fyno gaiff fyw.


Mae'n ddir fod y ddyrnod yn agos,—
Yn agos, yn agos, yn wir !
'Trwy hyn ein rhybuddir yn ddiau,
Mai felly'r awn ninau cyn hir :
Ein gadael ni, hen bechaduriaid,
A dwyn y diniwaid a wnaeth :
Ymdrechwn wneyd defnydd o'r rhybudd
Oyn myned dan gerydd yn gaeth :
Maent hwy yn y wlad fendigedig,
A ninau mewn perygl bob awr ;
Ymdrechwn yn lew a diragrith,
I 'mgyraedd am fendith mor fawr.

Mae'n gysur annhraethol i'r meddwl,
Er bod o dan gwmwl lled gaeth,
Mai dianc o fyd y trallodion
I blith y nefolion a wnaeth ;
Ni welir ef byth yn annuwiol,
I'ch gwneyd yn anfoddol wrth fyw ;
'R un trosedd erioed ni chyflawnodd,—
Ni phechodd,—ni ddigiodd ei Dduw :
Aeth adref yn wir dau ei goron,
A'i ddillad yn wynion ddi wall ;
A'i gwmini yw saint æ angylion,—
Gall herio holl feibion y fall.

Ymdrechweh foddloni i'ch *treialon*,
Chwychwi a'ch gwraig dirion, eich dau,
Gan gosio fod dinas drag'wyddol
I'r duwiol yn ol i'w mwynhau :

Cewch weled eich babau anwylgu,
 Ond iehwi anelu y nôd,
 O ganol y Wynfa ysblenydd,
 I'ch cwrdd ar aelnydd yn d'od :
 Diâu, os yn barod y byddwch—
 Ystyriwch ! ni fyddwch yn faith,
 Cyn rhodio heolydd paradwys,
 Ac yntau 'n eich tywys i'ch taith.

BARDD CALLESTR.



F Y M A M.



I'f anwyl Fam chedodd fry—
 Nid oes yn llwch y bedd
 Ond gwaeldeb ei daiarol dy—
 Mae 'i henaid yn y wledd ;
 Nis gwelaf mwy yn myd y llawr,
 Ei gwynneb hoff a chun ;
 Craidd-dyniad y bytholfyd mawr
 A'i sugnodd iddo 'i hun.



MERCH FACH RICHARD A GWEN HUGHES.



MAE 'n wynach na lili yr haf,—
 Mor dawel ac esmwyth mae'n huno !
 Nis gall fod ei mynwes yn glaf,
 Na'i meddwl yn dyrys freuddwydio :
 Mor siriol yw 'r gwrid ar eu grudd !—
 A ydyw ei gwefus yn welw ?
 Mae pawb yn y teulu yn brudd !
 Ow, ydynt !—mae 'r fach wedi marw !

Mae'n edrych yn dirion ei gwedd,
 Er nad yw ond pabell ddifwyd;
 I'w trwsid corll' angel i'r bedd,
 Ni byddai ei hûn yn fwy hyfryd;
 Ond buan y derfydd y wawr
 Sydd yma'n ei grudd yn ymddangos;
 Nid ydyw ond cysgod yu awr
 O'r bywyd sy'n rhywle'n ei haros.

Nis gall fod y meddwl a fu
 Mewn pabell mor brydferth yn trigo,
 Yn llwyr wedi diffodd;—mor gu
 Oedl geiriau y fach yn ei wisgo!
 Mae adsain ei geiriau ar glyw
 Ei hanwyl rieni yn aros;—
 Mae ysbryd ei geiriau yn fyw,
 Er nad ydyw yma'n ymddangos.

Dychwelodd yr ysbryd o'i fodd
 I fynwes yr Haul o'r lle tarddodd;
 Duw, Tad yr ysbrydoedd a'i rhodd,
 A Hwnw yn ol a'i cymerodd:
 Daw eto i'w deffro o'i hûn,
 I ddechreu ail fywyd o'r newydd;
 Mor brydferth pryd hyn fydd ei llun
 Yn codi i fywyd na dderfydd.

—————
 PRIOD E. MORRIS.
 —————

MAE'r haul yn ymddangos y borau mewn loen,
 A'r diwrnod yn marw, se allai'n ddi boen;
 Ond teimlad gofidus i dad tyner wedd
 Yw gweled ei briod yn myned i'r bedd.

Mae'r gwanwyn yn geni o briddell y llawr
Sirioldeb y meillion a'r blodau teg wawr ;
O auaf marwolaeth nid oes dan y rhod
Un gwanwyn yn geni hoff briod yn bod.

Mae gweled y rhosyn yn gwywo dan rudd
Y gwlythyn tryloew, yn olwg lled brudd ;
Ond pruddach yw gweled y deigryn yn fyw
Ar rudd sydd yn marw, gan briod hoff ryw.

Mae'r lili yn gwywo i dyfu drachefn—
Ni ddychwel eich priod ar ol troi ei chefn ;
Ei lle yn drag'wyddol sy'n wag yn eich ty—
Ei lle yn drag'wyddol ni ddaw yn wag fry.

EDMUND PRYS,

PLENTYN MORGAN A SARAH PRICE.

Tyr'd yma, tyr'd yma, fy mam lawn o rin,
A dyro dy wefus i gyffwrdd fy min ;
Mae rhywbeth yn gwasgu fy anadl yn dyn—
Ai llaw anweledig marwolaeth yw hyn ?

Tyr'd yma, tyr'd yma, fy mam lawn o rin,
A dyro dy wefus i gyffwrdd fy min ;
Pahan yr edrychi yn welw a phrudd,
A'r deigryn byw, gloew, yn gwlychu dy rudd ?

Tyr'd yma, tyr'd yma, fy mam lawn o rin,
A dyro dy wefus i gyffwrdd fy min ;
Fy mhen sy'n ddolurus gan syched fy nghlwyf—
Fy mam, beth sydd arnaf?—ai marw yr wyf?

Tyr'd yma, tyr'd yma, fy mam lawn o rîn,
 A dyro dy wefus i gyffwrdd fy mîn ;
 A raid i mi golli sirioldeb dy wedd,
 A myned i gysgu heb ganwyll i'r bedd ?

'Tyr'd yma, tyr'd yma, fy mam lawn o rîn,
 A dyro dy wefus i gyffwrdd fy mîn ;
 A raid i mi adael fy mrawd a fy nhad—
 Fy anwyl chwirydd, a myn'd i bell wlad ?

'Tyr'd yma, tyr'd yma, fy mam lawn o rîn,
 A dyro dy wefus i gyffwrdd fy mîn ;
 Na wylwch wrth inui â chwi ganu 'n iach—
 Dywed'soch fod Iesu yn derbyn plant bach.

FY CHWAER:

CHWAER MRS. HUMPHREYS.

Fy chwaer a adawodd y ddaiar
 Yn gynar i ardal y gân ;
 Gadawodd ei gwae a'i gofidiau,—
 Ei chwynion a'i loesion yn lân ;
 Ehedodd o'r byd a'i holl drallod,
 I ddiwrnod di bechod, di boen,
 Ar fryniau bythwyrddion Caersalem,
 Sy'n adsain yr anthem i'r Oen.

Fy chwaer a adawodd y ddaiar
 Yn gynar i ardal y gân,
 Tu hwnt i farwolacth a phechod,
 A digder y Duwdod ar dân ;

Ar heidd a boddlonrwydd yr aberth,
 A haeddiant ei bridwerth ar bren,
 Cuiiff fyw uwchlaw ing yn oes oesoedd,
 A gwel'd oes y bydoedd ar ben.

YN TAWEL HUNO MAE:

MRS. EVANS.

YN mynwes oer y ddaiar,
 Islaw 'r dywarchen werdd,—
 Lle nad oes llefau galar,
 Na lleisiau merched ceudd,
 Wrth ystlys ei dau blentyn,
 Adawsant fyd o wae,
 O gyrhaedd saeth a gelyn,
 Yn tawel huno mae.

Lle tyf y teg flodionos
 I lochi gwllith y nen,—
 Lle cwyna chwäon hinos
 Alarnad uwch ei phen,
 Wrth ystlys ei dau blentyn,
 Adawsant fyd o wae,
 O gyrhaedd saeth a gelyn,
 Yn tawel huno mae.

Lle clywir mwyn delori
 Cantorion glân y gwydd—
 Lle gwelir blodau 'r lili
 Yn gwenu ar y dydd,

Wrth ystlys ei dau blentyn,
 Adawsant fyd o wae,
 O gyrhaedd saeth a gelyn,
 Yn tawel humo mac.

Lle câr y gwenyn flodau
 Tywarchen las y gro,
 Sy 'n cuddio cenedlaethau,
 Yn dô yn dilyn tô,
 Wrth ystlys ei dau blentyn,
 Adawsant fyd o wae,
 O gyrhaedd saeth a gelyn,
 Yn tawel humo mac.

Lle dystaw i orphwyso
 Yn niwedd diwrnod oes—
 Lle na ddaw dim i'w blino
 O herwydd cario 'r groes,
 Wrth ystlys ei dau blentyn,
 Adawsant fyd o wae,
 O gyrhaedd saeth a gelyn,
 Yn tawel humo mac.

Hyd forau 'r farn ddiweddal,
 O lwch y byddar lawr,
 Pan gwyd yn lân, ddianaf,
 I'r trag'wyddoldeb mawr,
 Wrth ystlys ei dau blentyn,
 Adawsant fyd o wae,
 O gyrhaedd saeth a gelyn,
 Yn tawel humo mac.

NA WYLLWCH:

PLENTYN JOHN W. HUMPHREYS.

NA wylwch, na wylwch,—ni wnacthoch im' gam—
 'D oes neb yn y nefoedd yn wylo, fy mam :
 Mae'r loes yn llonyddu—darfyddodd fy mhoen—
 'R wy'n myned yn nghwmni angylion yr Oen.

Na wylwch, na wylwch,—fy nillad, fy nhad,
 A dynir gan angau i wisgo rhai'r wlad ;
 Ei law sydd yn oerach, mae'n wir. na fy mam,—
 Mae Iesu yn edrych—ni chaf ganddo gam.

Na wylwch, na wylwch,—mae Iesu yn dŵr
 Am imi eich gadael, fy mrodyr a'm chwaer ;
 Mae'n boenus wrth gychwyn, a'r daith yn un bell ;
 Ond eto na wylwch,—'rwy'n myn'd i le gwell.

Na wylwch, na wylwch,—rhaid myn'd gyda'r côr,—
 Mae'r cerbyd yn barod—agorwch y ddôr :
 Ffarwel i ofidiau afiechyd y llawr,—
 'Rwy'n myned, 'rwy'n myned, 'rwy'n myned yn awr.

MARWOLAETH

MRS. CADWALADR, MRS. OWEN, A MRS. CLOSS.

MAE'r tair yn cyd-luno yn nghafell y bedd,
 I le genir mwyn wanwyn i fritho
 En gwely â blodau amryliw eu gwedd,
 A welir yn fynych yn wylo ;

A'r gwynt a fydd dyner wrth degweh eu grudd
 Pan fydd yn fyw flynon o ddagrau—
 Mae'r anwar elfenau yn edrych yn brudd
 Wrth sangu dystawrwydd y beddau.

Mae yma wylofain gan briod a phlant,
 Ar ol eu hoff gwmi mewn bywyd—
 Maent hwythau yn fyddar i dafod a thant,
 Yn huno yn dawel mewn gveryd;
 Nid oes yr un breuddwyd gwasgarog ei lun
 Yn gallu cythryblu eu meddwl—
 Marwolaeth ddiysgog mud nos yw eu hûn,
 Heb haul byth yn saethu trwy'r cwmwl.

Ond eto, mae rhywbeth yn swynol mewn hûn,
 Os rhaid in' ei alw'n farwolaeth,—
 Ac os ydyw angau yn newid ein llun,
 Gan atal olwynion naturiaeth;
 F'e allai fod angel yn edrych yn syn
 Ar wefus yn fud ac yn welw,—
 Gan ddweyd wrtho'i hunan, "Peth rhyfedd yw hyn!
 Dymunwn gael byw wedi marw."

Mae'r tair yn cyd-orplwys yn dawel mewn bedd,
 A dim yn y hyd yn eu blino;
 Ac nis gall un gelyn byth darfu eu hedd,
 Na rhuad y daran eu deffro;
 Mae golwg bruddglwyfus i'w gael ar eu llun—
 Y wefus a'r ddwyrudd yn welw,
 A phersfaith dawelweh yn gwarchod eu hûn,
 Ond eto, cânt fyw wedi marw.

PETHAU BENTHYG:

MERCH FACH JOHN A JANE HUGHES.

RHAI yn byw ar bethau benthyg
 Ydyw pawb o deulu dyn,
 Er fod mwy o bethau benthyg
 O dan ofal ambell un ;
 Benthyg oedd ei thegwch hithau
 I'w rhieni tyner fron ;
 Gwelir teimlad yn eu dagrau
 Wrth ddychwelyd benthyg hon.

O bob benthyg ini roddir,
 Plant yw'r benthyg uwchaf bris,—
 Er fe allai, weithiau, telir,
 Sylw mwy i bethau is ;
 Ond nid felly y bu gofal
 Y rhieni tyner hyn,
 Er nad allent trwy eu gofal
 Estyn einioes yn y glyn.

Er mor siriol oedd ei gruddiau,
 Er mor brydferth oedd ei gwedd,
 Er mor anhawdd i deimladau !
 Edrych arni yn y bedd,
 Aeth ei henaid i'r fro ddedwydd,
 Trwy rinweddau'r Aberth drud :
 Ceisiwn ninau ran na dderfydd—
 Benthyg ydyw pethau'r byd.

GWELLIANT' GWALLAU.

TU DAL.	GWALL.	GWELLIANT.
25	Yn lle, fflolau 'r ddial, darllener,	ffolau 'i ddial.
33	" hyll yn,	hyll yw.
33	" y las,	glas.
50	" gadwrf.	godwrf.
58	" thawcdd,	thawodd.
63	" yn ben,	yn ei ben.
88	" seiniau,	seiniai.
97	" manem,	manau.
107	" glaslwyn,	glasfor glwysfwyn.
119	" ochrau,	odrau.
132	" canolbwynt	cynolbwynt.
133	" gopa 'r,	gopa 'n.
134	" yn ei,	yw ei
145	" yn lluchio,	yw lluchio.
147	" yn nghanol,	y'ngwawl.
149	" gysgodion,	gysodion.
153	" waelwr,	wadwr.
153	" angau	yr angau.
158	" bu 'r meinciau,	bri 'r meinciau.
161	" Iôr,	Iôn.
163	" i ni,	ini.
171	" swrnerydd,	swrnerydd.
171	" rhyfel,	rhyfela.
181	" null,	nall.
189	" ddaiar,	ddacar.
189	" gwyllt yn	gwyllt yw.
192	" fael,	fad.
196	" pridd,	praidd.
219	" faglau,	faglan.
228	" oeriau,	oriau.
224	" feru,	ferw.
260	" Yr,	Un.
278	" fawreddog,	frawddeg.
278	" hwn,	hôn.

2602-16

**This book is a preservation photocopy
produced on Weyerhaeuser acid free
Cougar Opaque 50# book weight paper,
which meets the requirements of
ANSI/NISO Z39.48-1992 (permanence of paper)**

**Preservation photocopying and binding
by
Acme Bookbinding
Charlestown, Massachusetts
□
1994**



3 2044 022 668 347

THE BORROWER WILL BE CHARGED AN OVERDUE FEE IF THIS BOOK IS NOT RETURNED TO THE LIBRARY ON OR BEFORE THE LAST DATE STAMPED BELOW. NON-RECEIPT OF OVERDUE NOTICES DOES NOT EXEMPT THE BORROWER FROM OVERDUE FEES.

**Harvard College Widener Library
Cambridge, MA 02138 (617) 495-2413**

<p>WIDENER FEB 10 1996 SEP 7 6 1995 BOOK DUE</p>	<p>WIDENER SEP 02 0 2003 SEP 02 0 8 NMT CANCELED</p>
<p>WIDENER AUG 31 1998 BOOK DUE WIDENER</p>	<p>SEP 01 0 2003 CANCELED</p>
<p>JUN 8 0 2001 JUN 10 2001 CANCELED</p>	



